# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 1 Mai 2012
Tuesday, 1 May 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

34 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

42 Datganiad: Twf Swyddi Cymru
Statement: Jobs Growth Wales

56 Datganiad: Yr Adolygiad o Ddeddfwriaeth ar Ddigartrefedd
Statement: The Homelessness Legislation Review

72 Cynnig Cydsyniad ar Orchymyn y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus (Dileu) 2012
Consent Motion on the Advisory Committee on Hazardous Substances (Abolition) Order 2012

74 Strategaeth Fwyd Llywodraeth Cymru—y Ffordd Ymlaen
The Welsh Government's Food Strategy—the Way Forward

101 Ymchwil ac Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Research and Innovation in Health and Social Care

122 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Gwella Bywydau Pobl Sir Drefaldwyn

### Improving the Lives of the People of Montgomeryshire

***1. Russell George:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella bywydau pobl Sir Drefaldwyn. OAQ(4)0477(FM)*

***1. Russell George:** Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is improving the lives of the people of Montgomeryshire. OAQ(4)0477(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We are improving the lives of the people of Montgomeryshire, as well as all parts of Wales, by delivering on our programme for government.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym yn gwella bywydau pobl sir Drefaldwyn, yn ogystal â phobl o bob rhan o Gymru, drwy gyflawni ein rhaglen lywodraethu.

**Russell George:** An abnormal load, carrying replacement turbine blades, came across the border at Oswestry this morning on its way to an existing windfarm. What concerns me greatly is that Traffic Wales was completely unaware that this load would be proceeding across mid Wales until people contacted it. The load caused disruption, particularly during rush-hour periods, as it went past Welshpool and through Newtown. Are you as concerned as I am, First Minister, at the poor communication relating to Traffic Wales, and are you also concerned whether mid Wales's infrastructure is capable of withstanding what could potentially be 4,000 of these abnormal loads over a period of seven years?

**Russell George:** Daeth llwyth anarferol, a oedd yn cario llafnau tyrbinau newydd, dros y ffin yng Nghroesoswallt y bore yma ar ei ffordd i fferm wynt sy'n bod yn barod. Yr hyn sy'n peri pryder mawr i mi yw'r faith nad oedd Traffig Cymru yn ymwybodol o gwbl y byddai'r llwyth hwn yn teithio ar hyd canolbarth Cymru hyd nes i bobl gysylltu ag ef. Achosodd y llwyth hwn drafferthion, yn enwedig yn ystod yr oriau brig, wrth iddo deithio heibio i'r Trallwng a thrwy'r Drenewydd. A ydych mor bryderus â mi, Brif Weinidog, ynghylch y cyfathrebu gwael sy'n ymwneud â Traffig Cymru, ac a ydych hefyd yn pryderu a all seilwaith y canolbarth wrthsefyll y posibilrwydd y gallai gael 4,000 o'r llwythi anarferol hyn dros gyfnod o saith mlynedd?

**The First Minister:** Clearly, it is important that we are aware of the passage of an abnormal vehicle along a trunk road. I will investigate the matter and write to the Member with further information.

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae'n bwysig inni fod yn ymwybodol bod cerbyd anarferol yn teithio ar hyd cefnffordd. Ymchwiliaf i'r mater ac ysgrifennaf at yr Aelod i roi gwybodaeth bellach iddo.

**Rebecca Evans:** I recently spent an excellent morning litter picking and installing bird boxes with a group of volunteers who are absolutely committed to improving their local area through Keep Wales Tidy's Tidy Towns project. Will you join me in paying tribute to

**Rebecca Evans:** Yn ddiweddar, treuliais fore ardderchog yn hel sbwriel ac yn gosod blychau adar gyda grŵp o wirfoddolwyr sydd wedi ymrwymo'n llwyr i wella eu hardal leol drwy brosiect Trefi Taclus Cadwch Cymru'n Daclus. A ymunwch â mi i dalu teyrnged i

the work of these volunteers and to others who give so freely of their time and who work tirelessly to ensure that we all have communities of which we can be proud?

waith y gwirfoddolwyr hyn ac i'r bobl eraill sy'n rhoi mor hael o'u hamser ac sy'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod gan bob un ohonom gymunedau y gallwn ymfalchïo ynddynt?

**The First Minister:** Indeed. We know that volunteers contribute so much to life in Wales and that is why we have had schemes such as GwirVol, which we have supported over the years. I fully applaud the work that is being carried out in Newtown.

**Y Prif Weinidog:** Yn wir. Rydym yn gwybod bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu cymaint at fywyd yng Nghymru a dyna pam mae gennym gynlluniau fel GwirVol yr ydym wedi eu cefnogi dros y blynyddoedd. Rwy'n llwyr gymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y Drenewydd.

**Simon Thomas:** Bydd y ffaith bod Dairy Crest wedi gallu lleihau'r pris y mae'n ei dalu i ffermwyr am eu llaeth o 2c y litr dros nos tra bod y ffermwyr eu hunain yn gaeth i'r cytundebau am gyfnod hir yn cael effaith andwyol ar y diwydiant llaeth ym Maldwyn a thu hwnt. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau bod y farchnad laeth yn deg i ffermwyr ym Maldwyn ac yng ngweddill Cymru?

**Simon Thomas:** The fact that Dairy Crest could reduce the price it pays to farmers for their milk by 2p a litre overnight, while the farmers themselves are tied to the contracts for long periods of time, will have a detrimental effect on the dairy industry in Montgomeryshire and beyond. What steps are you taking as a Government to ensure that the dairy market is fair to farmers in Montgomeryshire and the rest of Wales?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw hyn yn rhywbeth y bydd ffermwyr yn ei groesawu, a deallaf hynny wrth gwrs. Mae cwmnïau eraill y gallant siarad â nhw. Mae'n anodd gwybod beth yn union yw natur eu cytundebau gan fod y pris wedi cael ei newid heb eu cytundeb. Mi godaf y mater gydag Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, er mwyn iddo asesu beth allwn ni fel Llywodraeth ei wneud i helpu ffermwyr yn y sefyllfa hon.

**The First Minister:** This is not something that farmers are going to welcome, and I understand that. Of course, there are other companies to which they can speak. It is difficult to know the exact nature of their contracts as the price was changed without their agreement. I will raise the matter with Alun Davies, the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, so that he may assess what we as a Government can do to assist farmers in this situation.

### Diogelwch Cymunedol

### Community Safety

***2. Vaughan Gething:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi diogelwch cymunedol yng Nghymru. OAQ(4)0485(FM)*

***2. Vaughan Gething:*** *What action is the Welsh Government taking to support community safety in Wales. OAQ(4)0485(FM)*

**The First Minister:** We work closely with the community safety partnerships in Wales to ensure a joined up approach to crime, anti-social behaviour, substance misuse and youth offending.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio'n agos â'r partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â throseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a throseddau ieuenctid.

**Vaughan Gething:** Thank you for that answer, First Minister. I have recently been talking to a number of police officers, both as

**Vaughan Gething:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn siarad â nifer o swyddogion yr

constituents and in my day job as well. They speak to me about the reality of the UK Government's 20% cut in police funding. In fact, the Police Federation of England and Wales says that,

heddlu, fel etholwyr ac yn fy swydd bob dydd hefyd. Maent yn siarad â mi am realiti toriad Llywodraeth y DU o 20% yng nghyllid yr heddlu. Yn wir, dywed Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr,

'We currently have a very demoralised police service; despite being absolutely committed to providing the best service that we can, we are struggling to cope as the cuts go deeper and deeper.'

Mae gennym ar hyn o bryd wasanaeth heddlu digalon iawn; er ein bod wedi llwyr ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallwn ei roi, rydym yn ei chael yn anodd ymdopi wrth i'r toriadau fynd yn ddyfnach ac yn ddyfnach.

Hundreds of police officers will take part in a national march on 10 May, which is an unprecedented step. Against that backdrop, First Minister, they are keen to hear that this Government is keeping its promises. Can you confirm what progress this Government has made on keeping our pledge to fund 500 extra police community support officers, and when we will have fully delivered on that pledge?

Bydd cannoedd o swyddogion yr heddlu yn cymryd rhan mewn gorymdaith genedlaethol ar 10 Mai, ac ni chafwyd cam o'r fath erioed o'r blaen. Yn erbyn y cefndir hwnnw, Brif Weinidog, maent yn awyddus i glywed bod y Llywodraeth hon yn cadw ei haddewidion. A allwch gadarnhau pa gynnydd y mae'r Llywodraeth hon wedi'i wneud o ran cadw ein haddewid i ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol, a phryd y byddwn wedi llwyddo i gyflawni'r addewid hwnnw?

**The First Minister:** By 1 April of this year, 165 officers, or 30% of the planned total, were already deployed, and that is within one year of the Government's life. The pledge is to deliver on the 500 over the course of this term.

**Y Prif Weinidog:** Erbyn 1 Ebrill eleni, crëwyd 165 o swyddogion newydd, neu 30% o'r cyfanswm arfaethedig, ac mae hynny o fewn blwyddyn wedi i'r Llywodraeth hon ddechrau. Yr addewid yw sicrhau'r 500 yn ystod y tymor hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** O ran diogelwch cymunedol, Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn eithriadol o bwysig. Rwyf newydd gwrdd â phentrefwyr Pencarreg sydd wedi cael ar ddeall yn gymharol ddiweddar y byddant yn colli'r gwasanaeth bws rhwng Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder. Mae'r darn hwnnw o heol, fel y gwyddoch, yn arbennig o beryglus. A wnewch chi gysylltu â chwmni Arriva i geisio canfod pam ei fod wedi atal, heb rybudd, y gwasanaeth hwn, a phwyso arno i adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl?

**Rhodri Glyn Thomas:** In terms of community safety, First Minister, I am sure that you would agree that public transport services are extremely important. I have just met villagers from Pencarreg who have been given to understand relatively recently that they are to lose the bus service between Lampeter and Llanybydder. That section of road, as you well know, is particularly dangerous. Will you contact Arriva in order to discover why it has deferred this service without notice and put pressure on the company to reinstate the service as soon as possible?

**Y Prif Weinidog:** Gallaf godi'r pwynt gyda Carl Sargeant, y Gweinidog, a byddaf yn ysgrifennu atoch gydag ateb.

**The First Minister:** I will raise the issue with Carl Sargeant, the Minister, and I will write to you with my reply.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Why did the co-chair of your Science Advisory Council for Wales resign from the TB eradication programme board?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Pam y gwnaeth cyd-gadeirydd Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru ymddiswyddo o fwrdd y rhaglen dileu TB?

**The First Minister:** That is a matter for Professor Pollock. He has contributed greatly to farming and rural sciences in Wales over the years and we thank him for his work.

**Y Prif Weinidog:** Mater i'r Athro Pollock yw hynny. Mae wedi cyfrannu'n helaeth at ffermio a'r gwyddorau gwledig yng Nghymru dros y blynyddoedd, a diolchwn iddo am ei waith.

**Andrew R.T. Davies:** You know full well that he has stated that his reason for resigning was that he was,

'disappointed the minister seemed to be adopting a strategy that was not justified by the scientific evidence.'

That is what is stated on his resignation letter. Given that you as First Minister, in response to questions in this Chamber, and your programme for government have highlighted that the Government's course of action would be science-led, do you not consider that the professor's reason for resigning casts doubt on the decision that your Government has taken to deal with bovine TB in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Rydych yn gwybod yn iawn ei fod wedi datgan mai ei reswm dros ymddiswyddo oedd ei fod

yn siomedig bod y Gweinidog fel petai'n mabwysiadu strategaeth nad oedd yn cael ei chyfiawnhau gan y dystiolaeth wyddonol.

Dyna a ddywedir yn ei lythyr ymddiswyddo. Gan eich bod fel Prif Weinidog, mewn ymateb i gwestiynau yn y Siambr hon, a'ch rhaglen lywodraethu wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai dull y Llywodraeth o weithredu'n cael ei seilio ar wyddoniaeth, oni chytunwch fod rheswm yr athro dros ymddiswyddo yn bwrw amheuaeth ar y penderfyniad y bu i'ch Llywodraeth ei gymryd i ymdrin â TB gwartheg yng Nghymru?

**The First Minister:** We have taken a science-led approach. However, we must consider the state of the current law, which provides a certain level of protection to badgers. All of these things have been considered, but I must reiterate that the intention is to eradicate bovine TB in the long term and that is precisely what we shall be doing.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi gweithredu ar sail gwyddoniaeth. Fodd bynnag, rhaid inni ystyried cyflwr y gyfraith bresennol, sy'n darparu lefel benodol o amddiffyniad i foch daear. Mae'r holl bethau hyn wedi cael eu hystyried, ond rhaid imi ailadrodd mai'r bwriad yw dileu TB gwartheg yn y tymor hir a dyna'n union y byddwn yn ei wneud.

**Andrew R.T. Davies:** The eminent Professor Pollock has indicated that the decision taken by your Government was not based on the science, but on political considerations. That is entirely fair, because, ultimately, you are a Government and you can make those decisions. However, it is misleading for the communities that have been blighted by this for many years and the public purse, given that the actions that your Government will

**Andrew R.T. Davies:** Mae'r Athro Pollock, sy'n athro blaenllaw, wedi dweud nad oedd y penderfyniad a wnaed gan eich Llywodraeth yn seiliedig ar y wyddoniaeth, ond ar ystyriaethau gwleidyddol. Mae hynny'n gwbl deg, oherwydd, yn y pen draw, chi yw'r Llywodraeth a gallwch wneud y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, mae'n gamarweiniol i'r cymunedau hynny sydd wedi'u melltithio gan hyn ers sawl blwyddyn

undertake will impose a significant extra burden on the public purse, estimated to be £3.6 million, by pursuing an unscientific approach to the eradication of bovine TB. Is it therefore safe to consider, from the decisions taken by your Government, that you have taken a political decision not a science-led decision?

a hefyd i bwrs y wlad, o ystyried y bydd y camau y bydd eich Llywodraeth yn eu gweithredu yn gosod baich ychwanegol sylweddol ar bwrs y wlad, £3.6 miliwn yn ôl yr amcangyfrif drwy ddilyn trywydd dull anwyddonol o ddileu TB gwartheg. A yw felly'n gywir ystyried, ar sail y penderfyniadau a gymerwyd gan eich Llywodraeth, eich bod wedi cymryd penderfyniad gwleidyddol ac nid penderfyniad ar sail gwyddoniaeth?

**The First Minister:** No, not in the slightest. I am not sure that Professor Pollock did say that in terms of the—[*Interruption.*] You can put it to me; what you said was that Professor Pollock had said it: he either did or he did not. Professor Pollock is a respected figure and continues to be so. The only considerations that we took into account as Ministers were the science and the law. That is it. Politics did not come into it.

**Y Prif Weinidog:** Nac ydy; dim o gwbl. Nid wyf yn siŵr i'r Athro Pollock ddweud hynny yn nhermau—[*Torri ar draws*.] Gallwch ddweud hynny wrthyf; yr hyn a ddywedoch oedd bod yr Athro Pollock wedi dweud hynny: naill ai fe wnaeth neu ni wnaeth. Mae'r Athro Pollock yn ffigwr uchel ei barch ac yn parhau'n uchel ei barch. Yr unig ystyriaethau y bu inni eu hystyried fel Gweinidogion oedd y wyddoniaeth a'r gyfraith. Dyna'r cyfan. Nid oedd gwleidyddiaeth yn rhan o'n hystyriaeth.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** A report published today by the Stroke Association states that,

'Around 11,000 people in Wales have a stroke each year, yet Wales remains the only part of the UK without a dedicated, comprehensive stroke strategy.'

Why is that the case?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mae adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan y Gymdeithas Strôc yn datgan bod

tua 11,000 o bobl yng Nghymru yn cael strôc bob blwyddyn, ond Cymru yw'r unig ran o'r DU nad oes ganddi eto strategaeth strôc bwrpasol a chynhwysfawr.

Pam felly?

**The First Minister:** We are developing a national stroke delivery plan for 2011-12 to 2015-16. The plan will set out plans to tackle stroke and will guide and direct action by the NHS to achieve this aim.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn datblygu cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer strôc am y blynyddoedd 2011-12 i 2015-16. Yn y cynllun bydd cynlluniau i fynd i'r afael â strôc a bydd yn arwain ac yn cyfeirio gweithredu gan y GIG i gyflawni'r nod hwnnw.

**Kirsty Williams:** You say that you are now making progress, but it is two years since the Health, Wellbeing and Local Government Committee published its report into stroke services in Wales. Its first recommendation was that the Minister should develop a comprehensive stroke strategy. Why has it taken you so long to implement such an important health initiative?

**Kirsty Williams:** Dywedwch eich bod bellach yn gwneud cynnydd, ond mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol gyhoeddi ei adroddiad ar wasanaethau strôc yng Nghymru. Ei argymhelliad cyntaf oedd y dylai'r Gweinidog ddatblygu strategaeth strôc gynhwysfawr. Pam mae wedi cymryd cymaint o amser ichi weithredu menter iechyd mor bwysig?

**The First Minister:** We must bear in mind that 1000 Lives Plus has recently launched a Wales-wide project called Life After Stroke, which aims to improve the support available for stroke survivors when they return home from hospital. This is an important issue and we expect health boards and social care providers to work closely together to meet the needs of patients. Yes, the recommendation is to ensure that there is a comprehensive delivery plan, and that is what is being developed.

**Y Prif Weinidog:** Rhaid cofio bod y rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy wedi lansio prosiect dros Gymru gyfan yn ddiweddar o'r enw Bywyd ar ôl Strôc, sydd â'r nod o wella'r cymorth sydd ar gael i oroeswyr strôc pan fyddant yn dychwelyd adref o'r ysbyty. Mae hwn yn fater pwysig ac rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol weithio'n agos â'i gilydd i ddiwallu anghenion cleifion. Ie, yr argymhelliad yw sicrhau bod cynllun cyflawni cynhwysfawr, a dyna sy'n cael ei ddatblygu.

**Kirsty Williams:** I note that the First Minister gives no explanation as to why two years later this important health initiative has not been taken forward in a timely manner. I am glad that he mentions the issue of aftercare. Many stroke patients feel that, once they leave the hospital setting, they are abandoned. Do you agree that it is time that we accepted that a one-size-fits-all model of service is outdated and that a tailored social care system, which uses personal budgets to ensure that individuals who have suffered a stroke can choose their own packages of care that best suit their needs, should be implemented instead?

**Kirsty Williams:** Sylwaf nad yw'r Prif Weinidog yn rhoi dim eglurhad pam nad yw'r fenter iechyd bwysig hon, ddwy flynedd yn ddiweddarach, wedi'i datblygu mewn modd amserol. Rwy'n falch iddo sôn am ôl-ofal. Mae llawer o gleifion strôc yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ben eu hunain wedi iddynt adael yr ysbyty. A gytunwch ei bod yn bryd inni dderbyn bod y model sy'n addas i bawb wedi dyddio ac y dylid rhoi system gofal cymdeithasol wedi'i theilwra, sy'n defnyddio cyllidebau personol i sicrhau y gall unigolion sydd wedi dioddef strôc ddewis eu pecynnau gofal eu hunain sy'n gweddu orau i'w hanghenion, ar waith yn ei lle?

**The First Minister:** There needs to be a consistency of approach across Wales. Life After Stroke will provide a framework to help to standardise care in the months following a patient's discharge from hospital, and the views of stroke patients and their carers will be incorporated as part of that framework to help us to shape services in the future.

**Y Prif Weinidog:** Rhaid cael dull cyson o weithredu ar draws Cymru. Bydd Bywyd ar ôl Strôc yn darparu fframwaith i helpu i safoni gofal yn y misoedd yn dilyn rhyddhau claf o'r ysbyty, a bydd barn cleifion strôc a'u gofalwyr yn cael ei chynnwys yn rhan o'r fframwaith hwnnw i'n helpu i lunio gwasanaethau yn y dyfodol.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, prior to the elections last May, you gave a clear promise to the people of Wales that a Welsh Labour Government would not downgrade district general hospitals. Today, the BBC has reported that your Government has a plan to undermine public confidence in the Welsh NHS so that you can go ahead with your plans to downgrade hospitals. You have an opportunity now this afternoon to set the record straight. Will you tell us, ahead of Thursday's local elections, whether your Government plans to downgrade hospitals or

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, cyn yr etholiadau ym mis Mai y llynedd, rhoesoch addewid clir i bobl Cymru na fyddai Llywodraeth Lafur Cymru yn israddio ysbytai cyffredinol dosbarth. Heddiw, mae'r BBC wedi dweud bod gan eich Llywodraeth gynllun i danseilio hyder y cyhoedd yn GIG Cymru er mwyn ichi allu bwrw ymlaen â'ch cynlluniau i israddio ysbytai. Mae gennych gyfle yn awr y prynhawn yma i egluro'r sefyllfa. A wnewch ddweud wrthym, cyn yr etholiadau lleol ddydd Iau, a yw eich Llywodraeth yn bwriadu israddio ysbytai neu ganoli

centralise core services?

gwasanaethau craidd?

**The First Minister:** It is an exceptionally serious allegation to make about the BBC that it has published a news story claiming that we are trying to undermine the health service. I have seen what the BBC has reported, and that is not at all what it has said. The cat was let out of the bag by the leader of Plaid Cymru when she referred to the local elections. From our point of view, we want to ensure that health services are safe and sustainable. No hospital is under threat, and no hospital was ever under threat in Wales. I note from the Plaid Cymru press release that it says that, as far as this report is concerned—which is not our report as a Government—

**Y Prif Weinidog:** Mae'n honiad eithriadol o ddifrifol am y BBC ei fod wedi cyhoeddi stori newyddion yn honni ein bod yn ceisio tanseilio'r gwasanaeth iechyd. Rwyf wedi gweld yr hyn y mae'r BBC wedi'i adrodd, ac nid dyna a ddywedwyd o gwbl. Gollyngwyd y gath o'r cwd gan arweinydd Plaid Cymru pan gyfeiriodd at yr etholiadau lleol. O'n safbwynt ni, rydym am sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Nid oes dim un ysbyty o dan fygythiad, ac ni fu dim un ysbyty erioed o dan fygythiad yng Nghymru. Sylwaf fod y datganiad i'r wasg gan Blaid Cymru yn dweud, cyn belled ag y mae'r adroddiad hwn yn bod—ac nid adroddiad gennym ni fel Llywodraeth ydyw—:

'This is a thoroughly cynical and distasteful scaremongering tactic…and people across Wales will be horrified that they'—

'Mae hyn yn dacteg sinigaidd ac annifyr o godi bwganod gan Lafur…a bydd pobl ym mhob cwr o Gymru yn dychryn eu bod'—

that is, us—

hynny yw, ni—

'are willing to sink to these depths in order to get their way.'

'yn barod i suddo mor isel er mwyn cael eu ffordd eu hunain.'

I wonder whether Plaid was looking in the mirror when that was written.

Tybed a oedd Plaid Cymru yn edrych yn y drych pan gafodd hynny ei ysgrifennu?

**Leanne Wood:** I note that there was no denial in the report by the BBC today. Is it not the case that your Government intends to scaremonger in order to undermine public confidence in NHS services? Would you say then that the BBC is scaremongering? [*Interruption.*] On 1 February, your Minister for health—

**Leanne Wood:** Sylwaf nad oedd dim gwadu yn yr adroddiad gan y BBC heddiw. Onid y gwir yw bod eich Llywodraeth yn bwriadu codi bwganod er mwyn tanseilio hyder y cyhoedd yng ngwasanaethau'r GIG? A fyddech yn dweud felly fod y BBC yn codi bwganod? [*Torri ar draws.*] Ar 1 Chwefror, bu i'ch Gweinidog iechyd—

**The Presiding Officer:** Order. May we listen to Leanne Wood, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwn ni wrando ar Leanne Wood, os gwelwch yn dda?

**Leanne Wood:** Thank you, Presiding Officer. On 1 February, your Minister for health, in this Chamber, denied that she knew the local health boards' plans with regard to health reconfiguration. Last week, she confirmed that she was awaiting the plans of LHBs and expected them within the next two months. If that is true, how could your Minister and your Government know what case to make to the people of Wales?

**Leanne Wood:** Diolch, Lywydd. Ar 1 Chwefror, dywedodd eich Gweinidog iechyd, yn y Siambr hon, nad oedd yn gwybod am gynlluniau'r byrddau iechyd lleol o ran ad-drefnu iechyd. Yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd ei bod yn aros am gynlluniau gan y byrddau iechyd lleol a'i bod yn eu disgwyl o fewn y ddau fis nesaf. Os yw hynny'n wir, sut y gallai eich Gweinidog a'ch Llywodraeth wybod pa achos i'w gyflwyno i bobl Cymru?

**The First Minister:** There are no final plans in place from the LHBs. This report was commissioned by the Welsh NHS Confederation, not by the Government. It is not a Government report. It contains information that we cannot ignore. It is quite simply the case that we want to improve the health service and improve mortality rates in the NHS. If that is not a priority for Plaid Cymru, it should say so. The leader of Plaid Cymru is playing hard and loose with the facts. She has now stepped back from the allegation that she made about the BBC. I repeat what she did not hear the first time around: no hospital in Wales is under threat, and no hospital in Wales was ever under threat. We want to make sure that our centres of excellence across Wales provide safe and sustainable services for all the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes cynlluniau terfynol ar waith gan y byrddau iechyd lleol. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gonffederasiwn GIG Cymru, nid gan y Llywodraeth. Nid adroddiad gan y Llywodraeth ydyw. Mae’n cynnwys gwybodaeth na allwn ei hanwybyddu. Y gwir amdani yw ein bod eisiau gwella’r gwasanaeth iechyd a gwella cyfraddau marwolaethau yn y GIG. Os nad yw hynny’n flaenoriaeth i Blaid Cymru, dylai ddweud hynny. Mae arweinydd Plaid Cymru yn chwarae’r ffon ddwybig â’r ffeithiau. Mae hi bellach wedi camu’n ôl o ran yr honiad a wnaeth am y BBC. Ailadroddaf yr hyn na chlywodd y tro cyntaf: nid oes dim un ysbyty yng Nghymru o dan fygythiad, ac ni fu dim un ysbyty yng Nghymru erioed o dan fygythiad. Rydym eisiau sicrhau bod ein canolfannau rhagoriaeth ar hyd a lled Cymru yn darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy ar gyfer holl bobl Cymru.

**Leanne Wood:** First Minister, you say that you do not have final plans. Will you, therefore, publish the plans that you have? Will you admit it? You have tried to keep it under wraps until after the local elections are out of the way, and now you have been caught out. It is time for some honesty, First Minister. If your Government is making the case, what exactly are you making the case for? What services do you intend to strip out of Prince Philip Hospital in Llanelli, Bronglais General Hospital in Aberystwyth, ysbyty Maelor in Wrexham, Withybush General Hospital in Haverfordwest, Prince Charles Hospital in Merthyr or the Royal Glamorgan Hospital in Llantrisant? I could go on. You know, First Minister, that there are big concerns locally about the future of our district general hospitals. First Minister, why will you not come clean about this?

**Leanne Wood:** Weinidog, dywedwch nad oes gennych gynlluniau terfynol. A wnewch, felly, gyhoeddi’r cynlluniau sydd gennych? A wnewch chi gyfaddef hynny? Rydych wedi ceisio cadw hyn ynghudd tan ar ôl yr etholiadau lleol, ac yn awr rydych wedi eich dal. Mae’n bryd cael peth gonestrwydd, Brif Weinidog. Os yw eich Llywodraeth yn cyflwyno dadl, dros beth yn union yr ydych yn cyflwyno dadl? Pa wasanaethau y bwriadwch eu tynnu o Ysbyty’r Tywysog Philip yn Llanelli, Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn Aberystwyth, ysbyty Maelor yn Wrecsam, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn Hwlffordd, Ysbyty’r Tywysog Siarl ym Merthyr neu Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant? Gallwn fynd ymlaen. Rydych yn gwybod, Brif Weinidog, fod pryderon mawr yn lleol am ddyfodol ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Brif Weinidog, pam na wnewch gyffesu’r cyfan?

**The First Minister:** I am amazed to hear her say that this is all very secret, because we have published it on the website. It is not even our report in the first place. Let me make something quite clear. She talks about scaremongering. There were Plaid Cymru canvassers handing out leaflets in Parc Trostre saying that Labour is going to close the accident and emergency department in

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn synnu ei chlywed yn dweud bod hyn i gyd yn gyfrinachol iawn, gan ein bod wedi’i gyhoeddi ar y wefan. Nid ein hadroddiad ni ydyw yn y lle cyntaf. Gadewch imi wneud rhywbeth yn hollol glir. Mae hi’n siarad am godi bwganod. Roedd canfaswyr Plaid Cymru yn dosbarthu taflenni ym Mharc Trostre yn dweud bod Llafur yn bwriadu cau’r adran damweiniau ac achosion

Llanelli. I have the leaflet. There are people in Aberystwyth who have been told that Bronglais hospital will close. If that is not scaremongering, I do not know what is. If we are going to have honesty, let us have honesty from Plaid Cymru in its election leaflets. Let me say one thing to the people of Llanelli and Aberystwyth: there is no threat to those hospitals, and there never was a threat to those hospitals. We want to ensure that there are centres of excellence in both Aberystwyth and Llanelli because we, as a Government, care about health, about access to services, about outcomes, and about lives. Unfortunately, Plaid Cymru seems to care about votes.

brys yn Llanelli. Mae'r daflen gennyf. Dywedwyd wrth bobl yn Aberystwyth y bydd ysbyty Bronglais yn cau. Os nad codi bwganod yw hynny, ni wn beth ydyw. Os ydym i gael gonestrwydd, gadewch inni gael gonestrwydd oddi wrth Blaid Cymru yn ei thaflenni etholiad. Gadewch imi ddweud un peth wrth bobl Llanelli ac Aberystwyth: nid oes dim bygythiad i'r ysbytai hynny, ac ni fu bygythiad erioed i'r ysbytai hynny. Rydym eisiau sicrhau bod canolfannau rhagoriaeth yn Aberystwyth a Llanelli oherwydd ein bod, fel Llywodraeth, yn malio am iechyd, am fynediad at wasanaethau, am ganlyniadau, ac am fywydau. Yn anffodus, ymddengys mai pleidleisiau sy'n gofidio Plaid Cymru.

1.45 p.m.

### Rhaglen Lywodraethu

### Programme for Government

***3. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni'r 'Rhaglen Lywodraethu'. OAQ(4)0489(FM)*

***3. Jocelyn Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the delivery of the 'Programme for Government'. OAQ(4)0489(FM)*

**The First Minister:** We are making good progress in delivering our programme for government. The first full report will be published at the end of this month.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni ein rhaglen lywodraethu. Bydd yr adroddiad llawn cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y mis hwn.

**Jocelyn Davies:** It is 1 May today, therefore, from now on, the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 places an important duty on your Government to have due regard for the UN Convention on the Rights of the Child in all policies and legislation. How will you demonstrate what your Government is doing specifically to uphold those rights?

**Jocelyn Davies:** Heddiw yw 1 Mai, ac felly, o hyn ymlaen, bydd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd bwysig ar eich Llywodraeth i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhob polisi a deddf. Sut y byddwch yn dangos yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud yn benodol i amddiffyn yr hawliau hynny?

**The First Minister:** We know what the new law imposes on us. First, we have ensured that the rights are worked through all that we do as a Government and, during the course of the debate on the report on the programme for government, I am sure that there will be an opportunity for Members to question us on our progress thus far.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod yr hyn y mae'r gyfraith newydd yn ei orfodi arnom. Yn gyntaf, rydym wedi sicrhau bod yr hawliau yn treiddio drwy bopeth a wnawn fel Llywodraeth ac, yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad ar y rhaglen lywodraethu, rwyf yn siŵr y bydd cyfle i'r Aelodau ein holi ar ein cynnydd hyd yn hyn.

**Christine Chapman:** First Minister, I know that many families in my constituency are benefiting from Flying Start. I welcome the additional £55 million investment to support its expansion, which will obviously help to

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, rwyf yn gwybod bod llawer o deuluoedd yn fy etholaeth yn elwa ar Dechrau'n Deg. Croesawaf y buddsoddiad ychwanegol o £55 miliwn i gynnal y broses o ehangu'r fenter,

deliver better outcomes for children living in poverty in Wales. I was pleased to visit the Action for Children family centre in Penywaun recently. It is a community-based drop-in and referral service that offers a range of family support services and advice to children, parents and carers. Will you join me in commending the work of the centre? Do you agree that investing in the early years of a child's life is an investment in their future?

a fydd yn amlwg yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Roeddwn yn falch o ymweld â chanolfan deuluoedd Gweithredu dros Blant ym Mhenywaun yn ddiweddar. Mae'n wasanaeth galw i mewn a chyfeirio yn y gymuned sy'n cynnig ystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd a chyngor i blant, rhieni a gofalwyr. A ymunwch â mi i gymeradwyo gwaith y ganolfan? A gytunwch fod buddsoddi ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn fuddsoddiad yn ei ddyfodol?

**The First Minister:** Yes and that is why we are looking to double the number of families that are able to obtain the support of the Flying Start programme. We know very well that, taken together with the new duties that will be imposed on us by the Measure regarding children and young people and their rights, this will prove to be a significant step forward for young children in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf, a dyna pam rydym yn gobeithio dyblu nifer y teuluoedd sy'n gallu cael cymorth gan raglen Dechrau'n Deg. Rydym yn gwybod yn iawn y bydd hyn, ynghyd â'r dyletswyddau newydd a orfodir arnom gan y Mesur mewn perthynas â hawliau plant a phobl ifanc, yn dod yn gam sylweddol ymlaen i blant ifanc yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** First Minister, your programme for government pledged to review what entrepreneurial support is needed by small firms to thrive and grow. We know that the independent review panel of the impact of business rate relief in Wales is due to report back later this month. If that panel were to recommend that there should be a reduction in business rates for businesses in Wales, will you give those businesses an assurance that you will implement that recommendation?

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, gwnaeth eich rhaglen lywodraethu ymrwymo i adolygu pa gymorth entrepreneuraidd sydd ei angen ar gwmnïau bach i ffynnu a thyfu. Gwyddom fod disgwyl i'r panel adolygu annibynnol sy'n ystyried effaith rhyddhad ardrethi busnes yng Nghymru adrodd yn ôl yn ddiweddarach y mis hwn. Os bydd y panel hwnnw'n argymell y dylai fod gostyngiad mewn ardrethi busnes ar gyfer busnesau yng Nghymru, a wnewch chi roi sicrwydd i'r busnesau hynny y byddwch yn gweithredu'r argymhelliad hwnnw?

**The First Minister:** We will, of course, await any recommendations before commenting on them.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, wrth gwrs, yn aros am unrhyw argymhellion cyn gwneud sylwadau arnynt.

**Peter Black:** First Minister, 30 months ago, Jenny Randerson's Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 received Royal Approval. That Measure has still not been commenced. When do you intend to commence that Measure and why has it not been commenced thus far?

**Peter Black:** Brif Weinidog, 30 mis yn ôl, rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol i Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 Jenny Randerson. Mae'r Mesur yn dal i fod heb ei weithredu. Pryd rydych yn bwriadu gweithredu'r Mesur a pham nad yw wedi ei weithredu hyd yma?

**The First Minister:** We had to wait for the 'Appetite for Life' programme to finish and provide the evidence that we needed to implement the Measure. It will come into force in primary schools on 1 September 2012 and in secondary schools on 1

**Y Prif Weinidog:** Roedd yn rhaid inni aros i raglen 'Blas am Oes' ddod i ben a rhoi'r dystiolaeth yr oedd ei hangen arnom i weithredu'r Mesur. Bydd yn dod i rym mewn ysgolion cynradd ar 1 Medi 2012 ac mewn ysgolion uwchradd ar 1 Medi 2013.

September 2013.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***4. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Rhondda Cynon Taf dros y flwyddyn nesaf. OAQ(4)0474(FM)*

***4. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister outline his priorities for Rhondda Cynon Taf over the course of the next year. OAQ(4)0474(FM)*

**The First Minister:** My priorities are to deliver on our programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Fy mlaenoriaethau yw cyflawni ein rhaglen lywodraethu.

**Mick Antoniw:** First Minister, Rhondda Cynon Taf is one of the areas that will suffer greatly if the coalition Government presses ahead and imposes regional pay on Wales. Will you outline what steps the Welsh Government has taken to put the argument against regional pay, what contacts it has had with the Government, and what steps the Welsh Government has taken to mitigate the argument that has been put forward for the imposition of regional pay?

**Mick Antoniw:** Brif Weinidog, Rhondda Cynon Taf yw un o'r ardaloedd a fydd yn dioddef yn fawr os bydd y Llywodraeth glymblaid yn bwrw ymlaen â gorfodi tâl rhanbarthol ar Gymru. A wnewch chi amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddadlau yn erbyn tâl rhanbarthol, pa gysylltiadau a fu â'r Llywodraeth, a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wrthddadlau'r ddadl o blaid cyflwyno tâl rhanbarthol?

**The First Minister:** We continue to make the case very strongly that we believe that regional pay is inappropriate not just for Wales, but for the whole of the UK.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn parhau i ddadlau yn gryf iawn ein bod o'r farn nad yw tâl rhanbarthol yn briodol; nid yw'n briodol i Gymru nac i'r DU gyfan.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, Rhondda Cynon Taf is one of the areas that have been let down by successive Welsh Government programmes in Objective 1 and convergence funding. Sadly, the outcomes have not been as was desired. Obviously, gross value added and gross domestic product figures for the Valleys are very disappointing. Given that the Commissioner for Regional Policy from the European Union was over last week and talking about seeking quantifiable results from the next round of funding, what goals are you going to set for your Government to ensure that, in contrast to the previous Assembly Governments, which missed two opportunities, you will not permit this to be another missed opportunity in terms of the use of European resources?

**Andrew R.T. Davies**: Brif Weinidog, mae Rhondda Cynon Taf yn un o'r ardaloedd sydd wedi cael ei siomi gan y naill raglen ar ôl y llall gan Lywodraeth Cymru o ran cyllid Amcan 1 a chydgyfeirio. Yn anffodus, nid yw'r canlyniadau wedi bod fel y dymunwyd. Yn amlwg, mae ffigurau gwerth ychwanegol crynswth a chynnyrch mewnwladol crynswth y Cymoedd yn siomedig iawn. O gofio bod Comisiynydd Polisi Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd yma yr wythnos diwethaf a'i fod wedi sôn am geisio cael canlyniadau mesuradwy o'r cylch cyllido nesaf, pa nodau y byddwch yn eu pennu ar gyfer eich Llywodraeth i sicrhau, yn wahanol i'r hyn a wnaeth Llywodraethau blaenorol y Cynulliad, a gollodd ddau gyfle, na fyddwch yn gadael i hyn fod yn gyfle arall a gollwyd o ran y defnydd o adnoddau Ewropeaidd?

**The First Minister:** We will continue to seek an increase in the gross domestic product and gross value added figures, and to continue the increase already seen in the gross domestic household income figures.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i geisio cynyddu'r ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth a gwerth ychwanegol crynswth, a pharhau â'r cynnydd a welwyd eisoes yn y ffigurau sy'n ymwneud ag incwm aelwydydd

However, we need the UK Government to do its bit and to reverse its disastrous economic policies.

domestig crynswth. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth y DU wneud ei rhan, a gwrthdroi ei pholisïau economaidd trychinebus.

**Leanne Wood:** Unemployment is a big problem in Rhondda Cynon Taf as in many parts of Wales. Jobs that we can ill afford to lose are at risk, with the threatened closure of seven of the nine Remploy factories, which could close as early as July. First Minister, with the clock ticking for those threatened factories, can you tell us what your Government is doing to secure their future? Have you pushed the idea of devolving the budget for Remploy to Wales, and have you explored ways of making the factories more financially viable by ensuring that they get more public procurement contracts?

**Leanne Wood:** Mae diweithdra yn broblem fawr yn Rhondda Cynon Taf fel y mae mewn sawl rhan o Gymru. Mae swyddi na allwn fforddio’u colli mewn perygl, o ystyried bod bygythiad y bydd saith o blith naw ffatri Remploy yn cau; gallai hynny ddigwydd mor gynnar â mis Gorffennaf. Brif Weinidog, o gofio bod y cloc yn tician o safbwynt y ffatrïoedd sydd o dan fygythiad, a allwch ddweud wrthym beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau eu dyfodol? A ydych wedi ymgyrchu dros y syniad o ddatganoli’r gyllideb ar gyfer Remploy i Gymru, ac a ydych wedi ystyried ffyrdd o wneud y ffatrïoedd yn fwy hyfyw yn ariannol drwy sicrhau eu bod yn cael rhagor o gontractau caffael cyhoeddus?

**The First Minister:** The Minister has visited all the Remploy factories. We have written to the UK Government asking for the devolution of the budget for Remploy, but that has been refused. However, we are looking at other options, particularly at how we could help to save those jobs through the establishment of social enterprises, given that so many of the factories have full order books. We will continue to fight for those workers at Remploy, who are being let down by the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r Gweinidog wedi ymweld â holl ffatrïoedd Remploy. Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn am ddatganoli’r gyllideb ar gyfer Remploy, ond gwrthodwyd hynny. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar opsiynau eraill, yn enwedig ar sut y gallem helpu i achub y swyddi hynny drwy sefydlu mentrau cymdeithasol, o gofio bod gan gynifer o’r ffatrïoedd lyfrau archebion llawn. Byddwn yn parhau i frwydro ar ran y gweithwyr hynny yn Remploy, sy’n cael eu siomi gan Lywodraeth y DU.

**Eluned Parrott:** First Minister, you will be aware that Rhondda Cynon Taf County Borough Council has been spending considerable time and money redeveloping the centre of Pontypridd. Protecting local town centres and the jobs that they create must surely be a priority for your Government. However, local traders were absolutely staggered to learn that, while existing town centres are still struggling, the local development plan includes plans for a new town centre, complete with civic facilities, at Talbot Green. First Minister, local residents do not want it, local businesses do not want it, and it cuts against all the evidence that the Assembly has seen on town-centre regeneration. Will you join me in calling for these plans to be reviewed?

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi bod yn treulio cryn dipyn o amser ac arian yn ailddatblygu canol Pontypridd. Yn ddiau, mae’n rhaid bod diogelu canol trefi lleol a’r swyddi a gaiff eu creu ganddynt yn flaenoriaeth i’ch Llywodraeth. Fodd bynnag, cafodd masnachwyr lleol eu syfrdanu’n llwyr o glywed bod y cynllun datblygu lleol yn cynnwys cynlluniau ar gyfer canol tref newydd, ynghyd â chyfleusterau dinesig, yn Nhonysguboriau, tra bo canol trefi presennol yn dal i ddioddef. Brif Weinidog, nid yw trigolion lleol eisiau hyn, nid yw busnesau lleol eisiau hyn, ac mae’n mynd yn groes i’r holl dystiolaeth y mae’r Cynulliad wedi’i gweld ar adfywio canol trefi. A ymunwch â

mi i alw am adolygu'r cynlluniau hyn?

**The First Minister:** It is not for me to call for LDPs to be reviewed, because the Welsh Government has a role in determining whether they are called in. Rhondda Cynon Taf council has a good record on developing the urban environment, particularly in Pontypridd town centre.

**Y Prif Weinidog:** Nid fy lle i yw galw am adolygu cynlluniau datblygu lleol, oherwydd mae gan Lywodraeth Cymru rôl wrth benderfynu a ydynt yn cael eu galw i mewn. Mae gan gyngor Rhondda Cynon Taf record dda o ran datblygu'r amgylchedd trefol, yn enwedig yng nghanol tref Pontypridd.

**Ysmygu**

**Smoking**

***5. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i leihau ysmygu. OAQ(4)0481(FM)*

***5. William Graham:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's policies to reduce smoking. OAQ(4)0481(FM)*

**The First Minister:** Yes. The tobacco control action plan for Wales aims to drive down smoking prevalence levels to 16% by 2020.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Nod cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco yw gostwng lefelau ysmygu i 16% erbyn 2020.

**William Graham:** I am most grateful to the First Minister for his answer. Could he outline how his Government is to tackle the alarming increase in smoking shisha? Recent British Heart Foundation research has indicated that, during a typical one-hour session, a shisha smoker inhales the equivalent of more than 100 full-strength cigarettes. Smoking shisha is currently unregulated. Would the First Minister indicate what discussions he has held regarding the substance?

**William Graham:** Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. A allai amlinellu sut y mae ei Lywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r cynnydd brawychus mewn lefelau ysmygu shisha? Awgrymodd gwaith ymchwil diweddar gan Sefydliad Prydeinig y Galon fod ysmygwr shisha, mewn sesiwn awr arferol, yn anadlu'r hyn sy'n cyfateb i dros 100 o sigaréts cryfder llawn. Nid yw ysmygu shisha yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd. A wnaiff y Prif Weinidog nodi pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal ynghylch y sylwedd hwn?

**The First Minister:** I have to say that there have been no specific discussions. I will, however, raise the matter with the Chief Medical Officer for Wales. I am aware of the technique involved, and I have often seen shisha pipes outside premises, particularly along the Edgware Road in London, where a number of establishments offer them. However, I will take the matter up with the CMO and ask for his views.

**Y Prif Weinidog:** Rhaid imi ddweud na fu unrhyw drafodaethau penodol. Fodd bynnag, byddaf yn crybwyll y mater wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru. Rwyf yn ymwybodol o'r dechneg dan sylw, ac rwyf wedi gweld pibellau shisha yn aml y tu allan i fusnesau, yn enwedig ar hyd Ffordd Edgware yn Llundain, lle mae nifer o fusnesau yn eu cynnig. Fodd bynnag, byddaf yn crybwyll y mater wrth y Prif Swyddog Meddygol ac yn gofyn am ei farn.

**Julie Morgan:** Following a visit to the Assembly last week by young ambassadors from Action on Smoking and Health, who urged Assembly Members to take part in the UK-wide consultation on plain packaging for cigarettes, what specific proposals does the First Minister have to help young people who already have started smoking to stop?

**Julie Morgan:** Yn dilyn ymweliad i'r Cynulliad gan lysgenhadon ifanc o Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd yr wythnos diwethaf, a anogodd Aelodau'r Cynulliad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar draws y DU i becynnu sigaréts mewn gorchuddion plaen, pa gynigion penodol sydd gan y Prif Weinidog i helpu pobl ifanc sydd eisoes wedi

dechrau ysmygu i roi'r gorau iddi?

**The First Minister:** Stop Smoking Wales provides smoking cessation support to young people aged between 12 and 17 who classify themselves as smokers. The sessions are delivered on a one-to-one basis, and the young people are seen over a six-week period. The service also offers brief intervention training to individuals who work with young people on raising the issue of smoking and its health effects, and to ensure that young people are aware of the support that is available.

**Y Prif Weinidog:** Mae Dim Smygu Cymru yn rhoi cefnogaeth o ran rhoi'r gorau i ysmygu i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed sydd yn cyfrif eu hunain yn ysmygwyr. Cynhelir sesiynau unigol gyda'r bobl ifanc, a chânt eu gweld dros gyfnod o chwe wythnos. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig hyfforddiant byr ar ymyrraeth i unigolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc—hyfforddiant sy'n cynnwys sut i godi mater ysmygu a'i effaith ar iechyd, a sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael.

**Elin Jones:** Brif Weinidog, mae'r dystiolaeth wyddonol yn glir: mae ysmygu mewn ceir yn niweidiol iawn i iechyd plant. Pam, felly, na wnewch chi gychwyn yn awr ar broses o ddeddfu i wahardd ysmygu mewn ceir pan fydd plant yn bresennol?

**Elin Jones:** First Minister, the scientific evidence is clear: smoking in cars is very damaging to children's health. Why, then, will you not commence the process of legislating now to ban smoking in cars when children are present?

**Y Prif Weinidog:** Mae ymgyrch ar waith ar hyn o bryd i leihau nifer y bobl sy'n ysmygu yn y car pan fydd plant yno. Os na fydd yr ymgyrch honno'n gweithio, rydym wedi dweud bydd deddfwriaeth yn cael ei chreu.

**The First Minister:** A campaign is already under way to reduce the number of people who smoke in cars when children are present. If that campaign does not work, we have said that we will bring forward legislation.

### Diwydiant Twristiaeth Cymru

### The Welsh Tourism Industry

*6. **William Powell:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynlluniau i ddatblygu diwydiant twristiaeth Cymru. OAQ(4)0476(FM)*

*6. **William Powell:** Will the First Minister outline his plans to develop the Welsh tourism industry. OAQ(4)0476(FM)*

**The First Minister:** Yes. The programme for government sets out our proposals to develop tourism in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae'r rhaglen lywodraethu'n egluro ein cynigion ar gyfer datblygu twristiaeth yng Nghymru.

**William Powell:** Thank you for that answer. Last week, I had the opportunity to attend a conference on sustainable tourism, during which the important matter of the overseas marketing of Wales as a destination was a topic of concern. One of the concerns raised was that your Government has, in recent times, drastically reduced the budget and the prioritisation given to the marketing of Wales in overseas tourism markets. Will you make a statement as to whether these concerns are well founded and will you confirm your understanding of the importance of Wales as a destination for overseas tourists?

**William Powell:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Yr wythnos diwethaf, cefais gyfle i fynd i gynhadledd ar dwristiaeth gynaliadwy, pan oedd mater pwysig marchnata Cymru fel cyrchfan mewn gwledydd tramor yn destun pryder. Un o'r pryderon a godwyd oedd bod eich Llywodraeth, yn ddiweddar, wedi lleihau'n sylweddol y gyllideb a'r flaenoriaeth a roddir i farchnata Cymru mewn marchnadoedd twristiaeth tramor. A wnewch chi ddatganiad ynghylch a oes sail i'r pryderon hyn ac a wnewch chi gadarnhau eich dealltwriaeth o bwysigrwydd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid tramor?

**The First Minister:** Visit Wales has been allocated a budget of £15.3 million for 2012-

**Y Prif Weinidog:** Dyfarnwyd cyllideb o £15.3 miliwn i Croeso Cymru ar gyfer 2012-

13 and, of that, £8.6 million has been earmarked for marketing campaigns, including Travel Trade and media engagement programmes. While I was in India and, indeed, in America, I spent some time talking to tourism operators to see what would work in terms of promoting Wales in those markets, and some of their ideas will be implemented.

13 ac, o hynny, mae £8.6 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer ymgyrchoedd marchnata, gan gynnwys rhaglenni i'r diwydiant teithio a rhaglenni ymgysylltu â'r cyfryngau. Tra oeddwn yn India ac, yn wir, yn America, treuliais rywfaint o amser yn siarad â gweithredwyr twristiaeth i weld beth fyddai'n gweithio o ran hyrwyddo Cymru yn y marchnadoedd hynny, a bydd rhai o'u syniadau'n cael eu gweithredu.

**David Rees:** The communities of the upper Afan valley have successfully created a tourism industry based upon forestry walks and mountain biking in a fabulous part of the countryside. To build upon this industry, the local council is seeking the views of local people and businesses on a bike bus to transport the public and their bikes between various locations in Swansea and Port Talbot during holiday periods, therefore promoting green travel and tourism simultaneously. Do you welcome the Labour-controlled authority's proposal to further support these communities through organising a bike bus, and will you encourage as many people as possible to take part in the survey?

**David Rees:** Mae cymunedau yng nghwm Afan uchaf wedi llwyddo i greu diwydiant twristiaeth sy'n seiliedig ar deithiau cerdded a beicio mynydd drwy goedwigoedd mewn rhan wych o gefn gwlad. Er mwyn ychwanegu at y diwydiant hwn, mae'r cyngor lleol yn ceisio barn trigolion a busnesau ar fws beiciau i gludo'r cyhoedd a'u beiciau rhwng gwahanol leoliadau yn Abertawe a Phort Talbot yn ystod cyfnodau gwyliau, gan hyrwyddo felly deithio gwyrdd a thwristiaeth ar yr un pryd. A ydych yn croesawu bwriad yr awdurdod a reolir gan Lafur i roi rhagor o gefnogaeth i'r cymunedau hyn drwy drefnu bws beiciau, ac a fyddwch yn annog cymaint o bobl ag y bo modd i gymryd rhan yn yr arolwg?

**The First Minister:** Yes, I would. It has been refreshing to see the development of tourism in the upper Afan valley over the past 10 or 15 years. I opened the centre in Glyncorrwg and the ponds there some seven or eight years ago. Utilising the forestry in the area, it has meant a substantial increase in the number of tourists who visit that part of the Afan valley.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf. Mae wedi bod yn braf gweld twristiaeth yn cael ei datblygu yng nghwm Afan uchaf yn ystod y 10 neu 15 mlynedd diwethaf. Agorais y ganolfan a'r pyllau yng Nglyncorrwg ryw saith neu wyth mlynedd yn ôl. Gan ddefnyddio coedwigoedd yr ardal, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r rhan honno o gwm Afan.

**Darren Millar:** You will be aware that caravan parks offer significant accommodation in the tourism industry across Wales, not least in my constituency of Clwyd West. Last week, you indicated that you would publish the contents of a letter that you intended to write to the Chancellor on the issue of VAT arrangements for static caravans. Have you written to the Chancellor, because I was disappointed to note that the Minister for business, as the Minister responsible for tourism, had not done so as of this week? Will you share the contents of that letter so that this important industry can receive the protection it deserves in Wales?

**Darren Millar:** Byddwch yn gwybod bod meysydd carafanau yn rhan fawr o'r llety a geir yn y diwydiant twristiaeth ledled Cymru, yn enwedig yn fy etholaeth i, Gorllewin Clwyd. Yr wythnos diwethaf, gwnaethoch nodi y byddech yn cyhoeddi cynnwys llythyr yr oeddech yn bwriadu ei ysgrifennu at y Canghellor ar fater trefniadau TAW ar gyfer carafanau sefydlog. A ydych wedi ysgrifennu at y Canghellor, gan fy mod yn siomedig o nodi nad oedd y Gweinidog busnes, sef y Gweinidog sy'n gyfrifol am dwristiaeth, wedi gwneud hynny erbyn yr wythnos hon? A wnewch chi rannu cynnwys y llythyr hwnnw fel y gall y diwydiant pwysig hwn gael y diogelwch y mae'n ei haeddu yng Nghymru?

**The First Minister:** The letter has gone and I will give consideration to the contents being shared. There is nothing startling in that letter because, as the Member would expect, I have expressed my concerns about the imposition of VAT on static caravans. However, I am sure that the Member will make representations within his party because, after all, it was a Conservative Chancellor who imposed this VAT on caravans in the first place.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r llythyr wedi mynd a byddaf yn ystyried a ddylid rhannu'r cynnwys. Nid oes dim byd syfrdanol yn y llythyr hwnnw oherwydd, fel y byddai'r Aelod yn disgwyl, rwyf wedi mynegi fy mhryderon ynghylch gosod TAW ar garafanau sefydlog. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn cyflwyno sylwadau o fewn ei blaid oherwydd, wedi'r cyfan, Canghellor Ceidwadol a osododd TAW ar garafanau yn y lle cyntaf.

**Canlyniadau Iechyd**

**Health Outcomes**

***7. Antoinette Sandbach:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau ei Lywodraeth i wella canlyniadau iechyd ymysg poblogaeth Gogledd Cymru. OAQ(4)0487(FM)*

***7. Antoinette Sandbach:*** *Will the First Minister outline his Government's policies to improve health outcomes amongst the population of North Wales. OAQ(4)0487(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Maent yn y rhaglen lywodraethu.

**Antoinette Sandbach:** There are a number of health services in north Wales that rely on charities to meet patient needs, including, for example, the Pamela Northcott Fund, which helps people to access cancer drugs, the Red Cross, with regard to wheelchair provision, and the North Wales Chrysalis Trust, which provides bereavement counselling and in which I declare an interest as its patron. What are you doing to support these charities that provide core services and, without which, Welsh patients would be forced to pay for private sector treatment or to travel to England to receive treatment?

**Antoinette Sandbach:** Mae nifer o wasanaethau iechyd yn y gogledd sy'n dibynnu ar elusennau i ddiwallu anghenion cleifion, gan gynnwys, er enghraifft, Cronfa Pamela Northcott, sy'n helpu pobl i gael gafael ar gyffuriau canser, y Groes Goch, o ran darparu cadeiriau olwyn, ac Ymddiriedolaeth Chrysalis Gogledd Cymru, sy'n darparu cwnsela profedigaeth, ac rwyf yn datgan buddiant yn ei chylch, gan mai fi yw ei noddwr. Beth yr ydych chi'n ei wneud i gefnogi'r elusennau hyn sy'n darparu gwasanaethau craidd? Hebddynt, byddai cleifion o Gymru yn cael eu gorfodi i dalu am driniaeth yn y sector preifat neu i deithio i Loegr i gael triniaeth.

**The First Minister:** Charities are supported in a number of ways. Some organisations are supported via the local health boards and others are supported through other funding streams. We recognise fully the good work done by charities, but we would not want to add to their burden, while recognising the good work that they do.

**Y Prif Weinidog:** Cefnogir elusennau mewn nifer o ffyrdd. Caiff rhai sefydliadau eu cefnogi drwy'r byrddau iechyd lleol ac eraill drwy ffrydiau cyllido eraill. Rydym yn llwyr gydnabod y gwaith da a wneir gan elusennau, ond ni fyddem yn dymuno ychwanegu at eu baich, wrth gydnabod y gwaith da y maent yn ei wneud.

**Sandy Mewies:** I was at the opening of another Trussell Trust food bank in Mold on Friday. Having enough to eat is a basic when it comes to good health. Therefore, do you share my dismay at hearing the Trussell Trust

**Sandy Mewies:** Roeddwn yn bresennol mewn agoriad banc bwyd arall dan ofal Ymddiriedolaeth Trussell yn yr Wyddgrug ddydd Gwener. Mae cael digon i'w fwyta yn sylfaenol o ran iechyd da. Felly, a ydych yn

chairman state that food bank clients face the impossible choice of paying the rent or buying food to put on the family table? He said that thousands are going hungry in twenty-first century Britain. Will you give an assurance that the Welsh Government will do its best to continue to mitigate the effects of the policies of another place on our citizens and to protect them as much as we can in the future?

rhannu fy siom o glywed cadeirydd Ymddiriedolaeth Trussell yn dweud bod cleientiaid y banciau bwyd yn wynebu'r dewis amhosibl rhwng talu'r rhent a phrynu bwyd ar gyfer y teulu? Dywedodd fod miloedd yn llwgu ym Mhrydain yr unfed ganrif ar hugain. A wnewch chi roi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i barhau i liniaru effeithiau'r polisïau o ryw le arall ar ein dinasyddion a'u hamddiffyn gymaint ag y gallwn yn y dyfodol?

2.00 p.m.

**The First Minister:** I can give that assurance. We know that nearly 90% of the cuts that have been made in benefits have yet to be implemented, and yet people are already suffering great hardship as a result—people who, in many cases, have worked all their lives and now, through no fault of their own, are not able to access any kind of benefit. It can mean only that poverty will increase, and the sad story that the Member for Delyn has referred to is one that we will hear for many years to come.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw. Rydym yn gwybod nad yw bron i 90% o'r toriadau a wnaed mewn budd-daliadau wedi cael eu gweithredu hyd yma, ac eto mae pobl eisoes yn dioddef caledi mawr o ganlyniad iddynt—pobl sydd, mewn nifer o achosion, wedi gweithio ar hyd eu hoes ac yn awr, heb unrhyw fai arnynt hwy, yn methu â chael mynediad at unrhyw fath o fudd-dal. Dim ond un peth y gall ei olygu, sef y bydd cynnydd mewn tlodi, ac mae'r stori drist y bu i'r Aelod dros Ddelyn gyfeirio ati yn un y byddwn yn ei chlywed am flynyddoedd lawer i ddod.

**Ieuan Wyn Jones:** Un broblem sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yn y gogledd, fel yng ngweddill Cymru, mae'n siŵr, yw'r diffyg cysondeb yn y berthynas rhwng y gwasanaeth iechyd ar y naill law a'r gwasanaethau cymdeithasol ar y llall, a rhwng y sectorau gofal cynradd a gofal eilaidd neu acíwt. Gan y gallem leihau nifer yr achosion brys sy'n mynd i'r ysbytai pe bai'r berthynas honno'n well, pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau hynny?

**Ieuan Wyn Jones:** One of the problems facing the health service in north Wales, as in the rest of Wales, I would imagine, is the lack of consistency in the relationship between the health service on the one hand and social services on the other, and between the primary care and secondary or acute care sectors. Given that we could reduce the number of emergency cases being taken to hospitals if that relationship were improved, what steps is the Government taking to ensure that?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn erfyn ar bob bwrdd iechyd lleol i weithio yn agos iawn ag awdurdodau lleol i sicrhau na chaiff problemau eu hachosi gan ddiffyg cydweithio rhwng y ddau gorff. Byddem yn disgwyl iddynt weithio'n agos iawn er mwyn sicrhau, er enghraifft, pan fydd rhywun yn gadael yr ysbyty ac yn dymuno ac yn gallu mynd yn ôl i'r tŷ, fod modd gwneud hynny o fewn amser rhesymol.

**The First Minister:** We encourage all local health boards to work very closely with local authorities to ensure that no problems are caused because of a lack of collaboration between the two organisations. We would expect them to work very closely together in order to ensure that, for example, when someone leaves hospital and wishes and is able to return home, they can do that within a reasonable time.

**Aled Roberts:** Mae adroddiad gan y BBC y

**Aled Roberts:** A BBC report this morning

bore yma am newidiadau o fewn y gwasanaeth iechyd yn cadarnhau y caiff y newidiadau eu gweithredu ym mis Awst, er na fydd y Llywodraeth yn cael adroddiadau gan y byrddau iechyd lleol tan ddiwedd y mis hwn. A yw'r amserlen honno'n gywir, ac a ydych yn credu bod hynny'n ddigon o amser i ymgynghori'n effeithiol ar y newidiadau pellgyrhaeddol hyn?

**Y Prif Weinidog:** Rydym eisiau sicrhau bod gan bobl ddigon o amser i fynegi barn am y newidiadau. O ran yr adroddiad ei hun, fel y dywedaist, nid adroddiad y Llywodraeth ydyw ond rhaid inni gymryd sylw o'i gasgliadau er hynny. Rhaid inni sicrhau bod y gwasanaeth iechyd yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y pen draw, a golyga hynny fod rhaid gwneud rhai penderfyniadau.

**Lefelau Cyflogaeth yn Islwyn**

***8. Gwyn R. Price:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau cyflogaeth yn Islwyn. OAQ(4)0488(FM)*

**The First Minister:** In common with most of the rest of the UK, the labour market in Islwyn remains difficult.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer, First Minister. I know how hard your Government is working to preserve jobs in the Valleys. I recently joined Leighton Andrews on a visit to Croespenmaen Remploy to discuss options for saving jobs on the site and continuing the invaluable contribution that it makes to the local area. Do you agree that this attitude is in stark contrast to the UK Government's, which is attempting to pull the rug from under the feet of this diligent group of workers?

**The First Minister:** It is astonishing that the UK Government should decide that the best thing to do, at a time of difficulty for people trying to find jobs, is remove employment from those who find it the most difficult. Yet that is what it has done. We will always stand by and stand up for the Remploy workers. We have done that, and I have outlined what the Minister has done. We will continue to fight any proposals that would lead to their losing their jobs.

on proposed changes within the health service confirms that the changes are to be implemented in August, although the Government will not receive reports from the local health boards until the end of this month. Is that timetable accurate, and do you believe that that is sufficient time in which to hold an effective consultation on these far-reaching changes?

**The First Minister:** We want to ensure that people have plenty of time in which to express an opinion on these changes. As for the report itself, as you said, it is not a Government report, but we must take note of its conclusions nonetheless. We must ensure that the health service is safe and sustainable at the end of the day, and that means that certain decisions will have to be made.

**Employment Levels in Islwyn**

***8. Gwyn R. Price:** Will the First Minister make a statement on employment levels in Islwyn. OAQ(4)0488(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o weddill y DU, mae'r farchnad lafur yn Islwyn yn parhau'n anodd.

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Gwn pa mor galed y mae eich Llywodraeth yn gweithio i ddiogelu swyddi yn y Cymoedd. Yn ddiweddar, ymunais â Leighton Andrews ar ymweliad â Remploy Croespenmaen i drafod opsiynau ar gyfer arbed swyddi ar y safle er mwyn i'r cwmni barhau â'r cyfraniad amhrisiadwy a wna i'r ardal leol. A gytunwch fod yr agwedd hon yn hollol wahanol i agwedd Llywodraeth y DU, sy'n ceisio torri'r tir o dan draed y grŵp diwyd hwn o weithwyr?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhyfeddol i Lywodraeth y DU benderfynu mai'r peth gorau i'w wneud, ar adeg anodd i bobl sy'n chwilio am waith, yw tynnu cyflogaeth oddi ar y rheini sy'n ei chael hi fwyaf anodd. Eto i gyd, dyna'r hyn y mae wedi'i wneud. Byddwn bob amser yn cefnogi ac yn amddiffyn gweithwyr Remploy. Rydym wedi gwneud hynny, ac rwyf wedi amlinellu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i wneud. Byddwn yn parhau i frwydro yn erbyn unrhyw gynigion a fyddai'n arwain atynt hwy'n colli

eu swyddi.

**Lindsay Whittle:** In my remarks, I will try not to mention the fight for Treforest Remploy, which was closed by the Labour Government, by the way. I agree with what my colleague, Gwyn Price from Islwyn, has said. There are three Remploy factories in my region that are about to close. What efforts will the Welsh Government be making to work with local authorities and other potential employers to seek opportunities for alternative employment and even some training as well?

**Lindsay Whittle:** Yn fy sylwadau, ceisiaf beidio â sôn am y frwydr dros Remploy Trefforest, a gafodd ei gau gan y Llywodraeth Lafur, gyda llaw. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod Gwyn Price o Islwyn. Mae tair ffatri Remploy yn fy rhanbarth ar fin cau. Pa ymdrechion fydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i weithio gydag awdurdodau lleol a chyflogwyr posibl eraill i chwilio am gyfleoedd gwaith amgen a hyd yn oed rhywfaint o hyfforddiant yn ogystal?

**The First Minister:** We will explore any option that would be of benefit to the Remploy workers, whether that means opportunities within local authorities or local authorities becoming customers to ensure a full order book, continuing the employment of those who work in the current Remploy factories. We will leave no stone unturned in helping those workers.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ymchwilio i unrhyw opsiwn a fyddai o fudd i weithwyr Remploy, pa un ai a yw hynny'n golygu cyfleoedd o fewn awdurdodau lleol neu awdurdodau lleol yn dod yn gwsmeriaid i sicrhau llyfr archebion llawn, gan barhau â chyflogaeth y rheini sy'n gweithio mewn ffatrïoedd Remploy ar hyn o bryd. Byddwn yn troi pob carreg wrth helpu'r gweithwyr hynny.

**Mohammad Asghar:** One way to boost employment levels in Islwyn and elsewhere would be to extend the provision of superfast broadband. Will you join me in welcoming the news that BT is making superfast broadband available to more than 21,000 homes and businesses in Blackwood and parts of Newport, opening up new opportunities for small and medium-sized enterprises in the area? I would be grateful if you could start a similar development in other areas, too.

**Mohammad Asghar:** Un ffordd o roi hwb i lefelau cyflogaeth yn Islwyn ac mewn mannau eraill fyddai i ymestyn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn. A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r newyddion bod BT yn darparu band eang cyflym iawn i fwy na 21,000 o gartrefi a busnesau yn y Coed-duon a rhannau o Gasnewydd, gan gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig yn yr ardal? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddechrau datblygiad tebyg mewn ardaloedd eraill hefyd.

**The First Minister:** We are. We have said that superfast broadband will be rolled out across Wales by 2015, as per our manifesto commitment.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwneud hynny. Rydym wedi dweud y bydd band eang cyflym iawn yn cael ei gyflwyno ledled Cymru erbyn 2015, yn unol â'r ymrwymiad yn ein maniffesto.

### Effaith y Dirwasgiad ar Fudiadau'r Trydydd Sector

### Impact of the Recession on Third Sector Organisations

***9. Jenny Rathbone:*** *Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y dirwasgiad ar fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru. OAQ(4)0483(FM)*

***9. Jenny Rathbone:*** *What assessment has the Welsh Government made of the impact of the recession on third sector organisations in Wales. OAQ(4)0483(FM)*

**The First Minister:** We have put arrangements in place to monitor the impact that the current economic climate is having on third sector organisations in Wales, and that work is fundamental.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro'r effaith y mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei chael ar sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, ac mae'r gwaith hwnnw'n hanfodol.

**Jenny Rathbone:** Many third sector organisations have voiced considerable concerns that changes in funding structures, particularly of Supporting People where the funding is going via local authorities, will mean that small creative organisations that serve specific groups well are locked out. There is a shortage of funding, and these small groups are not necessarily represented around the table with advisory bodies, both at local authority and Welsh Government level. What can you tell us to allay those anxieties?

**Jenny Rathbone:** Mae sawl sefydliad trydydd sector wedi mynegi pryderon sylweddol y bydd newidiadau mewn strwythurau ariannu, yn enwedig o ran Cefnogi Pobl lle mae'r arian yn mynd drwy awdurdodau lleol, yn golygu bod sefydliadau creadigol bach sy'n gwasanaethu grwpiau penodol yn dda yn cael eu cloi allan. Mae prinder arian, ac nid yw'r grwpiau bach hyn o reidrwydd yn cael eu cynrychioli o amgylch y bwrdd gyda chyrff ymgynghorol, ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel Llywodraeth Cymru. Beth allwch chi ei ddweud wrthym er mwyn tawelu'r pryderon hynny?

**The First Minister:** The Minister for Local Government and Communities will shortly be making an announcement on how a review of advice services will be taken forward in the light of the unprecedented challenges that are being faced by advice providers, some of which will be independent and small.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud cyhoeddiad yn fuan ar sut y bydd adolygiad o wasanaethau cynghori yn cael ei ddatblygu yng ngoleuni'r heriau digyffelyb sy'n wynebu darparwyr cyngor, yn enwedig y rhai sy'n annibynnol ac yn fach.

**Suzy Davies:** As the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science recognises, social enterprises are businesses and are therefore eligible for business loans and grants—banks do not always feel the same, perhaps. The Prime Minister is establishing the big society bank to fund soft loans for community and social entrepreneurs. Do you welcome that policy?

**Suzy Davies:** Fel y cydnabu'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mae mentrau cymdeithasol yn fusnesau ac felly maent yn gymwys ar gyfer benthyciadau a grantiau busnes—er efallai nad yw banciau bob amser yn teimlo'r un fath. Mae Prif Weinidog y DU yn sefydlu banc y gymdeithas fawr i ariannu benthyciadau meddal ar gyfer entrepreneuriaid cymunedol a chymdeithasol. A ydych yn croesawu'r polisi hwnnw?

**The First Minister:** Anything that enables organisations to have access to capital is to be welcomed. It is just a great shame that more is not being done by the UK Government to help so many hard-pressed small and medium-sized enterprises to access capital from the banks.

**Y Prif Weinidog:** Croesewir unrhyw beth sy'n galluogi sefydliadau i gael mynediad at gyfalaf. Mae'n drueni mawr nad oes mwy yn cael ei wneud gan Lywodraeth y DU i helpu'r nifer o fusnesau bach a chanolig sydd o dan bwysau i gael gafael ar gyfalaf gan y banciau.

**Bethan Jenkins:** Yn ôl archwiliad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er bod hyder yn y trydydd sector yn tyfu, mae pryderon bod nifer o fudiadau yn meddwl y bydd eu sefyllfa gyllidebol yn dioddef yn y 12 mis nesaf. Beth y gallwch chi ei wneud i

**Bethan Jenkins:** According to an inquiry by the Wales Council for Voluntary Action, although confidence in the third sector is growing, there are concerns that several organisations think that their financial situation will suffer over the next 12 months.

geisio helpu'r mudiadau hyn?

What can you do to try to assist them?

**Y Prif Weinidog:** Bydd adroddiad yn cael ei roi i gyngor partneriaeth y trydydd sector y mis hwn am y problemau y mae'r sector yn eu hwynebu o ran y newidiadau mewn taliadau lles. Hefyd, fel y dywedais, yr wythnos nesaf, bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad i'r Cynulliad am y mudiadau sy'n rhoi cyngor.

**The First Minister:** A report will be submitted to the third sector partnership council this month on the problems that the sector is facing following the reform of welfare payments. In addition, as I said, next week, the Minister for Local Government and Communities will be making a statement to the Assembly on those organisations that provide advice.

**Tai Trwyddedig**

**Licensed Premises**

***10. Llyr Huws Gruffydd:*** *Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi tai trwyddedig. OAQ(4)0478(FM)*

***10. Llyr Huws Gruffydd:*** *What plans does the Welsh Government have to support licensed premises. OAQ(4)0478(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn parhau i geisio cefnogi tai trwyddedig yng Nghymru drwy fentrau fel *Pub is the Hub* a'n gwaith o lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno isafswm pris uwch ar gyfer pob uned o alcohol. Byddai hynny'n helpu tafarnau, o gofio'r problemau y maent yn eu cael ar hyn o bryd oherwydd cystadleuaeth annheg—yn eu barn nhw—o'r archfarchnadoedd.

**The First Minister:** We continue to seek to support licensed premises in Wales through initiatives such as Pub is the Hub and our work to lobby the United Kingdom Government for an increased minimum unit price for alcohol. That would assist pubs, given the problems that they face at present from the unfair—as they see it—competition presented by supermarkets.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae lefel y taliadau y mae tafarndai yn eu talu i danysgrifio am deledu Sky yn seiliedig ar eu gwerth trethiannol, ac mae nifer ohonynt yn talu dros £1,000 y mis am wahanol wasanaethau. Mae nifer o fusnesau hefyd yn cael rhyddhad treth fusnes sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. A wnewch gefnogi'r ymgyrch rwyf wedi'i lansio yng ngogledd Cymru i alw ar Sky i godi tâl tanysgrifio sy'n seiliedig ar lefel y dreth y mae'r busnesau hyn yn ei thalu yn hytrach na'u gwerth trethiannol? Byddai hynny'n helpu i sicrhau dyfodol mwy hyfyw i nifer o dafarndai yng Nghymru.

**Llyr Huws Gruffydd:** The level of payment that pubs are charged for their Sky television subscription is based on their rateable value, and many of them pay more than £1,000 a month for various services. Many businesses also receive significant rate relief from the Welsh Government in the current economic climate. Will you support the campaign that I have launched in north Wales calling on Sky to charge a subscription fee that is based on the level of tax that these businesses actually pay rather than their rateable value? That would help to ensure a more viable future for many pubs in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ddigon hapus i gefnogi unrhyw beth sy'n gostwng y taliadau y mae tafarnau yn gorfod eu gwneud i Sky. Gwn fod honno'n hen broblem, gan ei bod wedi codi o'r blaen, ond mae sicrhau bod tafarnau'n gallu cael gwasanaethau fel Sky am bris fforddiadwy yn bwysig iawn i sicrhau eu cynaliadwyedd at y dyfodol.

**The First Minister:** I would be happy enough to support anything that would lower the payments that pubs have to make to Sky. I know that that is an old problem, as it has been raised previously, but ensuring that pubs can receive services like Sky for an affordable amount is extremely important to ensure their sustainability for the future.

**Mike Hedges:** Has the First Minister had further discussions with the national

**Mike Hedges:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau pellach â'r Llywodraeth

Government in Westminster on efforts aimed at tackling binge drinking in Wales? I also wish to tell him and Llyr Huws Gruffydd that cricket clubs get Sky at half price.

genedlaethol yn San Steffan ar yr ymdrechion i fynd i'r afael â goryfed mewn pyliau sy'n digwydd yng Nghymru? Hoffwn hefyd ddweud wrtho ef a Llyr Huws Gruffydd bod clybiau criced yn derbyn gwasanaeth Sky am hanner y pris.

**The First Minister:** I will not comment on whether that is a proper arrangement or not; I will leave that to the Member to explain. However, he raises an important point regarding how we stop binge drinking. We have worked with the UK Government on the development and delivery of Change4Life in Wales, which has been broadened to cover the prevention of alcohol misuse. However, we have to be aware that, while it is exceptionally important to reduce the amount of alcohol that people drink, particularly binge drinking, we must be careful not to throw the baby out with the bathwater—or the beer—thus causing many local pubs that are the heart of their communities to close down. We see many closing, as we have done for the past 50 years, probably. We know that pubs are an exceptionally important part of any community, and we must be careful not to support any blanket policy that would jeopardise their ability to exist.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf am wneud sylw ynghylch a yw hynny'n drefniant priodol ai peidio; gadawaf i'r Aelod esbonio hynny. Fodd bynnag, mae'n codi pwynt pwysig ynglŷn â sut y gallwn atal goryfed mewn pyliau. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu a chyflwyno Newid am Oes yng Nghymru, sydd wedi'i ehangu i gynnwys atal camddefnyddio alcohol. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ymwybodol, er ei bod yn eithriadol o bwysig i leihau faint o alcohol y mae pobl yn ei yfed, yn enwedig goryfed mewn pyliau, rhaid inni fod yn ofalus i beidio â chadw'r brych a lluchio'r babi allan gyda'r dŵr—neu'r cwrw—gan achosi i lawer o dafarnau lleol sydd wrth wraidd eu cymunedau gau. Mae llawer yn cau, fel sydd wedi digwydd dros y 50 mlynedd diwethaf, yn ôl pob tebyg. Gwyddom fod tafarnau yn chwarae rhan eithriadol o bwysig mewn unrhyw gymuned, a rhaid inni fod yn ofalus i beidio â chefnogi unrhyw bolisi cyffredinol a fyddai'n peryglu eu gallu i fodoli.

**Byron Davies:** First Minister, I am sure that it takes no convincing for everyone in the Chamber to agree, particularly those of us who visit pubs on a regular basis—when not in our day jobs—that pubs are the hubs of many of our communities. They are at the centre of village life and are important social hubs in towns and cities. A well-run pub is also a safe place in which to drink responsibly, unlike some of the alternatives. The most immediate way in which you could support licensed premises would be to take a look at business rate relief. Will you commit to do so, please?

**Byron Davies:** Brif Weinidog, rwy'n siŵr na fyddai'n cymryd unrhyw ddarbwyllo ar bawb yn y Siambr i gytuno, yn enwedig y rheini ohonom sy'n ymweld â thafarnau'n rheolaidd—pan na fyddwn wrth ein gwaith beunyddiol—bod tafarnau'n ganolbwyntiau cymunedol. Maent yn ganolog i fywyd pentrefol ac yn ganolfannau cymdeithasol pwysig mewn trefi a dinasoedd. Mae tafarn a reolir yn dda hefyd yn lle diogel i yfed yn gyfrifol, yn wahanol i rai o'r dewisiadau eraill. Y ffordd fwyaf uniongyrchol y gallech gefnogi adeilad trwyddedig fyddai i edrych ar ryddhad ardrethi busnes. A wnewch chi ymrwymo i wneud hynny, os gwelwch yn dda?

**The First Minister:** The best way to help pubs is to ensure that it is a sustainable business. There are good examples of pubs around Wales that are in unpromising areas but that are doing well because of the food and drink that they offer. There are other

**Y Prif Weinidog:** Y ffordd orau o helpu tafarnau yw sicrhau eu bod yn fusnesau cynaliadwy. Ceir enghreifftiau da o dafarnau o amgylch Cymru sydd mewn ardaloedd anaddawol ond sy'n llewyrchus oherwydd y bwyd a diod a gynigiant. Nid yw tafarnau

pubs that are not doing well because they are not well run, in many cases. I have seen many times with my own eyes pubs that have been run into the ground by people who often do not know what they are doing. Making sure that somebody has a sustainable business and customer base is by far the most important way to ensure the survival of any business.

eraill yn gwneud mor dda—mewn sawl achos oherwydd nad ydynt yn cael eu rhedeg yn dda. Rwyf wedi gweld, sawl gwaith fy hun, tafarnau'n cau oherwydd nad oedd eu rheolwyr yn gwybod beth oeddynt yn ei wneud. Y ffordd bwysicaf o sicrhau goroesiad unrhyw fusnes yw sicrhau bod ganddo sylfaen cwsmeriaid a busnes cynaliadwy.

**Prif Lwyddiannau'r Llywodraeth**

**The Government's Main Achievements**

***11. Suzy Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlygu prif lwyddiannau Llywodraeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf. OAQ(4)0480(FM)*

***11. Suzy Davies:*** *Will the First Minister highlight the Welsh Government's main achievements over the last 12 months. OAQ(4)0480(FM)*

**The First Minister:** They will be available in the annual report that will be published at the end of this month.

**Y Prif Weinidog:** Byddant ar gael yn yr adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y mis hwn.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer; I will look forward to seeing that. Your Government makes much of its small and medium-sized enterprise-friendly procurement policy. However, I have a number of examples of contracts that have gone straight to framework rather than being tendered through the public procurement process, thereby denying small and microbusinesses throughout Wales the opportunity to compete for valuable contracts. Bearing in mind what SMEs achieve for Wales, what action are you taking to ensure that all Welsh Government procurement is genuinely fair and open to all?

**Suzy Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw; edrychaf ymlaen at ei weld. Mae eich Llywodraeth yn rhoi pwys mawr ar ei pholisi caffael-gyffeillgar ar gyfer busnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, mae gennyf nifer o enghreifftiau o gontractau sydd wedi mynd yn syth at fframwaith yn hytrach na chael eu tendro drwy'r broses gaffael gyhoeddus, ac felly'n atal y cyfle i fusnesau bach a microfusnesau ledled Cymru gystadlu am gontractau gwerthfawr. Gan gofio'r hyn y mae busnesau bach a chanolig yn ei gyflawni ar gyfer Cymru, pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod holl gaffael Llywodraeth Cymru yn wirioneddol deg ac yn agored i bawb?

**The First Minister:** Our record on procurement has improved greatly over the years, but our record on helping small and medium-sized enterprises is also good. Look at the £15 million for the economic growth fund, the £38.9 million economic stimulus package, which the party opposite opposed, the £19 million of centrally retained capital funding, which is being spent on infrastructure projects throughout Wales, the Jobs Growth Wales scheme, the Skills Growth Wales scheme, and the welcome announcement today that we will see up to 1,000 jobs being created at St Athan, because of an investment being made there. I am very glad to see that Bruce Dickinson, a member of the group Iron Maiden—for those of you

**Y Prif Weinidog:** Mae ein record o ran caffael wedi gwella'n fawr dros y blynyddoedd, ond mae ein record o ran helpu busnesau bach a chanolig eu maint hefyd yn dda. Edrychwch ar y £15 miliwn ar gyfer y gronfa twf economaidd, y pecyn ysgogi economaidd sy'n werth £38.9 miliwn—hwnnw y gwnaeth y blaid gyferbyn ei wrthwynebu—y £19 miliwn o gyllid cyfalaf a gedwir yn ganolog, sy'n cael ei wario ar brosiectau seilwaith ledled Cymru, cynllun Twf Swyddi Cymru, y cynllun Sgiliau Twf Cymru, a'r cyhoeddiad heddiw sydd i'w groesawu y byddwn yn gweld hyd at 1,000 o swyddi'n cael eu creu yn Sain Tathan, oherwydd buddsoddiad sy'n cael ei wneud yno. Rwy'n hynod o falch gweld bod Bruce

who were also teenage boys in the 1980s—saying

Dickinson, aelod o'r grŵp Iron Maiden—i'r rhai ohonoch a oedd hefyd yn fechgyn yn eich arddegau yn y 1980au—wedi dweud

'We've had fantastic support from the Welsh Government—we've been impressed by how pro-active they've been; they've really wanted to make this happen, and we've experienced a level of enthusiasm and drive that has been a delight to behold.'

Rydym wedi cael cefnogaeth wych gan Lywodraeth Cymru—mae wedi creu argraff arnom pa mor rhagweithiol y mae wedi bod; mae wir wedi dymuno i hyn ddigwydd, ac rydym wedi profi lefel o frwdfrydedd ac egni sydd wedi bod yn braf iawn ei weld.

I cannot disagree with that.

Ni allaf anghytuno â hynny.

**Alun Ffred Jones:** Yr her fwyaf sy'n wynebu'r Llywodraeth yng Nghymru yw gwendid yr economi. Er mwyn sicrhau gwaith i gwmnïau yn y maes adeiladu, pa lwyddiant y mae'r Llywodraeth wedi'i gael wrth geisio sicrhau pwerau benthyca oddi wrth y Llywodraeth yn Llundain, ac wrth greu cynlluniau i godi arian cyfalaf o ffynonellau amgen i'r bloc grant?

**Alun Ffred Jones:** The greatest challenge facing the Government in Wales is the fragility of the economy. In order to provide work for companies in the construction sector, what success has the Government had in trying to secure borrowing powers from the Government in London, and in creating proposals to generate capital funding from sources other than the block grant?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ddadl yn mynd rhagddi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ond efallai fod pethau eraill ar ei meddwl ar hyn o bryd. Rydym yn edrych ar fodelau eraill hefyd, ac mae gwaith yn cael ei wneud gan Gerry Holtham i ddatblygu modelau eraill a fyddai o fudd i Lywodraeth a phobl Cymru.

**The First Minister:** That debate is ongoing with the United Kingdom Government at the moment but perhaps it has other things on its mind at the moment. We are considering other models too, and work is being carried out by Gerry Holtham to develop other models that would be of benefit to the Government and people of Wales.

### Blaenoriaethau ar gyfer Aberafan

### Priorities for Aberavon

***12. David Rees:*** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Aberafan ar gyfer gweddill 2012. OAQ(4)0482(FM)*

***12. David Rees:*** *What are the Welsh Government's priorities for Aberavon for the remainder of 2012. OAQ(4)0482(FM)*

**The First Minister:** They are found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Maent i'w gweld yn y rhaglen lywodraethu.

**David Rees:** The £800 million-worth investment announced by Tata Steel over the Easter period is great news for south Wales and the Welsh steel industry, and especially for Port Talbot works in my constituency. I thank the Welsh Government for its effort and work with Tata Steel. Since your return from India, have you had meetings with representatives of Tata Steel in Wales to discuss how that investment will be used, and do you agree with me that the funding provides a long-term vision for steelmaking in Wales?

**David Rees:** Mae'r £800 miliwn o fuddsoddiad a gyhoeddwyd gan Tata Steel dros gyfnod y Pasg yn newyddion gwych i dde Cymru ac i'r diwydiant dur yng Nghymru, ac yn enwedig i'r gweithfeydd ym Mhort Talbot yn fy etholaeth i. Diolch i Lywodraeth Cymru am ei hymdrech a'i gwaith gyda Tata Steel. Ers ichi ddychwelyd o India, a ydych wedi cael cyfarfodydd â chynrychiolwyr Tata Steel yng Nghymru i drafod sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio, ac a gytunwch â mi bod y cyllid yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer cynhyrchu dur yng Nghymru?

**The First Minister:** Yes. I met with representatives from Wales yesterday. They gave me more detail as to how the investment will be taken forward. That detail is not in the public domain yet. We discussed a number of issues and we are now looking forward to working with Tata to further develop job opportunities in and around the Port Talbot works.

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Cyfarfûm â chynrychiolwyr o Gymru ddoe. Rhoesant imi fwy o fanylion ynghylch sut y bydd y buddsoddiad yn cael ei ddatblygu. Nid yw'r manylion hynny ar gael i'r cyhoedd eto. Trafodwyd nifer o faterion ac rydym yn awr yn edrych ymlaen at weithio gyda Tata i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd gwaith yng ngweithfeydd Port Talbot ac o'u cwmpas.

2.15 p.m.

**Byron Davies:** First Minister, it has become clear that your priority is to try to hoodwink constituents in Aberavon into thinking that your centralisation of the NHS in Wales and the downgrading of local services will improve services, when the evidence speaks for itself in terms of local community resources. Your Government is so out of touch that you are recruiting doctors into your public relations machine to try to convince patients from Aberavon of your ill-thought-through and dangerous plans. Will your Labour Government in Wales stop wasting taxpayers' money on PR stunts and concentrate on delivery rather than spin?

**Byron Davies:** Brif Weinidog, mae bellach yn amlwg mai eich blaenoriaeth yw ceisio twyllo etholwyr yn Aberafan i feddwl y bydd eich proses o ganoli'r GIG yng Nghymru ac israddio gwasanaethau lleol yn gwella gwasanaethau, pan fo'r dystiolaeth yn siarad drosti'i hun o ran adnoddau cymunedol lleol. Mae eich Llywodraeth mor ynysig fel eich bod yn recriwtio meddygon i fod yn rhan o'ch peiriant cysylltiadau cyhoeddus i geisio darbwyllo cleifion o Aberafan ynghylch eich cynlluniau difeddwl a pheryglus. A wnaiff eich Llywodraeth Lafur yng Nghymru roi'r gorau i wastraffu arian trethdalwyr ar styntiau cysylltiadau cyhoeddus a chanolbwyntio ar gyflawni yn hytrach na sbin?

**The First Minister:** I would love to see who wrote that for him, because I know that he is not capable of making that kind of speech himself. [*Interruption*.]

**Y Prif Weinidog:** Byddwn wrth fy modd yn gweld pwy a ysgrifennodd y geiriau hynny iddo, gan fy mod yn gwybod nad oes ganddo'r gallu i lunio araith fel honno ei hun.[*Torri ar draws*.]

As far as what he said is concerned, we will not take any lessons from the party opposite as it wrecks and privatises the NHS in England. As it looks to destroy the NHS in England, we in Wales will protect the NHS and we will make sure that the party opposite never gets its hands on the levers of power to destroy the lives and health of so many people in Wales.

O ran yr hyn a ddywedodd, ni wrandawn ar wersi gan y blaid gyferbyn gan ei bod yn dryllio a phreifateiddio'r GIG yn Lloegr. Wrth iddi ystyried dinistrio'r GIG yn Lloegr, byddwn ni yng Nghymru yn amddiffyn y GIG ac yn sicrhau na fydd y blaid gyferbyn byth yn cael gafael ar yr awenau i ddinistrio bywydau ac iechyd cynifer o bobl yng Nghymru.

Presiding Officer, I withdraw the comment I made to the Member at the beginning of my response.

Lywydd, tynnaf yn ôl fy sylw i'r Aelod ar ddechrau fy ymateb.

**The Presiding Officer:** Thank you for that, because I was going to allow a point of order later. I see that Byron Davies is content with that.

**Y Llywydd:** Diolch ichi am hynny, oherwydd roeddwn yn mynd i ganiatáu pwynt o drefn yn ddiweddarach. Gwelaf fod Byron Davies yn fodlon ar hynny.

**Bethan Jenkins:** Rydym yn gwybod bod yr heddlu yn ne Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Cefais gyfarfod â'r heddlu yn fy swyddfa ar y mater hwn a bu iddynt ddweud bod cau'r orsaf heddlu ym Mhort Talbot yn un o'r cynigion ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chau nifer o orsafoedd eraill. Beth wnewch chi, drwy siarad â'r heddlu, am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gymuned gan na fydd gorsaf ar agor ar stepen ei drws?

**Bethan Jenkins:** We know that the police in South Wales are currently consulting on changes to services. I have had a meeting with the police in my office to discuss this matter and they said that closing the Port Talbot police station is one of the proposals on the table for the future, along with the closure of a number of other stations. What will you do, through discussions with the police, about the effect on the community of not having a police station on its doorstep?

**Y Prif Weinidog:** Mae sialensiau i Heddlu De Cymru ac i bob heddlu yng Nghymru o ganlyniad i'r toriadau mawr yn eu cyllidebau. Wrth gwrs, mae rhai gorsafoedd heddlu mawr iawn, a hynny oherwydd anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pobl yn gallu galw heddwas i'r tŷ cyn gynted â phosibl, ac rwy'n deall y bydd pryder mewn cymunedau wrth i rai gorsafoedd gau.

**The First Minister:** South Wales Police, along with all other police forces in Wales, faces challenges as a result of the huge budget cuts. Of course, some police stations are extremely large, due to the requirements of the communities they serve. However, it is important that people are able to get a police officer to their home as quickly as possible, and I understand the concern that some communities will feel due to the closure of stations.

### Marchnad Swyddi

### Jobs Market

***13. Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith twristiaeth ar y farchnad swyddi yng Nghymru. OAQ(4)0475(FM)*

***13. Sandy Mewies:** Will the First Minister make a statement on the impact tourism has on the jobs market in Wales. OAQ(4)0475(FM)*

**The First Minister:** Yes. Tourism provides 78,000 direct full-time job equivalents in tourism dependent employment.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae twristiaeth yn darparu yr hyn sy'n gyfwerth â 78,000 o swyddi llawn-amser uniongyrchol mewn gwaith sy'n dibynnu ar dwristiaeth.

**Sandy Mewies:** Caravan parks in Wales bring in about £727 million a year and provide thousands of jobs. Award-winning park owners from my constituency of Delyn are absolutely dismayed at the UK coalition Government plans to slap VAT changes on caravans, which, by Her Majesty's Revenue and Customs figures alone, could lead to a 30% drop in sales. It will hit jobs and put holiday homes out of reach for hard-working families on modest incomes. Is there anything that the Welsh Government can do to mitigate this petty and punitive change to protect not just those in the tourism sector, but shops and other businesses that benefit from the spend that visitors bring to our lovely area?

**Sandy Mewies:** Mae parciau carafanau yng Nghymru yn cyfrannu tua £727 miliwn y flwyddyn i'r economi ac yn darparu miloedd o swyddi. Mae perchnogion parciau sydd wedi ennill gwobrau yn fy etholaeth yn Nelyn wedi'u siomi'n llwyr â chynlluniau Llywodraeth glymblaid y DU i gyflwyno newidiadau TAW ar garafanau, a allai, yn ôl ffigurau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi'n unig, arwain at ostyngiad o 30% mewn gwerthiant. Bydd yn ergyd i swyddi ac yn peri na fydd cartrefi gwyliau o fewn cyrraedd teuluoedd sy'n gweithio'n galed ar incwm digon cymedrol. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru'r newid pitw a lym hwn i ddiogelu, nid yn unig y rhai yn y sector twristiaeth, ond siopau a busnesau eraill sy'n elwa o wariant ymwelwyr a ddaw i'n hardal hyfryd?

**The First Minister:** The UK Government's budget reduced tax for those who earn the most and imposed taxes on ordinary people. We saw that with what has been called 'the pasty tax', which is an imposition of VAT on many people, and we now see it in the context of caravans. We know that we represent many constituents who work hard, save and aspire to buy a caravan somewhere. There are many people in those circumstances. I do not think that any members of the UK Cabinet have a caravan anywhere, and imposing this extra charge on ordinary people shows how out of touch they are.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaeth cyllideb Llywodraeth y DU ostwng y dreth ar gyfer y rhai sy'n ennill yr arian mwyaf a gosod trethi ar bobl gyffredin. Gwelsom hynny gyda'r hyn a elwir 'y dreth pastai', sy'n gorfodi TAW ar lawer o bobl, ac yn awr rydym yn ei weld yng nghyd-destun carafanau. Gwyddom ein bod yn cynrychioli nifer o etholwyr sy'n gweithio'n galed, yn cynilo ac yn anelu at brynu carafán yn rhywle. Mae llawer o bobl yn y sefyllfa honno. Ni chredaf fod gan ddim un aelod o Gabinet y DU garafán yn unman, ac mae gosod y tâl ychwanegol hwn ar bobl gyffredin yn dangos mor ynysig ydynt.

**Antoinette Sandbach:** The construction of new onshore wind energy projects and new grid infrastructure will inevitably have an impact on the appeal of the Welsh countryside as a tourist destination. Do you share the concerns of many small businesses across rural Wales that are dependent on tourism that your Government has made no assessment of the impact that these combined infrastructure projects will have on the Welsh tourism industry? Do you agree that it would be wrong for your Government to continue to ignore the threat to that tourism industry, which is worth more than £1.8 billion in north Wales alone? Will you now commission survey research on the impact of pylons and windfarms on tourism?

**Antoinette Sandbach:** Mae'n anochel y bydd y gwaith o adeiladu prosiectau ynni gwynt newydd ar y tir a seilwaith grid newydd yn cael effaith ar apêl cefn gwlad Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. A ydych yn pryderu fel nifer o fusnesau bach ar draws y Gymru wledig sy'n ddibynnol ar dwristiaeth sy'n dweud nad yw eich Llywodraeth wedi cynnal asesiad o'r effaith a gaiff y prosiectau seilwaith hyn gyda'i gilydd ar ddiwydiant twristiaeth Cymru? A gytunwch y byddai'n anghywir i'ch Llywodraeth barhau i anwybyddu'r bygythiad i'r diwydiant twristiaeth hwnnw, sy'n werth dros £1.8 biliwn yng ngogledd Cymru yn unig? A wnewch yn awr gomisiynu arolwg ymchwil ar effaith peilonau a ffermydd gwynt ar dwristiaeth?

**The First Minister:** The major projects have been taken forward by the UK Government, so there would be very little point in commissioning such research unless the UK Government was doing the same, and it refuses to do so.

**Y Prif Weinidog:** Llywodraeth y DU sy'n ymdrin â'r prosiectau mawr, felly ni fyddai llawer o ddiben comisiynu ymchwil o'r fath oni bai fod Llywodraeth y DU yn gwneud yr un peth, ac mae'n gwrthod gwneud hynny.

**Llyr Huws Gruffydd:** Pa ystyriaeth mae eich Llywodraeth wedi ei roi i gyflwyno elfen o dymoroldeb i'r system treth busnes er mwyn helpu busnesau sy'n dibynnu ar dwristiaeth i ddatblygu ac, wrth gwrs, i greu mwy o swyddi yn y cyfnod anodd hwn?

**Llyr Huws Gruffydd:** What consideration has the Government given to introducing an element of seasonality to the business rates system in order to assist businesses that depend on tourism for their development and, of course, to create more jobs during this difficult time?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n ddiddorol, ond mae'n rhaid inni aros i weld beth fydd casgliadau'r grŵp sy'n paratoi adroddiad ar drethi busnes ac ystyried y casgliadau hynny.

**The First Minister:** That is interesting, but we must wait to see the conclusions of the group tasked with producing a report on business rates and then consider those conclusions.

**Amddiffyn Adeiladau**

*__14. Bethan Jenkins:__ Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn adeiladau o gyfnod diwydiannol Cymru. OAQ(4)0486(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Ar hyn o bryd, mae dros 1,000 o strwythurau diwydiannol yng Nghymru yn cael eu gwarchod drwy statud ac mae Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, wedi cynnig grantiau i gadw a chynnal dyfodol strwythurau sydd yn bwysig yng Nghymru. Bydd cyfle yn ystod y tymor hwn i drafod Bil i warchod ein hetifeddiaeth yng Nghymru, yn enwedig ein hetifeddiaeth adeiladol.

**Bethan Jenkins:** Diolch am yr ateb hwnnw. Ers y 1950au, mae nifer fawr o adeiladau wedi cael eu dymchwel. Rwyf wedi dweud sawl gwaith yn y Siambr fod y Customs House ym Mhort Talbot yn mynd i gael ei ddymchwel cyn bo hir er mwyn codi tai ar yr arfordir. A oes unrhyw ffordd y gall Llywodraeth Cymru, cyn i'r Bil treftadaeth newydd ddod i rym, roi mesurau yn eu lle yn y tymor byr i sicrhau na fydd adeiladau sydd mor bwysig i ardaloedd fel Port Talbot yn cael eu dymchwel gan sicrhau na fydd rhan o hanes yr ardal yn diflannu o flaen ein llygaid?

**Y Prif Weinidog:** Y broblem yw bod sawl adeilad yng Nghymru ym mherchnogaeth pobl nad ydynt yn gallu neu eisiau gwario arian ar yr adeiladau. Oherwydd hynny, maent yn cwympo i lawr. Gall olygu weithiau fod adeiladau yn llosgi i lawr neu yn cael eu tynnu i lawr. Mae'n rhaid newid y gyfraith ynglŷn â hen adeiladau yng Nghymru, a rhaid gwneud hynny drwy gyflwyno Bil er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei newid mewn ffordd sylfaenol.

**Mike Hedges:** I was very pleased to hear your last comments, First Minister, because I was going to ask you about that in my question. The other thing that I was going to ask is whether you would be willing to consider setting up a historical buildings taskforce to examine and identify possible twenty-first century uses for some of these extraordinary buildings in Wales?

**Protect Buildings**

*__14. Bethan Jenkins:__ What is the Welsh Government doing to protect buildings from Wales's industrial era. OAQ(4)0486(FM)*

**The First Minister:** Currently, over 1,000 Welsh industrial structures are protected by statute and the Welsh Government, through Cadw, has offered grants to maintain and sustain the future of important structures in Wales. There will be an opportunity during this term to discuss a Bill to protect our heritage in Wales, particularly our built heritage.

**Bethan Jenkins:** Thank you for that reply. Since the 1950s, a large number of buildings have been demolished. I have said many times in the Chamber that the Customs House in Port Talbot is to be demolished before long to make way for housing on the coast. Is there any way for the Welsh Government, before the heritage Bill becomes law, to put measures in place in the short term to ensure that buildings that are so important for areas such as Port Talbot are not demolished, thereby ensuring that local history does not disappear right in front of us?

**The First Minister:** The problem is that a number of Welsh buildings are in the ownership of people who are unable or unwilling to spend on them. As a result, they are falling down. It can sometimes mean that buildings burn or are demolished. The law on old buildings in Wales must be changed, and that has to be done by way of a Bill in order to ensure that there is a fundamental change in the law.

**Mike Hedges:** Roeddwn yn hynod falch o glywed eich sylwadau diwethaf, Brif Weinidog, gan fy mod yn mynd i ofyn ichi am hynny yn fy nghwestiwn. Y peth arall yr oeddwn yn mynd i'w ofyn oedd a fyddech yn barod i ystyried sefydlu tasglu adeiladau hanesyddol i ymchwilio a nodi sut y gellid defnyddio rhai o'r adeiladau rhyfeddol hyn yn yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru?

**The First Minister:** Government officials are currently running workshops with external organisations and consultees on the heritage environment, including the scope of the proposed heritage Bill. Some of the issues under discussion include new uses for disused listed buildings. What you have said regarding the way in which we seek to protect buildings in the meantime will form part of that work. If there is work that can be done to ensure that greater protection is given to valued buildings before the Bill is put in place, then we will of course consider that.

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddogion y Llywodraeth yn cynnal gweithdai gyda sefydliadau allanol ac ymgyngoreion ar yr amgylchedd treftadaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys cwmpas y Bil treftadaeth arfaethedig. Mae rhai o'r materion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys defnydd newydd ar gyfer adeiladau rhestredig segur. Bydd yr hyn a ddywedasoch am y ffordd yr ydym yn ceisio diogelu adeiladau yn y cyfamser yn rhan o'r gwaith hwnnw. Os oes gwaith y gellir ei wneud i sicrhau bod adeiladau gwerthfawr yn cael eu diogelu'n well cyn i'r Bil gael ei roi ar waith, yna byddwn, wrth gwrs, yn ystyried hynny.

**Mark Isherwood:** I have been working for many years with Brymbo heritage group to try to get protection for and ensure the conservation of the unique ironworks and associated features in the environment, such as the fossil forest—I am talking about a period of five or six years. We have engaged with the Welsh Government progressively. We appreciate that the Welsh Government does not have the resource or the responsibility to rebuild the site, but we hope that the Welsh Government will put in emergency protection. What action can the Welsh Government take through Cadw to ensure that it at last produces the schedule of listed buildings that is needed to go forward and to ensure that, in similar situations, urgent attention to protect is put in place, thus allowing the luxury of time to deal with the longer term regeneration and conservation issue?

**Mark Isherwood:** Bûm yn gweithio ers nifer o flynyddoedd gyda grŵp treftadaeth Brymbo i geisio diogelu a sicrhau cadwraeth y gwaith haearn unigryw a nodweddion cysylltiedig yn yr amgylchedd, megis y goedwig ffosilau—rwyf yn sôn am gyfnod o bum neu chwe blynedd. Rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gynyddol. Sylweddolwn nad oes gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau na'r cyfrifoldeb i ailadeiladu'r safle, ond gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei amddiffyn ar frys. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd drwy Cadw i sicrhau ei bod o'r diwedd yn cynhyrchu'r rhestr o adeiladau rhestredig sydd ei hangen i symud ymlaen ac i sicrhau, mewn sefyllfaoedd tebyg, fod sylw brys i amddiffyn yn cael ei roi ar waith, gan ganiatáu rhywfaint o amser i fynd i'r afael ag adfywio a chadwraeth yn y tymor hir?

**The First Minister:** Yes, the full restoration of Brymbo would cost around £3 million; that is what the Cadw report showed in 2010. Cadw does not own the site, although officials have met the owners frequently to discuss options for the future. It is a scheduled monument and is eligible for grant aid, but it is difficult to lead a conservation project on a privately owned site. In terms of the way in which the matter is taken forward, once again, discussions will continue in order to see whether there is a way to ensure the preservation of the site in the longer term, but under appropriate ownership.

**Y Prif Weinidog:** Ie, byddai adfer Brymbo yn llwyr yn costio tua £3 miliwn; dyna a ddangosodd adroddiad Cadw yn 2010. Nid yw Cadw yn berchen ar y safle, er bod swyddogion wedi cwrdd â'r perchnogion yn gyson i drafod opsiynau ar gyfer y dyfodol. Mae'n heneb gofrestredig ac yn gymwys i dderbyn cymorth grant, ond mae'n anodd cynnal prosiect cadwraeth ar safle sy'n eiddo preifat. O ran y ffordd y mae'r mater yn mynd yn ei flaen, unwaith eto, bydd trafodaethau'n parhau er mwyn gweld a oes modd sicrhau cadwraeth y safle yn y tymor hwy, ond o dan berchnogaeth briodol.

**David Rees:** First Minister, like the Member for South Wales West, I have also raised the

**David Rees:** Brif Weinidog, fel yr Aelod dros Orllewin De Cymru, rwyf finnau wedi

issue of the Royal Buildings and Customs House a couple of times in this Chamber. As a resident of Port Talbot, I often see the buildings and I have seen the work that is being carried out daily at the moment. I raised a question with the Minister for Housing, Regeneration and Heritage about a local authority local list. In order to provide a mechanism for the protection of these buildings, which may reflect part of our industrial heritage in the town, will the Welsh Government ensure that the heritage Bill or the planning Bill places a statutory requirement upon local authorities to develop a local list and to consult fully with the public on that list?

tynnu sylw at y Royal Buildings a Customs House fwy nag unwaith yn y Siambr hon. Fel un o drigolion Port Talbot, rwyf yn gweld yr adeiladau yn aml ac yn gweld y gwaith sy'n cael ei wneud yn ddyddiol ar hyn o bryd. Gofynnais gwestiwn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ynglŷn â rhestr awdurdod lleol. Er mwyn darparu mecanwaith ar gyfer diogelu'r adeiladau hyn, a allai adlewyrchu rhan o'n treftadaeth ddiwydiannol yn y dref, a wnaiff Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Bil treftadaeth neu'r Bil cynllunio yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ddatblygu rhestr leol ac i ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd ar y rhestr?

**The First Minister:** Yes. One of the discussions taking place at the moment in preparation for the heritage Bill is on the issue of local listing and controlling the demolition of local buildings that are important but not listed. These are all matters that will form the basis of the Bill when it is introduced so that we can have a more sustainable system of heritage protection than perhaps has been the case over the past 50 years in particular. We know that many buildings were lost in the 1960s at a time when I can only begin to imagine that there was an obsession with what was seen as 'modernism' and, therefore, the demolition of historic buildings. Fortunately, we have moved on from that time.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaiff. Mae un o'r trafodaethau sydd ar y gweill ar hyn o bryd wrth baratoi ar gyfer y Bil treftadaeth yn ymwneud â rhestru'n lleol a rheoli'r broses o ddymchwel adeiladau lleol o bwys ond sydd heb eu rhestru. Mae'r rhain i gyd yn faterion a fydd yn sylfaen i'r Bil pan gaiff ei gyflwyno fel y gallwn sicrhau system fwy cynaliadwy o ddiogelu ein treftadaeth nag sydd wedi bod, efallai, dros y 50 mlynedd diwethaf. Gwyddom ein bod wedi colli llawer o adeiladau yn y 1960au ar adeg pan wyf yn lled-dybio bod obsesiwn gyda'r hyn a ystyrid yn 'foderniaeth' ac, felly, dymchwelwyd adeiladau hanesyddol. Yn ffodus, rydym wedi symud ymlaen o'r cyfnod hwnnw.

### Hybu'r Diwydiant Twristiaeth

### Promoting the Tourism Industry

***15. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hybu'r diwydiant twristiaeth. OAQ(4)0479(FM)*

***15. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to promote the tourism industry. OAQ(4)0479(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo Cymru fel lle i ymweld ag ef.

**The First Minister:** The programme for government sets out the actions being taken to promote Wales as a destination.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r ffigurau sy'n dangos nifer y bobl o Brydain a ddaeth ar wyliau i Gymru yn 2011 yn galonogol iawn, ond mae sicrhau bod y rhain yn ymweld â'n hatyniadau yr un mor bwysig o safbwynt cyflogaeth a llwyddiant. Mae amryw o'r atyniadau hyn yn anfodlon gyda'r polisi presennol o arwyddion brown sy'n cyfeirio

**Alun Ffred Jones:** The figures on the number of people from Britain who holidayed in Wales in 2011 are very encouraging, but ensuring that these people visit our attractions is just as important in terms of employment and success. A number of attractions are unhappy with the current policy of brown signs to direct people to

pobl at yr atyniadau. Mae'r polisi presennol, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r polisi yn Lloegr yn union. A fyddai'r Llywodraeth yn barod i ailedrych ar y polisi hwn ac i ailasesu'r gofynion yn wyneb anghenion yng Nghymru?

attractions. The current policy is, in fact, exactly the same as the policy in England. Would the Government be willing to revisit this policy to reassess the requirements, in light of what is needed in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater sydd wedi ei godi o dro i dro. Mae'n amlwg bod gan rai awdurdodau lleol safbwynt gwahanol i eraill. Mae gan rai awdurdodau lleol lwyth o arwyddion brown, pan nad oes cymaint gan eraill. Felly, codaf y mater gyda'r Gweinidog ac ysgrifennu atoch gyda manylion.

**The First Minister:** This is an issue that has been raised from time to time. It is clear that local authorities have different ways of looking at this. Some local authorities have lots of brown signs, while others do not have so many. Therefore, I will raise the issue with the Minister and write to you with the details.

**Suzy Davies:** First Minister, the Proper Holidays campaign by Visit Wales is one way of marketing Wales, but do you agree that it should not be the only campaign? The 2012 Staycation campaign has a prominent position alongside local campaigns by Visit England and Visit Scotland. However, there is little detail about it on the Visit Wales website. Will you ensure that Wales plays its parts in the 2012 Staycation campaign, and that tourism operators are encouraged to sign up to the 20.12% discount scheme?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, mae ymgyrch Gwyliau Go Iawn Croeso Cymru yn un ffordd o farchnata Cymru, ond a gytunwch â mi nad hon ddylai fod yr unig ymgyrch? Mae gan yr ymgyrch i fynd ar wyliau yn y DU yn 2012 le blaenllaw ochr yn ochr ag ymgyrchoedd lleol gan Visit England a Visit Scotland. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion sydd am hyn ar wefan Croeso Cymru. A wnewch sicrhau bod Cymru yn chwarae ei rhan yn ymgyrch Staycation 2012, a bod gweithredwyr twristiaeth yn cael eu hannog i ymuno â'r cynllun disgownt 20.12%?

**The First Minister:** I think that I misheard the Member there; I thought that I heard her say that the 2012 Staycation campaign was a communist campaign, but that was probably not what she said. Nevertheless, she raises an important point. In terms of the You're invited campaign, Visit Wales is currently working with Visit England on a version of the VisitBritain You're invited campaign that will run in the UK market. Visit Wales will ensure that the media planning of the campaign is designed to take optimum advantage of the heightened interest in taking holidays in the UK that will be stimulated by the campaign. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science recently agreed an additional £850,000 for domestic marketing, which included redirecting some funds previously earmarked for European markets. This will enable Wales to be highly visible during the campaign.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fy mod wedi camglywed yr Aelod; roeddwn yn credu imi ei chlywed yn dweud mai ymgyrch gomiwnyddol oedd ymgyrch Staycation 2012, ond go brin mai dyna a ddywedodd. Serch hynny, mae'n codi pwynt pwysig. O ran yr ymgyrch Fe'ch gwahoddir, mae Croeso Cymru yn cyd-weithio â Visit England ar fersiwn o ymgyrch Fe'ch gwahoddir VisitBritain, a fydd yn cael ei chynnal ym marchnadoedd twristiaeth y DU. Bydd Croeso Cymru yn sicrhau bod y cynllunio ar gyfer y cyfryngau wedi'i lunio i fanteisio'n llwyr ar y diddordeb cynyddol mewn gwyliau yn y DU a gaiff ei sbarduno gan yr ymgyrch. Yn ddiweddar cytunodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i roi £850,000 yn ychwanegol ar gyfer marchnata yma, cam a oedd yn cynnwys ailgyfeirio rhywfaint o arian a glustnodwyd eisoes ar gyfer marchnadoedd Ewropeaidd. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fod yn weladwy iawn yn ystod yr ymgyrch.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** There are no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Nid oes dim newidiadau ym musnes arfaethedig yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael yn electronig i'r Aelodau.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement. Will she liaise with the Minister for Health and Social Services to make a statement on accident and emergency department services, particularly those in south-east Wales? They regularly and most regrettably fail to meet the target of dealing with 95% of patients within four hours. The latest figures for March of this year indicate that 1,400 patients waited longer than the standard four hours. At the Royal Gwent Hospital, 89% of patients were seen within four hours, and at Nevill Hall Hospital, the figure was 87%. It is also regrettable that a substantial number of patients waited more than eight hours. The Cabinet minutes of the 13 March meeting contain the document 'Together for Health—Why change is needed', which notes that

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad. A wnaiff hi gysylltu â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud datganiad ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys, yn enwedig y rhai yn ne-ddwyrain Cymru? Yn anffodus, maent yn rheolaidd yn methu â chyrraedd y targed o ymdrin â 95% o gleifion o fewn pedair awr. Awgryma'r ffigurau diweddaraf ar gyfer mis Mawrth eleni fod 1,400 o gleifion wedi aros yn hwy na'r pedair awr ddisgwyliedig. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, cafodd 89% o gleifion eu gweld o fewn pedair awr, ac yn Ysbyty Nevill Hall, 87% oedd y ffigur. Mae hefyd yn anffodus bod nifer sylweddol o gleifion wedi aros dros wyth awr. Mae cofnodion y Cabinet o gyfarfod 13 Mawrth yn cynnwys y ddogfen 'Law yn Llaw at Iechyd – Pam fod angen Newid', sy'n nodi

'The number of sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services will need to be reduced'.

y bydd angen gostwng nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys o dan arweiniad ymgynghorwyr 24/7.

Therefore, I call for an urgent statement on this issue.

Felly, rwyf yn galw am ddatganiad brys ar y mater hwn.

**Jane Hutt:** To respond to the Member for South Wales East on this important point about NHS performance. The end-of-year position will be published on 10 May and the provisional figure showed that a great deal of progress has been made across the board, including in A&E.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru ar y pwynt pwysig hwn am berfformiad y GIG. Bydd y sefyllfa ddiwedd blwyddyn yn cael ei chyhoeddi ar 10 Mai ac mae'r ffigur dros dro yn dangos bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud yn gyffredinol, gan gynnwys ym maes damweiniau ac achosion brys.

2.30 p.m.

**Rebecca Evans:** I warmly welcomed the ban on the use of battery cages for laying hens,

**Rebecca Evans:** Roeddwn yn croesawu'n fawr y gwaharddiad ar ddefnyddio cewyll

which came into force across the EU at the beginning of this year. I would welcome a statement from the Government to update us on a number of related issues. We are a net importer of eggs in Wales and the Welsh Government has said that it will seek to support Welsh producers by carrying out tests on eggs coming from Europe, to ensure that they are compliant with the ban. I would be keen to receive an update on how many eggs have been tested and whether any have been found to be non-compliant. The Welsh egg industry has invested a large amount of money in ensuring that it complies with the ban but, unfortunately, 13 EU countries have not complied, and the result has been a shortage of importable eggs and a four-fold increase in the price of wholesale eggs. What assessment has the Welsh Government made of the effect that this is having on businesses here, from large ready-meal producers to artisan cake makers? Finally, Minister, the shortage has regrettably led to the importation of liquid egg in tankers from outside the EU, which does not necessarily meet the welfare conditions that we would like. How is the Welsh Government working with the UK Government and the EU to ensure that production across member states is brought up to standard as soon as possible?

batri ar gyfer ieir dodwy, a ddaeth i rym ar draws yr UE ar ddechrau'r flwyddyn hon. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am nifer o faterion cysylltiedig. Rydym yn fewnforiwr net o wyau yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn ceisio cefnogi cynhyrchwyr o Gymru drwy gynnal profion ar wyau sy'n dod o Ewrop, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gwaharddiad. Rwy'n awyddus i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faint o wyau sydd wedi cael eu profi ac a ganfuwyd unrhyw wyau nad oeddent yn cydymffurfio â'r gwaharddiad. Mae diwydiant wyau Cymru wedi buddsoddi swm mawr o arian i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gwaharddiad ond, yn anffodus, nid yw 13 o wledydd yr UE wedi cydymffurfio ag ef, ac o ganlyniad i hyn, cafwyd prinder o ran yr wyau y gellid eu mewnforio a chododd eu pris bedair gwaith drosodd. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o effaith hyn ar fusnesau fan hyn, o gynhyrchwyr blaenllaw prydau parod i bobl grefftus sy'n gwneud cacennau? Yn olaf, Weinidog, yn anffodus, mae'r prinder wedi arwain at fewnforio wyau hylif mewn tanceri o'r tu allan i'r UE, nad ydynt o reidrwydd yn cwrdd â'r amodau lles fel y byddem yn dymuno. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r UE i sicrhau bod safon y cynhyrchu yn cael ei godi i'r safon ofynnol ar draws yr aelod-wladwriaethau cyn gynted ag y bo modd?

**Jane Hutt:** I thank Rebecca Evans for that question. The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes is continuing to monitor the situation and the consequences of the policy for producers and processors. He is working very closely with the UK Government on this matter. Indeed, with the powers that he has as a Welsh Minister, he has already made a decision on the enforcement of the ban in the best interest of the industry here in Wales. Members would be also interested to know that the Deputy Minister accompanied egg inspectors on a visit during the recess to see for himself how the new inspection regime is reporting, and he is happy to make a further statement to Members as and when necessary.

**Jane Hutt:** Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw. Mae'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn parhau i fonitro'r sefyllfa a goblygiadau'r polisi ar gyfer cynhyrchwyr a phroseswyr. Mae'n gweithio'n agos iawn â Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Yn wir, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ganddo fel un o Weinidogion Cymru, mae eisoes wedi gwneud penderfyniad ynghylch gorfodi'r gwaharddiad er budd y diwydiant yma yng Nghymru. Bydd gan Aelodau hefyd ddiddordeb mewn clywed bod y Dirprwy Weinidog wedi ymuno ag arolygwyr wyau ar ymweliad yn ystod y toriad i weld drosto'i hun sut y mae'r gyfundrefn arolygu newydd yn adrodd yn ôl, ac mae'n hapus i wneud

datganiad arall i Aelodau yn ôl yr angen.

**Elin Jones:** Weinidog, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gyflogwr pwysig yn Aberystwyth ac yn adnodd cenedlaethol o bwys hefyd. Yr wythnos diwethaf, dywedodd llefarydd y Llywodraeth wrth y *Cambrian News* bod y Llywodraeth yn ystyried opsiynau a modelau strwythurol newydd ar gyfer y comisiwn ac ar gyfer Cadw hefyd. A wnaiff y Gweinidog gytuno i wneud datganiad i'r Cynulliad ynglŷn â'r opsiynau sydd ar ei feddwl o ran dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw?

**Elin Jones:** Minister, the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales is an important employer in Aberystwyth, and is also an important national resource. Last week, a Government spokesperson told the *Cambrian News* that the Government was considering new options and structural models for the comission and for Cadw. Will the Minister agree to make a statement to the Assembly on the options that he has in mind for the future of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales and Cadw?

**Jane Hutt:** I can respond to Elin Jones on behalf of the Minister to say that he recently met with representatives of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, to look at how he could ensure the long-term resilience of the historic environment sector in a climate of reduced public funding. Further meetings are being held with Cadw and the royal commission, exploring models for the future. It is very early days in these discussions and I am sure the Minister will want to report on progress.

**Jane Hutt:** Gallaf ymateb i Elin Jones ar ran y Gweinidog drwy ddweud ei fod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn ddiweddar i ystyried sut y gall sicrhau gwydnwch hirdymor sector yr amgylchedd hanesyddol yng nghyd-destun llai o gyllid cyhoeddus. Cynhelir cyfarfodydd pellach â Cadw a'r comisiwn brenhinol, gan ystyried modelau at y dyfodol. Mae'n gynnar iawn yn y trafodaethau hyn ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i adrodd ar gynnydd.

**Kirsty Williams:** Minister, would you find time in Assembly business for the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes to make a statement on the red meat sector and the Welsh Government's support for farmers, co-operatives and marketing groups? Such a statement is both urgent and timely, given the actions of the VION Food Group, which is imposing direct payments on farmers for their livestock and undermining such co-ops and marketing groups. The undermining of these groups is a potentially worrying shift in power in the red meat sector—a sector upon which Welsh agriculture is highly dependent.

**Kirsty Williams:** Weinidog, a wnewch chi ddod o hyd i amser ym musnes y Cynulliad er mwyn i'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd wneud datganiad ar y sector cig coch a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ffermwyr, cwmnïau cydweithredol a grwpiau marchnata? Mae angen datganiad o'r fath ar fyrder o ystyried camau gweithredu grŵp bwyd VION, sy'n gosod taliadau uniongyrchol ar ffermwyr am eu da byw ac yn tanseilio cwmnïau cydweithredol a grwpiau marchnata o'r fath. Mae tanseilio'r grwpiau hyn yn newid mewn grym yn y sector cig coch a allai beri pryder—sector y mae amaethyddiaeth Cymru yn ddibynnol iawn arni.

**Jane Hutt:** As we know, the Deputy Minister is very concerned about the red meat sector and I understand that he is prepared to make a statement on the current position.

**Jane Hutt:** Fel y gwyddom, mae'r Dirprwy Weinidog yn bryderus iawn am y sector cig coch ac rwy'n deall ei fod yn barod i wneud datganiad ar y sefyllfa bresennol.

**Antoinette Sandbach:** Will you make time in Assembly business for the Minister for

**Antoinette Sandbach:** A wnewch chi neilltuo amser ym musnes y Cynulliad er

Environment and Sustainable Development to make a statement about the resignation of Professor Chris Pollock from the TB eradication board? There was some dispute during questions to the First Minister about the reasons given by Professor Chris Pollock for his resignation. As you will be aware, he is a former director of the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences in Aberystwyth and a former acting chief scientist. In an article in the *Farmers Guardian*, he said that the vaccination of badgers has never been tried on a large scale, that it has only been tried on a theoretical basis in laboratories, that he did not have enough confidence that the Welsh Government's policy would work and that, consequently, he had no option but to resign. This is an extremely important statement from the former acting chief scientist, particularly given that the Minister for Environment and Sustainable Development said that he would base his decisions on the science in front of him.

mwyn i'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wneud datganiad am ymddiswyddiad yr Athro Chris Pollock o'r bwrdd i ddileu TB? Roedd rhywfaint o anghydfod yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ynghylch y rhesymau a roddwyd gan yr Athro Chris Pollock dros ei ymddiswyddiad. Fel y gwyddoch, mae'n gyn-gyfarwyddwr Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth ac yn gyn-brif wyddonydd dros dro. Mewn erthygl yn y *Farmers Guardian*, dywedodd na phrofwyd brechu moch daear ar raddfa fawr erioed o'r blaen, ei fod dim ond wedi'i brofi ar sail ddamcaniaethol mewn labordai, nad oedd ganddo ddigon o hyder y bydd polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio ac, o ganlyniad, nad oedd ganddo ddewis ond ymddiswyddo. Mae hwn yn ddatganiad eithriadol o bwysig gan y cyn-brif wyddonydd dros dro, yn enwedig o ystyried y dywedodd y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y byddai'n seilio ei benderfyniadau ar y wyddoniaeth a oedd ganddo ger ei fron.

**Jane Hutt:** I have very little to add to the First Minister's response to this question about the resignation of Professor Pollock, who, of course, wrote to the Minister for Environment and Sustainable Development tendering his resignation from the TB eradication board on 27 March. However, I also wish to notify Members that Professor Pollock was a member of that board since its inception in 2008. He attended 29 meetings. He is the only member of the six-strong board to have tendered a resignation recently. On 20 March, the Minister announced here the future direction of the TB eradication programme in Plenary, when Assembly Members had ample opportunity to raise concerns about Government policy.

**Jane Hutt:** Mae gen i ychydig iawn i'w ychwanegu at ymateb y Prif Weinidog i'r cwestiwn hwn am ymddiswyddiad yr Athro Pollock, a wnaeth, wrth gwrs, ysgrifennu at y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn cyhoeddi ei ymddiswyddiad o'r bwrdd dileu TB ar 27 Mawrth. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn dymuno hysbysu'r Aelodau fod yr Athro Pollock wedi bod yn aelod o'r bwrdd hwnnw ers ei sefydlu yn 2008. Mynychodd 29 o gyfarfodydd. Ef yw'r unig aelod o'r bwrdd o chwech o bobl i gyflwyno'i ymddiswyddiad yn ddiweddar. Ar 20 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog gyfeiriad y rhaglen dileu TB ar gyfer y dyfodol yn y Cyfarfod Llawn, pan fydd Aelodau'r Cynulliad wedi cael digon o gyfle i godi pryderon am bolisi'r Llywodraeth.

**Bethan Jenkins:** Minister, given that my urgent question relating to potential job losses at HSBC was refused, I want to ask a question today in order to get some more information from the Government about the reality on the ground. We were given a written statement by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science last night by e-mail, which said that 100 jobs could possibly be redeployed.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, oherwydd y gwrthodwyd fy nghwestiwn brys sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o golli swyddi yn HSBC, rwyf am ofyn cwestiwn heddiw er mwyn cael rhagor o wybodaeth gan y Llywodraeth am y realiti ar lawr gwlad. Cawsom ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth neithiwr dros e-bost, a oedd yn dweud ei bod yn bosibl y gallai 100 o

However, we do not yet know whether that represents 10% or 100% of the workforce. Therefore, I would like the Government to give us some idea of what discussions it is having with HSBC. In the context of the wider economy in the Swansea area, which relies heavily on the public sector and where these private sector jobs are vital, can we have a statement that will provide more information than we received in the written statement?

swyddi gael eu hadleoli. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod eto a yw hynny'n cynrychioli 10% neu 100% o'r gweithlu. Felly, hoffwn i'r Llywodraeth roi rhyw syniad o'r math o drafodaethau y mae'n eu cynnal gyda HSBC. Yng nghyd-destun yr economi ehangach yn ardal Abertawe, sy'n dibynnu'n drwm ar y sector cyhoeddus a lle mae'r swyddi hyn yn y sector preifat yn hanfodol, a allwn gael datganiad a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth nag a gawsom yn y datganiad ysgrifenedig?

**Jane Hutt:** Members will all have received the letter from Edwina Hart, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, yesterday to update them on the current position. It is an uncertain position. Officials from her department are in discussions with HSBC. They are exploring every possible avenue of action to help safeguard these jobs. The company has agreed to consider redeployment for as many of the affected staff as possible. So, it is a time of ongoing sensitive negotiations to protect as many jobs as possible. There will now be a period of consultation. These job losses have not yet happened and it is important that we acknowledge the consultation period.

**Jane Hutt:** Bydd yr holl aelodau wedi cael y llythyr gan Edwina Hart, y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth, ddoe yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa bresennol. Mae'n sefyllfa ansicr. Mae swyddogion o'i hadran yn cynnal trafodaethau â HSBC. Maent yn archwilio pob dull posibl o weithredu i helpu i ddiogelu'r swyddi hyn. Mae'r cwmni wedi cytuno i ystyried adleoli ar gyfer cymaint o'r staff yr effeithir arnynt ag y bo modd. Felly, mae'n gyfnod o drafodaethau sensitif parhaus i ddiogelu cymaint o swyddi â phosibl. Bellach bydd cyfnod o ymgynghori. Nid yw'r swyddi hyn wedi'u colli eto ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y cyfnod ymgynghori.

**Mark Isherwood:** I call for a statement on the prevention of back pain in children in Wales and Welsh schools. A constituent of mine has written to the Welsh Government after noting in the Welsh Government's indicators for the Welsh network of healthy schools national quality awards that there was no reference to healthy backs, back pain prevention, education in back care or the new European standards for school furniture, EN 1729. These standards say that, yes, tables and chairs should be value for money, but that they should meet the needs of students according to their height and that one size will not fit all. The relationship between the height of the seat of the chair and the table is important, and the new European standard provides essential dimensions for children's wellbeing and specifically their backs. Therefore, purchases of school furniture should consult the new standard before making a decision. However, the Welsh Government responded that it does not plan to issue guidance on the provision of school

**Mark Isherwood:** Rwy'n galw am ddatganiad ar atal poen cefn mewn plant yng Nghymru ac yn ysgolion Cymru. Mae un o fy etholwyr wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ôl sylwi yn nangosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwobrau ansawdd cenedlaethol rhwydwaith Cymru o ysgolion iach nad oedd unrhyw gyfeiriad at gefnau iach, atal poen cefn, addysg mewn gofal ar gyfer y cefn neu'r safonau Ewropeaidd newydd ar gyfer dodrefn ysgol, EN 1729. Mae'r safonau hyn yn datgan y dylai byrddau a chadeiriau gynnig gwerth am arian, ond y dylent gwrdd ag anghenion myfyrwyr yn ôl eu huchder ac na fydd un ateb yn addas i bawb. Mae'r berthynas rhwng uchder y gadair a'r bwrdd yn bwysig, ac mae'r safon Ewropeaidd newydd yn darparu dimensiynau hanfodol ar gyfer lles plant, a'u cefnau yn benodol. Felly, dylai'r rhai sy'n prynu dodrefn ysgol edrych ar y safon newydd cyn gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ar

furniture as this relates to the issue of health and safety within schools and is, as such, a matter for local authorities and governing bodies.

ddarparu dodrefn ysgol gan fod hyn yn ymwneud â'r mater o iechyd a diogelwch mewn ysgolion ac, yn unol â hynny, mae'n fater i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu.

Therefore, we need to know whether the Welsh Government has undertaken any evaluation of the number of schools with furniture that does not comply with this standard, whether headteachers know within their own schools how many chairs and desks used by students do not comply with the standard and whether this information is or could be collated by the Welsh Government. Therefore, I call for a statement recognising that, as I am sure you agree, our children should not be put at risk of their spines being damaged at such an early age due to lack of education on spinal health and the provision of seating of inferior design, which could consequently lead to long-term disability, poor health and socioeconomic disadvantage.

Felly, mae angen inni wybod a yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw werthusiad o nifer yr ysgolion sydd â dodrefn nad yw'n cydymffurfio â'r safon hon, a yw penaethiaid yn gwybod faint o gadeiriau a desgiau a ddefnyddir gan fyfyrwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r safon yn eu hysgolion hwy ac a allai Llywodraeth Cymru gasglu'r wybodaeth hon, neu a yw'n gwneud hynny eisoes. Felly, rwy'n galw am ddatganiad yn cydnabod, fel rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, na ddylai ein plant gael eu rhoi mewn perygl o niweidio eu hesgyrn cefn pan eu bod mor ifanc oherwydd diffyg addysg ar iechyd yr asgwrn cefn a seddi o safon israddol, a allai arwain at anabledd hirdymor, iechyd gwael ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Jane Hutt:** Of course, this is a matter for local authorities and schools. They recognise, as do we and the Minister for Education and Skills, that the prevention of back pain in children is important, but it is the responsibility of schools, governing bodies and local authorities to take this into account, particularly with the opportunities that come with the refurbishment and redevelopment of schools through our twenty-first century schools programme.

**Jane Hutt:** Wrth gwrs, mae hwn yn fater i awdurdodau lleol ac ysgolion. Maent yn cydnabod, fel y Gweinidog Addysg a Sgiliau a mi, ei bod yn bwysig atal poen cefn ymysg plant, ond mai cyfrifoldeb ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ydyw, yn enwedig o gofio'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl adnewyddu ac ailddatblygu ysgolion drwy ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

**Rhodri Glyn Thomas:** I do not know whether you were present last week, Minister, when I informed the Minister for Local Government and Communities that the fact that council tax benefits are being devolved with a shortfall of 10% and that the Labour Government here has declared that it will not make good that shortfall will lead to an additional Labour tax on local authorities of £23.4 million. A statement should have been made about this next week, after the election—which is convenient for the Labour Government—but that has now been delayed. Can you explain why you are delaying informing the public about this additional Labour tax on local authorities in Wales, and tell us when that statement will be made?

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid wyf yn gwybod a oeddech yn bresennol yr wythnos diwethaf, Weinidog, pan ddywedais wrth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fod y ffaith bod budd-daliadau treth gyngor yn cael eu datganoli gyda diffyg o 10% a bod y Llywodraeth Lafur yma wedi datgan na fydd yn gwneud iawn am y diffyg hwnnw, yn arwain at dreth ychwanegol o £23.4 miliwn gan y Blaid Lafur ar awdurdodau lleol. Roedd datganiad ar y mater hwn wedi cael ei amserlennu ar gyfer yr wythnos nesaf, ar ôl yr etholiad—a fyddai'n gyfleus i'r Llywodraeth Lafur—ond mae bellach wedi'i ohirio. A allwch chi esbonio pam eich bod yn gohirio rhoi gwybod i'r cyhoedd am y dreth ychwanegol hon ar awdurdodau lleol yng Nghymru gan y Blaid Lafur, a dweud wrthym

pryd y bydd y datganiad yn cael ei wneud?

**Jane Hutt:** It is disappointing that you are taking that attitude, Rhodri Glyn Thomas, given that it is the UK coalition Government that has imposed the 10% cut in council tax benefit arrangements on us. I hope that you will join the Welsh Labour Government in condemning this cut of 10%. An important point is that we have only recently completed a widespread consultation, as you know, on the development of a new scheme to provide council tax support in Wales. We are working closely with local authorities on this matter and engaging widely with third sector and other organisations. We are also challenging the UK Government, where necessary, on the transfer of funds. You will, I know, acknowledge that that is key in terms of agreeing to any transfer of funds of this kind, particularly alongside a 10% cut.

**Jane Hutt:** Mae'n siomedig eich bod yn cymryd yr agwedd honno, Rhodri Glyn Thomas, o ystyried mai Llywodraeth glymblaid y DU sydd wedi gosod y toriad o 10% ym mudd-daliadau'r dreth gyngor arnom. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â Llywodraeth Llafur Cymru drwy gondemnio'r toriad hwn o 10%. Pwysig yw nodi mai dim ond yn ddiweddar y cwblhawyd ymgynghoriad eang gennym, fel y gwyddoch, ar y gwaith o ddatblygu cynllun newydd i ddarparu cymorth treth gyngor yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol ar y mater hwn ac yn ymgysylltu'n helaeth â'r trydydd sector a sefydliadau eraill. Rydym hefyd yn herio Llywodraeth y DU, lle bo angen, ar drosglwyddo cyllid. Byddwch, mi wn, yn cydnabod bod hynny'n allweddol o ran cytuno i drosglwyddo cyllid yn y modd hwn, yn enwedig ochr yn ochr â thoriad o 10%.

**Jenny Rathbone:** Will the relevant Minister consider making a statement about the future of care homes in Wales in the light of the £825 million bid for Four Seasons Health Care, which controls many care homes for the elderly in Wales and which, apparently, is due to be taken over by Guy Hands, a tax exile who made an ill-fated bid for EMI? If it goes ahead, it will be a cause of much concern to relatives of people living in these Four Seasons homes, many of which were previously run by Southern Cross. This is indicative of the turbulence and instability in the care home market.

**Jenny Rathbone:** A wnaiff y Gweinidog perthnasol ystyried gwneud datganiad am ddyfodol cartrefi gofal yng Nghymru yn sgîl y cais £825 miliwn ar gyfer Four Seasons Health Care, sy'n rheoli llawer o gartrefi gofal i'r henoed yng Nghymru ac a fydd, yn ôl pob golwg, yn cael ei gymryd drosodd gan Guy Hands, alltud treth a wnaeth gais aflwyddiannus am EMI? Os bydd yn mynd yn ei flaen, bydd yn destun pryder mawr i berthnasau pobl sy'n byw mewn cartrefi Four Seasons, yr oedd llawer ohonynt yn cael eu rhedeg gan Southern Cross cyn hynny. Mae hyn yn arwydd o'r cynnwrf a'r ansefydlogrwydd yn y farchnad cartrefi gofal.

**Jane Hutt:** At this stage, I can inform Jenny Rathbone that the Deputy Minister is aware of this announcement that the private equity housing firm Terra Firma is to take over Four Seasons Health Care and that her officials will look carefully at and advise her on the impact of that. The key point that we have to recognise is that we need to secure continuity of care for the residents—that has to be the main priority—and secure jobs for the staff as well. As you say, this is a matter of concern that we will watch, and I know that the Deputy Minister will watch it carefully, in terms of the opportunities that we have to monitor and regulate.

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, gallaf hysbysu Jenny Rathbone fod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o'r cyhoeddiad hwn ynghylch cwmni tai ecwiti preifat Firma Terra yn cymryd Four Seasons Health Care drosodd, ac y bydd ei swyddogion yn edrych yn ofalus ar effaith hynny, ac yn rhoi cyngor iddi mewn perthynas â'r mater hwn. Y pwynt allweddol y mae'n rhaid inni ei gydnabod yw bod angen sicrhau parhad gofal i drigolion—rhaid i hynny fod yn brif flaenoriaeth a sicrhau swyddi ar gyfer y staff hefyd. Fel y dywedasoch, mae hwn yn fater o bryder y byddwn yn cadw llygad arno, a gwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn cadw llygad agos arno,

o ran y cyfleoedd sydd gennym i fonitro a rheoleiddio.

**Darren Millar:** I wonder whether we could have an urgent statement on 'Together for Health—Why Change is Needed' by the Minister for Health and Social Services. The paper that was presented to the Cabinet in March made it clear that

**Darren Millar:** Tybed a allem gael datganiad brys ar 'Law yn Llaw at Iechyd—Pam fod Angen Newid' gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mawrth yn ei gwneud yn glir mai

'the intention now is to move increasingly onto the front foot in our communications. Our language will be measured but will be unambiguous and direct.'

y bwriad yn awr yw bod ar flaen y gad o ran ein gwaith cyfathrebu. Bydd ein hiaith yn ystyriol ond yn ddiamwys ac uniongyrchol.

We have had lots of ambiguity from the First Minister and from the Minister from health when they have been asked direct questions about the future of accident and emergency departments at our district general hospitals. This report clearly refers to

Rydym wedi cael llawer o negeseuon amwys gan y Prif Weinidog a chan y Gweinidog iechyd pan ofynnwyd cwestiynau uniongyrchol iddynt am ddyfodol adrannau damweiniau ac achosion brys ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio'n glir at

'the number of sites providing 24/7 consultant-led accident and emergency services'

nifer y safleoedd sy'n darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24/7 o dan arweiniad ymgynghorydd

being reduced. I would like some direct answers to some direct questions on this issue via a statement by the Welsh Government at a future date.

yn cael ei leihau. Hoffwn atebion uniongyrchol i rai cwestiynau uniongyrchol ar y mater hwn drwy ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

2.45 p.m.

**Jane Hutt:** It is again disappointing to see the pioneering and important paper 'Together for Health' being undermined, as it is taking us forward in the twenty-first century in terms of healthcare provision. I will not repeat the clear assurances given by the First Minister today, but I recognise that this is an important time in which, I hope, we will see responsible engagement across the Chamber in terms of statements and debates.

**Jane Hutt:** Mae'n siomedig unwaith eto i weld y papur arloesol a phwysig 'Law yn Llaw at Iechyd' yn cael ei danseilio, gan ei fod yn mynd â ni ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain o ran darpariaeth gofal iechyd. Nid wyf am ailadrodd y sicrwydd clir a roddwyd gan y Prif Weinidog heddiw, ond rwy'n cydnabod bod hwn yn amser pwysig pan welwn, gobeithio, ymgysylltu cyfrifol ar draws y Siambr o ran datganiadau a dadleuon.

**Simon Thomas:** I would like to add my voice to the calls for a statement and debate on accident and emergency provision, particularly in south-west Wales and Llanelli. We have just heard the First Minister, in response to questions, claim that Plaid Cymru was claiming in leaflets in Parc Trostre that the A&E at Llanelli would be closed. It is not Plaid Cymru that is claiming that; it is among

**Simon Thomas:** Hoffwn leisio fy nghefnogaeth i'r galwadau am ddatganiad a dadl ar ddarpariaeth adrannau damweiniau ac achosion brys, yn enwedig yn ne-orllewin Cymru a Llanelli. Rydym newydd glywed y Prif Weinidog, wrth ymateb i gwestiynau, yn honni bod Plaid Cymru yn honni mewn taflenni ym Mharc Trostre y byddai'r adran ddamweiniau ac achosion brys yn Llanelli yn

Hywel Dda's published options, every one of which states that the A&E at Llanelli will be downgraded to an urgent care centre. There is no option for a full A&E department under Hywel Dda's proposals. We need to get to the bottom of this and to the truth of these proposals. That would come about in a full debate, with the First Minister present so that he could understand what is really happening in Llanelli.

cael ei chau. Nid Plaid Cymru sy'n honni hynny; mae ymysg opsiynau cyhoeddedig Hywel Dda, ac mae pob un ohonynt hwy yn datgan y byddai'r adran ddamweiniau ac achosion brys yn Llanelli yn cael ei hisraddio i ganolfan gofal brys. Nid oes opsiwn ar gyfer adran ddamweiniau ac achosion brys o dan gynigion Hywel Dda. Rhaid inni fynd at wraidd hyn ac at wirionedd y cynigion hyn. Byddai hynny'n digwydd mewn dadl lawn, gyda'r Prif Weinidog yn bresennol fel y gall yntau ddeall yn iawn beth sy'n digwydd yn Llanelli.

Even the Member for Llanelli says that the A&E there is being by-passed. On 15 February 2012, Jeremy Williams, the consultant programme director for unplanned emergency care at the Hywel Dda health board, said that A&E at Llanelli did not exist in a full form. Let us have a debate and let us get to the bottom of this.

Mae'r Aelod dros Lanelli hyd yn oed yn dweud bod yr adran ddamweiniau ac achosion brys yno'n cael ei hanwybyddu. Ar 15 Chwefror 2012, dywedodd Jeremy Williams, y cyfarwyddwr rhaglen ymgynghorol ar gyfer gofal brys heb ei gynllunio ym mwrdd iechyd Hywel Dda, nad oedd adran ddamweiniau ac achosion brys yn Llanelli yn bodoli yn ei ffurf lawn. Gadewch inni gael dadl a gadewch inni fynd at wraidd hyn.

**Jane Hutt:** We need to move forward beyond the forthcoming event of this week in terms of political leaflets and issues as an Assembly—as a Senedd—to ensure that we discuss these issues openly, transparently and responsibly. I am sure that that will happen in due course.

**Jane Hutt:** Mae angen inni symud ymlaen fel Cynulliad—fel Senedd—y tu hwnt i'r digwyddiad sydd ar y gweill yr wythnos hon o ran taflenni a materion gwleidyddol i sicrhau ein bod yn trafod y materion hyn yn agored, yn dryloyw ac yn gyfrifol. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n digwydd maes o law.

## Datganiad: Twf Swyddi Cymru
## Statement: Jobs Growth Wales

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** On 11 October 2011, the Minister for Education and Skills announced the creation of the Jobs Growth Wales programme. On 3 April, the First Minister visited Scarlet Communications Ltd in Carmarthen for the successful launch of the programme. Jobs Growth Wales provides a response to the worrying level of youth unemployment that exists in Wales at the current time. While youth unemployment has seen a fall of 0.9% in the number of young unemployed people over the year to 30 September 2011, the level of unemployment for this group remains a concern, as it currently sits at 50,100 for people aged 16 to 24 in the year to 30 September 2011. The

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Ar 11 Hydref 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau greu'r rhaglen Twf Swyddi Cymru. Ar 3 Ebrill, ymwelodd y Prif Weinidog â Scarlet Communications Ltd yng Nghaerfyrddin ar gyfer lansiad llwyddiannus y rhaglen. Mae Twf Swyddi Cymru yn cynnig ateb i'r lefel bryderus o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod diweithdra ymysg pobl ifanc wedi gweld gostyngiad o 0.9% yn y nifer o bobl ifanc ddi-waith dros y flwyddyn hyd at 30 Medi 2011, mae lefel y diweithdra ar gyfer y grŵp hwn yn parhau'n bryder, gan mai 50,100 ydyw ar hyn o bryd ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 yn y flwyddyn hyd at 30 Medi 2011.

programme has been designed to tackle a key issue that young people face in their search for work, that is, how they can secure the relevant work experience that employers seek when recruiting.

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â mater allweddol sy'n wynebu pobl ifanc wrth iddynt chwilio am waith, sef sut y gallant sicrhau'r profiad gwaith perthnasol y mae cyflogwyr yn chwilio amdano wrth recriwtio.

Jobs Growth Wales will help to meet this challenge by creating 4,000 job opportunities per year, targeting unemployed young people aged 16 to 24 for a six-month period and in collaboration with employers. Participants will be paid at the national minimum wage for a minimum of 25 hours per week. The programme will cater for those who are job ready but have had difficulty in securing employment, and it will provide a supportive environment for those who need it and a valuable opportunity, enabling progression into sustained employment.

Bydd Twf Swyddi Cymru yn helpu i ateb yr her hon drwy greu 4,000 o gyfleoedd gwaith y flwyddyn, gan dargedu pobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed am gyfnod o chwe mis ac mewn cydweithrediad â chyflogwyr. Bydd y cyfranogwyr yn cael eu talu ar yr isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer o leiaf 25 awr yr wythnos. Bydd y rhaglen yn darparu ar gyfer y rhai sy'n barod am swydd ond sydd wedi cael anhawster wrth sicrhau cyflogaeth, a bydd yn darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer y rhai sydd ei angen ac yn gyfle gwerthfawr, gan alluogi dilyniant i gyflogaeth gynaliadwy.

Jobs Growth Wales will be fully integrated with other employment support programmes offered by the Welsh Government, allowing a route-way to work through pre-employment programmes and progression, where appropriate, to an apprenticeship. In essence, this would mean that a young person could progress from a traineeship or a Steps to Employment programme to Jobs Growth Wales where they have been undertaking a period of work experience with an employer who can demonstrate that an additional job can be created for that participant. Similarly, we would be keen to see a young person progress to an apprenticeship opportunity, where appropriate, after completing their Jobs Growth Wales placement, which means that they could therefore gain a 12-month package of further support through our Young Recruits programme. This demonstrates our commitment to providing relevant and ongoing support for young people in accessing our programmes.

Bydd Twf Swyddi Cymru yn cael ei hintegreiddio'n llawn â rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill a gynigir gan Lywodraeth Cymru, gan ganiatáu llwybr i fyd gwaith drwy raglenni cyn-gyflogaeth a dilyniant i brentisiaeth, lle bo hynny'n briodol. Yn ei hanfod, byddai hyn yn golygu y gallai person ifanc symud ymlaen o swydd dan hyfforddiant neu raglen Camau at Waith i Twf Swyddi Cymru lle maent wedi bod yn ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith gyda chyflogwr sy'n gallu dangos bod modd creu swydd ychwanegol ar gyfer y cyfranogwr dan sylw. Yn yr un modd, byddem yn awyddus i weld pobl ifanc yn symud ymlaen at gyfle prentisiaeth, lle bo hynny'n briodol, ar ôl cwblhau eu lleoliad Twf Swyddi Cymru, sy'n golygu y gallent, felly, ennill pecyn 12 mis o gymorth pellach drwy ein rhaglen recriwtiaid ifanc. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu cymorth perthnasol a pharhaus i bobl ifanc wrth gael mynediad at ein rhaglenni.

This programme is available to young people from their first day of unemployment. This approach is markedly different to the one adopted in other parts of the UK, where the support appears piecemeal and fragmented, and requires young people to remain unemployed for significant periods of time, and where they have to serve lengthy qualifying periods before they can access

Mae'r rhaglen hon ar gael i bobl ifanc o ddiwrnod cyntaf eu diweithdra. Mae'r dull hwn yn wahanol iawn i'r un a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU, lle ymddengys fod y cymorth yn dameidiog ac anghyson, ac yn gofyn i bobl ifanc aros yn ddi-waith am gyfnodau sylweddol o amser, a lle mae'n rhaid iddynt weithio cyfnodau hir o gymhwyso cyn y gallant gael mynediad at

some of the work-related support available. Jobs Growth Wales is not about placing conditions on individuals' ability to participate; its underlying ethos is about providing an opportunity and maximising the young person's chance of making the most of that opportunity to progress into sustained employment. We will work with the young people of Wales to help match them to the right job for them—one that will provide them with the relevant experience they need to kick-start their careers.

beth o'r cymorth cysylltiedig â gwaith sydd ar gael. Nid yw Twf Swyddi Cymru yn ymwneud â gosod amodau ar allu unigolion i gyfranogi; mae ei ethos sylfaenol yn ymwneud â darparu cyfle a gwneud y mwyaf o gyfle'r person ifanc i fachu ar y cyfle i symud ymlaen at gyflogaeth gynaliadwy. Byddwn yn gweithio gyda phobl ifanc Cymru i'w helpu i ganfod y swydd iawn ar eu cyfer—un a fydd yn rhoi'r profiad perthnasol sydd ei angen arnynt i ddechrau gyrfa.

While supporting young people into work is clearly the driving force behind the programme, we envisage a number of significant secondary benefits, such as the support offered to employers and the potential to inject fresh impetus into the Welsh economy. Jobs Growth Wales is about partnership and joint investment; it is not just an investment to support economic growth, but an investment in the future of the young people of Wales. While we are only a month into the delivery of the project, there are some encouraging signs about the impact of our approach. Employers have responded well to the challenge to create job opportunities for young people, and we are encouraged by the level and diversity of job opportunities being created.

Er mai cefnogi pobl ifanc i gael gwaith yw prif ysgogiad amlwg y rhaglen, rydym yn rhagweld nifer o fanteision sylweddol eilaidd, megis y cymorth a gynigir i gyflogwyr a'r potensial i gynnig hwb newydd i economi Cymru. Mae Twf Swyddi Cymru yn ymwneud â phartneriaeth a chyd-fuddsoddiad; nid buddsoddi i gefnogi twf economaidd yn unig ydyw, ond buddsoddiad yn nyfodol pobl ifanc Cymru. Er mai mis yn unig sydd ers cyflwyno'r prosiect, mae rhai arwyddion calonogol ynghylch effaith ein dull o weithredu. Mae cyflogwyr wedi ymateb yn dda i'r her o greu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc, ac rydym wedi ein calonogi gan y lefel a'r amrywiaeth o gyfleoedd gwaith sy'n cael eu creu.

We ran a pilot in Carmarthenshire from October last year to test our approach, and again the reaction from employers was very encouraging. It seems that this scheme offers not only great potential for the economy, but, on a more fundamental level, a possibility that it may help to change the mindsets of employers, and enable them to realise the benefits of taking on young people by tapping into their enthusiasm and willingness to work.

Cynhaliwyd cynllun peilot yn sir Gaerfyrddin o fis Hydref y llynedd i brofi ein dull o weithredu, ac eto roedd yr ymateb gan gyflogwyr yn galonogol iawn. Yn ogystal â chynnig potensial mawr ar gyfer yr economi, ar lefel fwy sylfaenol, ymddengys bod posibilrwydd y gallai fod o gymorth i newid meddylfryd cyflogwyr, a'u galluogi i sylweddoli manteision cyflogi pobl ifanc drwy fanteisio ar eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i weithio.

I was very encouraged at the launch of the project to hear from some of the young people taking part in the programme. One description that particularly resonated with me was that participating in Jobs Growth Wales had been like finding a pot of gold, giving the individual concerned valuable experience in their chosen career. To date, the programme has been steadily building up a bank of job opportunities across a range of sectors. I believe that we are on target to meet

Roedd yn galonogol iawn clywed gan rai o'r bobl ifanc yn y lansiad sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Un disgrifiad a oedd yn canu cloch yn arbennig i mi oedd bod cymryd rhan yn Twf Swyddi Cymru wedi bod fel dod o hyd i grochan o aur, gan roi profiad gwerthfawr i'r unigolyn dan sylw yn yr yrfa a ddewisodd. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi bod yn raddol adeiladu cronfa o gyfleoedd gwaith ar draws amrywiaeth o sectorau. Credaf ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd ein huchelgais o

our ambition of 4,000 jobs this year.

4,000 o swyddi eleni.

However, this should not be seen in isolation from the other work that we are doing to meet the challenge around youth unemployment. Much of our other services and support will wrap around the support on offer through the Jobs Growth Wales programme. It demonstrates our holistic approach to youth employment. Jobs Growth Wales is about targeting support at job-ready individuals and not leaving them to become demotivated and disinterested, although we will, of course, continue to provide support for those who have further to go before they can engage with the programme.

Fodd bynnag, ni ddylid edrych ar hyn ar wahân i'r gwaith arall rydym yn ei wneud wrth ymateb i'r her a gynigir gan ddiweithdra ymysg pobl ifanc. Bydd llawer o'n gwasanaethau eraill a'r gefnogaeth yn cwmpasu'r cymorth sydd ar gael drwy'r rhaglen Twf Swyddi Cymru. Mae'n dangos ein hymagwedd holistig tuag at gyflogaeth ieuenctid. Mae Twf Swyddi Cymru yn ymwneud â thargedu cymorth at unigolion sy'n barod am swydd ac nid gadael iddynt golli symbyliad a diddordeb, er y byddwn, wrth gwrs, yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y rhai a chanddynt beth ffordd eto i fynd cyn y gallant gymryd rhan yn y rhaglen.

This holistic approach is reflected in the recent decision to create a single division in the Department for Education and Skills that will focus primarily upon the causes and responses to disengagement and unemployment for all young people. One of the key tasks for the new division will be to look again at the Welsh Government's youth employment and engagement action plan and provide it with a new impetus to tackle some of the long-standing challenges facing young people today.

Adlewyrchir yr ymagwedd holistig hon yn y penderfyniad diweddar i greu un is-adran yn yr Adran Addysg a Sgiliau a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr achosion a'r ymatebion yn ymwneud ag ymddieithriad a diweithdra pobl ifanc. Un o dasgau allweddol yr is-adran newydd fydd edrych eto ar gynllun gweithredu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc Llywodraeth Cymru a rhoi iddo hwb newydd iddi i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n wynebu pobl ifanc heddiw.

**The Presiding Officer:** I remind Members that this is an opportunity to question the Deputy Minister. We now move to Nick Ramsay.

**Y Llywydd:** Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai cyfle i holi'r Dirprwy Weinidog yw hwn. Symudwn yn awr at Nick Ramsay.

**Nick Ramsay:** I harangued the Deputy Minister last week with 14 questions, as he counted, on his skills statement; I can reassure him that I have a maximum of five questions for him today, none of which refer to his Trotskyite credentials, although I hope that he will feel free to mention those as and when appropriate, as he did last week.

**Nick Ramsay:** Blinais y Dirprwy Weinidog yr wythnos diwethaf gyda 14 o gwestiynau, yn ôl ei gyfrifiad ef, ar ei ddatganiad ynghylch sgiliau; gallaf ei sicrhau mai uchafswm o bum cwestiwn sydd gennyf iddo heddiw, ac nid yw'r un ohonynt yn cyfeirio at ei nodweddion Trotsciaidd, er fy mod yn gobeithio y bydd yn teimlo'n rhydd i gyfeirio atynt pan ac os bydd hynny'n briodol, fel y gwnaeth yr wythnos diwethaf.

I thank him for his statement. I am pleased that the Welsh Government recognises the need to tackle the worrying level of youth unemployment in Wales. You mentioned the 50,100 people aged 16 to 24 who are unemployed in Wales and we, on this side of the Chamber, share your concern on that. I

Diolch iddo am ei ddatganiad. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r lefel bryderus o ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Soniasoch am y 50,100 o bobl 16 i 24 oed sy'n ddi-waith yng Nghymru ac rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn rhannu eich pryder

was also concerned when I looked earlier at the statistics on those who are not in education, employment or training in Wales—a staggering 25% of those in the 19 to 25 age bracket. That needs to be recognised and dealt with.

ynghylch hynny. Roeddwn hefyd yn bryderus pan edrychais yn gynharach ar yr ystadegau ynghylch y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru—mae swm syfrdanol o 25% o'r rhai hynny yn y grŵp oedran 19-25. Rhaid cydnabod a delio â hynny.

As for my questions, you have said that Jobs Growth Wales will create 4,000 job opportunities this year. I welcome the Welsh Government's work with employers. You say that you are targeting employers for a six-month period, so the obvious question is: what happens then? How many of the job opportunities that will be created are going to be sustainable? How do you intend to measure and monitor that? You say that you are keen to see young people progressing into apprenticeships. I think that we would all agree that we need to increase the number of apprenticeships available. You said that you hope that people will progress from Jobs Growth Wales into apprenticeships. While I do not want to pre-empt the inquiry that the Enterprise and Business Committee is going to be carrying out into apprenticeships, I hope that you will give an assurance that whatever recommendations the committee makes on creating and encouraging sustainable apprenticeships, you will take those recommendations seriously to ensure that apprenticeships are there for employers and currently unemployed young people alike.

O ran nghwestiynau, rydych wedi dweud y bydd Twf Swyddi Cymru yn creu 4,000 o gyfleoedd gwaith eleni. Croesawaf waith Llywodraeth Cymru gyda chyflogwyr. Rydych yn dweudeich bod yn targedu cyflogwyr am gyfnod o chwe mis, felly'r cwestiwn amlwg yw: beth fydd yn digwydd wedyn? Faint o'r cyfleoedd am swyddi a gaiff eu creu fydd yn gynaliadwy? Sut rydych yn bwriadu mesur a monitro hynny? Dywedwch eich bod yn awyddus i weld pobl ifanc yn symud ymlaen at brentisiaethau. Credaf y byddem i gyd yn cytuno bod angen inni gynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael. Dywedasoch eich bod yn gobeithio y bydd pobl yn symud ymlaen o Twf Swyddi Cymru at brentisiaethau. Er nad wyf yn dymuno achub y blaen ar yr ymchwiliad y mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn bwriadu ei gynnal i brentisiaethau, rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi sicrwydd y byddwch yn cymryd o ddifrif pa bynnag argymhellion y bydd y pwyllgor yn eu gwneud o ran creu ac annog prentisiaethau cynaliadwy, a hynny i sicrhau bod prentisiaethau ar gael i gyflogwyr ac i bobl ifanc sy'n ddi-waith ar hyn o bryd fel ei gilydd.

You say that Jobs Growth Wales is not about coercing individuals to participate; that is a noble intention, however, there may be instances when individuals who do not feel that an opportunity or several opportunities are appropriate may not take up an offer of work. How will you ensure that the opportunities that your Government is seeking to provide will be well suited to candidates in the first instance? How are you liaising with those organisations and employers that are trying to create jobs to ensure that the opportunities that are available are the correct ones? Are you working with organisations like Working Links? It strikes me that there is an amount of duplication with what that organisation has been doing successfully in recent years in

Rydych yn dweud nad yw Twf Swyddi Cymru yn ymwneud â gorfodi unigolion i gymryd rhan; mae hwnnw'n fwriad clodwiw, ond gallai achosion godi lle bydd unigolion yn teimlo nad yw cyfle penodol neu sawl cyfle yn briodol iddynt ac felly ni fyddant yn derbyn y cynnig o waith. Sut y byddwch yn sicrhau bod y cyfleoedd y mae eich Llywodraeth yn ceisio'u darparu yn addas i'r ymgeiswyr yn y lle cyntaf? Sut rydych chi'n cysylltu â'r sefydliadau a'r cyflogwyr hynny sy'n ceisio creu swyddi i sicrhau mai'r cyfleoedd sydd ar gael yw'r rhai cywir? A ydych yn gweithio gyda sefydliadau fel Working Links? Mae'n ymddangos i mi fod peth dyblygu o ran yr hyn y mae'r sefydliad hwnnw wedi bod yn ei wneud yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd

Wales. How are you learning from and working with that organisation?

diweddar yng Nghymru. Sut rydych chi'n dysgu gan ac yn gweithio gyda'r sefydliad hwnnw?

Finally, you mentioned the pilot in Carmarthenshire last year. What lessons have been learnt from that? I appreciate that Jobs Growth Wales is still in its infancy, but what lessons were learnt and how have they been fed into the current Jobs Growth Wales scheme? How has the scheme been modified to ensure that lessons are learnt and that this scheme is as appropriate as possible?

Yn olaf, soniasoch am y cynllun peilot yn sir Gaerfyrddin y llynedd. Pa wersi a ddysgwyd o hynny? Rwy'n cydnabod ei bod yn gynnar eto o ran Twf Swyddi Cymru, ond pa wersi a ddysgwyd a sut y cawsant eu hymgorffori i gynllun presennol Twf Swyddi Cymru? Sut addaswyd y cynllun i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod y cynllun hwn mor briodol ag y gall fod?

**Jeff Cuthbert:** I thank the Welsh Conservative spokesperson for those comments and his broad statement of support for the principles of the scheme. He is right in that, as I said, this year we intend to reach a target of 4,000 job opportunities. I must stress that while we will provide the resources for the opportunities, the jobs will be provided by employers—private employers in the main. We look to work closely with those employers. The offer is for six months with an employer. As part of the business case that the employer must put forward for admission to the scheme, we have to be satisfied that the job opportunities would be additional—there should be no question of taking the place of someone who is already there. There should also be a good case to show that, with the extra support, the employer will be able to seriously consider employing that young person, or young persons, to enhance their business.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i lefarydd Ceidwadwyr Cymru am y sylwadau hynny ac am ei ddatganiad eang o gefnogaeth i egwyddorion y cynllun. Mae'n gywir, fel y dywedais, ein bod eleni yn bwriadu cyrraedd targed o 4,000 o gyfleoedd swyddi. Rhaid i mi bwysleisio, er y byddwn yn darparu adnoddau ar gyfer y cyfleoedd, y bydd y swyddi'n cael eu darparu gan gyflogwyr—cyflogwyr preifat yn bennaf. Rydym yn gobeithio gweithio'n agos gyda'r cyflogwyr hynny. Mae'r cynnig ar gyfer chwe mis gyda chyflogwr. Fel rhan o'r achos busnes y mae'n rhaid i'r cyflogwr ei gyflwyno ar gyfer ymuno â'r cynllun, rhaid inni fod yn fodlon y byddai'r cyfleoedd am swyddi yn rhai ychwanegol—ni ddylai fod unrhyw gwestiwn o gymryd lle rhywun a gyflogir yno eisoes. Dylai hefyd fod achos da i ddangos y bydd y cyflogwr, gyda chefnogaeth ychwanegol, yn gallu ystyried o ddifrif gyflogi'r person ifanc hwnnw, neu bobl ifanc, i wella eu busnes.

You are right that I stressed the value of apprenticeships, which remain our gold standard for vocational training. We will want to ensure that, wherever possible, an employer will move a young person on to an apprenticeship so that they will have a valuable and permanent qualification. I know that the committee that the Member chairs is going to look at the issue of apprenticeships. I can assure him that the Welsh Government will look seriously at any recommendations that come from that committee.

Rydych yn iawn imi bwysleisio gwerth prentisiaethau, sy'n parhau'n safon aur inni ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol. Byddwn am sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y bydd cyflogwr yn symud pobl ifanc ymlaen i brentisiaeth fel y bydd ganddynt gymhwyster gwerthfawr a pharhaol. Gwn fod y pwyllgor y mae'r Aelod yn ei gadeirio yn bwriadu edrych ar brentisiaethau. Gallaf ei sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych o ddifrif ar unrhyw argymhellion a ddaw o'r pwyllgor hwnnw.

There is no question of coercing young people and employers to join the scheme. Young people will apply and there will be support for them. As far as employers are concerned, those who can see the benefits

Nid oes unrhyw gwestiwn o orfodi pobl ifanc a chyflogwyr i ymuno â'r cynllun. Bydd pobl ifanc yn gwneud cais a bydd cefnogaeth ar eu cyfer. Cyn belled ag y mae cyflogwyr yn y cwestiwn, bydd y rhai sy'n gallu gweld y

will want to participate. Young people will be guided by careers services in particular and other appropriate agencies that might include Working Links, which is working with the UK Government on its Work Programme. We want to avoid the duplication of anything that we offer—and of anything in between the things that we offer—and the duplication of the Work Programme. Officials here and from the UK Government are engaged in making the best use of resources.

budd eisiau cymryd rhan. Bydd pobl ifanc yn cael eu harwain gan wasanaethau gyrfaoedd yn arbennig ynghyd ag asiantaethau priodol eraill a allai gynnwys Working Links, sy'n gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ei Rhaglen Waith. Rydym yn awyddus i osgoi dyblygu unrhyw beth a gynigiwn—ac unrhyw beth rhwng y pethau yr ydym yn eu cynnig—a dyblygu'r Rhaglen Waith. Mae swyddogion yma ac yn Llywodraeth y DU yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

In response to the sixth and final question, the pilot was successful. The issues that arose in relation to tweaking the main programme were fairly minor. The pilot showed that there is a genuine offer and interest from employers, and we were happy to cascade the experiences of those who took part in the pilot scheme.

Mewn ymateb i'r chweched cwestiwn, sef yr olaf, roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus. Mae'r materion a gododd mewn perthynas â mân newidiadau i'r brif raglen yn eithaf bach. Dangosodd y cynllun peilot fod yna gynnig gwirioneddol a diddordeb gan gyflogwyr, ac roeddem yn hapus i rannu profiadau'r rhai a gymerodd ran yn y cynllun peilot.

3.00 p.m.

**Christine Chapman:** I thank the Deputy Minister for his statement. It is fair to say that it is an extremely difficult time for our young people at the moment, given the high level of youth unemployment that they are faced with. There is a danger that, without robust support, many, through no fault of their own, will be at risk of becoming demoralised and disengaged, so it is right and proper that the Welsh Government addresses this seriously. I am pleased that the Welsh Government is taking a very proactive approach through this programme, unlike, as you said, Deputy Minister, the other parts of the UK, where support appears to be piecemeal and fragmented. We are at risk of losing young people if support is not consistent, so I am pleased that you have addressed that. I have a number of brief questions. First, on engagement with young people, how can we ensure that those young people who are hardest to reach benefit from Jobs Growth Wales? I know that Nick Ramsay mentioned the high number of young people not in education, employment or training. I am concerned about that, as are all Members. Secondly, how can we promote employer engagement with the programme? I am thinking in particular here of smaller employers. You say that you are encouraged by the level and diversity of job opportunities being created. Can you say some more about

**Christine Chapman:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad. Mae'n deg dweud ei fod yn amser anodd iawn i'n pobl ifanc ar hyn o bryd, o ystyried y lefel uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae perygl y bydd nifer ohonynt, os na chânt gefnogaeth gadarn, a heb fod unrhyw fai arnynt hwy, yn wynebu risg o ddigalonni ac ymddieithrio, felly mae'n iawn ac yn briodol bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn o ddifrif. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cymryd ymagwedd ragweithiol iawn drwy'r rhaglen hon, yn wahanol i rannau eraill o'r DU, fel y dywedasoch, Ddirprwy Weinidog, lle mae cymorth yn ymddangos yn dameidiog. Rydym mewn perygl o golli pobl ifanc os nad yw cefnogaeth yn gyson, felly rwy'n falch eich bod wedi mynd i'r afael â hynny. Mae gen i nifer o gwestiynau byr. Yn gyntaf, o ran ymgysylltu â phobl ifanc, sut y gallwn sicrhau bod y bobl ifanc sydd fwyaf anodd eu cyrraedd yn elwa ar Twf Swyddi Cymru? Gwn fod Nick Ramsay wedi crybwyll y nifer uchel o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rwy'n poeni am hynny, fel y mae'r holl Aelodau. Yn ail, sut y gallwn sicrhau bod cyflogwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen? Rwy'n meddwl yn benodol am gyflogwyr llai. Rydych yn dweud bod lefel ac amrywiaeth y cyfleoedd gwaith sy'n cael eu creu yn eich calonogi. A

that? Finally, I looked on the Careers Wales website for Rhondda Cynon Taf, and I was delighted to see 18 Jobs Growth Wales vacancies. However, how can we ensure an equitable spread of placements so that good quality opportunities are offered within the areas that may suffer most from unemployment?

allwch ddweud ychydig yn fwy wrthym am hynny? Yn olaf, edrychais ar wefan Gyrfa Cymru ar gyfer Rhondda Cynon Taf, ac roeddwn yn falch iawn o weld 18 o swyddi gwag Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, sut y gallwn sicrhau bod y lleoliadau gwaith sydd ar gael yn cael eu lledaenu'n deg fel bod cyfleoedd o ansawdd da yn cael eu cynnig yn yr ardaloedd sy'n dioddef fwyaf o ddiweithdra?

**Jeff Cuthbert:** I thank the Member for Cynon Valley for those questions. I endorse the point that you made: we do not want to see young people demoralised and disengaged, because that would be the very worst start for them. Young people face a difficult situation in the employment market as it is, and we are determined to do all that we can, within the context of the pressures of the global economy, which we cannot control, to ease issues. That is why we have created the new division, which will deal with these problems as a one-stop shop, instead of information having to be gathered from a number of sections or departments. We will expect it to set up rigorous and meaningful lines of communication with all employers. That includes very small businesses, and we will continue to provide a co-ordinated service to microbusinesses—those very small ones, which employ nine people or fewer. We will provide assistance and support in terms of their ability to recruit, develop and retain new recruits, and to ensure that those who are taking part in this scheme will be integrated as fully as possible. It will link in with all the other policies that we have, such as the shared apprenticeship scheme, which is ideally suited to smaller firms. As the title suggests, it means that businesses in the same occupational area can share an apprentice between them, so that the young person can complete a framework. We are determined, through a proper joined-up approach, to offer the very best deal to young people across all occupational areas in Wales.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am y cwestiynau hynny. Cefnogaf y pwynt a wnaethoch: nid ydym am weld pobl ifanc yn digalonni ac yn ymddieithrio, oherwydd dyna'r ffordd waethaf iddynt gychwyn. Mae pobl ifanc yn wynebu sefyllfa anodd yn y farchnad gyflogaeth fel y mae, ac rydym yn benderfynol o wneud popeth yn ein gallu i liniaru problemau o fewn cyd-destun pwysau'r economi fyd-eang, na allwn ei rheoli. Dyna pam rydym wedi creu'r isadran newydd, a fydd yn ymdrin â'r problemau hyn fel siop un stop, yn hytrach na bod gwybodaeth yn gorfod cael ei chasglu o nifer o isadrannau neu adrannau. Byddwn yn disgwyl iddi sefydlu dulliau trylwyr ac ystyrlon o gyfathrebu â'r holl gyflogwyr. Mae hynny'n cynnwys busnesau bach iawn, a byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth cydlynol i microfusnesau—y rhai bach iawn, sy'n cyflogi naw o bobl neu lai. Byddwn yn darparu cymorth a chefnogaeth o ran eu gallu i recriwtio, datblygu a chadw staff newydd, ac i sicrhau y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn yn cael eu hintegreiddio mor llawn ag y bo modd. Bydd yn cysylltu â'n holl bolisïau eraill, fel y cynllun rhannu prentisiaeth, sy'n ddelfrydol i gwmnïau llai. Fel yr awgryma'r teitl, mae'n golygu y gall busnesau yn yr un maes galwedigaethol rannu un prentis rhyngddynt, fel y gall y person ifanc gwblhau fframwaith. Rydym yn benderfynol, drwy ddull cydgysylltiedig, o gynnig y fargen orau i bobl ifanc ar draws pob maes galwedigaethol yng Nghymru.

**Simon Thomas:** Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Mae'r dirwasgiad, a'r cadarnhad ein bod yn parhau mewn dirwasgaid, wedi tanlinellu pwysigrwydd cynllun o'r fath i'n pobl ifanc. Fel chithau, rwy'n hyderus bod nifer o bobl ifanc yng Nghymru yn hyderus ac abl i ymgymryd â

**Simon Thomas:** Thank you for your statement, Deputy Minister. The recession, and the confirmation that we remain in recession, has underlined the importance of such a scheme for our young people. Like you, I am confident that many young people in Wales are confident and able to undertake

swyddi, cyhyd â'u bod yn cael cefnogaeth i ymgymryd â'r swyddi hynny. Felly, rwy'n croesawu'r cynllun fel ag y mae. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod arwyddion addawol—i ddechrau, o leiaf—bod cyflogwyr yn ymateb yn bositif i'r cynllun, er ei bod yn rhy fuan, ar sail un cynllun peilot yn unig, i ddweud sut fydd y cynllun yn gweithio yn y tymor hir. Ar gefn hynny, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau penodol ynghylch y sector preifat a'i rôl yn y cynllun hwn. Pa wersi a ydych wedi'u dysgu o gynlluniau tebyg, fel ProAct? Mae tystiolaeth nad yw cynlluniau creu swyddi'r Llywodraeth o reidrwydd yn llwyddo i greu swyddi cynaliadwy, felly, pa wersi a ydych wedi eu dysgu i sicrhau bod y cynllun hwn yn ychwanegu at y swyddi sydd ar gael ac yn osgoi disodli swyddi sy'n bodoli eisoes? Sut ydych chi'n bwriadu mesur y cynllun hwn wrth iddo fynd yn ei flaen?

jobs, provided that they have support to do so. Therefore, I welcome the scheme as it stands. I also welcome the fact that there are promising signs—at the outset, at least—that employers are responding to the scheme, although it is too soon, on the basis of a single pilot scheme, to say how the scheme will pan out in the long term. On the back of that, I would like to ask a few specific questions about the private sector and its role in this scheme. What lessons have you learned from similar schemes, such as ProAct? There is evidence that Government job creation schemes do not necessarily succeed in creating sustainable jobs, therefore what lessons have you learned to ensure that this scheme adds to the jobs available and avoids replacing jobs that already exist? How do you intend to monitor this scheme as it progress?

Rydych chi'n dweud eich bod yn hyderus y byddwch yn cyrraedd y targed o 4,000 o leoedd newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf. A wnewch chi ddweud wrthom pa gynlluniau a thargedau sydd gennych ar gyfer y blynyddoedd i ddod? A ydych yn gweld y cynllun hwn yn parhau drwy gydol y Senedd bresennol? Faint o arian a ydych yn bwriadu ei wario ar y cynllun hwn yn ystod y flwyddyn i ddod ac yn y dyfodol?

You say that you are confident that you will reach the target of 4,000 placements during the first year. Will you tell us what plans and targets you have for the ensuing years? Do you envisage this scheme continuing throughout the term of this Senedd? How much money do you intend to spend on this scheme next year and in future?

Roeddech chi'n sôn am sut mae'r cynllun yn cydblethu â chynlluniau eraill. Byddwch yn cofio ein bod wedi cael dadl yn y Senedd am y cynllun hwn, neu gynlluniau tebyg, a bod y Senedd hon yn awyddus i weld cydblethu rhwng y cynllun a rhaglen adfywio'r economi yn ehangach. Yn arbennig, hoffwn glywed sut yr ydych yn gweld y cynllun hwn yn bwydo mewn i bethau fel swyddi gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer microfusnesau. Gan fod cymaint o gwmnïau yng Nghymru yn rhai bach iawn, mae'n bwysig bod y cynllun hwn ar gael iddynt hwy hefyd.

You mention how the scheme dovetails with other programmes. You will recall that we had a debate in the Senedd about this scheme, or similar schemes, and that this Senedd was eager to see this scheme dovetail with the economic renewal programme more broadly. In particular, I would like to hear how you see this scheme feeding into such things as green jobs and the strategy for microbusinesses. Given that so many companies in Wales are very small, it is important that this scheme is also available to them.

Yn olaf, mae gennyf gwestiwn am weithwyr anabl. Rydym wedi clywed sôn eisoes, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, am gau ffatrïoedd Remploy. Wrth gwrs, nid yw Remploy ar gael drwy Gymru gyfan, yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai modd diogelu ambell un o'r ffatrïoedd hynny, rhaid gwneud

Finally, I have a question about disabled workers. We have already heard, during questions to the First Minister, about the closure of Remploy factories. Of course, Remploy is not available throughout Wales, particularly in rural areas. However, even if there were a way to safeguard some of those factories, we must ensure that disabled

yn siŵr bod pobl anabl sy'n chwilio am swyddi yn gallu bod yn rhan o'r cynllun ac yn elwa ohono. Pan ofynnwyd ynghylch y mater hwn ym mis Mawrth, dywedodd y Gweinidog bod rhaid edrych yng nghynllun Twf Swyddi Cymru i chwilio am gyfleoedd i gefnogi gweithwyr ag anableddau. Pa gynlluniau sydd gennych mewn golwg i sicrhau bod pobl ag anableddau yn gallu cael mynediad i'r cynllun hwn hefyd?

people who are looking for employment can be part of the scheme and benefit from it. When a question was asked about this matter in March, the Minister said that we must look to Jobs Growth Wales for opportunities to support workers with disabilities. What plans do you have in mind to ensure that people with disabilities can also access this scheme?

**Jeff Cuthbert:** I thank the Plaid Cymru spokesperson and I welcome his broad support for the programme.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i lefarydd Plaid Cymru, a chroesawaf ei gefnogaeth eang i'r rhaglen.

We are in a recession, and the recent figures show that we are still in trouble in terms of the UK economy and the global economy. I agree with you that young people want to work: they are industrious, keen to make a difference, and want to be productive and positive citizens. There is no doubt about that, and I meet them every day. I also accept that it is very early days, and we are starting to roll out the programme now as a result of the successful pilot scheme. As you say, it was just one pilot scheme and it was a small pilot scheme; undoubtedly issues will arise during the course of this year and the two years following. On that point, it is, incidentally, a three-year programme to create 4,000 jobs per year, at a total cost of £75 million over the three years.

Rydym mewn dirwasgiad, ac mae'r ffigurau diweddar yn dangos ein bod yn dal i fod mewn trafferth o ran economi'r DU a'r economi fyd-eang. Rwy'n cytuno â chi fod pobl ifanc yn awyddus i weithio: maent yn weithgar, yn awyddus i wneud gwahaniaeth, ac yn dymuno bod yn ddinasyddion cynhyrchiol a chadarnhaol. Nid oes unrhyw amheuaeth am hynny, ac rwy'n cwrdd â hwy bob dydd. Rwyf hefyd yn derbyn ei bod yn gynnar yn y broses, ac rydym yn dechrau ymestyn y rhaglen yn awr o ganlyniad i'r cynllun peilot llwyddiannus. Fel y dywedasoch, dim ond un cynllun peilot ydoedd ac roedd yn un bach; yn ddi-os, bydd materion yn codi yn ystod y flwyddyn hon a'r ddwy flynedd nesaf. Ar y pwynt hwnnw, mae, gyda llaw, yn rhaglen dair blynedd i greu 4,000 o swyddi bob blwyddyn, a chyfanswm y gost fydd £75 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd.

In terms of our justification for believing that jobs can be created based on ReAct, ProAct and so on, there is plenty of evidence that those who took part in ReAct were far more likely to get back into the labour market than those who did not. On ProAct, or Skills Growth Wales, which is the successor programme, the statistics indicate that the firms that take part end up creating 15 new jobs at the completion of the programme. Therefore, there is evidence that, where we have serious and sustained investment on a partnership basis between Government and employers, jobs will result, and we are determined to do all that we can.

O ran ein cyfiawnhad dros gredu y gall swyddi gael eu creu yn seiliedig ar ReAct, ProAct ac yn y blaen, mae digon o dystiolaeth bod y rhai a gymerodd ran yn ReAct yn llawer mwy tebygol o fynd yn ôl i'r farchnad lafur na'r rhai na wnaeth gymryd rhan. O ran ProAct, neu Sgiliau Twf Cymru, sef y rhaglen olynol, mae'r ystadegau yn dangos bod y cwmnïau sy'n cymryd rhan yn creu 15 o swyddi newydd ar ddiwedd y rhaglen. Felly, mae tystiolaeth, pan geir buddsoddi difrifol a pharhaus ar sail partneriaeth rhwng y Llywodraeth a chyflogwyr, y bydd swyddi'n cael eu creu, ac rydym yn benderfynol o wneud popeth yn ein gallu.

I said in response to a question from the

Dywedais wrth ymateb i gwestiwn gan

Conservatives' spokesperson that businesses have to bring forward a business case to show not just that the work is additional, but that there is a good chance to create sustained jobs at the end. On dovetailing, you referred to green jobs and microbusinesses, and I mentioned in my response to Christine Chapman that this goes across all occupational areas, and that certainly includes green jobs. Companies and sector skills councils involved in the green and environmental sector are very keen to play a role in supporting this programme.

lefarydd y Ceidwadwyr fod yn rhaid i fusnesau gyflwyno achos busnes i ddangos nid yn unig fod y gwaith yn ychwanegol ond bod cyfle da i greu swyddi parhaus ar y diwedd. O ran asio, gwnaethoch gyfeirio at swyddi gwyrdd a microfusnesau, a chrybwyllais yn fy ymateb i Christine Chapman fod hyn yn mynd ar draws pob maes galwedigaethol, ac mae hynny'n sicr yn cynnwys swyddi gwyrdd. Mae cwmnïau a chynghorau sgiliau sector sy'n ymwneud â'r sector gwyrdd ac amgylcheddol yn awyddus iawn i chwarae rôl yn y gwaith o gefnogi'r rhaglen hon.

In response to Christine Chapman's question about small businesses—you mentioned microbusinesses specifically—I said that we will provide a co-ordinated service to microbusinesses to recruit one or more individuals who are eligible for this support. The purpose of the service is to enable and support microbusinesses to recruit, develop and be better placed to retain new recruits. It has been developed within current guidelines and future recommendations will be provided by the microbusiness task and finish group.

Mewn ymateb i gwestiwn Christine Chapman am fusnesau bach—bu i chi sôn yn benodol am ficrofusnesau—dywedais y byddwn yn darparu gwasanaeth cydlynol i ficrofusnesau i recriwtio un neu fwy o unigolion sy'n gymwys i gael y cymorth hwn. Diben y gwasanaeth yw galluogi a chefnogi microfusnesau i recriwtio, datblygu a bod mewn lle gwell i gadw recriwtiaid newydd. Mae wedi'i ddatblygu o fewn canllawiau presennol a bydd argymhellion yn cael eu darparu gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau yn y dyfodol.

**Eluned Parrott:** I also thank the Deputy Minister for his statement today. I welcome the fact that the programme has now been launched. You are absolutely right to say that tackling the blight of youth unemployment in Wales is critical and I am sure that we would all agree that a 23% youth unemployment rate is deeply worrying. However, the fact that the youth unemployment level is so high is hardly a mark of the success of previous programmes, so I would like your assurance that you have learned from and built upon the experience of the programmes that have previously been delivered in Wales. Did you undertake a critical review of predecessor schemes, such as ProAct and the Future Jobs fund in the UK? If so, what changes have you made to Jobs Growth Wales in order to ensure that it does not suffer similar levels of unemployment at the end of the programme?

**Eluned Parrott:** Rwyf hefyd am ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Croesawaf y ffaith bod y rhaglen wedi cael ei lansio. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod mynd i'r afael â melltith diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn hanfodol ac rwy'n siwr y byddem i gyd yn cytuno bod cyfradd diweithdra o 23% ymhlith pobl ifanc yn destun pryder mawr. Fodd bynnag, go brin fod y ffaith bod lefel y diweithdra ymhlith pobl ifanc mor uchel yn arwydd o lwyddiant y rhaglenni blaenorol, felly hoffwn sicrhad gennych eich bod wedi dysgu o brofiad y rhaglenni a roddwyd ar waith yng Nghymru yn y gorffennol, ac wedi adeiladu ar y profiad hwnnw. A wnaethoch gynnal adolygiad beirniadol o gynlluniau blaenorol, fel ProAct a chronfa Swyddi'r Dyfodol yn y DU? Os felly, pa newidiadau yr ydych wedi'u gwneud i Twf Swyddi Cymru er mwyn sicrhau nad yw'n dioddef lefelau tebyg o ddiweithdra ar ddiwedd y rhaglen?

I am also glad to hear that the intention is to

Rwyf hefyd yn falch o glywed mai'r bwriad

link Jobs Growth Wales to apprenticeship opportunities, where appropriate. I hope that this will act to prevent young people from feeling that they have been dropped at the end of the programme. We have heard from Christine Chapman the fear that has been expressed that young people will become demoralised and disengaged. We have to recognise that hope is an incredibly fragile thing and we must be very careful that we are not raising young people's hopes without a reasonable expectation that we will be able to carry them through to something more permanent. Therefore, perhaps, Deputy Minister, you could talk about what proportion of placements will be deemed appropriate for progression to formal training and apprenticeships. Do you have a target for that? If not, do you have an indicator of how many that might be? What support will be available to those whose placements are not deemed to be appropriate for progression on to such things as an apprenticeship? What quality control measures do you have in place to ensure that all of the placements being offered under Jobs Growth Wales offer a meaningful experience? How do you plan to maximise the number that have the potential to lead to an apprenticeship and a real career?

yw cysylltu Twf Swyddi Cymru â chyfleoedd sy'n ymwneud â phrentisiaethau, lle bo hynny'n briodol. Gobeithio y bydd hyn yn helpu i atal pobl ifanc rhag teimlo eu bod yn cael eu hanghofio pan ddaw'r rhaglen i ben. Rydym wedi clywed gan Christine Chapman am y pryder a fynegwyd y bydd pobl ifanc yn digalonni ac yn ymddieithrio. Mae'n rhaid inni gydnabod bod gobaith yn beth hynod fregus ac mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym yn codi gobeithion pobl ifanc heb reswm da dros gredu y byddwn yn gallu cynnig rhywbeth mwy parhaol iddynt yn y pen draw. Felly, efallai, Ddirprwy Weinidog, y gallech siarad am gyfran y lleoliadau gwaith a fydd yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer symud ymlaen i hyfforddiant ffurfiol a phrentisiaethau. A oes gennych darged ar gyfer hynny? Os nad oes, a oes gennych arwydd o faint allai fod? Pa gymorth a fydd ar gael i'r rhai nad yw eu lleoliadau gwaith yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer symud ymlaen i bethau fel prentisiaethau? Pa fesurau rheoli ansawdd sydd gennych ar waith i sicrhau bod yr holl leoliadau gwaith a gaiff eu cynnig o dan Twf Swyddi Cymru yn cynnig profiad ystyrlon? Sut rydych yn bwriadu sicrhau y gallai'r nifer fwyaf bosibl ohonynt arwain at brentisiaeth a gyrfa go iawn?

Deputy Minister, as you know, I share your enthusiasm for apprenticeships and other work-based training as a route into real careers for our young people. I hope that the anecdotal evidence quoted in your statement today will soon be backed up by solid data as the programme is rolled out across Wales. I would be interested to find out more about the way in which you intend to monitor the targets that you have set. Perhaps, Deputy Minister, you might consider publishing your monitoring regime so that we can understand the parameters that you are working to. The target of 4,000 jobs a year, which is 330 jobs a month, is very ambitious. Apropos of that, perhaps you could tell us how many young people outside the pilot programme have been successfully placed by Jobs Growth Wales in its first month of operation.

Ddirprwy Weinidog, fel y gwyddoch, rwy'n rhannu eich brwdfrydedd am brentisiaethau a mathau eraill o hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith fel llwybr i yrfaoedd go iawn i'n pobl ifanc. Rwy'n gobeithio y bydd y dystiolaeth anecdotaidd a ddyfynnir yn eich datganiad heddiw yn cael ei hategu'n fuan gan ddata cadarn wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno ar draws Cymru. Hoffwn gael gwybod mwy am y ffordd rydych yn bwriadu monitro'r targedau a bennwyd gennych. Efallai, Ddirprwy Weinidog, y byddech yn ystyried cyhoeddi eich trefn fonitro er mwyn inni ddeall y paramedrau sy'n llywio'ch gwaith. Mae'r targed o 4,000 o swyddi y flwyddyn, sef 330 o swyddi y mis, yn uchelgeisiol iawn. Wrth sôn am hynny, efallai y gallech ddweud wrthym faint o bobl ifanc y tu allan i'r rhaglen beilot sydd wedi cael eu lleoli'n llwyddiannus gan raglen Twf Swyddi Cymru yn ei mis cyntaf o weithredu.

**Jeff Cuthbert:** I thank the Liberal Democrat spokesperson for her general welcome and

**Jeff Cuthbert:** Diolchaf i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei chroeso a'i

support for the programme. In terms of the specific questions, I think that I have already dealt with a number of them, so, in order to save time, I will not repeat what I have already said.

chefnogaeth gyffredinol i'r rhaglen. O ran ei chwestiynau penodol, credaf fy mod eisoes wedi ymdrin â nifer ohonynt, felly, er mwyn arbed amser, ni fyddaf yn ailadrodd yr hyn yr wyf wedi'i ddweud eisoes.

In relation to the proportion of those who we think might go on to an apprenticeship, we will encourage that wherever it is appropriate. We now offer apprenticeships across all occupational areas. There is no reason at all why any company—we should bear in mind that Jobs Growth Wales applies to all occupational areas—cannot be guided into an apprenticeship where that is deemed to be suitable. Some may also be able to qualify for the Young Recruits programme, which would provide a £50 per week subsidy to that employer for up to 12 months to aid them in the provision of that apprenticeship. Therefore, the answer is that we do not have a proportion in mind, but we will be doing all that we can to ensure that there is good progression for the young person once they have completed their period under Jobs Growth Wales.

Mewn perthynas â chyfran y rhai a allai fynd ymlaen i ymgymryd â phrentisiaeth, yn ein barn ni, byddwn yn annog hynny lle bynnag y bo'n briodol. Rydym yn awr yn cynnig prentisiaethau ar draws pob maes galwedigaethol. Nid oes unrhyw reswm o gwbl pam na ddylai unrhyw gwmni—dylem gofio bod Twf Swyddi Cymru yn berthnasol i bob maes galwedigaethol—gael ei annog i gynnig prentisiaeth lle y bernir bod hynny'n addas. Efallai y bydd rhai hefyd yn gymwys ar gyfer rhaglen Recriwtiaid Newydd, a fyddai'n rhoi cymhorthdal o £50 yr wythnos i'r cyflogwr am hyd at 12 mis i'w gynorthwyo i ddarparu'r brentisiaeth honno. Felly, yr ateb yw nad oes gennym gyfran mewn golwg, ond byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod dilyniant da ar gyfer pobl ifanc ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod dan Twf Swyddi Cymru.

You asked about quality control. There are, of course, governance arrangements in place. There will be a moderating panel established to ensure that standards are met, both in terms of ensuring that those companies that apply have a robust business plan and that the quality of what is being delivered as the job placement is up to scratch. Membership of that panel, apart from officials, will include Jobcentre Plus, the Wales TUC and, crucially, employers.

Bu i chi ofyn am reoli ansawdd. Mae trefniadau llywodraethu ar waith, wrth gwrs. Bydd panel safoni yn cael ei sefydlu i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni, o ran sicrhau bod gan y cwmnïau hynny sy'n gwneud cais gynllun busnes cadarn, a bod ansawdd yr hyn a gyflwynir fel y lleoliad gwaith yn cyrraedd y safon. Bydd aelodaeth y panel, ar wahân i swyddogion, yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, TUC Cymru ac, yn hollbwysig, cyflogwyr.

3.15 p.m.

On publishing information, reports will be published as Jobs Growth Wales rolls out. In the period from 2 to 28 April, 170 job opportunities were approved. I can guarantee you that that figure is already out of date, as it is increasing every day.

Ar gyhoeddi gwybodaeth, bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi wrth i Twf Swyddi Cymru gael ei gyflwyno. Yn y cyfnod rhwng 2 a 28 Ebrill, cymeradwywyd 170 o gyfleoedd gwaith. Gallaf eich sicrhau bod y ffigur eisoes wedi dyddio, gan ei fod yn cynyddu bob dydd.

**Rebecca Evans:** Thank you for your statement today, Deputy Minister. I do not think that you can overestimate the value of the hope that schemes such as this bring to young people in Wales, especially in the face of what is a global epidemic of youth

**Rebecca Evans:** Diolch am eich datganiad heddiw, Ddirprwy Weinidog. Ni chredaf y gallwch oramcangyfrif gwerth y gobaith y daw cynlluniau fel hyn i bobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig yn wyneb yr epidemig byd-eang o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc.

unemployment.

I have a few questions, the first of which relates to the concerns that other Members have expressed about how the scheme will benefit people who have disabilities. In particular, young people with autism have a huge amount to offer in the workplace, but they struggle to get past the recruitment process because of the nature of their disability. How would this programme fit with the autism spectrum disorder strategic action plan for Wales, and will you commit to working with the autism employment ambassador for Wales to make sure that young people who have autism become beneficiaries of this scheme?

Mae gennyf gwestiynau i'w gofyn, ac mae'r cyntaf yn ymwneud â'r pryderon a fynegwyd gan Aelodau eraill ynghylch sut y bydd y cynllun o fudd i bobl sydd ag anableddau. Yn arbennig, mae gan bobl ifanc ag awtistiaeth lawer iawn i'w gynnig yn y gweithle, ond mae'n anodd iddynt fynd y tu hwnt i'r broses recriwtio oherwydd natur eu hanabledd. Sut fyddai'r rhaglen hon yn cyd-fynd â'r cynllun gweithredu strategol i Gymru ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, ac a fyddwch yn ymrwymo i weithio gyda chennad cyflogaeth awtistig Cymru i sicrhau y bydd pobl ifanc sydd ag awtistiaeth yn cael budd o'r cynllun hwn?

Some of those most disadvantaged when entering the jobs market are young people leaving care. Will the Welsh Government be working with the relevant statutory and voluntary organisations to ensure that young people leaving care also benefit from the scheme?

Rhai o'r bobl sydd fwyaf o dan anfantais wrth fynd i mewn i'r farchnad swyddi yw pobl ifanc sy'n gadael gofal. A fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol statudol a gwirfoddol i sicrhau y bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn elwa ar y cynllun hefyd?

Finally, Deputy Minister, the Government has said that Jobs Growth Wales will provide a more supportive environment for those who need it, to help them to make the most of this opportunity. Could you expand on what this more supportive environment will look like? How will you ensure that employers can recognise the extra support that is needed, and that they are able to deliver it?

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd Twf Swyddi Cymru yn darparu amgylchedd mwy cefnogol ar gyfer y rhai sydd ei angen, er mwyn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn. A allwch chi ymhelaethu ar yr amgylchedd mwy cefnogol hwn? Sut y byddwch yn sicrhau y bydd cyflogwyr yn gallu cydnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen, a'u bod yn gallu ei ddarparu?

**Jeff Cuthbert:** I thank the Member for those questions. You raised the issue of disabilities, and I apologise to the spokesperson for Plaid Cymru, who also raised that issue but I failed to respond to it. It is important to bear in mind with Jobs Growth Wales that, as far as the young person is concerned, it is a real job. They will be on the books of that employer, they will be paid by that employer, and that employer will then invoice us for the moneys involved. So, as far as the young person is concerned, it is a real job.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Codwyd y mater o anableddau gennych, ac ymddiheuraf i lefarydd Plaid Cymru a gododd y mater hwnnw hefyd am fethu ag ymateb iddo. Mae'n bwysig cadw mewn cof ynghylch Twf Swyddi Cymru bod y swydd, cyn belled ag y mae pobl ifanc yn y cwestiwn, yn un go iawn. Byddant ar lyfrau'r cyflogwr, byddant yn cael eu talu gan y cyflogwr, ac wedyn bydd y cyflogwr yn anfon anfoneb i ni am yr arian o dan sylw. Felly, o ran y person ifanc, mae'n swydd go iawn.

As for those who are disabled, we do not have a specific target of job opportunities for young people with disabilities, as the programme is being driven by employer

O ran y rheini sy'n anabl, nid oes gennym darged penodol ar gyfer cyfleoedd swyddi ar gyfer pobl ifanc ag anableddau, gan fod y rhaglen yn cael ei gyrru gan y galw ymhlith

demand. However, employers can access the Department for Work and Pensions Access to Work funding should modifications be required to the workplace. As part of the governance arrangements, we will certainly want to ensure that no unfair barriers are put in the way of young people who may have particular disabilities that need to be addressed.

cyflogwyr. Fodd bynnag, gall cyflogwyr gael mynediad at gyllid Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau os oes angen gwneud addasiadau i'r gweithle. Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu, byddwn yn sicrhau na roddir unrhyw rwystrau annheg yn llwybr y bobl ifanc y mae ganddynt anableddau penodol o bosibl y mae angen rhoi sylw iddynt.

I would be happy to meet with the autism employment ambassador to discuss the scheme. If you would like to pass on that invitation or write to me, I would be happy to take that up.

Byddwn yn hapus i gwrdd â chennad cyflogaeth awtistig Cymru i drafod y cynllun. Os hoffech basio'r gwahoddiad hwnnw ymlaen ataf neu ysgrifennu ataf, byddwn yn hapus i fynd ar drywydd hynny.

You mentioned young people leaving care or those who may have extra barriers to overcome. In this regard, we see the voluntary sector playing a key role. The concentration will be on the private sector, because that is where we expect to see the expansion of jobs once the economy picks up. However, as we have already discussed with the Wales Council for Voluntary Action, the voluntary sector will play an important role in providing opportunities for those young people who might need greater support.

Gwnaethoch sôn am y bobl ifanc sy'n gadael gofal neu'r rhai sydd â rhwystrau ychwanegol i'w goresgyn. Yn hyn o beth, gwelwn fod gan y sector gwirfoddol ran allweddol i'w chwarae. Byddwn yn canolbwyntio ar y sector preifat, oherwydd disgwyliwn weld cynnydd yn nifer y swyddi yn y sector hwnnw unwaith y bydd yr economi yn gwella. Fodd bynnag, fel y trafodwyd eisoes gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, bydd y sector gwirfoddol yn chwarae rhan bwysig o ran darparu cyfleoedd ar gyfer y bobl ifanc y gallai fod arnynt angen mwy o gefnogaeth.

## Datganiad: Yr Adolygiad o Ddeddfwriaeth ar Ddigartrefedd
## Statement: The Homelessness Legislation Review

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** My statement today addresses one of the biggest challenges facing this Government and which I know is a concern for Members. We are intent on more action to prevent homelessness in the first place and, today, I will outline the steps that we are taking.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Mae fy natganiad heddiw yn rhoi sylw i un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Llywodraeth hon, a gwn ei bod yn peri pryder i Aelodau. Rydym yn benderfynol o gael gweithredu ehangach i atal digartrefedd yn y lle cyntaf a, heddiw, byddaf yn amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd.

Homelessness is an extreme form of social exclusion, which can undermine every other aspect of life to which our citizens aspire. We want everyone to have a decent home that they can afford. After years of falling levels of homelessness, the trend is now, unfortunately, upwards. That reflects the exceptionally difficult times that people are now facing, with increasing costs of living, job losses and welfare reform. The outlook must be of concern to us all.

Mae digartrefedd yn fath difrifol o allgàu cymdeithasol, a all danseilio pob agwedd arall ar fywyd y mae ein dinasyddion yn anelu ato. Rydym eisiau i bawb gael cartref o safon y gallant ei fforddio. Ar ôl blynyddoedd o weld lefelau digartrefedd yn gostwng, mae'r duedd yn awr, yn anffodus, ar i fyny. Mae hynny'n adlewyrchu'r cyfnod eithriadol o anodd y mae pobl yn awr yn ei wynebu, gyda chostau byw yn cynyddu, swyddi'n cael eu colli a diwygio lles. Rhaid

bod y rhagolygon yn peri pryder i ni i gyd.

The latest figures show a decrease in homelessness of 9%. I welcome that, of course, but, as I said, the overall trend is upwards. The aggressive approach of this UK Government is making the current situation worse and will almost certainly lead to further increases in homelessness in the coming months and years.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos gostyngiad mewn digartrefedd o 9%. Rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs, ond, fel y dywedais, mae'r duedd yn gyffredinol ar i fyny. Mae dull ymosodol Llywodraeth y DU yn gwneud y sefyllfa bresennol yn waeth a bydd bron yn sicr o arwain at gynnydd pellach mewn digartrefedd yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

I am determined to do everything that I can to protect the most vulnerable in our society, including those most at risk of homelessness. People lose their homes for a variety of reasons, which may include debt, mental illness, domestic abuse, substance misuse, family problems, or simply poverty. We need to tackle these causes. We must focus on doing more to prevent homelessness.

Rwy'n benderfynol o wneud popeth y gallaf ei wneud i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan gynnwys y rhai y mae'r perygl mwyaf y byddant yn dod yn ddigartref. Mae pobl yn colli eu cartrefi am amrywiaeth o resymau, a gallant gynnwys dyledion, salwch meddwl, trais yn y cartref, camddefnyddio sylweddau, problemau teuluol, neu, yn syml, tlodi. Mae angen inni fynd i'r afael â'r achosion hyn. Rhaid inni ganolbwyntio ar wneud mwy i atal digartrefedd.

The effects of homelessness can be devastating for people's health and wellbeing. They can disrupt family life and affect children's development and education. Once again this year, we are committing more than £7 million to supporting services that give help to people who find themselves homeless or are threatened with homelessness. This supports the actions set out in our 10-year homelessness plan. In particular, we are providing local authorities with £1.4 million over two years to mitigate the impact of the cuts to housing benefit, with additional funding for Shelter Cymru to raise awareness of the changes and increase access to independent advice. We are funding research into the effectiveness of this work and the impact of the changes.

Gall effeithiau digartrefedd fod yn ddinistriol i iechyd a lles pobl. Gallant darfu ar fywyd teuluol ac effeithio ar ddatblygiad ac addysg plant. Unwaith eto eleni, rydym yn ymrwymo i roi mwy na £7 miliwn i gefnogi gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartref. Mae hyn yn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd. Yn benodol, rydym yn darparu £1.4 miliwn dros ddwy flynedd i awdurdodau lleol i liniaru effaith y toriadau mewn budd-dal tai, gyda chyllid ychwanegol ar gyfer Shelter Cymru i godi ymwybyddiaeth ynghylch y newidiadau a chynyddu mynediad at gyngor annibynnol. Rydym yn ariannu gwaith ymchwil ar effeithiolrwydd y gwaith hwn ac ar effaith y newidiadau.

We have provided money to promote links between credit unions and those at risk of homelessness and to help struggling homeowners and increase access to the private rented sector. Despite the cuts to our overall budget, we are continuing our funding for Supporting People and for vital front-line homelessness services. All this is commendable and necessary, but we recognise the need to do more. Very shortly, I

Rydym wedi darparu arian i hyrwyddo cysylltiadau rhwng undebau credyd a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac i helpu perchnogion tai sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd ac i gynyddu'r mynediad at y sector rhentu preifat. Er gwaethaf y toriadau i'n cyllideb gyffredinol, rydym yn parhau â'n cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl ac ar gyfer gwasanaethau digartrefedd rheng flaen hanfodol. Mae hyn i gyd yn ganmoladwy ac

will publish a White Paper setting out my proposals for new legislation and other action. New legislation on homelessness was highlighted by the First Minister when he announced our legislative programme. I will deliver this.

yn angenrheidiol, ond rydym yn cydnabod yr angen i wneud mwy. Yn fuan iawn, byddaf yn cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn nodi fy nghynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd a chamau eraill. Amlygwyd deddfwriaeth newydd ar ddigartrefedd gan y Prif Weinidog wrth iddo gyflwyno ein rhaglen ddeddfwriaethol. Byddaf yn cyflawni hyn.

We face a huge challenge in increasing the supply of affordable housing. This is not a new problem, of course. We are working to develop more innovative solutions. On 17 April, alongside my colleague, Edwina Hart, I launched the Ely mill scheme in Cardiff, which will deliver up to 700 mixed tenure homes. This makes best use of Welsh Government land and has not required any grant money. However, our action extends beyond building new homes. We need to make better use of the private rented sector, and the White Paper will set out proposals to do this. The more flexible use of existing homes is essential. As part of this, our new Houses into Homes project will put more empty properties back into use.

Rydym yn wynebu her enfawr i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Nid yw hon yn broblem newydd, wrth gwrs. Rydym yn gweithio i ddatblygu atebion mwy arloesol. Ar 17 Ebrill, gyda'm cydweithiwr Edwina Hart, lansiais y cynllun melin Trelái yng Nghaerdydd, a fydd yn darparu hyd at 700 o gartrefi deiliadaeth gymysg. Mae hyn yn gwneud y defnydd gorau o dir Llywodraeth Cymru ac nid oedd angen unrhyw arian grant ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae ein camau gweithredu yn ymestyn y tu hwnt i adeiladu cartrefi newydd. Rhaid inni wneud gwell defnydd o'r sector rhentu preifat, a bydd y Papur Gwyn yn amlinellu cynigion i wneud hyn. Mae'r defnydd mwy hyblyg o gartrefi presennol yn hanfodol. Fel rhan o hyn, bydd ein prosiect newydd, Troi Tai yn Gartrefi, yn golygu ailddefnyddio mwy o adeiladau gwag.

Prevention must be at the heart of our approach, with earlier intervention so that people get the help that they need in time for solutions to be explored. One of my first acts as Minister was to commission a review of homelessness legislation. This review has identified problems with current legislation and explored options for improving it. The research sought the views of service users, relevant organisations and the public. We now have these reports and I will take full account of them in the proposals that I bring forward. We also need to give local authorities more flexibility in discharging their duties to homeless people, including through making more effective use of the private rented sector. We need to ensure that other organisations, including housing associations, are fully supporting local authorities in helping to find accommodation for people affected by homelessness.

Rhaid i atal digartrefedd fod wrth wraidd ein dull o weithredu, gydag ymyrraeth gynharach fel y gall bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ddigon cynnar er mwyn ymchwilio i atebion. Un o'm camau cyntaf fel Gweinidog oedd comisiynu adolygiad o ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Nododd yr adolygiad hwn broblemau â deddfwriaeth gyfredol ac archwiliodd opsiynau ar gyfer ei gwella. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys gofyn am farn defnyddwyr gwasanaethau, sefydliadau perthnasol a'r cyhoedd. Mae gennym bellach yr adroddiadau hyn, a byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn iddynt wrth ddod â chynigion gerbron. Rhaid inni hefyd roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â phobl ddigartref, gan gynnwys drwy wneud defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat. Rhaid inni sicrhau bod sefydliadau eraill, gan gynnwys cymdeithasau tai, yn cefnogi awdurdodau lleol yn llawn er mwyn eu helpu i ddod o hyd i lety ar gyfer y bobl a gaiff eu heffeithio gan ddigartrefedd.

Of course, prevention begins with good advice, and the paper that I published in December outlined my vision for improving access to housing advice through a new framework of service provision. The Welsh Government will shortly be undertaking a review of all advice services, and this will examine the help available to people across a wide spectrum, including housing. I will support that review, which will help us to build a network of advice services to address not just homelessness but all the related needs that can undermine a person's housing security.

Wrth gwrs, mae atal digartrefedd yn dechrau gyda chyngor da, ac yn y papur a gyhoeddais ym mis Rhagfyr amlinellais fy ngweledigaeth ar gyfer gwella mynediad at gyngor am dai drwy fframwaith darparu gwasanaethau newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad yn fuan o'r holl wasanaethau cynghori, a bydd hyn yn edrych ar y cymorth sydd ar gael i bobl ar hyd sbectrwm eang, gan gynnwys tai. Byddaf yn cefnogi'r adolygiad hwnnw, a fydd yn ein helpu i lunio rhwydwaith o wasanaethau cynghori i fynd i'r afael nid yn unig â digartrefedd ond hefyd â'r holl anghenion cysylltiedig sy'n gallu tanseilio diogelwch tŷ person.

In some cases, homelessness cannot be averted, and we must ensure that services are designed to help people through that sort of crisis as quickly as possible. In the most extreme cases, people end up sleeping rough, and we must aim to help them to move into settled accommodation as quickly as we can. We must end the need for anyone to sleep rough.

Nid oes modd osgoi digartrefedd mewn rhai achosion, a rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i helpu pobl drwy'r math hwnnw o argyfwng cyn gynted ag y bo modd. Yn yr achosion mwyaf eithafol, mae pobl yn cael eu gorfodi i gysgu ar y stryd, a rhaid inni anelu at eu helpu i symud i lety sefydlog cyn gynted ag y gallwn. Rhaid inni roi terfyn ar yr angen i unrhyw un gysgu ar y stryd.

There is much good work being done to prevent homelessness by organisations across the country. I applaud their efforts and reaffirm my commitment to help them to do more to prevent homelessness. Our research has shown us the importance of ensuring that it is underpinned by effective legislation. Our aim is to be the first country in the United Kingdom to enshrine the prevention of homelessness in law and, through that, to support local authorities and other organisations in the work that they are doing on an issue that can have such a traumatic effect on the citizens of our country. As stated earlier, my White Paper will put flesh on the bones of this approach. I look forward to the support of Members in helping to make a real difference to the lives of people who have become homeless or who are threatened with homelessness.

Mae llawer o waith da yn cael ei wneud i atal digartrefedd gan sefydliadau ledled y wlad. Rwy'n cymeradwyo eu hymdrechion ac ailddatganaf fy ymrwymiad i'w helpu i wneud mwy i atal digartrefedd. Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos inni ba mor bwysig yw sicrhau bod atal digartrefedd yn seiliedig ar gael deddfwriaeth effeithiol. Ein nod yw mai Cymru fydd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori atal digartrefedd mewn cyfraith a, thrwy hynny, i gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y gwaith y maent yn ei wneud ar fater a all gael effaith mor ysgytwol ar ddinasyddion ein gwlad. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd fy Mhapur Gwyn yn rhoi cnawd ar esgyrn y dull hwn o weithredu. Rwy'n edrych ymlaen at gefnogi Aelodau wrth iddynt helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartrefedd.

**Mark Isherwood:** Thank you for that highly timely statement. As you said, although we welcome the 9% fall in the latest figures, the trend is upwards. I recall that, in the first five years of devolution, homelessness went up 121%. It then fell, although charities still said

**Mark Isherwood:** Diolch am y datganiad hynod amserol hwnnw. Fel y dywedasoch, er ein bod yn croesawu'r gostyngiad o 9% yn y ffigurau diweddaraf, mae'r duedd am i fyny. Ym mhum mlynedd gyntaf datganoli, cofiaf i ddigartrefedd gynyddu 121%. Syrthiodd wedi

that the real figure of hidden homelessness might be double the reported figures.

hynny, er bod elusennau'n parhau i ddweud y gallai ffigur gwirioneddol digartrefedd cudd fod yn ddwywaith cymaint â'r ffigurau a gofnodwyd.

I very much welcome your statement. We need to tackle causes such as substance misuse, debt, mental health problems, family breakdown and so on. Do you agree that there is also a particular issue with ex-forces personnel who may have indications of one or more of those factors, but, unfortunately, represent a high percentage of those people who are technically homeless?

Croesawaf eich datganiad. Mae angen inni fynd i'r afael ag achosion fel camddefnyddio sylweddau, dyled, problemau iechyd meddwl, teuluoedd yn chwalu, ac yn y blaen. A gytunwch fod problem benodol ynghylch cyn-aelodau'r lluoedd arfog a allai fod yn dioddef un neu fwy o'r ffactorau hynny, ond, yn anffodus, sy'n cynrychioli canran uchel o'r bobl hynny sy'n wirioneddol ddigartref?

You referred to the £1.4 million that you are providing over two years to mitigate the impact of the changes to housing benefit. How does that complement the money provided by the UK Government to local authorities for an equivalent purpose? Is it the same money routed through the Welsh Government via the Barnett formula or is it something different?

Cyfeiriasoch at yr £1.4 miliwn yr ydych yn ei ddarparu dros ddwy flynedd i liniaru effaith y newidiadau i'r budd-dal tai. Sut mae hynny'n cyd-fynd â'r arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU i awdurdodau lleol at ddiben cyfatebol? Ai'r un arian ydyw a gyfeirir drwy Lywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett neu a yw'n rhywbeth gwahanol?

You referred, quite rightly, to promoting links between credit unions and those at risk of homelessness. How will that build on the changes to the UK Credit Unions Act 1979 that came into force in January, allowing them to extend their reach to housing providers, social enterprises and charities, among others?

Cyfeiriasoch, yn gwbl briodol, at hyrwyddo cysylltiadau rhwng undebau credyd a'r rheini sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Sut fydd hynny'n adeiladu ar y newidiadau i Ddeddf Undebau Credyd 1979 y DU a ddaeth i rym ym mis Ionawr, sy'n eu galluogi i ymestyn eu cwmpas i ddarparwyr tai, mentrau cymdeithasol ac elusennau, ymhlith pethau eraill?

You referred to Supporting People. In developing its new funding mechanisms, have you yet confirmed the role that third sector providers, which are a critical element of homelessness provision and of Supporting People provision, will play in developing local strategies and in making local funding decisions with their statutory sector partners?

Cyfeiriasoch at raglen Cefnogi Pobl. Wrth ddatblygu ei dulliau ariannu newydd, a ydych wedi cadarnhau eto y rôl y bydd darparwyr y trydydd sector, sy'n elfen hanfodol o'r ddarpariaeth ar gyfer digartrefedd ac o ddarpariaeth rhaglen Cefnogi Pobl, yn ei chwarae wrth ddatblygu strategaethau lleol ac wrth wneud penderfyniadau cyllido lleol gyda'u partneriaid yn y sector statudol?

You referred to help for struggling homeowners but did not mention the term 'mortgage rescue'. Will this incorporate any form of mortgage rescue scheme, not simply financially, when people reach the point at which they are becoming homeless, but also in the broader sense of the term, working with social landlords, mortgage lenders and other key agencies?

Cyfeiriasoch at yr help i berchnogion tai sy'n cael trafferthion ar hyn o bryd, ond ni wnaethoch sôn am y term 'achub morgeisi'. A fydd hyn yn ymgorffori rhyw fath o gynllun achub morgeisi, nid yn unig yn ariannol, pan fydd pobl yn cyrraedd y pwynt lle maent yn dod yn ddigartref, ond hefyd yn ystyr ehangach y term, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol, benthycwyr morgeisi ac asiantaethau allweddol eraill?

You referred to the huge challenge of increasing the supply of affordable housing not being a new problem, which, of course, it is not. The supply of new affordable housing has been falling for over a decade. Will you take forward in Wales a model based on the mortgage guarantee scheme that is applicable in Scotland and England—on a national basis, not just through local authorities—and a first-time buyer scheme such as First Buy or a different one, recognising that, in Wales last year, only 33 homebuy purchases used Welsh Government funding?

Cyfeiriasoch at y ffaith nad problem newydd yw’r her enfawr o gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy, ac, wrth gwrs, cytunaf â chi ar hynny. Mae’r cyflenwad o dai fforddiadwy newydd wedi gostwng ers dros ddegawd. A wnewch chi fwrw ymlaen yng Nghymru â model yn seiliedig ar y cynllun gwarant morgais sy’n berthnasol yn yr Alban a Lloegr—ar sail genedlaethol, nid drwy awdurdodau lleol yn unig—a chynllun ar gyfer y rheini sy’n prynu tai am y tro cyntaf fel First Buy, neu un gwahanol, gan gydnabod mai 33 yn unig o dai a brynwyd o dan y cynllun prynu cartref a ddefnyddiodd gyllid gan Lywodraeth Cymru?

You quite rightly referred to the need to embrace the private rented sector. How are you ensuring engagement between local authorities and the National Landlords Association, which, over a year ago, said that it needed to engage with local authorities to ensure that landlords could put the right properties in the right places at the right rents to meet what was known to be local need?

Cyfeiriasoch yn ddigon teg at yr angen i gynnwys y sector rhentu preifat. Sut ydych yn sicrhau bod ymgysylltu rhwng awdurdodau lleol a Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, a ddywedodd, dros flwyddyn yn ôl, bod angen iddo ymgysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau y gallai landlordiaid roi’r adeiladau cywir yn y mannau cywir, gan godi’r rhenti cywir, i ddiwallu’r hyn a oedd yn wybyddus fel angen lleol?

You referred to early intervention. What, if any, dialogue are you having with the courts on repossessions because of both landlord arrears and mortgage borrower arrears, and also with the Council of Mortgage Lenders to ensure its partnership in this, intervening with customers when they first get into difficulty?

Cyfeiriasoch at ymyrraeth gynnar. Pa ddeialog, os o gwbl, ydych yn ei chael â’r llysoedd ar achosion o adfeddiannu oherwydd ôl-ddyledion i landlordiaid ac ôl-ddyledion i fenthyciwr morgeisi, a hefyd gyda’r Cyngor Benthycwyr Morgeisi i sicrhau ei bartneriaeth yn hyn, drwy ymyrryd ar ran cwsmeriaid pan fyddant yn mynd i drafferth?

3.30 p.m.

**Mark Isherwood:** You referred to the need to give local authorities more flexibility, with more effective use of the private rented sector. How are you now developing solid proposals for the development of social letting agencies, both in general and for those hardest to house, such as those services provided by Cefni Lettings? On improving access to housing advice, what future do you see for the development of the Welsh housing debt helpline, which is funded by the Welsh Government in this respect, and for building on the service provided by the money advice helpline, introduced by the UK Government

**Mark Isherwood:** Cyfeirioch at yr angen i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol, gyda defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat. Sut yr ydych yn awr yn llunio cynigion cadarn ar gyfer datblygu asiantaethau gosod cymdeithasol, yn gyffredinol ac ar gyfer y rhai sy’n fwyaf anodd rhoi cartrefi iddynt, fel y gwasanaethau hynny a ddarperir gan Cefni Lettings? O ran gwella mynediad at gyngor ar dai, yn eich barn chi, pa ddyfodol sydd i ddatblygu llinell gymorth dyledion tai Cymru, a gaiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac i adeiladu ar y

as a free, independent service providing money advice, but which will have its call centre, as we have just heard, in south Wales?

gwasanaeth a ddarperir gan y llinell gymorth cyngor ariannol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU fel gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim sy'n rhoi cyngor ariannol, ond fydd â'i chanolfan alwadau, fel yr ydym newydd glywed, yn ne Cymru?

Finally, you referred to rough sleepers. The campaign for the Wrexham night shelter was successfully held on a completely cross-party basis and the initiative came from a third sector body. What consideration will you give to short-term night shelter provision, prior to move-on provision, to ensure that people are not effectively left homeless until more settled accommodation is available?

Yn olaf, cyfeirioch at bobl sy'n cysgu ar y stryd. Cafodd yr ymgyrch ar gyfer y lloches nos yn Wrecsam ei chynnal yn llwyddiannus ar sail hollol drawsbleidiol. Syniad corff yn y trydydd sector oedd y fenter. Pa ystyriaeth a roddwch i ddarpariaeth lloches nos tymor byr, cyn y ddarpariaeth ar gyfer symud ymlaen, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael yn ddigartref nes bod llety mwy sefydlog ar gael?

**Huw Lewis:** I thank Mark Isherwood for those questions and I will attempt to outline some answers as best I can and as succinctly as I can. It is, of course, as I mentioned, for the White Paper to really put flesh on the bones of some of Mark's points, but I will attempt to address them in outline. In terms of the changes to housing benefit and the extra £1.4 million flowing towards local authorities, this has come through the Assembly and is a part of us beginning to recognise that the burden upon advisory services in particular can only grow over the coming period. We are also engaged with Shelter most prominently within the third sector in a conversation about how those advisory services should develop. The debt helpline that Mark mentioned will be a part of that conversation. I am keen to see a badged national housing advisory service emerge from our deliberations as part of that wider review of advisory services in the round, and I look forward to engaging constructively with Mark and his party colleagues in terms of how that evolves.

**Huw Lewis:** Diolch i Mark Isherwood am y cwestiynau hynny a cheisiaf amlinellu rhai atebion hyd eithaf fy ngallu ac mor gryno ag y gallaf. Fel y soniais, mater, wrth gwrs, ar gyfer y Papur Gwyn mewn gwirionedd yw rhoi cnawd ar esgyrn rhai o bwyntiau Mark, ond ceisiaf ymdrin â hwy yn fras. O ran y newidiadau mewn budd-dal tai a'r £1.4 miliwn ychwanegol a gaiff awdurdodau lleol, mae hyn wedi dod drwy'r Cynulliad ac mae'n rhan o'r broses o ddechrau cydnabod gennym ni fod y baich ar wasanaethau cynghori yn arbennig yn sicr o dyfu yn ystod y cyfnod sydd i ddod. Rydym hefyd yn trafod gyda Shelter yn fwyaf amlwg yn y trydydd sector ynglŷn â sut y dylid datblygu'r gwasanaethau cynghori hynny. Bydd y llinell gymorth dyledion y soniodd Mark amdani'n rhan o'r drafodaeth honno. Rwyf yn awyddus i weld gwasanaeth cynghori tai cenedlaethol cydnabyddedig yn deillio o'n trafodaethau fel rhan o'r adolygiad ehangach o wasanaethau cynghori yn eu cyfanrwydd, ac edrychaf ymlaen at weithio'n adeiladol â Mark a'i gyd-Aelodau yn ei blaid o ran sut y bydd y mater hwn yn datbblygu.

On credit unions, you are quite right to say that there were positive aspects to the recent Act passed at Westminster and I would like to see us build on those. I have made a very strong case for credit unions and their potential in terms of looking after people's housing options in the future by offering them financial security and, therefore, housing security. I look forward to the

O ran undebau credyd, rydych yn hollol gywir wrth ddweud bod agweddau cadarnhaol i'r Ddeddf a gafodd ei phasio yn San Steffan yn ddiweddar a hoffwn ein gweld yn adeiladu arnynt. Rwyf wedi dadlau'n gryf dros undebau credyd a'u potensial o ran gofalu am ddewisiadau tai pobl yn y dyfodol drwy gynnig sicrwydd ariannol iddynt ac, felly, sicrwydd o ran llety. Edrychaf ymlaen

evolution of credit unions to a much greater extent, as quickly as we can possibly manage, both in terms of membership and the types of financial product that might be available to people through Welsh credit unions. I was very excited to read very recently that Glasgow Credit Union has become the first in the UK to begin to offer mortgages. That should be an inspiration to us and should spur us to ever greater commitment to the credit union movement.

at ddatblygu undebau credyd i raddau llawer mwy, cyn gynted ag y mae'n bosibl inni, o ran aelodaeth a'r mathau o ddarpariaeth ariannol a allai fod ar gael i bobl drwy undebau credyd yng Nghymru. Roeddwn yn falch iawn o ddarllen yn ddiweddar iawn mai Undeb Credyd Glasgow yw’r cyntaf yn y DU i ddechrau cynnig morgeisi. Dylai hynny fod yn ysbrydoliaeth i ni a dylai ein sbarduno i ymrwymo hyd yn oed yn fwy i fudiad yr undebau credyd.

In terms of Supporting People, the third sector has been at the centre of discussions about how things should develop; it has a critical role, which will obviously remain and will be built into the decision making at regional level that we are attempting to roll out.

O ran Cefnogi Pobl, mae’r trydydd sector wedi bod yn ganolog i'r trafodaethau ynghylch sut y dylai pethau ddatblygu; mae ganddo rôl hanfodol, a fydd yn amlwg yn parhau ac yn cael ei chynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol yr ydym yn ceisio ei chyflwyno.

On mortgage rescue and first-time buyer schemes, I can assure Mark that these are on the table, not necessarily in forms which would just replicate what might be happening over the border in England, but which would form part of the discussion around the White Paper, and I will have more to say about that at the launch of the White Paper itself.

O ran achub morgeisi a chynlluniau i brynwyr am y tro cyntaf, gallaf sicrhau Mark fod y rhain ar y gweill, nid o reidrwydd mewn ffurf na fyddai ond yn ailadrodd yr hyn a allai fod yn digwydd dros y ffin yn Lloegr, ond a fyddai'n rhan o'r drafodaeth ynghylch y Papur Gwyn, a bydd gennyf fwy i'w ddweud am hynny yn lansiad y Papur Gwyn ei hun.

Mark is also quite right to point out the importance of drawing local authorities and landlords associations into discussions around the future of the private rented sector. These have been happening and I have been enormously encouraged by the positive attitude, particularly of landlords associations, towards the reform of the private rented sector. I think that everyone has recognised that there is a huge amount of common ground between partners, and there are very positive things that we will be able to talk about when the White Paper is launched. The dialogue has been first rate.

Mae Mark yn hollol gywir hefyd wrth dynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau landlordiaid mewn trafodaethau ar ddyfodol y sector rhentu preifat. Mae'r rhain wedi bod yn digwydd ac rwyf wedi cael fy nghalonogi’n fawr gan agwedd gadarnhaol, yn enwedig y cymdeithasau landlordiaid, tuag at y broses o ddiwygio'r sector rhentu preifat. Credaf fod pawb wedi cydnabod bod llawer iawn o dir cyffredin rhwng partneriaid, ac mae pethau cadarnhaol iawn y gallwn siarad amdanynt pan gaiff y Papur Gwyn ei lansio. Mae'r ddeialog wedi bod o'r radd flaenaf.

Mark was right to mention the importance of social letting agencies. In theory, these exist everywhere in Wales. What I am concerned about and what we will address in the White Paper discussions is the variability in the accessibility and quality of social letting support across the country. It needs to be ironed out and the overall standard needs to be raised to that of the very best.

Roedd Mark yn iawn wrth sôn am bwysigrwydd asiantaethau gosod cymdeithasol. Mewn egwyddor, mae'r rhain yn bodoli ym mhob man yng Nghymru. Yr hyn yr wyf yn pryderu yn ei gylch ac y byddwn yn mynd i’r afael ag ef yn y trafodaethau ar y Papur Gwyn yw'r anghysondeb yn hygyrchedd ac ansawdd y cymorth sydd ar gael yn y sector gosod cymdeithasol ar draws y wlad. Mae angen datrys hynny ac mae angen codi’r safon

gyffredinol i'r un orau posibl.

**Julie Morgan:** In his statement today the Minister said that he plans to make better use of the private sector, and what he has said so far certainly sounds encouraging. However, does he agree that families with children, and disabled people, for example, need much longer term tenancies than are normally available in the private sector? Assured short-term tenancies in the private sector are usually between six and 12 months. Does he plan to address that particular issue?

**Julie Morgan:** Yn ei ddatganiad heddiw, dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu gwneud gwell defnydd o'r sector preifat, ac mae'r hyn y mae wedi'i ddweud hyd yn hyn yn sicr yn swnio'n galonogol. Fodd bynnag, a yw'n cytuno bod angen tenantiaethau tymor hwy nag sydd ar gael yn y sector preifat ar gyfer teuluoedd â phlant, a phobl anabl, er enghraifft. Fel arfer, mae tenantiaeth tymor byr sicr yn y sector preifat rhwng chwech a 12 mis. A yw'n bwriadu mynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw?

Does he also agree that, at the moment, a huge amount of resource is being put into what are really bureaucratic measures to determine who is and is not homeless and who is and is not entitled to help? Does he not think that it would be better if all that money was geared towards looking at the needs of the individuals and putting that money into accommodation and helping individuals, rather than judging whether they are deserving or not?

A yw hefyd yn cytuno bod llawer iawn o adnoddau, ar hyn o bryd, yn cael eu rhoi i'r hyn sydd mewn gwirionedd yn fesurau biwrocrataidd i benderfynu pwy sydd yn ddigartref a phwy nad yw, a phwy sydd â hawl i gael cymorth a phwy sydd heb yr hawl honno? Onid yw'n credu y byddai'n well pe bai'r holl arian hwnnw wedi'i anelu at edrych ar anghenion yr unigolion a neilltuo'r arian hwnnw ar gyfer llety a helpu unigolion, yn hytrach na barnu a ydynt yn deilwng ai peidio?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cardiff North for those very pertinent points. Making better use of the private rented sector will be at the heart of the philosophy of the White Paper that I will launch. There will be better use in terms of supporting the private rented sector to grow, not necessarily in quite such a haphazard way in which everything is left to the market, but by helping the private rented sector with better planning at the local level and so on. It will also mean extending a hand to assist the private rented sector in, frankly, improving its image by improving the reality behind that image in terms of the quality of accommodation, the service provided by landlords, and landlords' ability to cope with the task that they have taken on. As I have said, the dialogue with landlords associations in this regard has been tremendously heartening.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y pwyntiau perthnasol iawn hynny. Bydd gwneud gwell defnydd o'r sector rhentu preifat wrth wraidd athroniaeth y Papur Gwyn y byddaf yn ei lansio. Bydd gwell defnydd o ran cefnogi'r sector rhentu preifat i dyfu, nid o reidrwydd mewn modd sydd mor fympwyol lle y mae popeth yn cael ei adael i'r farchnad, ond drwy helpu'r sector rhentu preifat gyda gwell cynllunio ar y lefel leol ac yn y blaen. Bydd hefyd yn golygu estyn llaw i gynorthwyo'r sector rhentu preifat, a bod yn blwmp ac yn blaen, i wella'i ddelwedd drwy wella'r realiti y tu ôl i'r ddelwedd honno o ran ansawdd y llety, y gwasanaeth a ddarperir gan landlordiaid, a gallu landlordiaid i ymdopi â'r dasg sydd ganddynt. Fel y dywedais, mae'r ddeialog gyda chymdeithasau landlordiaid yn y cyswllt hwn wedi bod yn hynod o galonogol.

That, of course, feeds into the Member's second question, which was about security, particularly for family units that include children. Tenure reform is very much on the agenda. There is a question, which will become clearer with the launch of the White

Mae hynny, wrth gwrs, yn rhan o'r ateb i ail gwestiwn yr Aelod, a oedd am ddiogelwch, yn enwedig ar gyfer unedau teuluol sy'n cynnwys plant. Mae diwygio daliadaeth ar yr agenda i raddau helaeth iawn. Mae cwestiwn, a fydd yn dod yn fwy eglur gyda lansiad y

Paper, about whether tenancy reform is sufficiently legally complex in itself to require a debate of its own. However, it will certainly be on the agenda for legislative change during this Assembly.

Papur Gwyn, ynghylch a yw diwygio tenantiaeth yn bwnc digon cymhleth yn gyfreithiol ynddo'i hun i beri bod gofyn cael dadl ar hynny. Fodd bynnag, bydd yn sicr o fod ar yr agenda ar gyfer newid deddfwriaethol yn ystod y Cynulliad hwn.

Also, you were quite right to talk about the complexity that we quite often get ourselves into in attempting to help homeless people or those who are threatened with homelessness. There is a drive towards greater simplicity with regard to who is responsible exactly for what and when people should be expected to intervene to assist. All this will be a part of the White Paper's thrust. I think that we need to intervene earlier, be clear about the strategic duty on local authorities to lead on this issue, and we need to cut through the complexity and address homelessness rather than this almost bureaucratic fetish for delineating between different groups of homeless people. Homelessness is the problem; people are not necessarily the problem at all.

Hefyd, rydych yn iawn wrth siarad am y cymhlethdod y cawn ein hunain ynddo yn aml wrth geisio helpu pobl ddigartref neu bobl sy'n cael eu bygwth â digartrefedd. Mae ymgyrch yn bodoli i symud tuag at fwy o symlrwydd o ran pwy yn union sy'n gyfrifol am beth a phryd y dylid disgwyl i bobl ymyrryd i helpu. Bydd hyn oll yn rhan o bwyslais y Papur Gwyn. Credaf fod angen inni ymyrryd yn gynharach, bod yn glir ynghylch y ddyletswydd strategol ar awdurdodau lleol i arwain ar y mater hwn, ac mae angen inni chwalu'r cymhlethdod a mynd i'r afael â digartrefedd yn hytrach na'r ffetis biwrocrataidd bron o wahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau o bobl ddigartref. Digartrefedd yw'r broblem; nid pobl o reidrwydd yw'r broblem o gwbl.

**Llyr Huws Gruffydd:** I broadly welcome your statement, Minister, although I am not sure what it says that we do not already know. Certainly, it reaffirms some of the core principles and key priorities, as you see them, and I am happy to endorse and support them, as they are outlined in a statement. However, we are still waiting to see the practical application of these priorities, and I am disappointed that there is not more detail in your statement today. I had, for example, expected a more explicit reference to the options put forward by Cardiff University for an improved homelessness legislative framework in Wales, although the references to prevention being at the heart of your approach, and the need for early intervention, gives a clear signal of your proposed direction of travel. Maybe you could confirm to the Chamber that the third option, entitled 'housing solutions', is actually your preferred option of the three outlined in that piece of work.

**Llyr Huws Gruffydd**: Yn gyffredinol, rwy'n croesawu eich datganiad, Weinidog, er nad wyf yn siŵr beth y mae'n ei ddweud nad ydym yn ei wybod yn barod. Yn sicr, mae'n cadarnhau rhai o'r egwyddorion craidd a'r blaenoriaethau allweddol, yn eich barn chi, ac rwyf yn fodlon eu cymeradwyo'r a'u cefnogi, fel yr amlinellwyd hwy mewn datganiad. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros i weld y blaenoriaethau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac rwyf yn siomedig nad oes rhagor o fanylion yn eich datganiad heddiw. Roeddwn, er enghraifft, wedi disgwyl cyfeiriad mwy penodol at y dewisiadau a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer fframwaith deddfwriaethol gwell ar gyfer digartrefedd yng Nghymru, er bod y cyfeiriadau ynglŷn ag atal digartrefedd wrth wraidd eich dull o weithredu, a'r angen am ymyrraeth gynnar, yn rhoi arwydd clir o'r trywydd yr ydych yn bwriadu ei ddilyn. Efallai y gallech gadarnhau i'r Siambr mai'r trydydd opsiwn, o'r enw 'atebion tai', mewn gwirionedd, yw eich hoff ddewis o'r tri a amlinellir yn y darn hwnnw o waith.

As I said, I am disappointed with the lack of detail. There is nothing in the statement about priority need groups, nothing about

Fel y dywedais, rwyf yn siomedig â'r diffyg manylion. Nid oes dim byd yn y datganiad ynglŷn â grwpiau y rhoddir blaenoriaeth i'w

intentionality in homelessness decisions, nothing about how the new legislation may link in with social housing, nothing about extending the definition of those threatened with homelessness. Maybe you could give us some of your thinking on these issues, Minister, and not just leave it to the White Paper. There is no reference to targets on tackling homelessness, so maybe you could tell us when you will enlighten us on that, and what type of targets those are likely to be. You make a few references to better use and more effective use of the private rented sector, and I hope that that is dependent on any private sector landlords and properties achieving certain standards, such as the landlord accreditation scheme. Maybe you could confirm that achieving such accreditation would be a requirement of yours. We have already been reminded of the significance of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 and the need to have due regard to the UN Convention on the Rights of the Child. Maybe you could tell us how that has informed your deliberations so far and how that will influence your deliberations from now on.

hanghenion, dim byd am ddigartrefedd bwriadol mewn penderfyniadau ar ddigartrefedd, dim byd am sut y gall y ddeddfwriaeth newydd gysylltu â thai cymdeithasol, dim byd am ehangu'r diffiniad o'r rhai sy'n byw o dan fygythiad digartrefedd. Efallai y gallech fynegi'ch barn ar y materion hyn inni, yn hytrach na'i adael i'r Papur Gwyn yn unig. Nid oes cyfeiriad at dargedau i fynd i'r afael â digartrefedd, felly efallai y gallech ddweud wrthym pryd y byddwch yn ein goleuo ar hynny, a pha fath o dargedau fydd y rheini yn ôl pob tebyg. Rydych wedi cyfeirio ychydig at well defnydd a defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat, a gobeithio bod hynny'n dibynnu ar unrhyw landlordiaid ac eiddo yn y sector preifat yn cyrraedd safonau penodol, megis y cynllun achredu landlordiaid. Efallai y gallech gadarnhau y byddai sicrhau achrediad o'r fath yn un o'ch gofynion. Rydym eisoes wedi cael ein hatgoffa am arwyddocâd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a'r angen i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Efallai y gallech ddweud wrthym sut y mae hwnnw wedi cyfrannu at eich trafodaethau hyd yma a sut y bydd yn dylanwadu ar eich trafodaethau o hyn ymlaen.

Finally, as we all know, and as is recognised in the statement, the changes to housing benefit will lead to far more families becoming homeless or being threatened by homelessness over the coming months and years. This inevitably has a resource implication for local authorities, which are already financially stretched. What considerations have you made in this regard? Do these resource limitations prevent you from fully adopting the model that you prefer?

Yn olaf, fel y gwyddom oll, ac fel y cydnabyddir yn y datganiad, bydd y newidiadau yn y budd-dal tai yn peri i lawer mwy o deuluoedd golli'u cartrefi neu gael eu bygwth â digartrefedd yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Yn anochel, mae gan hyn oblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol, sydd eisoes o dan bwysau'n ariannol. Pa ystyriaethau yr ydych wedi'u gwneud yn hyn o beth? Ydy'r cyfyngiadau hyn ar adnoddau yn eich atal rhag mabwysiadu'n llawn y model sydd orau gennych?

**Huw Lewis:** Llyr Huws Gruffydd asks for more detail; he asks, in essence, why the statement was made today. The purpose behind today's statement is to make crystal clear the priority that this Welsh Government ascribes to the scourge of homelessness, and to underline our commitment to tackling it head on—despite the resource limitations, despite the difficulties and despite the changes working in the opposite direction that are being shovelled down the M4

**Huw Lewis**: Mae Llyr Huws Gruffydd yn gofyn am ragor o fanylion; yn ei hanfod, mae'n gofyn pam y gwnaethpwyd y datganiad heddiw. Diben y datganiad heddiw yw ei gwneud yn gwbl glir bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymdrechion i fynd i'r afael â phroblem enfawr digartrefedd a thanlinellu ein hymrwymiad i'w datrys yn uniongyrchol—er gwaethaf y cyfyngiadau ar adnoddau, er gwaethaf yr anawsterau ac er gwaethaf y newidiadau sy'n gweithio i'r

towards us.

cyfeiriad arall sy’n cael eu gwthio ar hyd traffordd yr M4 tuag atom.

He is quite right to mention the importance of the Cardiff University research. I hope that he will forgive me if I refrain from making definitive statements about options that should be taken before even the White Paper has been launched. The purpose of a White Paper, among other things, is not just to signal Government intent, but to provoke good, informed, detailed debate. I can only ask Llyr Huws Gruffydd to continue to be patient for a little while longer. The biggest housing debate in Welsh history is about to begin. The White Paper will be launched this month, and I can tell you that, in terms of housing targets—which Llyr Huws Gruffydd’s party is very keen on—they will also be launched before the end of this month, prior to the launch of the White Paper.

Mae yn llygad ei le’n sôn am bwysigrwydd ymchwil Prifysgol Caerdydd. Gobeithio y bydd yn maddau i mi os ymataliaf rhag gwneud datganiadau pendant am opsiynau y dylid eu dewis hyd yn oed cyn bod y Papur Gwyn wedi cael ei lansio. Pwrpas y Papur Gwyn, ymysg pethau eraill, yw nid yn unig dangos bwriad y Llywodraeth, ond ysgogi trafodaeth dda, wybodus a manwl. Ni allaf ond gofyn i Llyr Huws Gruffydd barhau i fod yn amyneddgar am ychydig eto. Mae'r ddadl fwyaf yn ymwneud â thai yn hanes Cymru ar fin dechrau. Bydd y Papur Gwyn yn cael ei lansio y mis hwn, a gallaf ddweud wrthych, o ran targedau—yr hyn y mae plaid Llyr Huws Gruffydd yn hoff iawn ohonynt—y byddant hwythau’n cael eu lansio ddiwedd y mis, cyn lansiad y Papur Gwyn.

I will say, however, in response to a couple of his final points, which were well made, that, in terms of landlord accreditation, the answer is ‘yes’. I find it difficult to envisage options emerging from the White Paper debate that would not include a form of landlord accreditation—it is the form rather than the intent that is up for discussion here. Our commitment to children is central to the debate on housing. I can say that the White Paper will contain a historic commitment to children as another UK first in terms of our work on housing.

Fodd bynnag, wrth ymateb i un neu ddau o’i bwyntiau olaf, a wnaed yn dda, dywedaf mai’r ateb, o ran achredu landlordiaid, yw 'ie'. Rwy'n ei chael yn anodd rhagweld dewisiadau’n deillio o’r drafodaeth ar y Papur Gwyn na fyddent yn cynnwys achredu landlordiaid ar ryw ffurf—ffurf hynny yn hytrach na’r bwriad sydd i'w drafod yma. Mae ein hymrwymiad i blant yn ganolog i'r ddadl ar dai. Gallaf ddweud y bydd y Papur Gwyn yn cynnwys ymrwymiad hanesyddol i blant, a fydd, o ran ein gwaith ar dai, yn gam cyntaf arall o’i fath yn y Deyrnas Unedig.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i’r Gadair am 3.45 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.45 p.m.*

**Peter Black:** I am sure that the Minister will not mind me describing this statement as a bit of an anti-climax. Having effectively distributed over 100 pages of research and detailed policy suggestions, he then comes before us and gives us very little information on what direction he is taking. My concern about the White Paper and the forthcoming historic housing debate is that so much will be crammed into them that it will be impossible to debate everything properly, simply because you would have to have a series of debates about different aspects of the matter to get to the heart of some of the issues that are raised.

**Peter Black:** Rwy’n siŵr na fydd ots gan y Gweinidog fy mod yn disgrifio’r datganiad hwn fel tipyn o siom. Wedi iddo ddosbarthu dros 100 o dudalennau o waith ymchwil ac awgrymiadau polisi manwl, mae’n dod ger ein bron a rhoi ychydig iawn o wybodaeth i ni ynghylch i ba gyfeiriad y mae’n mynd. Fy mhryder ynghylch y Papur Gwyn a’r ddadl hanesyddol ar dai sydd i ddod yw y bydd cymaint yn cael ei gynnwys ynddynt fel y bydd yn amhosibl trafod popeth yn iawn; byddai’n rhaid cael cyfres o ddadleuon am wahanol agweddau ar y mater i fynd i wraidd rhai o’r materion sy’n cael eu codi.

As there are no detailed proposals in the statement, although I notice that the Minister has committed himself to moving forward on a corporate duty relating to prevention, I will ask him a number of questions about some of the research that has been circulated and appended to the statement on the agenda. I am particularly interested in the Minister's view of the recommendation that priority need groups be amended so that a former prisoner is only deemed as a priority if he or she is considered vulnerable as a result of having been in custody or detention. There is a need to focus on prevention. What work has the Government been undertaking with the National Offender Management Service on prevention? This work would need to be in place if that change was to happen, to ensure that vulnerable prisoners did not fall through the net and go on to reoffend as a result.

Gan nad oes cynigion manwl yn y datganiad, er i mi sylwi bod y Gweinidog wedi ymrwymo ei hun i symud ymlaen ar y ddyletswydd gorfforaethol sy'n ymwneud ag atal, byddaf yn gofyn nifer o gwestiynau iddo am y gwaith ymchwil sydd wedi cael ei ddosbarthu a'i atodi i'r datganiad ar yr agenda. Mae gennyf ddiddordeb arbennig ym marn y Gweinidog am yr argymhelliad i ddiwygio'r grwpiau sydd â blaenoriaeth o ran angen fel bod cyn-garcharor dim ond yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth os ystyrir ei fod yn agored i niwed o ganlyniad iddo fod yn y ddalfa neu gael ei garcharu. Mae angen canolbwyntio ar atal. Pa waith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar atal? Byddai angen i'r gwaith hwnnw gael ei wneud pe byddai'r newid hwnnw'n digwydd, i sicrhau nad yw carcharorion sy'n agored i niwed yn llithro drwy'r rhwyd ac yn aildroseddu o ganlyniad i hynny.

I am interested in the Minister's views on intentionality as a power, not a duty. Again, this is an important thread through the research. Is he looking in detail at the proposal for time-limited temporary accommodation, which has huge implications, not only for resources but also in its impact on vulnerable people and families in particular? Permanent accommodation is becoming a scarce resource, particularly in the social housing sector, especially as we are well short of targets for providing new affordable homes.

Mae gennyf ddiddordeb mewn clywed barn y Gweinidog am fwriadoldeb fel pŵer ac nid fel dyletswydd. Unwaith eto, mae hon yn elfen bwysig drwy'r gwaith ymchwil. A yw'n edrych yn fanwl ar y cynnig ar gyfer llety dros dro am amser cyfyngedig, sydd â goblygiadau enfawr, nid yn unig o ran adnoddau ond hefyd o ran ei effaith ar bobl a theuluoedd sy'n agored i niwed yn benodol? Mae llety parhaol yn dod yn adnodd prin, yn enwedig yn y sector tai cymdeithasol, yn arbennig am ein bod ymhell y tu ôl i'r targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy newydd.

I am also interested in the Minister's views on his future priority need duties and housing-related support—issues that have been highlighted in the research that has been circulated. Coming back to the issue of prevention, if we are to move to a corporate duty on prevention, what work has the Government done on the guidance for local authorities as to how they would implement that duty and how they would deliver it in a corporate way? I do not think that most local authorities are used to doing that, and a number of them already struggle to do it through their housing departments. I am concerned that that is a potential bear trap in

Mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn clywed barn y Gweinidog ar ei ddyletswyddau o ran bobl sydd â blaenoriaeth o ran angen a chymorth yn ymwneud â thai yn y dyfodol—materion a amlygwyd yn y gwaith ymchwil a ddosbarthwyd. I ddod yn ôl at atal, os ydym am newid i gael dyletswydd gorfforaethol ar atal, pa waith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar y canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y byddent yn gweithredu'r ddyletswydd a sut y byddent yn ei chyflawni mewn ffordd gorfforaethol? Nid wyf yn meddwl bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gyfarwydd â gwneud hynny, ac mae nifer ohonynt eisoes yn cael trafferth gwneud

moving forward.

hynny drwy eu hadrannau tai. Rwy’n poeni bod hynny’n rhwystr posibl wrth symud ymlaen.

The research study recommends more consistency in relation to homelessness prevention data. I am sure that that is not something that needs to be in the legislation, but it is something that the Minister can do administratively. I am interested in whether the Minister is taking on board that recommendation to try to improve the data, which will inform the White Paper and the Bill.

Mae’r astudiaeth ymchwil yn argymell mwy o gysondeb mewn perthynas â data atal digartrefedd. Rwy’n siŵr nad oes angen i hynny fod yn y ddeddfwriaeth, ond mae’n rhywbeth y gall y Gweinidog ei wneud yn weinyddol. Mae gennyf ddiddordeb mewn clywed a yw’r Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad i geisio gwella’r data, a fydd yn llywio’r Papur Gwyn a’r Bil.

Finally, worryingly, the research also reinforces what we have known for some time, namely that there is huge inconsistency from local council to local council in how they apply homelessness guidance. How are you addressing that, Minister? Are you able to take some early action to put it right?

Yn olaf, mae’n peri pryder bod y gwaith ymchwil hefyd yn atgyfnerthu’r hyn yr ydym wedi’i wybod ers peth amser, sef bod anghysondeb mawr rhwng cynghorau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu canllawiau digartrefedd. Sut ydych yn mynd i’r afael â hynny, Weinidog? A allwch gymryd camau gweithredu cynnar i unioni hynny?

**Huw Lewis:** On his first point, Peter Black has to sort out his thinking on exactly where he stands on this matter. First of all, he is not very excited because he does not think that there is anything to get excited about in today’s statement and the forthcoming debate on housing, but he goes on to say that there is too much to get his head around, because the agenda is so broad. The second point that he makes is nearer the truth: there is an enormous amount to get excited and concerned about here, because the agenda is broad. With the publication of this White Paper, we are, as a small country, about to embark on the most intensive and perhaps the most important, discussion on our housing policy that we have ever undertaken. That is not hyperbole; it is absolutely true. We have the opportunity now, as a primary law-making body, to go our own way and to address our own priorities with regard to homelessness and housing in the round.

**Huw Lewis:** Ar ei bwynt cyntaf, mae angen i Peter Black benderfynu beth yn union yw ei safiad ar y mater hwn. Yn gyntaf oll, nid yw wedi cyffroi am nad yw’n credu bod unrhyw beth i fod yn gyffrous yn ei gylch yn natganiad heddiw a’r ddadl ar dai sydd i ddod, ond mae’n mynd ymlaen i ddweud bod gormod iddo’i ddeall yn iawn, am fod yr agenda mor eang. Mae ei ail bwynt yn nes at y gwirionedd: mae llawer iawn i fod yn gyffrous ac i boeni yn ei gylch yma, am fod yr agenda yn eang. Rydym, gyda chyhoeddiad y Papur Gwyn hwn, fel gwlad fach, ar fin cychwyn ar y drafodaeth fwyaf dwys, ac efallai fwyaf pwysig, erioed ar ein polisi tai. Nid gormodiaith yw hynny; mae’n hollol wir. Mae gennym gyfle yn awr, fel sefydliad â phwerau deddfu sylfaenol, i fynd ein ffordd ein hunain ac i fynd i’r afael â’n blaenoriaethau ein hunain o ran digartrefedd a thai.

The importance of the research that Peter has referred to cannot be underestimated, and I take the point that he made about the specific mention within it of ex-offenders. Since the publication of the discussion document back in December, concerns have been expressed by multiple partners in this dialogue that we may not be getting the system of

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y gwaith ymchwil y mae Peter wedi cyfeirio ato, ac rwy’n derbyn ei bwynt am y cyfeiriad penodol at gyn-droseddwyr yn y gwaith hwnnw. Ers cyhoeddi’r ddogfen drafod yn ôl ym mis Rhagfyr, mynegwyd pryderon gan nifer o bartneriaid nad yw ein system blaenoriaethu tai i gyn-droseddwyr yn

prioritisation of housing for ex-offenders right. Many are concerned that it is not helping the situation, and one or two local authorities are concerned that, for geographical reasons, they are being singled out to carry the burden disproportionately—for instance, Bridgend, which has Parc prison within its boundaries, is particularly worried about this. There has been no face-to-face get together with NOMS yet, although it will be spoken to as part of how we develop these categories of vulnerable people who, as a group, deserve to have named prioritisation in the discussion about their housing situation. What will drive the discussion as far as I am concerned, if it is to be a constructive one, is the answer to the question: 'Does this work?' We must ask whether this form of housing provision and support and these housing options are working for that group of people, or whether it is just making us feel better to have it on paper, while, at the same time, not addressing whether people might reoffend.

briodol. Mae llawer yn pryderu nad yw'n helpu'r sefyllfa, ac mae un neu ddau o awdurdodau lleol yn pryderu, am resymau daearyddol, eu bod yn cario baich gormodol—er enghraifft, mae Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â charchar y Parc o fewn ei ffiniau, yn arbennig o bryderus am hyn. Ni chafwyd cyfarfod wyneb yn wyneb â NOMS hyd yma, er y bydd yn cael ei gynnwys wrth i ni ddatblygu'r categorïau ar gyfer y bobl sy'n agored i niwed sydd, fel grŵp, yn haeddu cael blaenoriaeth yn y drafodaeth am eu sefyllfa tai. Yr hyn a fydd yn gyrru'r drafodaeth yn fy marn i, os yw am fod yn un adeiladol, yw'r ateb i'r cwestiwn: 'A yw hyn yn gweithio?' Rhaid i ni ofyn a yw'r math hwn o ddarpariaeth a chefnogaeth tai a'r opsiynau tai hyn yn gweithio ar gyfer y grŵp hwnnw o bobl, neu a yw ond yn ein cysuro i'w gael ar bapur, heb ein bod yn mynd i'r afael ag a yw'n bosibl y bydd pobl yn aildroseddu.

Into that general philosophy also comes the question of intentionality and the shift from duty to power. This also touches upon the other good points that Peter made about the inconsistency of the application of homelessness legislation across Wales. That cannot go on. We must have clarity, for no reason other than people should expect the best possible help and advice if they are pushed into a situation of being in danger of becoming homeless, or are already homeless. Wherever people live in Wales, they should be able to expect the very best help and support. Inconsistency is no longer acceptable, now that we have a central co-ordinating body—the Welsh Government—that will seek to take that housing role, and now that we have those primary powers. We must mould legislation that makes sure that there is consistency across the country in how we talk about things such as the future of intentionality, whether it has a future at all, and whether it is the most important thing to be doing given that some local authorities have already evidenced that they seem to get by perfectly well without worrying too much about the label of intentionality being stuck to various people or families.

Hefyd, yn rhan o'r athroniaeth gyffredinol honno, mae'r cwestiwn o fwriadoldeb a'r newid o ddyletswydd i bŵer. Mae hyn hefyd yn ymwneud â phwyntiau da eraill Peter am yr anghysondeb o ran rhoi deddfwriaeth ddigartrefedd ar waith ledled Cymru. Ni all hynny barhau. Rhaid cael eglurder, am y rheswm bod pobl yn disgwyl cael y cymorth a'r cyngor gorau posibl os cânt eu gwthio i sefyllfa lle maent mewn perygl o fod yn ddigartref, neu os ydynt eisoes yn ddigartref. Lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, dylent allu disgwyl y cymorth a'r gefnogaeth orau bosibl. Nid yw anghysondeb yn dderbyniol mwyach, gan fod gennym gorff cydlynu canolog bellach—Llywodraeth Cymru—a fydd yn ceisio cymryd y rôl dai honno, ac am fod gennym bwerau sylfaenol bellach. Rhaid i ni lunio deddfwriaeth sy'n sicrhau bod cysondeb ledled y wlad o ran y ffordd rydym yn trafod pethau fel dyfodol bwriadoldeb, a oes ganddo ddyfodol o gwbl, ac ai hynny yw'r peth pwysicaf i'w wneud o ystyried bod rhai awdurdodau lleol eisoes wedi dweud eu bod yn gweithredu'n berffaith gywir heb boeni'n ormodol am osod label bwriadoldeb ar amrywiol bobl a theuluoedd.

You are also absolutely right, Peter, to

Rydych hefyd yn hollol gywir, Peter, i sôn

mention the cornerstone of all this, which is prevention. It is there in the research, it has been there in all my public pronouncements, I hope, and it will demand of some local authorities a change in the way that they plan, deliver and, critically, reprioritise housing and homelessness in their day-to-day working. It will require a shift and a change for some local authorities that they need to get their heads around.

am gonglfaen hyn i gyd, sef atal. Mae yno yn y gwaith ymchwil, bu yno yn fy holl ddatganiadau cyhoeddus, rwy'n gobeithio, a bydd yn mynnu i rai awdurdodau lleol newid y ffordd maent yn cynllunio, darparu ac, yn hanfodol, ail-flaenoriaethu tai a digartrefedd yn eu gwaith dyddiol. Bydd gofyn i rai awdurdodau lleol newid, a bydd angen iddynt dderbyn hynny.

**Mike Hedges:** I welcome the statement. I note the huge challenge in increasing the supply of affordable housing in current circumstances and the growth in the number of sofa surfers and those in inadequate housing.

**Mike Hedges:** Croesawaf y datganiad. Nodaf yr her enfawr o ran cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn yr amgylchiadau presennol a'r twf yn nifer y bobl sy'n symud o un soffa i'r llall a'r rhai mewn tai annigonol.

I have three questions for the Minister. You identified £7 million to be spent, with £1.4 million of that to be spent on local authorities. How is the other £5.6 million to be spent? What can be done to promote the development of co-operative housing in Wales? What do you think will be the effect of the Westminster Government's welfare changes on homelessness in Wales?

Mae gennyf dri chwestiwn i'r Gweinidog. Nodasoch fod £7 miliwn i gael ei wario, gyda £1.4 miliwn yn cael ei wario ar awdurdodau lleol. Sut y bydd y £5.6 miliwn arall yn cael ei wario? Beth y gellir ei wneud i hyrwyddo datblygiad tai cydweithredol yng Nghymru? Beth yn eich barn chi fydd effaith newidiadau lles Llywodraeth San Steffan ar ddigartrefedd yng Nghymru?

**Huw Lewis:** I thank Mike Hedges for those questions. The £7 million for support in the field of homelessness is split between a plethora of services. Those services are delivered, in large part, through the third sector, ranging from organisations such as the Salvation Army right through to advisory services. Everything that operates currently to provide support in the field of homelessness is under the umbrella of that £7 million.

**Huw Lewis:** Diolch i Mike Hedges am y cwestiynau hynny. Mae'r £7 miliwn ar gyfer cefnogaeth ym maes digartrefedd yn cael ei rannu rhwng llu o wasanaethau. Darperir y gwasanaethau hynny, i raddau helaeth, drwy'r trydydd sector, yn amrywio o sefydliadau megis Byddin yr Iachawdwriaeth i wasanaethau cynghori. Mae popeth sy'n gweithredu ar hyn o bryd i roi cymorth ym maes digartrefedd yn dod o dan ymbarél y £7 miliwn hwnnw.

I welcome the largely cross-party support for the principle of developing co-operative housing. This is a good opportunity—I thank Mike for that—to update the Chamber on where we are at the moment. An expert group has been deliberating and advising me, over the last six months or so, on the various models of co-operative housing that we may choose to adopt and embark upon. Simultaneously, we are considering six parcels of publicly owned land for the development of the first co-operative pioneer programme.

Rwy'n croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol, i raddau helaeth, i'r egwyddor o ddatblygu tai cydweithredol. Mae hwn yn gyfle da—diolch i Mike am hynny—i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am ble yr ydym ar hyn o bryd. Bu grŵp o arbenigwyr yn cyd-drafod a rhoi cyngor i mi, dros y chwe mis diwethaf, ar y modelau tai cydweithredol amrywiol y gallwn ddewis eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith. Ar yr un pryd, rydym yn ystyried chwe pharsel o dir cyhoeddus ar gyfer datblygu'r rhaglen arloesol gydweithredol gyntaf.

I am of the view that the public debate that

Rwyf o'r farn y bydd y ddadl gyhoeddus a

will follow rapidly from the publication of the White Paper will establish a high profile for co-operative housing as a new option and departure in Wales. Part of that is about public information: people need to be drawn into the debate, so as to understand what a co-operative option means. We also have the opportunity to show that it is an exciting alternative, particularly when times are tough, to provide secure housing solutions for people. Therefore, I look forward to being able to announce the first sod being cut on a co-operative pioneer housing programme somewhere in Wales, sometime this year.

fydd yn dilyn yn gyflym ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn yn rhoi proffil uchel i dai cydweithredol fel dewis a chyfeiriad newydd yng Nghymru. Mae hynny'n rhannol yn ymwneud â gwybodaeth gyhoeddus: mae angen i bobl gael eu tynnu i mewn i'r ddadl, er mwyn deall beth yw'r dewis cydweithredol. Mae gennym hefyd gyfle i ddangos ei fod yn ddewis amgen, cyffrous, yn enwedig ar adegau anodd, i ddarparu opsiynau tai diogel i bobl. Felly, edrychaf ymlaen at allu cyhoeddi bod rhaglen dai arloesol gydweithredol yn torri tir newydd rhywle yng Nghymru, rywbryd eleni.

Although I can smile about co-operative housing, the welfare reform agenda wipes the smile off your face if you are concerned about the security of Welsh families and fellow Welsh citizens. Let us look at housing benefit in the round: around 99% of housing benefit recipients will take a considerable weekly financial hit. Sub-groups within that group will take enormous financial hits because of these welfare reforms. Let us not forget that those on housing benefit are, in large part, working people, in a job, trying to get by, and this UK Government, deliberately, in an act of ideology, is setting about pushing those low income families into financial precariousness. All of this is happening in an atmosphere of economic crisis, job insecurity and a rising cost of living. It is a toxic combination, with the UK Government right at the centre, mixing that toxic potion.

Er y gallaf wenu ynghylch tai cydweithredol, mae'r agenda diwygio lles yn tynnu'r wên oddi ar eich wyneb os ydych yn pryderu am ddiogelwch teuluoedd Cymru a chyd-ddinasyddion Cymru. Gadewch inni edrych ar fudd-dal tai: bydd tua 99% o'r rhai sy'n derbyn budd-dal tai yn cael ergyd ariannol sylweddol yn wythnosol. Bydd is-grwpiau o fewn y grŵp hwnnw yn cael ergyd ariannol enfawr oherwydd y diwygiadau lles. Gadewch inni beidio ag anghofio bod y rhai sy'n cael budd-dal tai, i raddau helaeth, yn bobl sy'n gweithio, mewn swyddi, sy'n ceisio ennill bywoliaeth, ac mae Llywodraeth y DU, yn fwriadol, ac mewn gweithred ideolegol, yn gwthio teuluoedd incwm isel i sefyllfa o ansicrwydd ariannol. Mae hyn oll yn digwydd mewn awyrgylch o argyfwng economaidd, ansicrwydd ynghylch swyddi a chynnydd mewn costau byw. Mae'n gyfuniad gwenwynig, gyda Llywodraeth y DU yn y canol, yn cymysgu'r ddiod wenwynig.

## Cynnig Cydsyniad ar Orchymyn y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus (Dileu) 2012
## Consent Motion on the Advisory Committee on Hazardous Substances (Abolition) Order 2012

*Cynnig NDM4928 John Griffiths*

*Motion NDM4928 John Griffiths*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Pwyllgor Cyngor ar Sylweddau Peryglus (Dileu) 2012, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2012.*

*To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, that the Secretary of State make the Advisory Committee on Hazardous Substances (Abolition) Order 2012, in accordance with the draft laid in Table Office on 28 February 2012.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

I begin by thanking the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering this issue and for reporting on it in advance of today's debate. The abolition of the Advisory Committee on Hazardous Substances as a statutory non-departmental public body is an outcome of the UK Government's 2010 review of public bodies.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y mater hwn ac adrodd arno cyn y ddadl heddiw. Mae dileu'r Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus fel corff cyhoeddus statudol anadrannol yn ganlyniad i adolygiad Llywodraeth y DU yn 2010 o gyrff cyhoeddus.

4.00 p.m.

The committee was established some 20 years ago to advise on the making of domestic regulations on hazardous substances. With the adoption of a directly applicable European Union regulation for the registration, evaluation, authorisation and restriction of chemical substances, known as REACH, the scope for domestic legislation in this area has diminished. However, there remains a need for general independent advice on hazardous substances, including various aspects of REACH. The intention, following the abolition of the Advisory Committee on Hazardous Substances as a non-departmental public body, is to establish a non-statutory scientific committee as a successor body, which will provide expert, independent and impartial advice to Ministers, including those in the devolved administrations and others in accordance with new, more flexible terms of reference that can easily accommodate a changing regulatory landscape.

Sefydlwyd y pwyllgor ryw 20 mlynedd yn ôl i roi cyngor ynghylch gwneud rheoliadau domestig ar sylweddau peryglus. Yn sgîl mabwysiadu rheoliad gan yr Undeb Ewropeaidd a oedd yn uniongyrchol gymwys ar gyfer cofrestru, gwerthuso, awdurdodi a chyfyngu ar sylweddau cemegol, a elwir yn REACH, lleihaodd y cyfleoedd ar gyfer deddfwriaeth ddomestig yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen cyngor annibynnol cyffredinol am sylweddau peryglus o hyd, gan gynnwys agweddau amrywiol ar REACH. Y bwriad, yn dilyn diddymu'r Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus fel corff cyhoeddus anadrannol, yw sefydlu pwyllgor gwyddonol anstatudol fel corff a fydd yn ei olynu, a fydd yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol a diduedd i Weinidogion, gan gynnwys Gweinidogion mewn gweinyddiaethau datganoledig ac eraill yn unol â chylch gorchwyl newydd, mwy hyblyg a fydd yn gallu darparu'n hwylus ar gyfer sefyllfa sy'n newid o ran rheoleiddio.

The Secretary of State proposes to make the Order pursuant to sections 1, 6 and 35 of the Public Bodies Act 2011. Section 9(6) of the Public Bodies Act requires the consent of the National Assembly for an Order under that Act that makes provision that would be within the legislative competence of the National Assembly if it were to be contained in an Act of the National Assembly. The Assembly has legislative competence in relation to hazardous substances and environmental protection. It is therefore the view of the Welsh Government that, in light of the scope of the committee's responsibilities, the abolition of the

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig gwneud y Gorchymyn yn unol ag adrannau 1, 6 a 35 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae adran 9(6) o'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn mynnu cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Gorchymyn o dan y Ddeddf honno sy'n gwneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol pe bai'n cael ei gynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â sylweddau peryglus a gwarchod yr amgylchedd. Felly, ym marn Llywodraeth Cymru, yn wyneb cwmpas cyfrifoldebau'r pwyllgor, mae diddymu'r

committee is within the legislative competence of the Assembly. For this reason, the consent of the Assembly is sought, pursuant to section 9(6) of the Public Bodies Act, insofar as the Order makes provision to abolish the ACHS in relation to Wales. I am, therefore, satisfied with the proposals and hereby move the motion.

pwyllgor o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Am y rheswm hwn, ceisir cydsyniad y Cynulliad, yn unol ag adran 9(6) o'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, i'r graddau y mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth i ddileu'r pwyllgor mewn perthynas â Chymru. Felly, rwy'n fodlon ar y cynigion a chan hynny yn cynnig y cynnig.

**The Deputy Presiding Officer:** There are no speakers on this item. I take it, Minister, that you do not wish to say anything further. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed under Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes siaradwyr ar yr eitem hon. Rwy'n cymryd, Weinidog, nad ydych yn dymuno dweud dim byd pellach. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Strategaeth Fwyd Llywodraeth Cymru—y Ffordd Ymlaen
## The Welsh Government's Food Strategy—the Way Forward

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham a gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4966 Jane Hutt*

*Motion NDM4966 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:*

*1. notes the Welsh Government's commitment to:*

*a) ddatblygu'i gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer bwyd yng Nghymru;*

*a) develop its ambitious vision for food in Wales;*

*b) adolygu ac adnewyddu'r strategaeth fwyd bresennol;*

*b) review and refresh the existing food strategy; and*

*c) cefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd drwy ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd o Gymru, a chryfhau cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi.*

*c) support the food production industry by developing, promoting and marketing Welsh food, and strengthening supply chain linkages.*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I move the motion.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Cynigiaf y cynnig.

I will introduce the debate, respond to

Byddaf yn cyflwyno'r ddadl, gan ymateb i

contributions and make further comments in closing the debate this afternoon. I felt that we needed an opportunity to debate and discuss the Government's priorities and the Government's direction of travel in delivering our commitments in relation to this sector. I think that all Members across the Chamber will agree that we are proud of what is produced in Wales. The food produced by primary processors and producers in Wales is absolutely world class. I am sure that we are all proud of that and are proud of the part that food plays both in our daily lives and as something that is emblematic of Wales and our history and culture. Food, as is often said, is a basic necessity of life, but it also describes who and what we are as a nation. Food is also a part of our culture and our national life. When we export this food, we export a notion and a sense of place, a sense of what Wales is. Therefore, we can be proud of our country and the part that food plays in our experience.

gyfraniadau a gwneud sylwadau pellach wrth gloi'r ddadl y prynhawn yma. Roeddwn yn teimlo bod arnom angen cyfle i drin a thrafod blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn mynd iddo o ran cyflawni ein hymrwymiadau yn y sector hwn. Credaf y bydd yr holl Aelodau ar draws y Siambr yn cytuno ein bod yn falch o'r hyn a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'r bwyd a gynhyrchir gan broseswyr a chynhyrchwyr cynradd yng Nghymru gyda'r gorau yn y byd. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch o hynny ac yn falch o'r rhan y mae bwyd yn ei chwarae yn ein bywydau bob dydd ac fel rhywbeth sy'n symbol o Gymru a'n hanes a'n diwylliant. Fel y dywedir yn aml, mae bwyd yn un o anghenion sylfaenol bywyd, ond mae hefyd yn disgrifio pwy a beth ydym fel cenedl. Mae bwyd hefyd yn rhan o'n diwylliant a'n bywyd cenedlaethol. Pan fyddwn yn allforio'r bwyd hwn, rydym yn allforio syniad ac ymdeimlad o le, ymdeimlad o'r hyn yw Cymru. Felly, gallwn fod yn falch o'n gwlad ac o'r rhan y mae bwyd yn ei chwarae yn ein profiad.

However, food is also an important political issue for us. We recognise the importance of a good, healthy diet. We understand that high-quality food is an important part of our daily diet, and that food itself plays an essential part in our economy and particularly, perhaps, the rural economy of Wales. Therefore, food is essential to us as individuals, as communities and families, but it is also important to us as a country.

Fodd bynnag, mae bwyd hefyd yn fater gwleidyddol pwysig i ni. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd lluniaeth da ac iach. Rydym yn deall bod bwyd o ansawdd uchel yn rhan bwysig o'n lluniaeth bob dydd, a bod bwyd ei hun yn chwarae rhan hanfodol yn ein heconomi ac yn arbennig, efallai, yn economi wledig Cymru. Felly, mae bwyd yn hanfodol i ni fel unigolion, fel cymunedau a theuluoedd, ond mae hefyd yn bwysig i ni fel gwlad.

What is the role of the Government in supporting and developing this sector? This Government will seek to build upon the work that has already been undertaken by the previous Government, but we believe that it is time to change gear. The Government has a strong desire and determination to ensure that support for the industry remains at centre stage. Part of the rationale for the creation of a food and farming panel reflects our ambitions: it reflects our wish to listen to specialists and to the industry; it also reflects our desire to place the food sector at centre stage in the debate on the future of our economy in Wales.

Beth yw rôl y Llywodraeth wrth gefnogi a datblygu'r sector hwn? Bydd y Llywodraeth hon yn ceisio adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Llywodraeth flaenorol, ond rydym yn credu ei bod yn amser newid gêr. Mae gan y Llywodraeth awydd a phenderfyniad cryf i sicrhau bod cymorth i'r diwydiant yn parhau i fod ar ganol y llwyfan. Mae rhan o'r rhesymeg dros greu panel bwyd a ffermio yn adlewyrchu ein huchelgeisiau: adlewyrcha ein dymuniad i wrando ar arbenigwyr ac ar y diwydiant; adlewyrcha hefyd ein dymuniad i osod y sector bwyd ar ganol y llwyfan yn y drafodaeth ar ddyfodol ein heconomi yng Nghymru.

Our policies and approach will be industry

Bydd ein polisïau a'n dull o weithredu yn

led and will focus support on different sectors. People will be aware that due to a commitment that I made prior to the dissolution of the last Assembly, I held a drinks summit in Aberystwyth last September and launched an action plan for the Welsh drinks industry last month, which delivered on an industry-led commitment.

cael eu harwain gan y diwydiant a byddant yn canolbwyntio cymorth ar wahanol sectorau. Bydd pobl yn ymwybodol, o ganlyniad i ymrwymiad a wneuthum cyn diddymu'r Cynulliad diwethaf, fy mod wedi cynnal uwchgynhadledd diodydd yn Aberystwyth fis Medi diwethaf ac wedi lansio cynllun gweithredu ar gyfer diwydiant diodydd Cymru fis diwethaf, a gyflawnodd ymrwymiad a arweiniwyd gan y diwydiant.

I will be holding a dairy summit in June to respond to issues and concerns within the dairy industry. I am sure that Members will wish during this afternoon's debate to comment on recent issues that have arisen in the dairy industry, and I will use the opportunity of closing the debate to respond to that.

Byddaf yn cynnal uwchgynhadledd llaeth ym mis Mehefin i ymateb i faterion a phryderon o fewn y diwydiant llaeth. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'n dymuno cynnig sylwadau yn ystod y ddadl y prynhawn yma ar faterion sydd wedi codi yn y diwydiant llaeth yn ddiweddar, a byddaf yn defnyddio'r cyfle wrth gloi'r ddadl i ymateb iddynt.

I also want to ensure that we bring together a sectoral and industry-led approach into one that is holistic. I can inform Members this afternoon that we will bring together representatives from across the whole of the food sector in July in a seminar that we will host to look at how we can take forward the existing food strategy. This work will be targeted, ambitious and timetabled, and we will set out our objectives so that we can be held to account for the commitments that we have made and for the objectives that we have set. Over the coming months, in taking an approach that seeks to listen and to hear what people say, and in bringing together and learning the lessons from that, we will be ambitious in setting the targets for what we want to achieve.

Rwyf hefyd am sicrhau ein bod yn cyfuno ymagwedd sectoraidd a than arweiniad y diwydiant ag un sy'n gyfannol. Gallaf hysbysu Aelodau'r prynhawn yma y byddwn yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r sector bwyd cyfan ym mis Gorffennaf mewn seminar y byddwn yn ei gynnal i edrych ar sut y gallwn fwrw ymlaen â'r strategaeth fwyd presennol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei dargedu, bydd yn uchelgeisiol a bydd yn dilyn amserlen, a byddwn yn cyflwyno ein hamcanion fel y gallwn gael ein dwyn i gyfrif am ein hymrwymiadau ac am yr amcanion a osodwyd gennym. Dros y misoedd nesaf, wrth fynd ati i geisio gwrando a chlywed yr hyn y mae pobl yn ei ddweud, ac wrth ddwyn ynghyd a dysgu gwersi yn sgîl hynny, byddwn yn uchelgeisiol wrth osod targedau ar gyfer yr hyn yr ydym am ei gyflawni.

At the moment, we have clear and successful means and mechanisms of support for supply chains and for the industry as a whole. We have provided support for new producers and for food centres based in Llangefni, Horeb and Cardiff. I am pleased to inform Members that we have secured funding for these three centres until 2015, which will provide stability and continuity for this service. This service is essential to the way in which we are able to develop and entrench sustainable growth, support new product development, provide technical advice and, through test kitchens, perhaps move some businesses from the farmhouse kitchen into the factory.

Ar hyn o bryd, mae gennym ddulliau a mecanweithiau cymorth clir a llwyddiannus ar gyfer cadwyni cyflenwi ac ar gyfer y diwydiant cyfan. Rydym wedi darparu cefnogaeth i gynhyrchwyr newydd a chanolfannau bwyd wedi'u lleoli yn Llangefni, Horeb a Chaerdydd. Mae'n bleser gennyf hysbysu'r Aelodau ein bod wedi sicrhau cyllid ar gyfer y tair canolfan tan 2015. Bydd hynny'n rhoi sefydlogrwydd a pharhad ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol i'r ffordd y gallwn ddatblygu a sefydlu twf cynaliadwy, cefnogi datblygu cynnyrch newydd, darparu cyngor technegol a, thrwy geginau prawf,

It is an essential part of the development of new businesses, and we will continue to support that.

efallai symud rhai busnesau o gegin y ffermdy i ffatri. Mae'n rhan hanfodol o ddatblygiad busnesau newydd, a byddwn yn parhau i gefnogi hynny.

We will continue to support specific initiatives within different supply chain, thereby adding and keeping value in Wales. To date, we have invested £25 million in 31 different projects. We will continue to do this. We also have a successful processing and marketing grant system, whereby we invest in agricultural products to add value to the output. We will continue to do this. The processing and marketing knowledge transfer initiative, which ensures that the provision of training and support for innovation, as well as support for research and development, takes place within the industry is something else that we will continue to support. All of these different matters are supported through the rural development plan as part of our commitment.

Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau penodol o fewn cadwyni cyflenwi gwahanol, gan ychwanegu gwerth a'i gadw yng Nghymru. Hyd yn hyn, rydym wedi buddsoddi £25 miliwn mewn 31 o brosiectau gwahanol. Byddwn yn parhau i wneud hyn. Mae gennym hefyd system grantiau prosesu a marchnata llwyddiannus, lle yr ydym yn buddsoddi mewn cynhyrchion amaethyddol i ychwanegu gwerth at yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu. Byddwn yn parhau i wneud hyn. Mae menter trosglwyddo gwybodaeth prosesu a marchnata, sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth o hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer arloesi, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer ymchwil a datblygu, yn digwydd o fewn y diwydiant yn rhywbeth arall y byddwn yn parhau i'w gefnogi. Cefnogir pob un o'r materion gwahanol hyn drwy'r cynllun datblygu gwledig fel rhan o'n hymrwymiad.

However, we also provide domestic support and domestic programmes. The market development scheme is essential in helping the industry to develop new marketing and commercial expertise. We will continue to support that. We hope that the food business development advisory service will help businesses to develop commercially and to develop aspects such as business plans and the development of individual businesses. We will continue to support that.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn darparu cymorth domestig a rhaglenni domestig. Mae cynllun datblygu'r farchnad yn hanfodol wrth helpu'r diwydiant i ddatblygu arbenigedd marchnata a masnachol newydd. Byddwn yn parhau i gefnogi hynny. Rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth cynghori ar ddatblygu busnesau bwyd yn helpu busnesau i ddatblygu'n fasnachol ac i ddatblygu agweddau fel cynlluniau busnes a datblygu busnesau unigol. Byddwn yn parhau i gefnogi hynny.

With regard to future priorities, I want to help develop a food culture in Wales with a focus on excellence, local produce, producing local menus from local food and an appreciation and enjoyment of local produce. As I said in my opening remarks, we have world-class products and produce in Wales. I hope that we will be able to develop a food culture in Wales that recognises and builds upon that. Food tourism is a key part of creating a sense of place and a sense of identity. We will continue to support this. We will also seek to support exports and trade. We are talking to the Department for Environment, Food and Rural Affairs and UK Trade and Investment about how Welsh products and produce can

O ran blaenoriaethau yn y dyfodol, rwyf am helpu i ddatblygu diwylliant bwyd yng Nghymru gyda ffocws ar ragoriaeth, cynnyrch lleol, cynhyrchu bwydlenni lleol o fwyd lleol a gwerthfawrogiad a mwynhad o gynnyrch lleol. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, mae gennym gynnyrch sydd gyda'r gorau yn y byd yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu datblygu diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n cydnabod ac yn adeiladu ar hynny. Mae twristiaeth bwyd yn rhan allweddol o greu ymdeimlad o le ac ymdeimlad o hunaniaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi hyn. Byddwn hefyd yn ceisio cefnogi allforion a masnach. Rydym yn siarad ag Adran yr Amgylchedd,

be supported by the work that the UK Government does on promoting UK trade overseas.

Bwyd a Materion Gwledig a Masnach a Buddsoddi y DU am sut y gall cynnyrch o Gymru gael ei gefnogi gan waith Llywodraeth y DU yn hyrwyddo masnach y DU dramor.

I know that the Minister for Finance is looking at public procurement. We will be looking at how public procurement can also support the food sector. We will continue to support and prioritise market development, particularly within Wales, to ensure that people across the whole of this country are able to access and buy local and Welsh produce. We will continue to engage with retailers to ensure that we are able to put Welsh food and products on the shelves of supermarkets, multiple retailers and others across the whole of Wales. We will also continue our programme of mentoring and trade development and promotion, which has been enormously successful over the past few years.

Gwn fod y Gweinidog Cyllid yn edrych ar gaffael cyhoeddus. Byddwn yn edrych ar sut y gall caffael cyhoeddus hefyd gefnogi'r sector bwyd. Byddwn yn parhau i gefnogi a blaenoriaethu datblygu'r farchnad, yn enwedig yng Nghymru, i sicrhau bod pobl ar hyd a lled y wlad hon yn gallu cael mynediad at gynnyrch lleol o Gymru a phrynu'r cynnyrch hwnnw. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â manwerthwyr i sicrhau ein bod yn gallu rhoi bwyd a chynnyrch o Gymru ar silffoedd yr archfarchnadoedd, manwerthwyr lluosog ac eraill drwy Gymru benbaladr. Byddwn hefyd yn parhau â'n rhaglen o fentora a datblygu a hyrwyddo masnach, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf.

We have ambitions and an ambitious programme for food in Wales. We will be looking at what has been successful and what has worked. We will take that as our lead and hope to apply the lessons elsewhere. We know how successful the red meat sector is. I recognise the point raised by the leader of the Welsh Liberal Democrats during questions on the business statement, but we also understand that Hybu Cig Cymru really has been a world leader in developing and supporting the red meat sector and the red meat supply chain. It is important that lessons are learnt from that and that any lessons we can apply to other sectors are applied. Therefore, I hope that we will be looking at a number of different proposals and programmes over the coming year that will continue to develop and support the food sector across the whole of Wales, but also have the ambition to do so much more in future.

Mae gennym uchelgeisiau a rhaglen uchelgeisiol ar gyfer bwyd yng Nghymru. Byddwn yn edrych ar yr hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus a'r hyn sydd wedi gweithio. Dyna a fydd yn ein harwain a gobeithiwn roi'r gwersi ar waith mewn mannau eraill. Gwyddom mor llwyddiannus yw'r sector cig coch. Rwy'n cydnabod y pwynt a godwyd gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod y cwestiynau ar y datganiad busnes, ond rydym hefyd yn deall bod Hybu Cig Cymru wedi bod yn arwain y byd o ran datblygu a chefnogi'r sector cig coch a'r gadwyn cyflenwi cig coch. Mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o hynny, a bod unrhyw wersi y gallwn eu gweithredu mewn sectorau eraill yn cael eu gweithredu. Felly, rwy'n gobeithio y byddwn yn edrych ar nifer o gynigion a rhaglenni gwahanol yn ystod y flwyddyn i ddod a fydd yn parhau i ddatblygu a chefnogi'r sector bwyd drwy Gymru gyfan, ond y bydd gennym hefyd yr uchelgais i wneud llawer mwy yn y dyfodol.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Yn is-bwynt 1a), dileu'r gair 'uchelgeisiol'.*

*In sub-point 1a) delete the word 'ambitious'.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y*

*Add as a new point at end of motion:*

*cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad llawn Pecyn Llaeth yr UE oni ellir dod i gytundeb gwirfoddol ar god ymarfer ar gyfer contractau llaeth rhwng y partïon perthnasol yn y gadwyn gyflenwi llaeth.*

*Calls on the Welsh Government to support the full implementation of the EU Dairy Package if voluntary agreement on a code of practice for milk contracts cannot be reached between the relevant parties within the dairy supply chain.*

**Antoinette Sandbach:** I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Antoinette Sandbach:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

I wish to start by thanking the Deputy Minister for the opportunity to debate the Welsh Government's food strategy, and I do not think that anyone in the Chamber would disagree with what you have said about the quality of our produce in Wales. In particular, I welcome the fact that you will be putting food at centre stage in terms of the Welsh Government's strategy. The Welsh Conservatives were happy to give this strategy a broad welcome when it was announced by the previous Minister for Rural Affairs. We welcomed the departure from the disconnected approach taken by previous Assembly Governments. There is much in the food strategy that is commendable. However, we do not believe that, in its current form, it is sufficiently ambitious to meet the challenges facing the agri-food industry, and this is reflected in amendment 1.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am y cyfle i drafod strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru, ac nid wyf yn meddwl y byddai neb yn y Siambr yn anghytuno â'r hyn y gwnaethoch ei ddweud am ansawdd ein cynnyrch yng Nghymru. Yn benodol, croesawaf y ffaith y byddwch yn rhoi bwyd ar ganol y llwyfan yn strategaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y Ceidwadwyr Cymreig yn fodlon rhoi croeso cyffredinol i'r strategaeth hon pan gafodd ei chyhoeddi gan y Gweinidog blaenorol dros Faterion Gwledig. Roeddem yn croesawu'r newid o ddull digyswllt Llywodraethau'r Cynulliad yn y gorffennol. Mae llawer yn y strategaeth fwyd sydd i'w ganmol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod, yn ei ffurf bresennol, yn ddigon uchelgeisiol i fodloni'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant bwyd-amaeth, ac adlewyrchir hyn yng ngwelliant 1.

Deputy Minister, perhaps the fact that you are only going to set out those targets in July of this year is an indication that there has been a lack of ambition to date. It is quite right that the opportunity is taken to reflect on the strategy's performance and how it needs to adapt to the changing market conditions in the UK and in export markets. My colleague Suzy Davies will be looking at the aspects of food tourism in the strategy. Food and drink are hugely important parts of the Welsh economy, and agriculture alone contributes more than £1 billion to the economy. However, you must also consider the huge drop in Welsh agricultural gross value added. It lost more than half its value between 2004 and 2007 under the stewardship of the Welsh Labour Government in the Assembly. It highlights just how important it is that the current administration gets it right in terms of the support it provides through the rural development plan, the strategic approach it

Ddirprwy Weinidog, efallai fod y ffaith mai ym mis Gorffennaf eleni yr ydych yn mynd i bennu'r targedau hynny'n arwydd bod diffyg uchelgais wedi bod hyd yn hyn. Mae'n hollol iawn bod manteisio ar y cyfle i ystyried perfformiad y strategaeth a sut y mae angen iddi addasu i'r amodau sy'n newid ym marchnad y DU ac mewn marchnadoedd allforio. Bydd fy nghyd-Aelod Suzy Davies yn edrych ar yr agweddau ar dwristiaeth bwyd yn y strategaeth. Mae bwyd a diod yn rhannau hynod o bwysig o economi Cymru, ac mae amaethyddiaeth yn unig yn cyfrannu mwy na £1 biliwn i'r economi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi hefyd ystyried y gostyngiad enfawr yng ngwerth ychwanegol crynswth amaethyddiaeth Cymru. Collodd fwy na hanner ei werth rhwng 2004 a 2007 o dan stiwardiaeth Llywodraeth Llafur Cymru yn y Cynulliad. Mae hynny'n dangos mor bwysig yw bod y weinyddiaeth bresennol yn gwneud pethau'n iawn o ran y cymorth y mae'n ei

takes and the extent of the co-ordination between Government departments.

ddarparu drwy'r cynllun datblygu gwledig, ei dull gweithredu strategol ac i ba raddau y ceir cydgysylltu rhwng adrannau'r Llywodraeth.

I ask the Deputy Minister to confirm at the outset what targets have been set in the past year by the Welsh Government's delivery unit for the agri-food sector and how those are likely to change—what you anticipate those targets will be in July—because business owners and those working in the industry have commented that Welsh Governments have never had any difficulty generating strategies, but what they have been missing are results on the ground. That key target information needs to be in the public domain.

Gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau ar y cychwyn pa dargedau sydd wedi cael eu gosod yn y flwyddyn ddiwethaf gan uned gyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd-amaeth a sut y mae'r rheini'n debygol o newid—beth fydd y targedau hynny ym mis Gorffennaf, yn ôl yr hyn a ragwelwch—oherwydd mae perchnogion busnesau a'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant wedi nodi nad yw Llywodraethau Cymru erioed wedi ei chael yn anodd cynhyrchu strategaethau, ond yr hyn sydd wedi bod ar goll yw canlyniadau ar lawr gwlad. Mae angen i'r wybodaeth darged allweddol honno fod yn eiddo i'r cyhoedd.

4.15 p.m.

On the second Welsh Conservative amendment, amendment 2, which calls for the full implementation of the EU dairy package if a voluntary code cannot be arrived at between producers, processors and retailers; this is a backstop position. Events over the weekend have highlighted the shortcomings in the current dairy sector supply chain. Dairy Crest Limited dropped its price to farmers by 2p a litre, and Robert Wiseman Dairies plc followed soon after—with only four days' notice to producers. Too many Welsh farmers are being left with no option but to sell milk for less than the cost of production and they are tied into contracts for another year. They do not have the option of going to another buyer. I therefore call on you, Deputy Minister, to introduce this backstop. I appreciate that there may well be other negotiations going on and, certainly, a voluntary code and how that will protect producers is being looked at, but I urge you to ensure that there is protection for those in the dairy industry.

O ran ail welliant y Ceidwadwyr Cymreig, gwelliant 2, sy'n galw am weithredu'n llawn becyn llaeth yr UE os na all cynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr gytuno ar god gwirfoddol; mesur wrth gefn yw hwn. Mae digwyddiadau'r penwythnos wedi tynnu sylw at y diffygion sy'n bodoli yng nghadwyn gyflenwi'r sector llaeth ar hyn o bryd. Gostyngodd Dairy Crest Cyf ei bris i ffermwyr 2c y litr, a dilynodd Robert Wiseman Dairies ccc yn fuan wedyn, gan roi pedwar diwrnod o rybudd yn unig i gynhyrchwyr. Nid oes gan ffermwyr Cymru unrhyw ddewis ond gwerthu llaeth am bris sy'n is na'r gost gynhyrchu, ac maent wedi'u rhwymo i gontractau am flwyddyn arall. Nid oes ganddynt y dewis o ganfod prynwr arall. Felly, galwaf arnoch, Ddirprwy Weinidog, i gyflwyno'r mesur wrth gefn hwn. Rwyf yn cydnabod bod trafodaethau eraill, o bosibl, yn cael eu cynnal ac, yn sicr, y ffaith bod cod gwirfoddol yn cael ei ystyried, gan gynnwys sut y byddai cod o'r fath yn diogelu cynhyrchwyr, ond rwyf yn eich annog i sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu yn y diwydiant llaeth yn cael eu diogelu.

I hope that you will confirm your willingness

Gobeithiaf y byddwch yn cadarnhau eich

to work with the UK Government in support of the single common market organisation regulation as part of the draft common agricultural policy and I hope that other parties will join the Welsh Conservatives in supporting amendment 2 in order to end uncompetitive practices, which are damaging the sustainability of the Welsh dairy industry.

parodrwydd i weithio gyda Llywodraeth y DU o blaid rheoleiddio sefydliad sengl y farchnad gyffredin, fel rhan o'r polisi amaethyddol cyffredin drafft, a gobeithiaf y bydd pleidiau eraill yn ymuno â'r Ceidwadwyr Cymreig drwy gefnogi gwelliant 2, er mwyn rhoi terfyn ar arferion anghystadleuol sy'n niweidio cynaliadwyedd diwydiant llaeth Cymru.

Another area of concern in relation to the supply chain relates to the number and long-term viability of Wales's smaller abattoirs. Perhaps you could inform us about what discussions you have had with representatives of small and medium-sized abattoirs, because they are important in terms of food miles and the carbon footprint of the red meat sector. They also help to support the small family butcher on the high street and those operating through farmers' markets. Keeping those smaller abattoirs in business will not only reduce costs for local butchers, but will make it that much easier to market Welsh red meat and ensure its provenance as truly local.

Mae un o'r meysydd eraill sy'n peri pryder o ran y gadwyn gyflenwi yn ymwneud â'r nifer o ladd-dai llai sydd yng Nghymru, a'u hyfywedd yn y tymor hir. Efallai y gallech roi gwybod inni am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chynrychiolwyr lladd-dai bach a chanolig eu maint, gan eu bod yn bwysig o ran milltiroedd bwyd ac ôl-troed carbon y sector cig coch. Maent hefyd yn helpu i gynnal cigyddion teuluol bach ar y stryd fawr, a'r rhai sy'n gweithredu drwy farchnadoedd ffermwyr. Byddai cadw rhai o'r lladd-dai llai mewn busnes nid yn unig yn lleihau costau i gigyddion lleol, ond hefyd yn ei gwneud gymaint â hynny'n haws i farchnata cig coch o Gymru a sicrhau bod ei darddiad yn wirioneddol leol.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn dathlu bod gan gynnyrch o Gymru enw da o'r radd flaenaf ac yn annog siopwyr i werthu rhagor o fwyd o Gymru.*

*Celebrates the world leading reputation of Welsh produce and encourages retailers to sell more food sourced from Wales.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r cyfraniad pwysig cynyddol a wneir gan fwyd o Gymru i'r sector twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig drwy feithrin 'naws am le'.*

*Welcomes the increasingly important contribution made by Welsh food to the sustainable tourism sector, especially through fostering 'a sense of place'.*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Amendment 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pwysigrwydd bwyd yn eu tymor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog defnyddwyr i brynu rhagor o gynnyrch yn eu*

*Notes the importance of seasonality and calls on the Welsh government to encourage consumers to buy more produce in season in*

*tymor er mwyn hybu bwyd o Gymru a gwella cynaliadwyedd.*

*order to promote Welsh food and improve sustainability.*

*Gwelliant 6 Peter Black*

*Amendment 6 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i israddio'r portffolio Materion Gwledig a'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar ei gallu i gyflawni'r strategaeth fwyd.*

*Regrets the Welsh government's decision to downgrade the Rural Affairs portfolio and the negative effect this could have on its ability to deliver the food strategy.*

**William Powell:** I move amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of Peter Black.

**William Powell:** Cynigiaf welliannau 3, 4, 5 a 6 yn enw Peter Black.

Given the economic climate that we have had to live through for almost five years, it is fair to say that all of us are watching our food bills rise steadily with growing concern. That is happening across the whole of Wales. All too often, families are left standing at supermarket checkouts, wondering why their shop is costing £15 or £20 more than they had anticipated, leaving them with less to spend on other essentials. With skyrocketing food prices now increasingly the norm, the need for a coherent and relevant food strategy is increasingly important. That is why I welcome today's debate and the opportunity to scrutinise the Government's policy in this area.

O ystyried yr hinsawdd economaidd rydym wedi gorfod byw drwyddo am bron i bum mlynedd, mae'n deg i ddweud bod pob un ohonom yn gwylio â phryder cynyddol ein biliau bwyd yn codi'n raddol. Mae hyn yn digwydd ledled Cymru. Yn rhy aml, mae teuluoedd yn sefyll wrth y til yn yr archfarchnad, yn ceisio dyfalu pam mae eu nwyddau'n costio £15 neu £20 yn fwy na'r hyn yr oeddent wedi'i ddisgwyl, gan adael llai o arian i'w wario ar bethau hanfodol eraill. Gydag achosion o brisiau bwyd yn cynyddu'n ddirfawr yn dod yn fwyfwy cyffredin, mae'r angen am strategaeth fwyd sy'n gydlynol ac yn berthnasol yn gynyddol bwysig. Dyna pam rwyf yn croesawu'r ddadl hon heddiw, a'r cyfle i graffu ar bolisi'r Llywodraeth yn y maes hwn.

Wales has a great number of underutilised resources, but few of them rival the importance of its food and drinks sector to the health of our citizens. As the National Assembly, we have a responsibility to develop and protect a food distribution network that is not only sustainable, resilient and competitive, but also profitable for those involved in the chain of production. In that context, the remarks made by my party leader earlier about the concerns of Graig Farm Organics are particularly pertinent. Only a few months ago, we debated the critical state of the Welsh dairy sector, and the fact that farmers and processors are all too often having their profits squeezed out entirely, as retailers take an ever larger share of the profit. Such a structure is hardly resilient, as it pushes dairy farmers closer to the brink of

Mae gan Gymru nifer fawr o adnoddau sy'n cael eu tanddefnyddio, ond ychydig ohonynt sydd mor bwysig i iechyd ein dinasyddion â'r sector bwyd a diodydd. Fel Cynulliad Cenedlaethol, mae gennym gyfrifoldeb i ddatblygu a diogelu rhwydwaith dosbarthu bwyd sydd nid yn unig yn gynaliadwy, yn wydn ac yn gystadleuol, ond hefyd yn broffidiol i'r rhai sy'n ymwneud â'r gadwyn gynhyrchu. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r sylwadau a wnaed yn gynharach gan arweinydd fy mhlaid am bryderon Graig Farm Organics yn arbennig o berthnasol. Dim ond ychydig fisoedd yn ôl, roeddem yn trafod cyflwr difrifol sector llaeth Cymru, a'r ffaith fod ffermwyr a phroseswyr yn rhy aml yn gweld eu helw'n cael ei erydu'n gyfan gwbl, wrth i fanwerthwyr hawlio cyfran fwy fyth o elw. Go brin fod hwn yn strwythur

bankruptcy and makes it far more likely that the milk that we buy will come from further afield, thereby increasing its carbon footprint and reducing sustainable practice.

cadarn, gan ei fod yn gwthio ffermwyr llaeth yn agosach tuag at drothwy methdaliad ac yn ei gwneud yn llawer mwy tebygol y bydd y llaeth yr ydym yn ei brynu yn dod o bellach i ffwrdd, ac felly'n cynyddu ei ôl troed carbon ac yn lleihau arfer cynaliadwy.

While the EU dairy package highlighted in amendment 2 takes several small steps towards assisting with this situation, it is clear that groups such as the National Farmers Union remain critical of it, in that it does not go far enough. That point is made particularly clear by the Dairy Crest decision that has just been referred to. For such a package to function effectively, it requires strong leadership from the Welsh Government, and I think that it is fair to say that, in earlier years, and currently, that has not always been forthcoming. For any food strategy to be a success, the Welsh Government needs to recognise two very basic things. The first is that Welsh food is of a world-leading standard. Nobody in this Chamber would disagree with that. The second is that, for it to be a success, it needs to be supported by the Welsh Government and the people of Wales. It needs wholehearted support. As the food strategy develops, we need to do more to ensure that Welsh retailers are indeed supplying a greater proportion of food from local sources. Furthermore, we must also inform people about the importance of seasonality in maintaining a sustainable national diet.

Er bod pecyn llaeth yr UE, sef y pecyn a nodir yng ngwelliant 2, yn cymryd sawl cam bach tuag at liniaru'r sefyllfa hon, mae'n amlwg bod grwpiau fel Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn parhau i fod yn feirniadol ohono, yn yr ystyr nad yw'n mynd yn ddigon pell. Mae'r pwynt hwn yn cael ei wneud yn arbennig o glir gan y penderfyniad a wnaed gan Dairy Crest, sef y penderfyniad a gyfeiriwyd ato gynt. I gael pecyn o'r fath i weithredu'n effeithiol, mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru. Credaf ei bod yn deg dweud nad yw hynny bob amser wedi cael ei roi, boed hynny mewn blynyddoedd blaenorol neu ar hyn o bryd. Er mwyn i unrhyw strategaeth fwyd lwyddo, mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod dau beth sylfaenol. Y cyntaf yw'r ffaith fod bwyd o Gymru o safon fyd-eang. Ni fyddai unrhyw un yn y Siambr hon yn anghytuno â hynny. Yr ail yw bod angen iddo gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru a phobl Cymru er mwyn iddo lwyddo. Mae angen cefnogaeth lwyr. Wrth i'r strategaeth fwyd ddatblygu, mae angen inni wneud mwy i sicrhau bod manwerthwyr Cymru yn cyflenwi cyfran uwch o fwyd sydd o ffynonellau lleol. Ar ben hynny, mae'n rhaid inni hysbysu pobl am bwysigrwydd natur dymhorol bwyd o ran cynnal deiet cenedlaethol cynaliadwy.

Such steps will not always be easy. We have all become all too accustomed to enjoying strawberries throughout the winter and new potatoes out of season. However, if we are to eat within our means sustainably, we must relearn how to live and how to respect our seasons. In other words, we must enhance our understanding of what is available for us to eat today and what it is better for us to wait a little while for until it is in its natural season.

Ni fydd cymryd camau o'r fath bob amser yn hawdd. Rydym i gyd wedi dod yn rhy gyfarwydd â mwynhau mefus drwy gydol y gaeaf a thatws newydd tu allan i'w tymor. Fodd bynnag, os ydym am fwyta o fewn ein modd, a hynny'n gynaliadwy, rhaid inni ailddysgu sut i fyw a sut i barchu ein tymhorau. Mewn geiriau eraill, mae'n rhaid inni ehangu ein dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael i'w fwyta heddiw, a'r hyn fydd yn well aros ychydig amdano—hyd nes y bydd yn ei dymor naturiol.

Many in the industry would agree that such tasks have been made all the harder by the decision last May to downgrade the rural affairs portfolio. That point is picked up in

Byddai llawer yn y diwydiant yn cytuno bod cyflawni tasgau o'r fath wedi dod yn fwy anodd yn sgîl y penderfyniad a wnaed ym mis Mai i israddio'r portffolio materion

one of our amendments. For a predominantly rural country to be deprived of front-rank representation on rural affairs at the Cabinet table is surely a cause for concern, and it continues to exercise the minds of many. From environmental considerations to the importance of animal health issues, we constantly see decisions that are at best out of touch and at worst divisive. We need a strong lead from the Welsh Government in this area.

gwledig. Nodir y pwynt hwn yn un o’n gwelliannau. Mae’r ffaith fod gwlad sy’n bennaf yn wlad wledig wedi’i hamddifadu o gynrychiolaeth rheng-flaen ar faterion gwledig o amgylch bwrdd y Cabinet yn bendant yn achos pryder, ac mae’r sefyllfa hon yn parhau i fod ar feddyliau llawer o bobl. O ystyriaethau amgylcheddol i bwysigrwydd materion iechyd anifeiliaid, rydym yn gyson yn gweld penderfyniadau sydd, ar y gorau, yn dangos diffyg cysylltiad, ac, ar y gwaethaf, yn gynhennus. Mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn.

If we are to take this strategy forward, we need to make it the success that it has the potential to be. We must all respect this process and play our full part in it. We must embrace the Welsh food strategy and its half-sister, the food tourism action plan. We must be truly ambitious for the people of Wales, and we must start today.

Os ydym am roi’r strategaeth hon ar waith, mae angen inni sicrhau ei bod yn gymaint o lwyddiant ac y gall fod. Rhaid inni gyd barchu’r broses hon a chwarae rhan lawn ynddi. Mae’n rhaid inni gofleidio strategaeth fwyd Cymru a’i hanner chwaer, sef y cynllun gweithredu twristiaeth fwyd. Mae’n rhaid inni fod yn wirioneddol uchelgeisiol i bobl Cymru, ac mae’n rhaid inni ddechrau heddiw.

**Jenny Rathbone:** I would not disagree with anything that William Powell has said, particularly with regard to the need to eat food in season and to source it locally. One of the most important statements in the original strategy, when it was launched by Elin Jones in 2010, is that, working together, we need to source food locally, eat seasonally and reduce food miles, consequently reducing carbon emissions. There absolutely has to be joined-up government on our food strategy, because it affects, or it should affect, every single Government department.

**Jenny Rathbone:** Nid wyf yn anghytuno ag unrhyw beth a ddywedodd William Powell, yn enwedig o ran yr angen i fwyta bwyd sydd yn ei dymor ac sy’n dod o ffynonellau lleol. Un o’r datganiadau mwyaf pwysig a wnaed yn y strategaeth wreiddiol, pan gafodd ei lansio gan Elin Jones yn 2010, oedd bod angen inni, gan weithio gyda’n gilydd, brynu bwyd yn lleol, bwyta’n dymhorol, lleihau ein milltiroedd bwyd ac, o ganlyniad i hynny, lleihau ein hallyriadau carbon. Mae’n rhaid cael llywodraethu cydgysylltiedig ar ein strategaeth fwyd, gan ei bod yn effeithio—neu ddylai fod yn effeithio—ar bob adran o’r Llywodraeth.

Reducing the number of farting cattle and increasing the amount of fruit and vegetables is, to me, absolutely crucial to how we tackle climate change. I was therefore disappointed to see a recent press release from the Farmers’ Union of Wales offering a prize for the best Welsh food recipes, which included those for meat, fish, dairy and dessert dishes, but said nothing about Welsh fruit and vegetables. A greater emphasis on fruit and vegetables is absolutely essential for our sustainability in future. I am particularly concerned that most of the fruit and vegetables bought in Cardiff come from the

I mi, mae lleihau nifer y gwartheg sy’n rhechu a chynyddu’r cyflenwad o ffrwythau a llysiau sydd ar gael yn gwbl hanfodol o ran ein dulliau o fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd. Felly, roeddwn yn siomedig i weld datganiad i’r wasg yn ddiweddar gan Undeb Amaethwyr Cymru, yn cynnig gwobr am ryseitiau bwyd gorau Cymru, gan fod y rhain yn cynnwys ryseitiau gyfer prydau cig, pysgod, cynnyrch llaeth a phwdinau, ond nid oedd unrhyw sôn am ffrwythau a llysiau Cymru. Mae rhoi mwy o bwyslais ar ffrwythau a llysiau yn gwbl hanfodol o ran ein cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Rwyf

wholesale market in Birmingham. So, were there to be a fuel crisis, there would be no fruit and vegetables in Cardiff.

yn arbennig o bryderus bod y rhan fwyaf o ffrwythau a llysiau a gaiff eu prynu yng Nghaerdydd yn dod o'r farchnad gyfanwerthu yn Birmingham. Felly, pe bai yna argyfwng tanwydd, ni fyddai gennym unrhyw ffrwythau na llysiau yng Nghaerdydd.

While I agree that the milk marketeers have behaved deplorably in squeezing money out of the milk producers, it is really important that farmers look at the value that they can add to their produce, rather than trying to go head-to-head with these very powerful supermarkets. I had the privilege of sitting next to one of the founders of Rachel's Dairy at the Queen's Diamond Jubilee celebrations. I learned how an organic farmer, in thinking clearly about how they could add value to their produce, has enabled a business in west Wales to grow into a company that employs over 300 people. I would like to see that sort of initiative occurring all over Wales, rather than in just one part of Wales.

Er fy mod yn cytuno bod marchnatwyr llaeth wedi ymddwyn yn ddifrifol o wael wrth wasgu arian allan o'r cynhyrchwyr llaeth, mae'n bwysig iawn bod ffermwyr yn edrych ar y gwerth y gallant ychwanegu at eu cynnyrch, yn hytrach na cheisio mynd benben ag archfarchnadoedd pwerus iawn. Cefais y fraint o sefyll wrth ymyl un o sylfaenwyr Rachel's Dairy yn ystod dathliadau Jiwbilî Diemwnt y Frenhines. Dysgais sut y mae ffermwr organig, drwy feddwl yn glir am sut y gallai ychwanegu gwerth at ei gynnyrch, wedi galluogi busnes yng ngorllewin Cymru i dyfu i fod yn gwmni sy'n cyflogi dros 300 o bobl. Hoffwn weld y math hwnnw o fenter yn digwydd ledled Cymru, yn hytrach na digwydd yn un rhan o Gymru yn unig.

There is a particular issue with the food that we serve in our schools. Why do we not have a much closer link between our schools and our local food producers to ensure that local food is used in school meals? I was particularly disappointed to hear from the First Minister earlier that the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 will not be implemented in our secondary schools until September 2013. England has had similar regulations in place since September 2009, and a real revolution has taken place in children's eating habits as a result. That was highlighted in a Children's Food Trust publication last week, which showed that the percentage of teenagers having chips at lunchtime has gone down from 43% to 7% over seven years, and that children in England are getting a healthier diet in terms of what is being served up to them via the public purse. Compare that with the strategy that we have in Wales, where we still have schools selling junk food in vending machines to subsidise the school meals service. That does not indicate a particularly joined-up approach.

Mae gennym broblem benodol mewn perthynas â'r bwyd yr ydym yn ei ddarparu yn ein hysgolion. Pam nad oes gennym berthynas llawer agosach rhwng ein hysgolion a'n cynhyrchwyr bwyd lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod bwyd lleol yn cael ei ddefnyddio mewn prydau bwyd ysgol? Roeddwn yn arbennig o siomedig i glywed y Prif Weinidog yn dweud yn gynharach na fydd Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn cael ei weithredu yn ein hysgolion uwchradd tan fis Medi 2013. Mae rheoliadau tebyg wedi bod yn weithredol yn Lloegr ers mis Medi 2009, ac o ganlyniad i hynny, gwelwyd chwyldro go iawn mewn perthynas ag arferion bwyta plant. Tynnodd ddogfen a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan y Children's Food Trust sylw at y sefyllfa hon, gan ddangos bod canran y plant sydd yn eu harddegau ac sy'n bwyta sglodion yn ystod amser cinio wedi gostwng o 43% i 7% dros gyfnod o saith mlynedd, a bod gan blant yn Lloegr ddeiet iachach o ran yr hyn sy'n cael ei ddarparu iddynt drwy gyfrwng pwrs y wlad. Cymharwch y sefyllfa honno â'r strategaeth sydd gennym yng Nghymru, lle mae gennym ysgolion yn gwerthu bwyd sothach mewn

peiriannau gwerthu er mwyn rhoi cymhorthdal i'r gwasanaeth prydau ysgol. Nid yw hynny'n awgrymu bod gennym ddull gweithredu sy'n arbennig o gydgysylltiedig.

At the secondary school where I am a governor we recently completed an anti-bullying survey, and it indicated that the main cause of bullying was the shape and size of individuals, so there is a real issue around tackling obesity, and we have to start with the food that young people are eating in our schools. That is a real challenge to us. In terms of sustainable food that is procured locally, I would like us to start with our education strategy. I urge the Government to consider taking forward the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure much sooner than is currently planned.

Yn ddiweddar, cwblhaodd yr ysgol uwchradd lle rwyf yn llywodraethwr arolwg gwrth-fwlio. Nododd yr arolwg hwn mai'r prif achos o fwlio oedd siâp a maint unigolion, felly mae gennym broblem wirioneddol o ran mynd i'r afael â gordewdra, ac mae'n rhaid inni ddechrau â'r bwyd y mae pobl ifanc yn ei fwyta yn ein hysgolion. Mae honno'n her go iawn i ni. O ran bwyd cynaliadwy sy'n cael ei gaffael yn lleol, hoffwn ddechrau gyda'n strategaeth addysg. Rwyf yn annog y Llywodraeth i ystyried bwrw ymlaen â Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 llawer yn gynt na'r bwriad ar hyn o bryd.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Penderfynais y byddwn yn canolbwyntio, yn fy nghyfraniad i'r ddadl hon fel llefarydd ar amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd, ar gynhyrchwyr bwyd, a hynny ar ôl imi dreulio amser arbennig o hapus fore Sadwrn yn y farchnad cynnyrch lleol ym Mhorthmadog. Yno, cefais gyfle i gwrdd â nifer o gynhyrchwyr—er enghraifft, Gill, sy'n berchen cwmni arbennig iawn o'r enw Gill's Plaice. Mae wedi bod yn hyrwyddo pysgod o fae Ceredigion o'i siop yn Aberdyfi ers blynyddoedd, ac, yn arbennig, yn hyrwyddo bwyta pysgod nad ydynt, efallai, mor adnabyddus—draenog y môr, yr hyrddyn, y forgath, lleden y môr a'r lleden chwithig—heblaw y gegddu a'r penfras, y lleden fannog, ac yn y blaen.

**Lord Elis-Thomas:** I decided that I would concentrate, in my contribution to this debate as spokesperson on agriculture, fisheries and food, on food producers, having spent an exceptionally happy time on Saturday morning in the local produce market in Porthmadog. There I had an opportunity to meet a number of producers—for example, Gill, who owns an exceptional company called Gill's Plaice. She has been promoting fish from Cardigan bay from her shop in Aberdovey for years, and, in particular, promoting eating those fish that are perhaps not as well known: bass, mullet, ray, turbot and Dover sole—besides hake, cod and brill and so on.

Mae'r pysgod hyn i gyd yn gynhenid i fae Ceredigion ac mae gallu eu mwynhau'n ffres o farchnad bysgod yn brofiad arbennig iawn. Mae hynny'n ogystal â chynnyrch newydd yn yr ardal. Gwn fod diddordeb eisoes gan lefarydd y Ceidwadwyr yn y busnes madarch rhyfeddol yn Nantmor, yr Ardd Fadarch, sydd yn cael ei arwain gan Cynan Jones. Mae'r madarch hynny yn fadarch hudol iachus—hudol yn yr ystyr eu bod yn flasus iawn, yn hytrach na'u bod yn beryglus.

These fish are all native to Cardigan bay and the ability to enjoy them fresh from a fish market is a very special experience. That is in addition to the new produce in the area. I know that there is already interest from the Conservative spokesperson in the marvellous mushroom business in Nantmor, the Mushroom Garden, which is led by Cynan Jones. Those mushrooms are healthy magic mushrooms—magic in the sense that they are very tasty, rather than dangerous.

Yn yr un farchnad, roedd y cwmni cwrw mwyaf diddorol yng Nghymru os nad gorllewin Ewrop—cwmni â'r enw ardderchog Bragdy Mws Piws. Mae gan rheolwr gyfarwyddwr y cwmni enw cystal,

In the same market, there was the most interesting beer producer in Wales, if not in western Europe—the excellently named Purple Moose Brewery. The managing director of the company is Mr Lawrence

sef Mr Lawrence Washington. Gwn fod y Gweinidog wedi cwrdd ag ef ac wedi yfed ei gwrw. Mae'r cwmni wedi cynhyrchu cwrw ysgafn arbennig ar gyfer yr haf eleni, sef Ysgawen. Edrychaf ymlaen ato'n fawr.

Washington—another excellent name. I know that the Minister has met him and has sampled his beer. The company has produced for the summer a special pale ale, Ysgawen. I look forward to that very much.

Rwyf am enwi nid yn unig y cwmnïau sydd yn cynhyrchu, ond y cyfanwerthwyr arloesol hefyd. Cyfaill arall i mi, Conrad Davies, a sefydlodd fusnes EUROSPAR yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Agorodd ddwy siop EUROSPAR yn ystod y tair blynedd diwethaf. Eleni, mae'n bencampwr y Gwir Flas. Ei uchelgais yw datblygu a lledu'r bwydydd y mae'n eu dosbarthu a'r brandiau arbennig sydd yn y siopau. Mae'n olynydd teilwng i Rachel Rowlands o Rachel's Dairy, a oedd yn un o sylfaenwyr yr holl ddatblygiad o ganmol a hyrwyddo bwydydd Cymru. Carwn dalu teyrnged i'r modd y mae Llywodraethau Cymru yn olynol wedi sicrhau cyllid drwy'r gystadleuaeth Gwir Flas i hysbysebu a hyrwyddo safon y bwyd hwn.

I want to name not just the food and drink producers, but also the innovative wholesalers. Another of my friends, Conrad Davies, established the EUROSPAR business in Dolgellau, Blaenau Ffestiniog and Pwllheli in the past 10 years. He opened two EUROSPAR stores in the past three years. This year, he is a True Taste champion. His ambition is to develop and roll out the foods that he is making available and the special brands available in the shops. He is a worthy successor to Rachel Rowlands of Rachel's Dairy, who was a founder of the development of praising and promoting Welsh foods. I pay tribute to the way in which successive Welsh Governments have ensured funding through the True Taste awards to advertise and promote the quality of our food produce.

4.30 p.m.

Mae'n arwyddocaol, fel y dywedodd Edwina Hart, y Gweinidog busnes, ar gychwyn y broses hon o roi lle arbennig i fwyd a thwristiaeth yn ei strategaeth, fod 18% o holl weithlu Cymru yn gweithio yn y gadwyn gyflenwi, sy'n cychwyn gyda bwydydd Cymreig, a bod gwerth dros £6 biliwn o gynnyrch wedi cael ei drosi. Mae 200,000 o bobl yn gweithio yn gyfan yn y maes bwyd a ffermio, ac mae'n bwysig ein bod yn gosod y gweithgarwch hwn yn y cyd-destun ehangach ar gyfer hyrwyddo bwyd.

As Edwina Hart, the Minister for business, stated at the very start of this process of giving food and tourism a special place in her strategy, it is significant that 18% of Wales's entire workforce is employed in the supply chain, which starts with Welsh foods, and that turnover of more than £6 billion-worth of produce has been generated. Also, 200,000 people are employed in the food and farming sector, and it is important that we place that activity in its wider context for the purposes of food promotion.

Fodd bynnag, mae cwmnïau traddodiadol sydd wedi datblygu o gyd-destun gwahanol, ac rwy'n cyfeirio wrth gloi at Hufenfa De Arfon yn Chwilog. Rwy'n gresynu at y sefyllfa yn y farchnad laeth y cyfeiriwyd ati. Mae'n bwysig ein bod yn cadw sylw manwl ar yr hyn sy'n digwydd yn y farchnad llaeth yfed yn ogystal â'r farchnad gaws. Mae'r cwmni hwn wedi arloesi yn y ffordd y mae caws yn cael ei gyflwyno a'i hyrwyddo. Rwy'n cymell unrhyw beth sy'n ymddangos o dan yr enw Dragon, boed yn llong ryfel newydd neu, yn well fyth, yn gaws a menyn wedi'u cynhyrchu o Ryd-y-gwystl ger Chwilog ger Pwllheli.

However, there are traditional companies that have come out of a very different context, and I refer in closing to South Caernarfon Creameries in Chwilog. I regret the situation that was referred to with the market for milk. It is important that we keep a close eye on what is happening in the market for liquid milk as well as for cheese. That company has been innovative in promoting cheese and in the way it has presented it. I would recommend anything that is marketed under the name Dragon, whether that be a new warship or, better yet, cheese and butter produced in Rhyd-y-gwystl near Chwilog near Pwllheli.

Gadewch inni ddathlu nid yn unig gyfraniad y Llywodraeth ond cyfraniad y cynhyrchwyr, y dosbarthwyr a'r bwytawr bwyd ac yfwyr y cynnyrch Cymreig. Gwn y gallaf gynnwys y Dirprwy Weinidog a minnau—a phawb ohonom, gobeithio—ymhlith yr olaf ar y rhestr honno.

Let us celebrate not only the Government's contribution but also that of the producers, the distributors and those who enjoy eating and drinking Welsh produce. I know that I can include the Deputy Minister and myself—and all of us, I hope—in that last category.

**Vaughan Gething:** I agree with most, if not all, of what has been said already in this debate. I want to talk a little about the context in which the food strategy and the promotion of Welsh food and drink are taking place. I start by welcoming the Deputy Minister's commitment to providing a statement on the red meat co-ops. As we know, co-operative organisations make a huge contribution to the food and drink sector.

**Vaughan Gething:** Rwy'n cytuno â'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r hyn a ddywedwyd eisoes yn y ddadl hon. Hoffwn siarad ychydig am gyd-destun y strategaeth fwyd a'r gwaith o hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Dechreuaf drwy groesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ddarparu datganiad ar y cwmnïau cig coch cydweithredol. Fel y gwyddom, mae sefydliadau cydweithredol yn gwneud cyfraniad enfawr at y sector bwyd a diod.

When I think about how we will continue to promote food and drink, I think about the changing context of land use, the way in which consumer behaviour and expectations have changed, and the opportunities that we have to promote our food sector. Taking up something that Bill Powell said earlier, when we talk about the food sector, we do not always think clearly about food inflation or its causes. While what the Government does in promoting produce is important, the reality is that there are many factors affecting food inflation. Fuel, for example, over which we have no direct control, is a significant factor. However, we often overlook the fact that consumers in all our constituencies up and down the country now expect to have fairly cheap food at regular times throughout the year. People do not think about the seasonality of produce. Part of the problem faced when promoting food is that, globally, we see that there is even more competition for land use, particularly, oddly, for biofuels. We should consider whether bioethanol really is a significant factor affecting the sustainable way in which we all aspire to live, now and in future.

Pan fyddaf yn meddwl am sut y byddwn yn parhau i hyrwyddo bwyd a diod, rwy'n meddwl am gyd-destun newidiol defnydd tir, y ffordd y mae ymddygiad defnyddwyr a disgwyliadau wedi newid, a'r cyfleoedd sydd gennym i hyrwyddo ein sector bwyd. Gan gyfeirio at rywbeth y dywedodd Bill Powell yn gynharach, pan fyddwn yn sôn am y sector bwyd, nid ydym bob amser yn meddwl yn glir am chwyddiant bwyd neu'r hyn sy'n ei achosi. Er bod yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran hyrwyddo cynnyrch yn bwysig, y realiti yw bod nifer o ffactorau yn effeithio ar chwyddiant bwyd. Mae tanwydd, er enghraifft, yn ffactor sylweddol nad oes gennym unrhyw reolaeth uniongyrchol drosto. Fodd bynnag, rydym yn aml yn anwybyddu'r ffaith bod defnyddwyr yn ein holl etholaethau ar hyd a lled y wlad erbyn hyn yn disgwyl cael bwyd gweddol rad ar adegau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Nid yw pobl yn meddwl am natur dymhorol y cynnyrch. Rhan o'r broblem a wynebir wrth hyrwyddo bwyd yw ein bod, yn fyd-eang, yn gweld bod hyd yn oed mwy o gystadleuaeth am dir, yn enwedig, yn rhyfedd iawn, ar gyfer biodanwyddau. Dylem ystyried a yw bioethanol mewn gwirionedd yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar y ffordd gynaliadwy yr ydym i gyd yn dyheu am fyw, yn awr ac yn y dyfodol.

One obvious aspect of consumer behaviour in respect of food and drink that has changed is

Un agwedd amlwg ar ymddygiad defnyddwyr mewn perthynas â bwyd a diod

that more people think about the premium that they will place on where and how food has been produced. That is especially true about animal welfare standards, where we want to continue to set a high bar for producers in Wales, but is also the case regarding the environmentally friendly and sustainable nature of food production, which goes for arable produce as well as meat and fish. There is a much greater awareness among the public. Many more people are aware of how their food is produced even if, ultimately, most consumers still buy the cheapest produce. That is an unavoidable truth and, bearing in mind that families up and down Wales are feeling the pinch of the current recession as well as the long-term difficulties that we know we face, we cannot blame consumers for choosing to live within a budget.

sydd wedi newid yw bod mwy o bobl yn meddwl am y gwerth y maent yn ei roi ar ble a sut y mae bwyd wedi cael ei gynhyrchu. Mae hynny’n arbennig o wir o ran safonau lles anifeiliaid, lle rydym am barhau i osod safon uchel ar gyfer cynhyrchwyr yng Nghymru, ond mae hefyd yn wir o ran natur ecogyfeillgar a chynaliadwy cynhyrchu bwyd, sy’n wir am gynnyrch âr yn ogystal â chig a physgod. Mae llawer mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Mae llawer mwy o bobl yn gwybod am sut mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu hyd yn oed os bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dal i brynu’r cynnyrch rhataf yn y pen draw. Mae hynny’n wirionedd anochel a, gan gadw mewn cof fod teuluoedd ar hyd a lled Cymru yn teimlo gwasgfa’r dirwasgiad presennol yn ogystal â’r anawsterau tymor hir y gwyddom ein bod yn eu hwynebu, ni allwn feio defnyddwyr am ddewis byw o fewn cyllideb benodol.

Against that background, there are still big opportunities here. I went and spoke to a different organisation today and I realised that, 15 years ago, I was elected president of NUS Wales. Fifteen years ago, consumers did not think anything like as much as they do now about where and how food is produced. Some of that is down to the focus that our celebrity chefs on tv have given this. There is so much more food on the television, not just by the wild and wacky Hugh Fearnley-Whittingstall types, but by mainstream celebrity chefs as well. However, it is not just them. Think about large organisations such as the RSPCA, which promotes things like Freedom Food scheme. That does have an impact on how consumers think about and view how food is produced.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, mae cyfleoedd mawr yn parhau i fod ar gael. Euthum i siarad â sefydliad gwahanol heddiw a sylweddolais imi gael fy ethol yn llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru 15 mlynedd yn ôl. Bymtheng mlynedd yn ôl, nid oedd defnyddwyr yn meddwl gymaint ag y maent yn ei wneud yn awr am ble a sut y caiff bwyd ei gynhyrchu. I raddau, mae hynny’n ganlyniad i’r sylw mawr y mae ein cogyddion enwog ar y teledu wedi’i roi i hyn. Mae cymaint yn fwy o fwyd ar y teledu, nid yn unig gan y cogyddion gwyllt a gwallgof, fel Hugh Fearnley-Whittingstall, ond hefyd gan gogyddion enwog prif ffrwd. Fodd bynnag, nid dim ond nhw sy’n gyfrifol am hyn. Meddyliwch am sefydliadau mawr, fel yr RSPCA, sy’n hyrwyddo pethau fel cynllun *Freedom Food*. Mae hynny’n cael effaith ar sut y mae defnyddwyr yn meddwl am sut y caiff bwyd ei gynhyrchu a’u barn am hynny.

I should say at this point that I welcome the fact that the Deputy Minister is committed to having a new food strategy, and particularly how he has admirably laid his body on the line to sample much Welsh food and drink produce. It is an example that should be commended.

Dylwn ddweud yn awr fy mod yn croesawu’r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi ymrwymo i gael strategaeth fwyd newydd, ac yn enwedig ei ymdrechion canmoladwy i flasu cymaint o fwyd a diod o Gymru. Mae’n enghraifft y dylid ei chanmol.

Finally, picking up on one of the points that Jenny Rathbone made, this is not just about the high-end, high-value food and drink

Yn olaf, gan ymhelaethu ar un o’r pwyntiau a wnaeth Jenny Rathbone, nid yw hyn yn ymwneud yn unig â chynnyrch bwyd a diod o

produce, but about the need to ensure that Welsh food and drink is seen as part of a mass-market solution and about how we can and should promote Welsh food and drink produce. It is also about our thinking on procuring food and drink in public services, schools and hospitals. There is more that we could and should do in that process to ensure that we place a premium on ensuring that local produce is valued and promoted.

safon uchel ac sydd â gwerth uchel; mae hefyd yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod bwyd a diod o Gymru yn cael eu hystyried yn rhan o ateb ar gyfer y farchnad dorfol, a sut y gallwn hyrwyddo bwyd a diod o Gymru a sut y dylid gwneud hynny. Mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn meddwl am gaffael bwyd a diod mewn gwasanaethau cyhoeddus, ysgolion ac ysbytai. Mae mwy y gallem ac y dylem ei wneud yn y broses honno i sicrhau ein bod yn gosod gwerth ar sicrhau bod cynnyrch lleol yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo.

**Suzy Davies:** I am also pleased to take part in this debate, and I am pleased to hear so many interesting points being raised. I begin by saying that at least we have a food strategy in Wales and some success stories, but it is not always clear how the two are related. What is clear is that the food that we have in Wales is a class product, and we should remember that. We should also remember that, without a class product, it does not matter of what class the marketing strategy is. That means that there is still a question in my mind about how effective this strategy has been to date, and how effective it will be—although I am encouraged by the remarks that the Deputy Minister made at the beginning.

**Suzy Davies:** Rwyf innau'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon, ac rwy'n falch o glywed cymaint o bwyntiau diddorol yn cael eu crybwyll. Hoffwn ddechrau drwy ddweud o leiaf fod gennym strategaeth fwyd yng Nghymru a rhai hanesion o lwyddiant, ond nid yw bob amser yn glir sut mae'r ddau yn perthyn i'w gilydd. Yr hyn sy'n amlwg yw bod y bwyd sydd gennym yng Nghymru yn gynnyrch o safon, a dylem gofio hynny. Dylem gofio hyn hefyd: heb gynnyrch o safon, nid oes ots pa mor dda yw'r strategaeth farchnata. Mae hynny'n golygu bod cwestiwn yn fy meddwl i o hyd am ba mor effeithiol y mae'r strategaeth hon wedi bod hyd yn hyn, a pha mor effeithiol y bydd yn y dyfodol—er bod y sylwadau a wnaeth y Dirprwy Weinidog ar y dechrau wedi fy nghalonogi.

The Wales the True Taste campaign, of some vintage now, has made a welcome contribution to the people of Wales's perception of the quality of food produced here. On this side of the border, we now readily accept that our own produce meets the expectations of the high-end market and that the high-end promotion that has accompanied it has been credible, albeit in a curate's egg sort of way. It has worked better as a pervasive quality assurance scheme than as a national brand, but the concept of national branding has proven to be problematic generally since the loss of the Wales Tourist Board and the Welsh Development Agency. The loss of identity that arose from bringing those functions in-house has not been overcome, as we have discussed before in the Chamber, and that will be to the detriment of the delivery of this strategy. There is a statement in the food

Mae ymgyrch Cymru y Gwir Flas, sydd yn eithaf hen erbyn hyn, wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i ganfyddiad pobl Cymru o ansawdd y bwyd a gynhyrchir yma. Ar yr ochr hon i'r ffin, rydym yn awr yn barod i dderbyn bod ein cynnyrch ni yn bodloni disgwyliadau pen uchaf y farchnad a bod y gwaith hyrwyddo uchel ei safon sydd wedi cyd-fynd ag ef wedi bod yn gredadwy, er ei fod wedi bod yn gymysgedd o'r da a'r drwg. Mae wedi gweithio'n well ar ffurf cynllun sicrhau ansawdd treiddiol nag ar ffurf brand cenedlaethol, ond mae'r cysyniad o frandio cenedlaethol wedi bod yn broblem yn gyffredinol ers colli Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Nid ydym wedi goresgyn y ffaith i hunaniaeth gael ei cholli wrth wneud y swyddogaethau hynny yn fewnol, fel yr ydym wedi ei drafod o'r blaen yn y Siambr, a bydd hynny'n niweidiol i'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth hon. Mae

strategy that,

‘Tourism provides an excellent example of an area of Government influence in which food can play a key role.’

That may be true but, regrettably, it remains underdeveloped in view of the continuing decline in the number of overseas tourists visiting Wales. If the Mid Wales Food and Land Trust is right—and I hope that it is, because it is quoted in this strategy—82% of visitors surveyed in 2006 said that good, locally produced food is an important part of their holiday experience and that they would pay up to 13% extra to experience it. In that case, if tourism is to be at the heart of this strategy, as you say, Deputy Minister, it should also be at the forefront of the Visit Wales overseas marketing strategy. Its website could include up-to-date features using food to target visitors to the London Olympic Games, for example, rather than pieces on the Abergavenny Food Festival that are 18 months out of date. A link to the Wales the True Taste page seems to be totally absent. The ‘Where to eat and drink’ section also leaves a lot to be desired, especially when compared with the Visit Scotland site. That is despite the food tourism action plan of 2009, the half-sister that William Powell was talking about earlier, which identified that work needed to be done to bring the brand messages—yes, them again—of Wales the True Taste and Wales tourism closer together.

To appeal to overseas visitors, Wales needs to be able to demonstrate the uniqueness of its food. Quality is essential but is not enough: other countries can claim that, too. The ‘Wales View’ brochure for proper holidays, Visit Wales’s key publication, just does not do that, although it does take an innovative approach overall. Jamie Oliver may be enthused about our Italian-style ice-cream—although probably not as enthusiastic as I am, I must admit—and Yemeni pancakes, but that does not give the essential flavour of what constitutes Welsh cuisine.

datganiad yn y strategaeth fwyd, sef:

‘Mae twristiaeth yn enghraifft ardderchog o faes a gaiff ei ddylanwadu gan y Llywodraeth ble y gall bwyd chwarae rhan allweddol.’

Efallai fod hynny’n wir ond, yn anffodus, nid yw wedi ei datblygu ddigon yn wyneb y gostyngiad parhaus yn nifer y twristiaid sy’n ymweld â Chymru o dramor. Os yw Ymddiriedolaeth Bwyd a Thir y Canolbarth yn gywir—ac rwy’n gobeithio ei bod, oherwydd fe’i dyfynnir yn y strategaeth hon—dywedodd 82% o’r ymwelwyr a holwyd yn 2006 fod bwyd da a gynhyrchir yn lleol yn rhan bwysig o’r profiad o fod ar wyliau ac y byddent yn talu hyd at 13% yn fwy i’w brofi. Felly, os bydd twristiaeth wrth wraidd y strategaeth hon, fel y dywedasoch, Ddirprwy Weinidog, dylai hefyd fod yn ganolog i strategaeth farchnata dramor Croeso Cymru. Gallai ei wefan gynnwys eitemau cyfoes sy’n defnyddio bwyd i dargedu’r rhai sy’n ymweld â Gemau Olympaidd Llundain, er enghraifft, yn hytrach nag eitemau am Ŵyl Fwyd y Fenni nad ydynt wedi’u diweddaru ers 18 mis. Mae’n ymddangos bod linc i dudalen Cymru y Gwir Flas yn gwbl absennol. Mae’r adran fwyd a diod hefyd yn bur ddiffygiol, yn enwedig o’i chymharu â safle Visit Scotland. Mae hynny er gwaethaf y cynllun gweithredu twristiaeth bwyd o 2009, sef yr hanner chwaer yr oedd William Powell yn ei thrafod yn gynharach, a oedd yn nodi bod angen gwneud gwaith i ddod â negeseuon brand—ie, nhw eto—Cymru y Gwir Flas a thwristiaeth yng Nghymru yn nes at ei gilydd.

Er mwyn apelio at ymwelwyr tramor, mae angen i Gymru allu dangos pa mor unigryw yw ei bwyd. Mae ansawdd yn hanfodol ond nid yw’n ddigon: gall gwledydd eraill honni hynny, hefyd. Yn syml iawn, nid yw llyfryn ‘Wales View’ ar gyfer gwyliau da, sef cyhoeddiad allweddol Croeso Cymru, yn gwneud hynny, er bod ei ymagwedd yn arloesol yn gyffredinol. Efallai fod Jamie Oliver yn frwdfrydig am ein hufen iâ Eidalaidd ei naws—er mae’n debyg nad yw mor frwdfrydig â mi, rhaid imi gyfaddef—a chrempogau Yemen, ond nid yw hynny’n rhoi blas hanfodol o fwyd Cymru.

The Government could help to establish this picture of uniqueness in the field of protected designation of origin. Putting a couple of pictures of nice cheeses in a brochure just does not cut the mustard. Only Welsh lamb and beef have been awarded PGI status, with just seven more products dragging their way through what the Department for Environment, Food and Rural Affairs calls a 'simple' process. Of the UK's 45 protected names, 14 are for cheeses, and not one of them is Welsh. That is an obvious area in which you could show clear support for small businesses and help tourism at the same time, Deputy Minister. Perhaps when you are responding to this, you could tell us a little about the progress of those producers that are taking advantage of the European Union's protected food status, which gives protection against imitation throughout the EU. That is important, because the majority of our overseas visitors still come from the EU, some of whom have a great interest in their own country's gastronomy, and so the protected food status would be a way of drawing their attention to Wales. Therefore, perhaps you could update us on your contact with DEFRA regarding that.

Gallai'r Llywodraeth helpu i sefydlu'r syniad o gynnyrch unigryw ym maes enwau tarddiad gwarchodedig. Nid yw'n ddigonol rhoi ambell lun o gawsiau neis mewn llyfryn. Dim ond cig oen a chig eidion Cymru sydd wedi ennill statws dynodiad daearyddol gwarchodedig, a dim ond saith o gynhyrchion eraill sy'n ymlwybro drwy'r hyn y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ei galw'n broses 'syml'. O'r 45 o enwau yn y DU a warchodir, mae 14 ohonynt yn fathau o gaws, ac nid oes yr un ohonynt o Gymru. Dyna faes amlwg lle y gallech ddangos cefnogaeth glir i fusnesau bach a helpu twristiaeth ar yr un pryd, Ddirprwy Weinidog. Efallai pan fyddwch yn ymateb i hyn, gallech ddweud wrthym ychydig am hynt y cynhyrchwyr hynny sy'n manteisio ar statws bwyd gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd, sy'n amddiffyn bwydydd rhag cael eu copïo ledled yr UE. Mae hynny'n bwysig, gan fod y rhan fwyaf o'n hymwelwyr o dramor yn parhau i ddod o'r UE. Mae gan rai ohonynt ddiddordeb mawr yng ngastronomeg eu gwlad eu hunain, ac felly byddai rhoi statws gwarchodedig i fwyd yn ffordd o dynnu eu sylw at Gymru. Felly, efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich cyswllt â DEFRA ynghylch hynny.

The plan also talks of farmers' markets and what they can do to deliver the Government's aspirations. There are concerns generally about the support that farmers' markets are getting at the moment, and perhaps, if there is time, you could mention that. Deputy Minister, you will also remember, of course, that farmers expressed concern when this strategy was first published that there had been insufficient consideration of encouraging them and other primary producers to offer added value to what they do.

Mae'r cynllun hefyd yn sôn am farchnadoedd ffermwyr a'r hyn y gallant ei wneud i gyflawni dyheadau'r Llywodraeth. Mae pryderon cyffredinol am y cymorth y mae marchnadoedd ffermwyr yn ei gael ar hyn o bryd ac, efallai, os oes amser, y gallech sôn am hynny. Ddirprwy Weinidog, byddwch hefyd yn cofio, wrth gwrs, fod ffermwyr wedi mynegi pryder pan gafodd y strategaeth hon ei chyhoeddi, gan ddweud na roddwyd ystyriaeth ddigonol i'w hannog hwy a chynhyrchwyr cynradd eraill i gynnig gwerth ychwanegol i'r hyn a wnânt.

As an Assembly, we need to give sufficient consideration to the success and otherwise of the strategy. While I am encouraged by your opening remarks about evaluation, if you have time, perhaps you could tell us a little more about that, bearing in mind the First Minister's comments earlier this afternoon.

Fel Cynulliad, mae angen inni roi ystyriaeth ddigonol i lwyddiant y strategaeth, neu ei haflwyddiant. Er bod eich sylwadau agoriadol am werthuso wedi fy nghalonogi, os bydd gennych amser, efallai y gallech ddweud ychydig yn fwy wrthym am hynny, gan gadw mewn cof sylwadau'r Prif Weinidog yn gynharach y prynhawn yma.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gorffennwch, os

**The Deputy Presiding Officer:** Conclude,

gwelwch yn dda.

please.

**Joyce Watson:** First, I commend the Deputy Minister on bringing this strategy forward. It shows that the Welsh Government cares about the food industry, which plays a part in the GDP and growth of Welsh businesses.

**Joyce Watson:** Yn gyntaf, cymeradwyaf y Dirprwy Weinidog am ddod â'r strategaeth hon yn ei blaen. Mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn gofalu am y diwydiant bwyd, sy'n chwarae rhan yng nghynnyrch mewnwladol crynswth a thwf busnesau Cymru.

Like many in the Chamber today, I am more than concerned that, only last week, farmers supplying Dairy Crest were told that they would have to receive 2p a litre less for their milk. Over the weekend, another processor, Wiseman Dairies, cut its price by the same amount. Those cuts come at a time when farmers' cost of production is in excess of 30p per litre. We know that it comes down to market forces in some places, but farmers' disappointment at the decision has been compounded by their frustration over the length of notice given to them, which was only four days. That is truly unacceptable. As DEFRA and his department look at the issue of fairness in milk contracts, does the Deputy Minister think that that contractual imbalance needs to be addressed? Farmers on one hand often have to give 12 months' notice or more to pull out of contracts, but the price that they receive can be changed at the drop of a hat, it seems. It is a system in which buyers have almost complete discretion over notice periods, while farmers have no option to leave contracts early. It does not seem fair.

Fel y mae llawer yn y Siambr heddiw, rwy'n bryderus iawn am y ffaith y dywedwyd wrth ffermwyr sy'n cyflenwi Dairy Crest, dim ond yr wythnos diwethaf, y byddai'n rhaid iddynt dderbyn 2c y litr yn llai am eu llaeth. Dros y penwythnos, gostyngodd prosesydd arall, sef Wiseman Dairies, ei bris gan yr un swm. Daw'r toriadau hynny ar adeg pan fo cost cynhyrchu ffermwyr yn fwy na 30c y litr. Rydym yn gwybod mai grymoedd y farchnad sy'n bwysig mewn rhai mannau, ond mae siom ffermwyr ynghylch y penderfyniad wedi cael ei ddwysáu gan eu rhwystredigaeth ynghylch y cyfnod o rybudd a roddwyd iddynt, sef pedwar diwrnod yn unig. Mae hynny'n wirioneddol annerbyniol. Wrth i DEFRA a'i adran edrych ar fater tegwch mewn contractau llaeth, a yw'r Dirprwy Weinidog yn credu bod angen mynd i'r afael â'r anghydbwysedd cytundebol? Yn aml, mae'n rhaid i ffermwyr, ar yr un llaw, roi rhybudd o 12 mis neu fwy cyn iddynt adael contractau, ond ymddengys y gall y pris a delir iddynt gael ei newid heb rybudd. Mae'n system lle mae gan brynwyr ddisgresiwn llwyr bron dros gyfnodau rhybudd, ond ni all ffermwyr ddewis gadael contractau yn gynnar. Nid yw hynny i'w weld yn deg.

On the EU dairy package and the legislation that it would demand in Wales, the industry supports the Welsh Government's view that more can be achieved with a voluntary code of practice. Does the Deputy Minister agree that such an agreement must deliver price transparency and a more balanced contract and relationship between dairy farmers and their suppliers? The fact that the figures demonstrate quite clearly that the food industry provides the biggest added value to farmers, particularly the milk sector, is of huge concern to us all.

O ran pecyn llaeth yr UE a'r ddeddfwriaeth y byddai galw amdani yng Nghymru yn sgîl ei gyflwyno, mae'r diwydiant yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru y gellir cyflawni mwy gyda chod ymarfer gwirfoddol. A yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno bod yn rhaid i gytundeb o'r fath sicrhau tryloywder mewn prisiau, a chontract a pherthynas mwy cytbwys rhwng ffermwyr llaeth a'u cyflenwyr? Mae'r ffaith bod y ffigurau'n dangos yn glir fod y diwydiant bwyd yn cynnig y gwerth ychwanegol mwyaf i ffermwyr, yn enwedig y sector llaeth, yn destun pryder mawr inni i gyd.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i

opportunity to contribute to this debate. One would find it difficult to disagree with the various comments made by other Members. We have a positive story and image to sell in Wales in relation to our produce, and that is accepted not just in Europe but around the world.

gyfrannu at y ddadl hon. Byddai'n anodd anghytuno â'r sylwadau amrywiol a wnaed gan Aelodau eraill. Mae gennym stori a delwedd gadarnhaol i'w gwerthu yng Nghymru mewn perthynas â'n cynnyrch, sy'n cael ei dderbyn nid yn unig yn Ewrop ond ledled y byd.

4.45 p.m.

I take the point that the Member for Cardiff South and Penarth made, which is that the market situation today is totally different from that 10 or 15 years ago. We now have farm assurance schemes, the tractor logo, for example, and the Freedom Food scheme, all of which offer the consumer a range of incentives to purchase food ethically and sustainably. However, one of the subjects missing from the Deputy Minister's opening remarks was food security. I take on board the point raised by several Members—and I have seen this first hand—that there are many positive examples of niche production, whether in the dairy, meat, or the fruit and vegetable industry. As the Member for Cardiff Central mentioned, there are many examples of individual success, but if we look at the critical mass of the agricultural industry and the processing industry in Wales, we will see that, regrettably, we have not been so successful.

**Rwy'n derbyn y pwynt a wnaed gan yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, sef bod sefyllfa'r farchnad heddiw yn hollol wahanol i'r sefyllfa 10 neu 15 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn mae gennym gynlluniau sicrwydd fferm, logo'r tractor, er enghraifft, a chynllun Freedom Food, y mae pob un ohonynt yn cynnig amrywiaeth o gymhellion i'r defnyddiwr brynu bwyd yn foesegol ac yn gynaliadwy. Fodd bynnag, un o'r pynciau a oedd ar goll o sylwadau agoriadol y Dirprwy Weinidog oedd diogelwch bwyd. Rwy'n derbyn y pwynt a godwyd gan nifer o Aelodau—ac rwyf wedi gweld hyn â'm llygaid fy hun—sef bod nifer o enghreifftiau cadarnhaol o gynhyrchu arbenigol, boed hynny yn y diwydiant llaeth, cig, neu'r diwydiant ffrwythau a llysiau. Fel y soniodd yr Aelod dros Ganol Caerdydd, mae llawer o enghreifftiau o lwyddiannau unigol, ond wrth edrych ar fàs critigol y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu yng Nghymru, gwelwn, yn anffodus, nad ydym wedi bod mor llwyddiannus.**

For example, in the dairy industry, there is a massive void in processing capacity in Wales. One need only travel up the M4 at any time of day to see that the heaviest use of the M4 is by heavy goods vehicles taking milk from the south and west Wales milk field to England for processing into various value-added products, such as cheese, liquid milk and so on. Wales, and the Welsh Government's development strategy in particular, has lacked the ambition of targeting one of the superdairies built over the last five years, by Arla Foods, Robert Wiseman Dairies and, indeed, Dairy Crest. That is the Achilles' heel of the dairy industry in Wales; while we are producing the primary product in ever-increasing

Er enghraifft, yn y diwydiant llaeth, mae diffyg mawr o ran y gallu i brosesu yng Nghymru. Nid oes ond yn rhaid inni deithio ar hyd yr M4 ar unrhyw adeg o'r dydd i weld mai cerbydau nwyddau trwm sy'n cludo llaeth o'r ffermydd yn ne a gorllewin Cymru i Loegr i'w brosesu ar gyfer gwneud gwahanol gynnyrch sy'n ychwanegu gwerth, fel caws, llaeth hylif, ac yn y blaen, sy'n gwneud y defnydd mwyaf o'r M4. Ni fu gan Gymru, na strategaeth ddatblygu Llywodraeth Cymru yn arbennig, ddigon o uchelgais i dargedu un o'r arch-hufenfeydd a adeiladwyd dros y pum mlynedd diwethaf, gan Arla Foods, Robert Wiseman Dairies ac, yn wir, Dairy Crest. Dyna brif wendid y diwydiant llaeth yng Nghymru; er ein bod yn cynhyrchu mwy o'r

amounts, we lack the real capacity to turn the raw product into a value-added product that would add to our GDP figures.

cynnyrch sylfaenol o hyd, nid oes gennym y gallu gwirioneddol i droi'r cynnyrch amrwd yn gynnyrch gwerth ychwanegol, a fyddai'n ychwanegu at ein ffigurau CMC.

The red meat sector has enjoyed a boom in recent years. I am a farmer who sends cattle to market on a regular basis. We should be realistic and celebrate the success over the last 18 months to two years of increasing market returns. However, with pressure on margins, many processors have shut down their operations in Wales and lack the ability to turn the primary product into the value-added product that we need in order to deliver real returns to the farm gate. I would have liked the Deputy Minister—and he might yet do so in his summing up—to address the haemorrhaging of levy money from cattle that have been processed in other parts of the United Kingdom, because that levy money plays a key role in aiding HCC in its promotional activities. While we have many major abattoirs here, many are specialising in certain species rather than dealing with multiple species—cattle in one abattoir, or sheep and cattle—which is acting as a disincentive to keeping levy income in Wales so that our marketing operation can grow and expand.

Bu'r sector cig coch yn llewyrchus yn y blynyddoedd diwethaf. Rwyf fi'n ffermwr sy'n anfon gwartheg i'r farchnad yn rheolaidd. Dylem fod yn realistig, a dathlu llwyddiant o ran prisiau uwch yn y farchnad dros y 18 mis i'r ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, gan fod pwysau ar faint yr elw, mae llawer o broseswyr wedi cau'u gweithrediadau yng Nghymru ac nid oes ganddynt y gallu i droi'r cynnyrch sylfaenol yn gynnyrch gwerth ychwanegol, sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod enillion gwirioneddol yn dod drwy giât y fferm. Byddwn wedi hoffi pe bai'r Gweinidog—a gallai wneud hynny eto wrth grynhoi—wedi rhoi sylw i'r arian ardoll o wartheg a broseswyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, sy'n llifo o'n gafael, gan fod yr arian ardoll hwnnw'n chwarae rôl allweddol o ran cynorthwyo HCC yn ei weithgareddau hyrwyddo. Er bod gennym lawer o ladd-dai mawr yma, mae llawer ohonynt yn arbenigo mewn rhywogaethau penodol yn hytrach nag ymdrin â rhywogaethau lluosog—gwartheg mewn un lladd-dy, neu ddefaid a gwartheg—sy'n anghymhelliad i gadw incwm ardoll yng Nghymru, fel y gall ein gwaith marchnata dyfu ac ehangu.

If we look at the arable and vegetable sectors, there is a real problem with implementation and over-regulation, particularly in the vegetable sector. Many European directives seem to be implemented in Wales and the rest of the United Kingdom, but in other parts of the European Union, the cost basis is much lower because scant regard is paid to those regulations. We have seen a massive shift away from indigenous vegetable production in Wales, particularly in south Wales. The Member for Cardiff Central touched on the fact that a lot of fresh fruit and vegetables that arrive in Cardiff comes from the market in Birmingham, whereas we used to have a thriving market in Bessemer Road, which fed the wholesale market in Wales. Therefore, there is a positive story to sell about the image that we have in Wales, but there are also some real gaps in processing and, above all, primary producer power. The antics—and

Os edrychwn ar y sectorau âr a llysiau, mae gwir broblem o ran gweithredu a gor-reoleiddio, yn enwedig yn y sector llysiau. Mae'n ymddangos bod nifer o gyfarwyddebau Ewropeaidd ar waith yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ond, mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r sail cost yn llawer is oherwydd na thelir fawr o sylw i'r rheoliadau hynny. Gwelsom dro ar fyd, a ffermwyr yn troi cefn ar gynhyrchu llysiau brodorol yng Nghymru, yn enwedig yn y de. Soniodd yr Aelod dros Ganol Caerdydd fod llawer o ffrwythau a llysiau ffres sy'n cyrraedd Caerdydd yn dod o'r farchnad yn Birmingham, ond roedd gennym farchnad ffyniannus unwaith, yn Ffordd Bessemer, a oedd yn cyflenwi'r farchnad gyfanwerthu yng Nghymru. Felly, mae stori gadarnhaol i'w hadrodd am y ddelwedd sydd gennym yng Nghymru, ond mae rhai bylchau go iawn o ran prosesu, ac,

I think that that is the correct word to use—of the large dairy companies over the last four or five days really show that attitudes have not changed over the last couple of years. To put such a significant price pressure of a cut of 2p a litre over a four-day period on a perishable product shows that we need to look seriously at the recommendations of the EU as laid down in our amendment this afternoon.

yn anad dim, o ran pŵer y cynhyrchwr sylfaenol. Mae campau—a chredaf mai dyna'r gair cywir i'w ddefnyddio—y cwmnïau llaeth mawr dros y pedwar neu bum niwrnod diwethaf, yn wir, wedi dangos nad yw agweddau wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhoi'r fath bwysau sylweddol ar y pris, sef gostyngiad o 2c y litr dros gyfnod o bedwar diwrnod ar gynnyrch sy'n darfod, yn dangos bod angen inni edrych o ddifrif ar argymhellion yr UE, fel y'u nodir yn ein gwelliant y prynhawn yma.

**Kirsty Williams:** Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for your indulgence this afternoon. As the Assembly Member for Brecon and Radnorshire, it would have been remiss of me not to take this opportunity to celebrate the contribution that my constituency makes to food production in Wales. We are, of course, famous for our beef and lamb, and are home to award-winning apple juices and baked goods, but perhaps not so many people would know about our blackcurrant farm in Radnorshire, which is responsible for the production of the vast majority of blackcurrants that end up in Ribena cordial. They start off in the hills of Radnorshire in a farm in Painscastle.

**Kirsty Williams:** Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am eich ffafr y prynhawn yma. Fel yr Aelod Cynulliad dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, byddai wedi bod yn beth ffôl imi beidio â chymryd y cyfle hwn i ddathlu'r cyfraniad a wna fy etholaeth i gynhyrchu bwyd yng Nghymru. Rydym, wrth gwrs, yn enwog am ein cig eidion a'n cig oen, ac mae gennym gynhyrchwyr sudd afal a nwyddau pobi sydd wedi ennill gwobrau, ond efallai fod llai o bobl wedi clywed am ein fferm cyrens duon yn Sir Faesyfed, sy'n gyfrifol am gynhyrchu mwyafrif helaeth y cyrens duon ar gyfer diod Ribena. Mae eu gwreiddiau ym mryniau Sir Faesyfed, mewn fferm yng Nghastell-paen.

However, I cannot help but express my frustration about the lack of progress that we are making in this particular field. The strategy that we are referring to today was initially published in 2010. Those of us that were on the Rural Development Sub-committee during the last Assembly will well remember the meeting where we looked at this strategy. The Deputy Minister does not need to panic because he was not at the meeting, therefore I do not have an incriminating Record of Proceedings to remind him of what he felt at that particular time. However, the committee heard that it would take over a year to come up with an implementation strategy to implement the strategy published in 2010. Less than a year later, we now have a Government Deputy Minister say that it his intention, as set out in the motion, to 'review and refresh the existing food strategy'. So, it took a number of years to publish the strategy, it then took over a year to come up with an implementation plan to say what we will do

Fodd bynnag, ni allaf beidio â mynegi fy rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd a wneir yn y maes arbennig hwn. Cyhoeddwyd y strategaeth rydym yn cyfeirio ati heddiw, i ddechrau, yn 2010. Bydd y rheini ohonom oedd yn aelodau o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn y Cynulliad diwethaf yn cofio'r cyfarfod lle buom yn edrych ar y strategaeth hon. Nid oes angen i'r Dirprwy Weinidog fynd i banig am nad oedd yn y cyfarfod, felly nid oes gennyf Gofnod y Trafodion damniol i'w atgoffa o'r hyn yr oedd yn ei deimlo ar y pryd. Fodd bynnag, clywodd y pwyllgor y byddai'n cymryd dros flwyddyn i feddwl am ddull o weithredu'r strategaeth a gyhoeddwyd yn 2010. Lai na blwyddyn yn ddiweddarach, mae gennym bellach Ddirprwy Weinidog yn y Llywodraeth yn dweud ei fod yn bwriadu, fel y nodir yn y cynnig, 'adolygu ac adnewyddu'r strategaeth fwyd bresennol'. Felly, cymerwyd nifer o flynyddoedd i gyhoeddi'r strategaeth, wedyn cymerwyd dros flwyddyn i lunio cynllun gweithredu i ddweud beth a wneir gyda'r

with the strategy and, less than a year later, we have a Deputy Minister saying that he wants to refresh and review it. However, I was not clear from what the Deputy Minister said about what exactly he finds to be missing in the current strategy and what exactly his review and refresh will entail.

strategaeth, ac, ymhen llai na blwyddyn, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud ei fod am ei hadnewyddu a'i hadolygu. Fodd bynnag, nid oeddwn yn sicr beth yn union a oedd ar goll o'r strategaeth bresennol, yn ôl y Dirprwy Weinidog, a beth yn union fydd ei adolygiad a'i ddull diweddaru yn ei olygu.

In questions to the Leader of the House earlier this afternoon, I raised the issue of food co-ops and marketing arrangements. I believe that the actions by the VION Food Group towards the food co-op based in my constituency pose potential threats to the power distribution within the red meat sector. I would be grateful to hear the Deputy Minister's views on this.

Yn y cwestiynau i Arweinydd y Tŷ yn gynharach y prynhawn yma, codais fater cydweithfeydd bwyd a threfniadau marchnata. Credaf fod camau gweithredu VION Food Group mewn cysylltiad â'r gydweithfa fwyd yn fy etholaeth yn creu bygythiadau posibl i ddosbarthiad y grym yn y sector cig coch. Byddwn yn ddiolchgar o glywed barn y Dirprwy Weinidog ar hyn.

I have also been contacted on numerous occasions about the Wales the True Taste awards. My understanding from my constituent is that the awards were the subject of an internal Welsh Government review recently following complaints that he had made to the Deputy Minister about their running. I would be grateful if the Deputy Minister could confirm whether or not that is the case, and, if so, does he intend to publish the results of the internal review of the True Taste awards? I have been contacted again today by a constituent who expressed concerns about the way in which changes to the True Taste awards will be administered, as he feels that this will be detrimental to businesses based in rural Wales. I will be grateful to hear from the Deputy Minister his views on the future of these important awards.

Mae pobl wedi cysylltu â mi ar sawl achlysur hefyd am wobrau Cymru y Gwir Flas. Caf ar ddeall gan un o'm hetholwyr fod y gwobrau yn destun adolygiad mewnol diweddar gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cwynion a wnaeth ef wrth y Dirprwy Weinidog ynghylch trefniant y gwobrau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog gadarnhau a yw hynny'n wir, ac, os felly, a yw'n bwriadu cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad mewnol o wobrau'r Gwir Flas? Mae etholwr wedi cysylltu â mi eto heddiw yn mynegi pryderon am y ffordd y gweinyddir newidiadau i wobrau'r Gwir Flas, gan ei fod ef yn teimlo y bydd hyn yn niweidiol i fusnesau yng nghefn gwlad Cymru. Byddaf yn ddiolchgar o glywed barn y Dirprwy Weinidog ar ddyfodol y gwobrau pwysig hyn.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I thank everyone for their positive contribution, with the notable exception of Kirsty Williams, of course, who posed a number of questions I will come to in the course of my response to the debate.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Diolch i bawb am eu cyfraniad cadarnhaol, ac eithrio Kirsty Williams yn nodedig, wrth gwrs, a ofynnodd nifer o gwestiynau y byddaf yn rhoi sylw iddynt yn ystod fy ymateb i'r ddadl.

I will start by outlining the Government's view of the amendments. We will ask for support for amendments 3, 4 and 5, and we invite Members to join us in not supporting amendments 1, 2 and 6. We will not support amendment 1 because it is clear from contributions this afternoon that there is a

Dechreuaf drwy amlinellu barn y Llywodraeth am y gwelliannau. Byddwn yn gofyn am gefnogaeth i welliannau 3, 4 a 5, ac rydym yn gwahodd yr Aelodau i ymuno â ni i beidio â chefnogi gwelliannau 1, 2 a 6. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 oherwydd ei bod yn amlwg o'r cyfraniadau y prynhawn

real ambition for food and for a food strategy in Wales.

yma fod yna wir uchelgais ar gyfer bwyd ac ar gyfer strategaeth fwyd yng Nghymru.

I should congratulate Antoinette Sandbach on her recent marriage—I think that everyone would join me in doing so. [ASSEMBLY MEMBERS: Hear, hear.] Antoinette, you started your contribution by saying that you supported and welcomed a strategy that did not have any targets or objectives, and then criticised us for a lack of ambition because we did not have targets or objectives. I have clearly said that that will be the hallmark of the way that I will take these matters forward.

Rwyf am longyfarch Antoinette Sandbach ar ei phriodas yn ddiweddar—ac rwy'n siwr y byddai pawb am ategu'r cyfarchion hynny. [AELODAU'R CYNULLIAD: Clywch, clywch.] Antoinette, fe wnaethoch gychwyn eich cyfraniad drwy ddweud eich bod yn cefnogi ac yn croesawu strategaeth nad oedd ynddi unrhyw dargedau nac amcanion, ac yna roeddech yn ein beirniadu am ddiffyg uchelgais am nad oedd gennym dargedau nac amcanion. Rwyf wedi dweud yn glir mai dyna fydd y thema allweddol wrth imi fwrw ymlaen â'r materion hyn.

We will not support amendment 6. Bill Powell spent a great deal of time talking about the support structures for farming and food, but he made no positive contributions himself to that.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 6. Treuliodd Bill Powell lawer iawn o amser yn siarad am y strwythurau cefnogi ar gyfer ffermio a bwyd, ond ni wnaeth unrhyw gyfraniadau cadarnhaol ei hun yn hynny o beth.

I will spend more time on amendment 2, because a number of Members from all sides of the Chamber have referred to issues in the dairy sector. I spoke to the chief executive of Dairy Crest this morning about the recent decisions that the company has taken, and which I assume will also be taken by other processors in due course. I made the point that I felt that the notice given to producers was too short and that we need to have greater management or regulation of the supply chain in order to ensure fairness to all, from primary producers, the farming community, through to processers, retailers and the consumer. To the Welsh Conservatives, if you wish to help us in this work, perhaps you could speak to your colleagues in Westminster and ask them not to water down the proposals for an adjudicator of these matters and to support the work we are doing by having a strong ombudsman who will be able to regulate the whole supply chain. That is what we need from the Welsh Conservatives.

Byddaf yn treulio mwy o amser ar welliant 2, gan fod nifer o Aelodau o bob ochr i'r Siambr wedi cyfeirio at faterion yn y sector llaeth. Siaradais â phrif weithredwr Dairy Crest y bore yma am benderfyniadau a wnaed yn ddiweddar gan y cwmni, sy'n benderfyniadau a wneir gan broseswyr eraill maes o law, fe dybiaf. Pwysleisiwyd gennyf fod y cyfnod rhybudd i gynhyrchwyr yn rhy fyr, a bod arnom angen mwy o reolaeth neu reoliad o ran y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau tegwch i bawb, o'r cynhyrchwyr sylfaenol, y gymuned ffermio, i'r proseswyr, y manwerthwyr a'r defnyddwyr. I'r Ceidwadwyr Cymreig, os ydych am ein helpu yn y gwaith hwn, efallai y gallech siarad â'ch cydweithwyr yn San Steffan, a gofyn iddynt beidio â gwanhau'r cynigion ynghylch cael dyfarnwr ar y materion hyn a chefnogi'r gwaith yr ydym yn ei wneud drwy benodi ombwdsmon cryf a all reoleiddio'r gadwyn gyflenwi gyfan. Dyna beth y mae arnom ei angen gan y Ceidwadwyr Cymreig.

**Andrew R.T. Davies:** We certainly do welcome the introduction of an adjudicator, but I would direct the Deputy Minister to reflect on his party's time in Government because it sat on the 2001 report by the then Department of Trade and Industry and never once brought forward proposals for an

**Andrew R.T. Davies:** Rydym yn sicr yn croesawu penodi dyfarnwr, ond byddwn yn cynghori'r Dirprwy Weinidog i ystyried amser ei blaid yn y Llywodraeth, gan na wnaeth ddim ynghylch adroddiad yr Adran Masnach a Diwydiant ar y pryd, yn 2001, ac ni chyflwynodd gynigion ynghylch cael

adjudicator.

dyfarnwr o gwbl.

**Alun Davies:** Proposals were brought forward, as you know, and they have been watered down by the present Government. I will be prepared to legislate to implement the EU dairy package in full, but, as your spokesperson pointed out, it is very much a backstop issue. We are not at that point at the moment. We are still conducting negotiations with some of your colleagues in DEFRA, as it happens, and we will be looking to have a voluntary code of practice that goes much further and is far more ambitious than the EU dairy package. I do not wish my hands to be tied at this point. I wish to have the freedom to be able to conduct those negotiations and conversations to achieve a voluntary code, which I believe will be far more powerful than the dairy package. Therefore, we will not support amendment 2 as well.

**Alun Davies**: Cyflwynwyd cynigion, fel y gwyddoch, ac maent wedi eu gwanhau gan y Llywodraeth bresennol. Byddaf i'n barod i ddeddfu i weithredu pecyn llaeth yr UE yn llawn, ond, fel y nododd eich llefarydd, mae'n fater wrth gefn yn anad dim. Nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw ar hyn o bryd. Rydym yn dal i gynnal trafodaethau gyda rhai o'ch cydweithwyr yn DEFRA, fel mae'n digwydd, a byddwn yn gobeithio cael cod ymarfer gwirfoddol sy'n mynd yn llawer pellach ac sy'n fwy uchelgeisiol na phecyn llaeth yr UE. Nid wyf am ymrwymo fy hun ar hyn o bryd. Hoffwn gael y rhyddid i allu cynnal y trafodaethau a'r sgyrsiau hynny i sicrhau y ceir cod gwirfoddol. Credaf y bydd y cod yn llawer mwy pwerus na'r pecyn llaeth. Felly, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 2 ychwaith.

This has been a very positive debate and a number of excellent contributions have been made. In particular, I recognise the points made by the Member for Cardiff South about fruit and vegetables and seasonality, points that were reiterated by Bill Powell. I think that Suzy Davies made similar points. We are taking a sector-led approach. I referred to dairy and red meat in my initial remarks, but horticulture and fisheries are two sectors that we will also be addressing in the coming months. I hope that we will be able to provide you with the certainty you wish to have with regard to developing sector-led and industry-led proposals to support those sectors.

Bu hon yn ddadl gadarnhaol iawn a gwnaed nifer o gyfraniadau rhagorol. Yn benodol, rwy'n cydnabod y pwyntiau a wnaed gan yr Aelod dros Dde Caerdydd am ffrwythau a llysiau a chynnyrch yn eu tymor, sy'n bwyntiau a ategwyd gan Bill Powell. Credaf fod Suzy Davies wedi gwneud pwyntiau tebyg. Rydym yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar y sector. Cyfeiriais at laeth a chig coch yn fy sylwadau cychwynnol, ond mae garddwriaeth a physgodfeydd yn ddau sector y byddwn hefyd yn mynd i'r afael â hwy dros y misoedd nesaf. Rwyf yn gobeithio y gallwn roi'r sicrwydd yr ydych yn dymuno ei gael o ran datblygu cynigion sy'n seiliedig ar y sector a'r diwydiant, er mwyn cefnogi'r sectorau hynny.

Kirsty Williams, I am fascinated by this blackcurrant farm outside Painscastle. I look forward to perhaps visiting the blackcurrant farm and enjoying some Ribena there. Although I missed the meeting of the Rural Development Sub-committee she referred to, she might remember that I was Chair of the committee when we produced a report on food in my first year as a Member in this place. One of the things we did then was identify the need to move with a certain speed and the need for agility in supporting a fast-moving industry. The criticism I made at the time and will make again today is that the

Kirsty Williams, rwyf wedi fy nghyfareddu gan y fferm cyrens duon y tu allan i Gastell-paen. Edrychaf ymlaen at ymweld â'r fferm cyrens duon a mwynhau ychydig o Ribena yno efallai. Collais y cyfarfod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y cyfeiriodd hi ato, ond efallai y bydd hi'n cofio mai fi oedd Cadeirydd y pwyllgor pan wnaethom lunio adroddiad ar fwyd yn fy mlwyddyn gyntaf fel Aelod yn y lle hwn. Un o'r pethau a wnaethom bryd hynny oedd nodi'r angen i symud yn eithaf cyflym a'r angen am hyblygrwydd o ran cefnogi diwydiant sy'n symud yn gyflym. Y feirniadaeth a nodais ar

food strategy published in December 2010 was published without a delivery plan, without a delivery strategy and without objectives. That is the situation I inherited and it is a situation I want to change. I am not satisfied with that. As a Minister, I would not have published a document like that and, as Deputy Minister, I will ensure that, in future, when we publish these documents, we are held to account by having targets, objectives and timetables in place in the strategy. I make that commitment to her and others today. I am aware of the other more local issues she raised in her contribution, and I am sure that these are matters we will discuss more fully in future.

y pryd, ac y byddaf yn ei nodi eto heddiw, yw bod y strategaeth fwyd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 wedi'i chyhoeddi heb gynllun darparu, heb strategaeth ddarparu a heb amcanion. Dyna'r sefyllfa a etifeddais ac mae'n sefyllfa yr wyf am ei newid. Nid wyf yn fodlon â hynny. Fel Gweinidog, ni fyddwn wedi cyhoeddi dogfen fel hyn, ac, fel Dirprwy Weinidog, byddaf yn sicrhau, yn y dyfodol, pan fyddwn yn cyhoeddi'r dogfennau hyn, ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif drwy sicrhau bod targedau, amcanion ac amserlenni ar waith yn y strategaeth. Rwy'n gwneud yr ymrwymiad hwnnw iddi hi ac i eraill heddiw. Rwyf yn ymwybodol o'r materion eraill, mwy lleol, a godwyd yn ei chyfraniad, ac rwy'n siŵr bod y rhain yn faterion y byddwn yn eu trafod yn fwy manwl yn y dyfodol.

To conclude, I would like to thank Members for their contributions. We have opportunities here. Dafydd Elis-Thomas's tour of Porthmadog market emphasised the importance of food and its place in our daily lives. Vaughan Gething also outlined how important the provenance of food is. That is something I concur with and fully support. To all Members who have contributed to this afternoon's debate, we are grateful for your contributions, we will listen to what you have said, and we will be driven by the ambition for a food sector in Wales that people across the whole Chamber have outlined and a vision that I think the whole Chamber supports. We will come back with further proposals and to report on what we have achieved over the coming months.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae cyfleoedd ar gael inni. Dangosodd taith Dafydd Elis-Thomas o amgylch marchnad Porthmadog bwysigrwydd bwyd a'i le yn ein bywydau bob dydd. Amlinellodd Vaughan Gething hefyd mor bwysig yw tarddiad bwyd. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n cytuno â hwy yn ei gylch, ac yn ei gefnogi'n llwyr. Diolchwn i bob Aelod am eu cyfraniadau at y ddadl y prynhawn yma. Byddwn yn gwrando ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, a chawn ein llywio gan yr uchelgais ar gyfer y sector bwyd yng Nghymru a nodwyd gan bobl drwy'r Siambr gyfan, sy'n weledigaeth y mae'r Siambr gyfan yn ei chefnogi rwy'n sicr. Byddwn yn dychwelyd at y pwnc â chynigion eraill ac i gyflwyno adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd gennym dros y misoedd nesaf.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly caiff pob pleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

5.00 p.m.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Ymchwil ac Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
## Research and Innovation in Health and Social Care

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham a gwelliant 4 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham, and amendment 4 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4967 Jane Hutt*

*Motion NDM4967 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn cydnabod bod ymchwil ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru.*

*Recognises that research and innovation in health and social care are fundamental to the health, well-being and wealth of people in Wales.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Here in Wales we appreciate the true value of the NHS and social care. At some time in our lives, we all benefit from health or social care. When we think about the NHS, we think mainly about treatment or care; however, there is something else. Just as the treatment and care that we get today depends on yesterday’s research, future improvements will depend on the research and innovation that we support today. There is huge potential in the NHS and social care to do more research and be more innovative for the benefit of everyone in Wales.

Yma yng Nghymru, rydym yn gwerthfawrogi gwir werth y GIG a gofal cymdeithasol. Ar ryw adeg yn ein bywydau, rydym i gyd yn elwa o iechyd neu ofal cymdeithasol. Pan fyddwn yn meddwl am y GIG, rydym yn meddwl yn bennaf am driniaeth neu ofal, ond mae rhywbeth arall. Yn union fel y mae’r driniaeth a’r gofal a dderbyniwn heddiw yn dibynnu ar ymchwil ddoe, bydd gwelliannau’r dyfodol yn dibynnu ar y gwaith ymchwil ac arloesi a gefnogwn heddiw. Mae potensial enfawr yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol i wneud mwy o ymchwil ac i fod yn fwy arloesol er lles pawb yng Nghymru.

Through the National Institute for Social Care and Health Research, the Welsh Government works to support research for patient and service-user benefit and to grow the research base and encourage collaboration between the NHS, academia and industry. Also, NISCHR funds research and works with partners in order to attract researchers and grant funding to Wales.

Drwy’r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi ymchwil er budd cleifion a defnyddwyr ac i ddatblygu’r sylfaen ymchwil ac annog cydweithredu rhwng y GIG, y byd academaidd a diwydiant. Hefyd, mae’r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ariannu gwaith ymchwil ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddenu ymchwilwyr ac arian grant i Gymru.

The First Minister recently launched the ‘Science for Wales’ strategy. One of the three grand challenge areas that it highlighted was

Yn ddiweddar, lansiodd y Prif Weinidog strategaeth ‘Gwyddoniaeth i Gymru’. Un o’r tri maes sy’n cynnig her fawr a bwysleisiwyd

life sciences and health, one of three areas of research and innovation in which Wales has the potential to excel and build on previous excellent work. Research and innovation in health and social care can make a significant and timely difference to economic renewal and regeneration as well. This was emphasised by my colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, Edwina Hart, in a series of recent announcements about the life sciences sector.

ganddi yw'r gwyddorau bywyd ac iechyd, un o'r tri maes ymchwil ac arloesi y mae gan Gymru y potensial i ragori ynddo ac i adeiladu ar waith blaenorol rhagorol. Gall ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wneud gwahaniaeth sylweddol ac amserol i adnewyddu economaidd ac i adfywio yn ogystal. Pwysleisiwyd hyn gan fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Edwina Hart, mewn cyfres o gyhoeddiadau diweddar am y sector gwyddorau bywyd.

Overall, health and social care make up one the largest areas of expenditure of the Welsh Government. You might consider the NHS in Wales as an anchor company. There are already many areas of excellence in research and innovation in health and social care in Wales, but it is my belief that, with the right support, we can do even better. That is why our National Institute for Social Care and Health Research aims to make research happen faster, on a larger scale and to an even higher quality in Wales than ever before.

At ei gilydd, mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrif am un o'r meysydd mwyaf o ran gwariant Llywodraeth Cymru. Efallai y byddwch yn ystyried y GIG yng Nghymru fel cwmni angor. Mae yma eisoes nifer o feysydd o ragoriaeth mewn ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ond fy nghred i yw y gallwn, gyda'r cymorth iawn, gael hyd yn oed yn fwy o lwyddiant. Dyna pam mae ein Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn anelu at gael ymchwil cyflymach, ar raddfa fwy ac o ansawdd hyd yn oed yn well yng Nghymru nag erioed o'r blaen.

The question may arise of how, at a time when the NHS is having to make efficiencies in a number of areas, we have time and money to invest in research. The answer is that if we do not invest in research now, we will be unable to make efficiencies and improve care in the future. The NHS and the social care sector is full of talent. We need to help staff undertake research for the benefit of patients and service users. Where applicable, we must commercialise the value in the ideas—the intellectual property—of staff in the NHS and social care. We also need to increase the number of clinical trials, both commercial and non-commercial. It is important to recognise that taking part in trials brings benefits to people now, not just in the future. Individuals are able to access new treatments and a higher standard of care. An active research and innovation culture in the NHS and social care will help to attract the doctors, nurses, scientists and other professionals we need in order to make our services run well in Wales. It will not only attract them but help them to stay and flourish here and to be innovative, as the First

Efallai y bydd cwestiwn yn codi ynghylch sut, ar adeg pan mae'r GIG yn gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd mewn nifer o feysydd, mae gennym yr amser a'r arian i fuddsoddi mewn ymchwil. Yr ateb yw, os nad ydym yn buddsoddi mewn ymchwil yn awr, ni fyddwn yn gallu gwneud arbedion effeithlonrwydd a gwella gofal yn y dyfodol. Mae'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol yn llawn talent. Mae angen inni helpu staff i wneud gwaith ymchwil er budd cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Lle bo'n berthnasol, rhaid inni fasnacheiddio gwerth syniadau—sef eiddo deallusol—staff yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol. Mae angen inni hefyd gynyddu nifer y treialon clinigol, boed y rheini'n fasnachol neu'n anfasnachol. Mae'n bwysig cydnabod bod cymryd rhan mewn treialon yn dod â manteision i bobl yn awr, nid yn y dyfodol yn unig. Mae unigolion yn gallu cael mynediad at driniaethau newydd a gwell gofal. Bydd cael diwylliant ymchwil ac arloesi gweithredol yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol yn helpu i ddenu'r meddygon, y nyrsys, y gwyddonwyr a'r gweithwyr

Minister and I spoke about last week when launching the medical recruitment campaign.

proffesiynol eraill y mae eu hangen er mwyn i'n gwasanaethau redeg yn dda yng Nghymru. Nid eu denu'n unig a wna hynny, ond eu helpu i aros a ffynnu yma ac i fod yn arloesol, fel y trafododd y Prif Weinidog a minnau yr wythnos diwethaf wrth lansio'r ymgyrch recriwtio meddygol.

This coming year, we are strengthening the NHS and social care research environment by focusing the allocation of money to support high-quality research. We have streamlined the processes for getting studies started in Wales. It used to take over 70 days, but in the first six months of our new service operating, it is down to 30 days, which is a huge improvement in both speed and volume.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn cryfhau amgylchedd ymchwil y GIG a gofal cymdeithasol drwy ganolbwyntio'r dyraniad o arian i gefnogi ymchwil o ansawdd uchel. Rydym wedi symleiddio'r prosesau ar gyfer dechrau astudiaethau yng Nghymru. Roedd yn cymryd dros 70 diwrnod o'r blaen, ond yn y chwe mis cyntaf o weithredu'n gwasanaeth newydd, mae bellach wedi gostwng i 30 diwrnod, sy'n welliant mawr o ran cyflymder a maint y gwaith.

We need to work with the NHS and social care so that the culture is receptive to the idea that research and innovation are a part of the core business. We want to let people know that the NHS in Wales is open for research and innovation. We need to attract researchers and companies into Wales. We have world-leading research in neuroscience, mental health and cancer, to name but three areas. We have a very strong medical devices sector and we want its companies to remain and flourish here by working with the NHS to develop new technologies that can benefit people not just in Wales, but across the UK and the rest of the world.

Mae angen inni weithio gyda'r GIG a gofal cymdeithasol fel bod y diwylliant yn barod i dderbyn y syniad bod ymchwil ac arloesi yn rhan o'r busnes craidd. Rydym yn awyddus i ddweud wrth bobl bod y GIG yng Nghymru yn agored ar gyfer ymchwil ac arloesi. Mae angen inni ddenu ymchwilwyr a chwmnïau i Gymru. Mae gennym ymchwil o'r radd flaenaf mewn niwrowyddoniaeth, iechyd meddwl a chanser, i enwi ond tri maes. Mae gennym sector dyfeisiau meddygol cryf iawn ac rydym am i'w gwmnïau barhau ac i ffynnu yma drwy weithio gyda'r GIG i ddatblygu technolegau newydd a all fod o fudd i bobl nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws y DU a gweddill y byd.

Equally, we have a vast array of non-commercial clinical trials taking place across all major areas of health in Wales—over 600 to date. NISCHR supports these with an investment of nearly £10 million through its cohesive infrastructure of research groups, networks and centres. Where we need to, NISCHR develops its own schemes to support research.

Yn yr un modd, mae gennym amrywiaeth eang o dreialon clinigol anfasnachol yn digwydd dros holl feysydd pwysig iechyd yng Nghymru—mae dros 600 ohonynt hyd yn hyn. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cefnogi'r rhain gyda buddsoddiad o bron i £10 miliwn drwy ei isadeiledd cydlynol o grwpiau ymchwil, rhwydweithiau a chanolfannau. Lle bo angen, mae'r sefydliad yn datblygu ei gynlluniau ei hun i gefnogi ymchwil.

At other times, we invest in schemes with funding partners to give Welsh researchers the opportunity to draw down investment into Wales. For example, recent NISCHR investment of £5.5 million over three years

Ar adegau eraill, rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau gyda phartneriaid cyllido i roi cyfle i ymchwilwyr Cymru ddenu buddsoddiad i Gymru. Er enghraifft, mae buddsoddiad diweddar y Sefydliad

enabled Welsh researchers to win over £11 million in research grant income. This leads to employment as well as to improvements in care.

Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd o £5.5 miliwn dros dair blynedd wedi galluogi ymchwilwyr Cymru i ennill dros £11 miliwn mewn incwm grant ymchwil. Mae hyn yn arwain at gyflogaeth yn ogystal ag at welliannau mewn gofal.

We also want to work much more closely with the social care sector in order to enhance capacity in social care research and service development. We will continue to scrutinise the relative investment in health and social care research, particularly in light of the major changes in social care in Wales envisaged in our sustainable social services Bill. In order to embed research and innovation further in the NHS and social care, my officials have been working with the NHS to incorporate targets for research in quality delivery plans.

Rydym hefyd eisiau gweithio'n llawer agosach â'r sector gofal cymdeithasol er mwyn gwella capasiti mewn ymchwil gofal cymdeithasol a datblygu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i graffu ar y buddsoddiad cymharol mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau mawr ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru a ragwelir yn ein Bil gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Er mwyn ymgorffori ymchwil ac arloesi ymhellach yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r GIG i gynnwys targedau ar gyfer ymchwil yn y cynlluniau darparu ansawdd.

Our best research addresses common health problems, such as mental illness, dementia, diabetes and cancer. In the future, more of us are going to need care at home. Assisted living will become more important, and there are real opportunities for research and innovation in this area.

Mae ein gwaith ymchwil gorau yn mynd i'r afael â phroblemau iechyd cyffredin, fel salwch meddwl, dementia, diabetes a chanser. Yn y dyfodol, bydd ar fwy ohonom angen gofal yn y cartref. Bydd byw gyda chymorth yn dod yn bwysicach, ac mae cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y maes hwn.

For all these reasons, we need to think of research and innovation as core business for the NHS and social care, if they are to grow, evolve and meet the needs of the people of Wales. That is why Welsh Government investment in this area has been maintained and will remain a priority. Research and innovation in health and social care are fundamental to the health, wellbeing and wealth of the people of Wales.

Am yr holl resymau hyn, mae angen inni feddwl am ymchwil ac arloesi yn fusnes craidd ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol, os ydynt i dyfu, i ddatblygu ac i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Dyna pam mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi'i gynnal ac yn parhau'n flaenoriaeth. Mae ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl Cymru.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn cydnabod yr angen i gyllido a buddsoddi'n ddigonol mewn iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwireddu a gweithredu manteision unrhyw ymchwil*

*Acknowledges the need for sufficient funding and investment in health and social care to realise and implement the benefits from any new research, and regrets that real term cuts*

*newydd, ac yn gresynu y bydd toriadau mewn termau real i gyllidebau'r GIG yng Nghymru yn rhwystro hyn.*

*to NHS budgets in Wales will be a barrier to this.*

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn galw am fuddsoddiad ychwanegol mewn canolfannau ymchwil yng Nghymru er mwyn denu'r deallusion gorau o bedwar ban byd a chynyddu'r potensial am gydweithio gwerth uchel gyda phartneriaid diwydiannol.*

*Calls for additional investment in research centres in Wales to attract the best minds from around the world and increase the potential for high value collaboration with industrial partners.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at end of motion:*

*Yn cydnabod rôl y Sector Addysg Uwch o ran darparu ymchwil o'r radd flaenaf sydd â'r potensial i ddarparu atebion arloesol ar gyfer heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.*

*Recognises the role of the Higher Education Sector in providing world class research which has the potential to provide innovative solutions for health and social care challenges in Wales.*

**Darren Millar:** I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

**Darren Millar:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

I welcome today's very timely debate, because, as we know, this is Universities Week, and universities have a critical role in pushing the research agenda in Wales. I think that it is important that we recognise their role in research and innovation, both in health and in social care.

Croesawaf y ddadl amserol hon heddiw, oherwydd, fel y gwyddom, Wythnos y Prifysgolion ydyw, ac mae gan brifysgolion rôl hanfodol wrth wthio'r agenda ymchwil yng Nghymru. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod eu rôl mewn ymchwil ac arloesi, ym maes iechyd ac ym maes gofal cymdeithasol.

I would agree with you, Minister, that a great deal can be done to support innovation and research in health and social care, and I welcome the investment being made by the Welsh Government in this particular area. The National Institute for Social Care and Health Research is indeed doing some fantastic work, and I certainly want the resource that you as a Government are giving to it to continue.

Cytunaf â chi, Weinidog, y gellid gwneud llawer i gefnogi arloesedd ac ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chroesawaf y buddsoddiad a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y maes penodol hwn. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ddiau yn gwneud gwaith gwych, ac rwy'n sicr yn dymuno i'r adnoddau yr ydych chi fel Llywodraeth yn eu rhoi iddo barhau.

The National Centre for Mental Health's research should enable more people to discuss their mental health problems and help to provide some solutions in future. Indeed, the new NHS Wales Informatics Research Laboratories at Swansea University, which

Dylai ymchwil y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl alluogi mwy o bobl i drafod eu problemau iechyd meddwl a helpu i ddarparu rhywfaint o ddatrysiadau yn y dyfodol. Yn wir, bydd Labordai Ymchwil Gwasanaeth Gwybodeg newydd GIG Cymru

you opened last month, will also no doubt add to the good work being done in the HE sector on this front. We all know that there are huge challenges for us as a country as we deal with an older population—as people live longer, that can often add complications to the type of care, be it social care or healthcare, that they might need. It is, therefore, very important that we innovate, and every pound spent now will make a difference for many years to come. It is important that we continue to invest in this area.

ym Mhrifysgol Abertawe, a agorwyd gennych fis diwethaf, hefyd yn siŵr o ychwanegu at y gwaith da a wneir yn y sector addysg bellach yn hyn o beth. Rydym i gyd yn gwybod bod heriau enfawr inni fel gwlad wrth inni ddelio â phoblogaeth hŷn—wrth i bobl fyw'n hirach, gall hynny'n aml ychwanegu cymhlethdodau i'r math o ofal, boed yn ofal cymdeithasol neu'n ofal iechyd, y bydd ei angen arnynt. Mae'n bwysig iawn, felly, ein bod yn arloesi, a bydd pob punt a chaiff ei gwario yn awr yn gwneud gwahaniaeth am flynyddoedd lawer i ddod. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi yn y maes hwn.

When you look at our record here in Wales, you see that, unfortunately, we are effectively the sick man of Britain. When you look at some of the outcomes in the NHS in this country, whether for stroke, cardiac or cancer care, unfortunately, you will see that we lag behind. So, we need to make big leaps forward if we are ever to compete, not just within the UK, but also internationally.

Pan edrychwch ar ein record yma yng Nghymru, yn anffodus fe welwch mai Cymru yw dyn gwael Prydain. Pan edrychwch ar rai o'r canlyniadau yn y GIG yn y wlad hon, boed ar gyfer gofal strôc, cardiaidd neu ganser, yn anffodus, rydym yn llusgo y tu ôl. Felly, mae angen inni gymryd camau breision ymlaen os ydym fyth i gystadlu, nid yn unig o fewn y DU, ond hefyd yn rhyngwladol.

I wonder, Minister, when you make an investment in research and innovation, whether you think about how you might apply the learning gained from such research and innovation, particularly in an era of declining budgets. Given your record-breaking cuts to the NHS over the next few years, it is going to be really difficult to realise the benefits that can derive from investment in research in health and social care in the future. I wonder whether, in your response to the debate, you might enlighten us as to how you will take advantage of some of this learning and put it into practice; when money is tight, it will be difficult to roll out changes in approach, whether that is to services or treatments. We all know, for example, that if research is being conducted into new drugs or treatments, they can often be expensive, and it can take a long time to get them through the National Institute for Health and Clinical Excellence clearance process. However, in order to receive the benefits, somebody has to fund those treatments and medicines within the NHS. I just do not see how you will be able to deliver that over the next few years given the £0.5 billion that you will be cutting from our NHS. That is why we have moved

Tybed, Weinidog, pan fyddwch yn gwneud buddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi, a ydych yn ystyried sut y gallech ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r math hwnnw o ymchwil ac arloesi, yn enwedig ar adeg o gyllidebau sy'n dirywio? O ystyried y toriadau nas gwelwyd eu bath erioed o'r blaen y byddwch yn eu gwneud i'r GIG dros y blynyddoedd nesaf, fe fydd yn anodd iawn gwireddu'r manteision a all ddeillio o fuddsoddiad mewn ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Yn eich ymateb i'r ddadl, tybed a allech ein goleuo ynghylch sut y byddwch yn manteisio ar beth o'r dysgu hwn a'i roi ar waith? Pan fo arian yn brin, bydd yn anodd cyflwyno'r newidiadau yn y dull o weithredu, boed hynny i wasanaethau neu i driniaethau. Rydym i gyd yn gwybod, er enghraifft, os oes ymchwil i gyffuriau neu driniaethau newydd, y gallant yn aml fod yn ddrud, a gall gymryd amser hir i'w cael drwy broses y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Fodd bynnag, er mwyn derbyn y budd-daliadau, rhaid i rywun dalu am y triniaethau a'r meddyginiaethau hynny o fewn y GIG. Nid wyf yn gweld sut y byddwch yn gallu cyflawni hynny dros y blynyddoedd nesaf o ystyried y byddwch yn torri £0.5 biliwn o'n GIG. Dyna pam yr ydym

amendment 1, acknowledging the need for sufficient funding and investment in health and social care to realise and implement the benefits from any new research, and of course regretting those cuts to the NHS budget.

wedi cynnig gwelliant 1, gan gydnabod yr angen am ddigon o arian a buddsoddiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol i wireddu a gweithredu'r manteision a ddaw o unrhyw ymchwil newydd, ac wrth gwrs, gan resynu'r toriadau yng nghyllideb y GIG.

Our amendment 2 calls on you to allow for some additional investment in research centres in Wales, because I think that we would all agree that we want to attract the very best minds that the world has to offer to come to do their research here in Wales, and allow them to develop their skills. At the end of the day, we want to attract that sort of talent to our shores if we are to see investment in those centres from the private sector and so on, in order to supplement the investment that we have available as a nation from Government coffers. We often see that, when talent is brought to our shores, it can also attract investment from companies that are able to develop treatment, resources and equipment—

Mae ein gwelliant 2 yn galw arnoch i ganiatáu rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn canolfannau ymchwil yng Nghymru, oherwydd credaf ein bod i gyd yn cytuno ein bod am ddenu'r meddyliau gorau sydd gan y byd i'w cynnig i ddod i wneud eu gwaith ymchwil yma yng Nghymru, ac i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau. Yn y pen draw, rydym eisiau denu'r math hwnnw o dalent i'n glannau os ydym am weld buddsoddiad yn y canolfannau hynny o'r sector preifat ac yn y blaen, er mwyn ychwanegu at y buddsoddiad sydd ar gael gennym fel cenedl o goffrau'r Llywodraeth. Pan ddaw talent i'n glannau, gwelwn yn aml y gall hynny hefyd ddenu buddsoddiad gan gwmnïau sy'n gallu datblygu triniaeth, adnoddau a chyfarpar—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffenwch, os gwelwch yn dda.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Please conclude.

**Darren Millar:** That would take us up a gear in terms of the treatment that we would be able to offer the people of Wales. I encourage the Minister to think about those things, and I encourage Members to support our amendments.

**Darren Millar:** Byddai hynny'n ein gwthio ymlaen yn nhermau'r driniaeth y byddem yn gallu ei gynnig i bobl Cymru. Anogaf y Gweinidog i ystyried y pethau hynny, ac anogaf yr Aelodau i gefnogi'n gwelliannau.

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiadau arloesol i ddigwydd yn y gwasanaeth iechyd yn Felindre, fel therapi ymbelydredd a arweinir gan ddelweddau a radiotherapi abladol stereotactig.*

*Believes that the Welsh Government should support innovative developments in the health service, such as image-guided radiation therapy and stereotactic ablative radiotherapy, to take place at Velindre.*

**Kirsty Williams:** I move amendment 4 in the name of Peter Black.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf welliant 4 yn enw Peter Black.

I concur with the Minister, and very much support what she had to say in opening this debate. I share the aspirations that she outlined for Wales's NHS and social care sector to be at the forefront of research and

Cytunaf â'r Gweinidog, ac rwy'n hollol gefnogol i'r hyn yr oedd ganddi i'w ddweud wrth agor y ddadl. Yr wyf yn dal y dyheadau y bu iddi eu hamlinellu i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru fod ar flaen

innovation. We need to be there because of what that can do to improve services and outcomes for Welsh patients and service users. We need to do it because, by investing in research and innovation and changing the way in which we deliver services, we can make them more efficient and sustainable. That is especially important at a time of pressure on public finances. We need to do it because, as the Minister rightly outlined, it can be a huge economic driver, boosting the Welsh economy and making Wales a successful and attractive place for companies to invest. It can help us build the reputations of our institutes of higher education as places where people can study not just at undergraduate level, but can pursue higher qualifications. It can also help us recruit and retain the very best staff. I noted last week that, in the second tranche of the medical recruitment scheme that the Government has embarked upon, research formed a strong part of the offer as an incentive to bring young medics with ideas to Wales to practice medicine here.

y gad o ran ymchwil ac arloesi. Rhaid inni fod yno oherwydd yr hyn y gallwn ei wneud i wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru. Rhaid inni wneud hynny oherwydd, drwy fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi a newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gallwn eu gwneud yn fwy effeithlon a chynaliadwy. Mae hynny'n arbennig o bwysig ar adeg o bwysau ar gyllid cyhoeddus. Rhaid inni wneud hynny oherwydd, fel yr amlinellodd y Gweinidog yn briodol, gall fod yn sbardun economaidd enfawr, gan roi hwb i economi Cymru a'i gwneud yn lle llwyddiannus a deniadol i gwmnïau fuddsoddi. Gall ein helpu i adeiladu enw da ein sefydliadau addysg uwch fel mannau lle y gall pobl nid yn unig astudio ar lefel israddedig, ond fel mannau lle y gallant ennill cymwysterau uwch. Gall hefyd ein helpu i recriwtio a chadw'r staff gorau. Nodais yr wythnos diwethaf, yn ail gyfran y cynllun recriwtio meddygol y mae'r Llywodraeth wedi ei ddechrau, i ymchwil ffurfio rhan gref o'r cynnig fel y gall fod yn gymhelliant i ddod â meddygon ifanc â syniadau i Gymru i arfer meddygaeth yma.

The Minister shared many examples of what is going on in Wales, but I would like to detail one in particular, which is outlined in the Welsh Liberal Democrat amendment. We all know that Velindre Cancer Centre is a leader in cancer research and development across the UK, and I am sure that we are all very glad that it is here. Wales has the highest proportion of over-65s in the UK, and a very high incidence of cancer, and 40% of patients who develop cancer will require radiotherapy treatment.

Rhannodd y Gweinidog nifer o enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond hoffwn fanylu ar un yn arbennig, a amlinellwyd yng ngwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rydym i gyd yn gwybod bod Canolfan Ganser Felindre yn arwain o ran ymchwil a datblygu ynghylch canser ar draws y DU, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch iawn ei bod yma. Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl dros 65 oed yn y DU, a chyfradd uchel iawn o ganser, a bydd ar 40% o gleifion sy'n datblygu canser angen triniaeth radiotherapi.

5.15 p.m.

Modern radiotherapy techniques can make an enormous difference to the experience of a patient. Intensity-modulated radiation therapy, IMRT, uses complex physics to sculpt radiation to give a high dose to the tumour while avoiding the normal tissue that surrounds it. Image-guided radiation therapy, IGRT, uses images during treatment to adjust to tumour movement or to change that occurs to a tumour during periods of therapy. It improves the precision and safety of

Gall technegau radiotherapi modern wneud gwahaniaeth enfawr i brofiad y claf. Mae therapi ymbelydredd a gyweirir yn ôl dwysedd, IMRT, yn defnyddio ffiseg gymhleth i addasu ymbelydredd i roi dos uchel i'r tiwmor wrth osgoi'r meinwe normal sydd o'i amgylch. Mae therapi ymbelydredd a arweinir gan ddelweddau, IGRT, yn defnyddio delweddau yn ystod y driniaeth i addasu i'r ffordd y mae'r tiwmor yn symud neu'n newid yn ystod cyfnodau o therapi.

treatment. Stereotactic body radiation therapy, SBRT, is a combination of the IMRT and IGRT that I have described. It can deliver a small number of very high-dose treatments with a curative intent. Palliative radiation therapy processes, PRTP, use functional as well as anatomical information to plan where to deliver radiotherapy doses. Image-guided brachytherapy, IGBT, uses modern imaging techniques to guide the placement of sources in gynaecological brachytherapy treatments. Medics based at Velindre hospital are at the forefront of some of this work, but they desperately need additional support from the Welsh Government to drive their work forward. All of these techniques can improve the likelihood of a cure for an individual. They reduce the risk of toxicity to the patient and other side-effects that can be associated with patients undergoing radiotherapy. They can also result in fewer episodes of treatment being needed, so efficiency and productivity levels are increased.

Mae'n gwella cywirdeb a diogelwch y driniaeth. Mae therapi ymbelydredd stereotactig y corff, SBRT, yn gyfuniad o IMRT a IGRT, y therapiau a ddisgrifiwyd gennyf. Mae'n gallu darparu nifer fach o driniaethau dos uchel iawn sydd â bwriad iachaol. Mae prosesau therapi ymbelydredd lliniarol, PRTP, yn defnyddio gwybodaeth swyddogaethol yn ogystal ag anatomegol i gynllunio lle i ddarparu dosiau radiotherapi. Mae brachytherapi a arweinir gan ddelweddau yn defnyddio technegau delweddu modern i gyfeirio lle y lleolir ffynonellau mewn triniaethau brachytherapi gynaecolegol. Mae meddygon a leolir yn ysbyty Felindre ar flaen y gad mewn perthynas â rhywfaint o'r gwaith hwn, ond mae angen enbyd arnynt am gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i yrru eu gwaith yn ei flaen. Gall pob un o'r technegau hyn wella'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn gwella. Maent yn lleihau'r risg o wenwyndra i'r claf a sgîl-effeithiau eraill a all fod yn gysylltiedig â thriniaeth radiotherapi. Gallant hefyd arwain at lai o achosion lle bydd angen triniaeth, gan gynyddu effeithlonrwydd a lefelau cynhyrchiant.

As I said at the beginning, I am sure that there is much consensus across the Chamber on the need to focus on research and innovation. I believe that the modern radiotherapy techniques at Velindre hospital are part of a project based on innovation and research, a project that deserves the support of the Welsh Government. I look forward to the Minister's response to those particular propositions.

Fel y dywedais ar y dechrau, rwy'n siŵr fod llawer o gonsensws ar draws y Siambr ynghylch yr angen i ganolbwyntio ar waith ymchwil ac arloesi. Credaf fod y technegau radiotherapi modern yn ysbyty Felindre yn rhan o brosiect sy'n seiliedig ar arloesedd ac ymchwil—prosiect sy'n haeddu cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog i'r cynigion penodol hynny.

**Julie Morgan:** Thank you for calling me to speak in this important debate. As the Minister said in her introduction, research and innovation in healthcare are key for the development of the health and wellbeing of people in Wales. Huge strides have been made, particularly in health research, in my constituency of Cardiff North. Darren Millar said that we have to attract the best minds. Some of the very best are already in Cardiff North, working in Velindre, at the University Hospital of Wales and in the medical school at Cardiff University. I am sure that we have all heard about the groundbreaking work on Alzheimer's disease that is being done in

**Julie Morgan:** Diolch am fy ngalw i siarad yn y ddadl bwysig hon. Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei chyflwyniad, mae ymchwil ac arloesi mewn gofal iechyd yn allweddol os ydym am ddatblygu iechyd a lles pobl yng Nghymru. Cymerwyd camau breision ymlaen, yn enwedig mewn ymchwil iechyd, yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd. Dywedodd Darren Millar bod yn rhaid inni ddenu'r meddyliau gorau. Mae rhai o'r goreuon eisoes yng Ngogledd Caerdydd, yn gweithio yn Felindre, yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac yn yr ysgol feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwy'n siŵr ein bod oll wedi clywed am y gwaith arloesol sy'n cael

Cardiff, where we are leading the world. It is important that we acknowledge that we have those first-class brains in Wales that are leading the world, and I am proud that many of them work in Cardiff North.

ei wneud ar glefyd Alzheimer yng Nghaerdydd, lle rydym yn arwain y byd. Mae’n bwysig ein bod yn cydnabod bod gennym feddyliau o’r radd flaenaf yng Nghymru sy’n arwain y byd, ac rwy’n falch bod llawer ohonynt yn gweithio yng Ngogledd Caerdydd.

Kirsty Williams mentioned Velindre hospital, and the need for a stereotactic radiotherapy service for Wales, which is being developed at the moment by consultants at the hospital. At this stage, a business plan has not yet been submitted to the Welsh Government, so I do not think that the Minister will be able to respond on that particular issue at present. However, preliminary discussions have been held with the Welsh Health Specialised Services Committee on various radiotherapy developments, including this one. I am sure that this is something that the Minister will want to support in due course, because of the vital importance of radiotherapy in treating people with cancer and the relatively low cost for a big result. I am sure that she will look at this favourably in future. It is vital, because the number of people in Wales who suffer from cancer is high. We have a high proportion of over-65s, and cancer is on the whole a disease of old age. This means that using radiotherapy is very important.

Siaradodd Kirsty Williams am ysbyty Felindre, a’r angen am wasanaeth radiotherapi stereotactig i Gymru, sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr yn yr ysbyty. Nid oes cynllun busnes wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru eto, felly nid wyf yn meddwl y bydd y Gweinidog yn gallu ymateb i’r mater penodol hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae trafodaethau cychwynnol wedi’u cynnal gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddatblygiadau radiotherapi amrywiol, gan gynnwys hwn. Rwy’n siŵr bod hwn yn rhywbeth y bydd y Gweinidog am gefnogi maes o law, oherwydd pwysigrwydd hanfodol radiotherapi wrth drin pobl â chanser a’r gost gymharol isel sy’n arwain at ganlyniadau mawr. Rwy’n siŵr y bydd yn edrych ar hyn yn ffafriol yn y dyfodol. Mae’n hanfodol, gan fod nifer y bobl yng Nghymru sy’n dioddef o ganser yn uchel. Mae gennym gyfran uchel o bobl dros 65 oed, ac mae canser ar y cyfan yn glefyd sy’n effeithio ar bobl hŷn. Mae hyn yn golygu bod defnyddio radiotherapi yn bwysig iawn.

There are other ways that we can ensure that people’s quality of life is improved by the research that is being done. We also have the Wales cancer bank in Velindre, which was established in 2003 and is already supported by the Welsh Government. It is important that we continue to support this cancer bank, so that the work that it can do in revolutionising cancer research in Wales can continue. This gives us a unique opportunity to pioneer personalised cancer care for patients in Wales. The research on cancer tissues, obtained with the consent of the patient, is used in the bank to establish the causes of cancer and help identify new areas of treatment. As the Minister has said, investment in this is investment for future generations. I wonder whether the Minister could consider whether it would be possible to recognise financially the work commitment in obtaining consent for the

Mae ffyrdd eraill y gallwn sicrhau bod ansawdd bywyd pobl yn cael ei wella gan yr ymchwil sy’n cael ei wneud. Mae gennym hefyd fanc canser Cymru yn Felindre, a sefydlwyd yn 2003 ac a gefnogir eisoes gan Lywodraeth Cymru. Mae’n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi’r banc canser, er mwyn iddo barhau â’r gwaith o chwyldroi ymchwil canser yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i arloesi gofal canser personol i gleifion yng Nghymru. Mae’r ymchwil ar feinweoedd canser, a gymerwyd gyda chaniatâd y claf, yn cael ei ddefnyddio yn y banc er mwyn canfod yr hyn sy’n achosi canser a helpu i nodi meysydd newydd o driniaeth. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae buddsoddi yn y maes hwn yn fuddsoddiad ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Tybed a allai’r Gweinidog ystyried a fyddai modd cynnig cydnabyddiaeth ariannol i’r ymrwymiad gwaith sy’n gysylltiedig â chael caniatâd i

retrieval of cancer tissues. This is an important issue to address. It is important to have this tissue in order to develop the research, but it means that you have to get the personal consent of the patients. Is there any way that we could recognise that?

adfer meinweoedd canser. Mae hwn yn fater pwysig i fynd i'r afael ag ef. Mae'n bwysig i gael y meinweoedd hyn er mwyn datblygu'r gwaith ymchwil, ond mae'n golygu bod yn rhaid ichi gael caniatâd personol y cleifion. A oes unrhyw ffordd y gallem gydnabod hynny?

There are other important developments at Velindre that also need our support, such as the development of the phase 1 clinical trial unit. The Minister has already mentioned the importance of clinical trials. This is opening in the autumn and will give patients access for the first time to phase 1 oncology trials in Wales.

Mae datblygiadau pwysig eraill yn Felindre sydd angen ein cymorth hefyd, megis datblygu'r uned treialon clinigol cyfnod 1. Mae'r Gweinidog wedi sôn eisoes am bwysigrwydd treialon clinigol. Mae'r uned hwn hyn yn agor yn yr hydref a bydd yn rhoi mynediad i gleifion i dreialon oncoleg cyfnod un am y tro cyntaf yng Nghymru.

Finally, does the Minister think that there is a case for cancer research organisations, particularly in Cardiff, to be brought together on a single site, where the infrastructure could be shared, and where collaborations between researchers could grow together for the benefit of all patients in Wales? There is a large number of small cancer research units in Cardiff—I believe that there are about 12—and the pooling of resources and expertise would be a significant step forward. In conclusion, it is vital that we have research built into the health service and into the cancer plan, because this is our hope for the future, and I know that the Minister is committed to seeing this happen.

Yn olaf, a yw'r Gweinidog yn credu bod achos i ddadlau y dylai sefydliadau ymchwil canser, yn enwedig yng Nghaerdydd, gael eu dwyn at ei gilydd ar un safle, lle y gallai'r seilwaith gael ei rhannu, a lle y gallai cydweithio rhwng ymchwilwyr dyfu er lles yr holl gleifion yng Nghymru? Mae yna nifer fawr o unedau ymchwil canser bach yng Nghaerdydd—rwy'n credu bod tua 12—a byddai cyfuno adnoddau ac arbenigedd yn gam sylweddol ymlaen. I gloi, mae'n hanfodol bod ymchwil yn cael ei adeiladu i mewn i'r gwasanaeth iechyd, ac i'r cynllun canser, gan mai dyma yw ein gobaith ar gyfer y dyfodol, a gwn fod y Gweinidog yn ymroddedig i weld hyn yn digwydd.

**Elin Jones:** Diolch i'r Llywodraeth am osod y cynnig hwn ar bwysigrwydd ymchwil ac arloesi yn y gwasanaeth iechyd ac mewn gofal cymdeithasol. Byddwn ni ym Mhlaid Cymru yn cefnogi cynnig y Llywodraeth ac yn cefnogi tri o'r pedwar gwelliant sydd wedi'u gosod. Rwyf am ddweud, ar gychwyn fy nghyfraniad, mae'n rhaid bod pendraw ar ryw bwynt i faint o arian ychwanegol mae'r Torïaid yn gofyn amdano yn eu gwelliannau—mae dau o'u gwelliannau heddiw yn gofyn am arian ychwanegol—o ystyried mai nhw fel plaid sy'n gyfrifol am y toriadau sy'n wynebu arian cyhoeddus, sy'n deillio o San Steffan yn y lle cyntaf.

**Elin Jones:** I thank the Government for tabling this motion on the importance of innovation and research in the health service and social care. We in Plaid Cymru will be supporting the Government's motion this afternoon and supporting three of the four amendments that have been tabled. I wish to say at the outset that there must be a limit at some point to how much additional money the Tories will ask for in their amendments—two of today's amendments are asking for additional funds—bearing in mind that they as a party are responsible for the cuts in the public expenditure that derives from Westminster in the first place.

Mae'r defnydd o dechnoleg, offer, triniaethau a meddyginiaethau newydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth iechyd yn perthyn i'r unfed ganrif ar hugain. Yn gyntaf, cyfeiriaf at y defnydd o dechnoleg

The use of new technology, equipment, treatments and medicines is essential to ensure that our health service is relevant to the twenty-first century. First, I will look at the use of information technology. The use of

gwybodaeth. Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth yn chwyldroi bywydau pob un ohonom, ond eto cymharol araf o hyd yw cyflwyno technoleg gwybodaeth yn yr NHS, yn enwedig yn y ffordd y mae'r NHS yn ymwneud â chleifion a'r cyhoedd. Yr unig ddefnydd, er enghraifft, rydw i'n ei wneud y dyddiau hyn o beiriant ffacs yw pan rwy'n gorfod anfon fy nghais am *repeat prescription* oherwydd nad yw'n bosibl anfon hynny ar e-bost i fy meddygfa i. Rwy'n derbyn bod cynnydd mawr wedi'i wneud yn y maes hwn, ond mae mwy eto sydd angen ei wneud i sicrhau y gellir rhannu mwy o wybodaeth yn electronig, er enghraifft, rhwng y feddygfa a'r fferyllfa. Clywsom dipyn am rai o'r problemau yn y maes hwn yn yr ymchwiliad a gynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar fferyllfeydd cymunedol. Mae mwy i'w wneud hefyd o ran rhannu gwybodaeth yn electronig rhwng yr NHS a gwasanaethau cymdeithasol.

information technology is transforming the lives of each and every one of us, but its introduction to the NHS continues to be a relatively slow process, particularly in terms of the interaction of the NHS with patients and the public. The only use I make of a fax machine these days, for example, is when I have to send in my request for a repeat prescription because it is not possible to send it via e-mail to my surgery. I accept that great progress has been made in this area, but there is more that needs to be done to ensure that more information can be shared electronically between surgeries and pharmacies, for example. We heard quite a bit about the problems in this area during the inquiry that the Health and Social Care Committee undertook into community pharmacies. There is also more to be done in terms of sharing information electronically between the NHS and social services.

Efallai mai'r cam mawr i'w gymryd yw sicrhau bod mwy o waith diagnostig a monitro yn cael ei wneud o bell drwy gyfathrebu electronig rhwng canolfannau arbenigol rhanbarthol ac ysbytai cyffredinol neu feddygfeydd. Mae pobl yn derbyn bod angen llawdriniaethau cymhleth mewn canolfannau arbenigol rhanbarthol, ond yr hyn sy'n llabyddio'r claf yn aml yw'r siwrnai o ryw bum awr yn ôl ac ymlaen yn fisol neu bob chwe mis am gyfarfod monitro, sydd ambell waith ond yn cymryd rhyw bum munud. Mae'r dechnoleg yn bodoli i wneud gwaith diagnostig a monitro o bell. Mae'n digwydd eisoes, lle mae ymgynghorwyr a staff sydd yn frwdfrydig i ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn digwydd ym mhob arbenigedd yn yr NHS, ac ein bod yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy arloesol er lles iechyd a hwylustod y cleifion.

Perhaps the major step that should be taken would be to ensure that more diagnostic and monitoring work could be done remotely using electronic communication between specialist regional centres and general hospitals or surgeries. People accept that complicated surgery needs to take place in specialist regional centres, but what very often floors the patient is the journey of some five hours back and forth every month or every six months for a monitoring meeting that may take only five minutes. The technology exists to undertake diagnostic and monitoring work remotely. It already happens when consultants and staff are keen to use information technology. However, we need to ensure that this happens across all specialities in the NHS, and that we use information technology in a more innovative way for the benefit of patient health and the convenience of patients.

Yn ogystal, mae angen i'r NHS fod yn barod i gymryd rhan mewn mwy o ymchwil ym maes iechyd ac i fod yn arloesol yn y defnydd o ymchwil newydd a thechnolegau newydd. Dyna pam byddwn yn cefnogi gwelliant 4 yn enw Peter Black heddiw. Gwrandawais ar yr hyn a gyflwynodd Kirsty Williams, ac roeddwn i yn y digwyddiad gan glinigwyr Felindre y bu i Julie Morgan hyrwyddo yn y Cynulliad hwn ychydig

Also, the NHS needs to be willing to participate in more health research and to be innovative in the use of new research and technologies. That is why we will be supporting amendment 4 in the name of Peter Black today. I listened to Kirsty Williams's comments and I was also at the event with the clinicians from Velindre that Julie Morgan promoted in the Assembly a few weeks ago. That work is innovative and it is

wythnosau yn ôl. Mae'r gwaith hwnnw yn arloesol ac mae'n bwysig iawn i ni fel cenedl ei fod yn datblygu ymhellach. Rwy'n hyderu'n fawr y bydd y Gweinidog yn gweld cryfder y ddadl honno pan fydd yr achos busnes o'i blaen hi.

very important to us as a nation that it is developed further. I am confident that the Minister will see the voracity of that argument when the business case is put before her.

Yr hyn sydd o ddiddordeb i mi yng nghyd-destun sefydlu'r ganolfan yn Felindre'n un o arbenigedd cenedlaethol yw sut byddwn ni'n sicrhau bod yr adnoddau a'r arbenigedd sydd yno'n cael eu defnyddio er lles cleifion canser ar hyd a lled Cymru. Mae gan brifysgolion Cymru hanes anrhydeddus ym maes ymchwil iechyd ac rydym ni, fel plaid, yn awyddus iawn i weld cynnydd yn y ganran o'r gyllideb ymchwil sy'n mynd i'n prifysgolion o'r cynghorau ymchwil yn enwedig, ac o'r sector preifat. Roeddwn yn falch iawn o glywed ymrwymiad y Gweinidog y prynhawn yma i sicrhau bod mwy o dreialon ymchwil a chlinigol yn digwydd gan ddefnyddio'r NHS a chwmnïau bach yng Nghymru, yn ogystal â chwmnïau rhyngwladol. Felly, y prynhawn yma, rwy'n falch o ddweud y byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd o'n blaenau.

What is interesting to me in terms of the establishment of the Velindre centre as one of national expertise is how we can ensure that the resources and expertise in Velindre are used for the benefit of cancer patients across Wales. Welsh universities have an honourable tradition of health research and we, as a party, are very eager to see an increase in the percentage of the research budget that our universities receive from the research councils in particular, but also the private sector. I was very pleased to hear the Minister's commitment this afternoon to ensure that more research and clinical trials will take place using the NHS and small companies in Wales, as well as international companies. Therefore, this afternoon, I am pleased to say that we will be supporting the motion before us.

**Jenny Rathbone:** Many interesting points have been made about how we can improve the way we deliver healthcare. I was particularly interested to hear the Minister for health's point about how to improve innovation in care for the elderly, which is a huge budget area.

**Jenny Rathbone:** Mae llawer o bwyntiau diddorol wedi cael eu gwneud am sut y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd. Roedd o ddiddordeb arbennig i glywed pwynt y Gweinidog dros iechyd ynghylch sut i wella arloesi mewn gofal ar gyfer pobl hŷn, sy'n rhan enfawr o'r gyllideb.

I will briefly talk about the challenge of diabetes. As you probably read in the press, the report last week, called 'Impact Diabetes', from the York Health Economics Consortium, flags up that over the next 25 years there will be a 70% increase in the amount of money that we will have to spend on caring for people with diabetes. It will add up to 17% of the total NHS budget. Therefore, unless we do something pretty radical, all of the budget will be spent on drugs to try to manage diabetes.

Byddaf yn siarad yn fyr am her diabetes. Rwy'n siŵr y gwnaethoch ddarllen am yr adroddiad 'Impact Diabetes' yn y wasg yr wythnos diwethaf. Fe'i cyhoeddwyd gan York Health Economics Consortium, ac roedd yn nodi y bydd cynnydd o 70% yn y swm o arian y bydd yn rhaid ei wario ar ofalu am bobl sydd â diabetes dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd yn ychwanegu hyd at 17% at gyfanswm cyllideb y GIG. Felly, oni bai ein bod yn gwneud rhywbeth eithaf radicalaidd, bydd yr holl gyllideb yn cael ei wario ar gyffuriau i geisio rheoli diabetes.

It is also of concern that even for those who currently have diabetes, very little is spent on patient education and, as a result, 80% of the NHS budget is being spent on dealing with the complications that arise from diabetes,

Mae hefyd yn destun pryder mai ychydig iawn sy'n cael ei wario ar addysg i gleifion—hyd yn oed i'r rhai sydd â diabetes ar hyn y bryd—ac, o ganlyniad, mae 80% o gyllideb y GIG yn cael ei wario ar fynd i'r afael â'r

such as amputations, eye disease and renal failure. There is a real challenge for us to introduce more innovation in primary care so that less people have these disabling disabilities. We need to deal with the causes of type 2 diabetes, which originates in a poor diet and a lack of exercise, which is a serious contributory factor. This would also help us to tackle heart disease.

cymhlethdodau sy'n deillio o ddiabetes, megis trychiadau, clefyd y llygad a methiant yr arennau. Rydym yn wynebu her wirioneddol o ran cyflwyno mwy o arloesi mewn gofal sylfaenol fel bod llai o bobl yn cael yr anableddau difrifol hyn. Mae angen inni fynd i'r afael ag achosion o ddiabetes math 2, sy'n deillio o ddeiet gwael a diffyg ymarfer corff, sy'n ffactor cyfrannol difrifol. Byddai hyn hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â chlefyd y galon.

On another front, I would like to see health workers using something as simple as a BlackBerry to enable them to enter their casework and to update their records after they have seen patients, so that they do not always have to dash back to the office.

Mewn maes arall, hoffwn weld gweithwyr iechyd yn defnyddio rhywbeth mor syml â BlackBerry i'w galluogi i nodi eu gwaith achos a diweddaru eu cofnodion ar ôl iddynt weld cleifion, fel nad oes yn rhaid iddynt ruthro yn ôl i'r swyddfa drwy'r amser.

**Mark Isherwood:** Research and innovation in health and social care are fundamental to the health, wellbeing and wealth of people in Wales. Research and innovation has shown that taking power out of the hands of Government and giving it to the people working in our communities can help us to provide better services more efficiently. Research and innovation has found that community-led planning can deliver innovative action to improve people's lives.

**Mark Isherwood:** Mae ymchwil ac arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru. Mae ymchwil ac arloesedd wedi dangos y gall cymryd pŵer i ffwrdd o'r Llywodraeth a'i roi i'r bobl sy'n gweithio yn ein cymunedau ein helpu i ddarparu gwasanaethau gwell mewn ffordd fwy effeithlon. Mae gwaith ymchwil ac arloesedd wedi canfod y gall cynllunio yn y gymuned arwain at weithredu arloesol i wella bywydau pobl.

5.30 p.m.

The Government remains obsessed with economies of scale, but public and independent service providers do not deal with commodities, they deal with relationships. The public sector has been transactionalised, when it is cheaper and more efficient to know the people in our communities and deliver for them. As has been highlighted with diabetes, for example, some 80% of NHS money is spent on fixing things that go wrong because little or nothing is known about the people who they are treating.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod ag obsesiwn am arbedion maint, ond nid yw darparwyr gwasanaeth cyhoeddus ac annibynnol yn trafod nwyddau; maent yn ymdrin â pherthynas. Mae'r sector cyhoeddus yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn erbyn hyn, pan fydd yn rhatach ac yn fwy effeithlon adnabod y bobl yn ein cymunedau a darparu ar eu cyfer. Fel yr amlygwyd ynghylch diabetes, er enghraifft, mae tua 80% o arian y GIG yn cael ei wario ar wirio camgymeriadau oherwydd nad yw'r gwasanaeth yn gwybod dim neu ond ychydig iawn am y bobl sy'n cael eu trin.

The Government specifies the 'what and how' of public service and then sends its inspectors out to assess compliance with what has been specified. The Government must learn a better method—evidence of outcomes, better process measures and,

Mae'r Llywodraeth yn nodi beth yw gwasanaeth cyhoeddus a sut y mae'n cael ei ddarparu ac wedyn yn anfon ei harolygwyr i asesu cydymffurfiaeth â'r hyn a bennwyd. Rhaid i'r Llywodraeth ddysgu dull gwell—tystiolaeth o ganlyniadau, gwell mesurau

therefore, better value services delivering more. In other words, understanding what matters and designing backwards, using the front end as the process design system.

proses ac, felly, wasanaethau yn rhoi gwell gwerth am arian ac yn cyflawni mwy. Mewn geiriau eraill, mae hyn yn ymwneud â deall beth sy'n bwysig a dylunio am yn ôl, gan ddefnyddio'r pen blaen fel y system o ddylunio proses.

I referred last week to the recent seminar on local area co-ordination that was hosted by Welsh Conservative-led Monmouthshire County Council but also attended by Labour-led councils, looking at ways to invest in the prevention of problems rather than crisis support. After all, people have inherent strength, ability and the capacity to contribute.

Cyfeiriais yr wythnos diwethaf at y seminar diweddar ar gydlynu mewn ardaloedd lleol a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy sydd o dan arweiniad y Ceidwadwyr Cymreig. Roedd cynghorau Llafur yno hefyd yn edrych ar ffyrdd o fuddsoddi mewn atal problemau yn hytrach na chymorth mewn argyfwng. Wedi'r cyfan, mae gan bobl gryfder a gallu cynhenid, a'r gallu i gyfrannu.

Asset-based community development recognises that we cannot know what a community needs before we first know what it has, identifying and bringing together a community's gifts, skills, talents and resources. Last year, in Croydon, the NHS, local council and Croydon Voluntary Action developed an asset-based approach to ageing well, with people coming together using their own strengths to deliver impressive results.

Mae datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau yn cydnabod na allwn wybod beth yw anghenion cymuned cyn i ni wybod yn gyntaf beth sydd ganddi, gan nodi a dwyn ynghyd rhoddion, sgiliau, doniau ac adnoddau'r gymuned. Yn Croydon, y llynedd, datblygodd y GIG, y cyngor lleol a Gweithredu Gwirfoddol Croydon ddull yn seiliedig ar asedau i ymdrin â heneiddio'n dda, gyda phobl yn dod at ei gilydd gan ddefnyddio eu cryfderau eu hunain i sicrhau canlyniadau trawiadol.

With Welsh local authorities cutting respite care, the Wales participatory budgeting unit ran workshops for the Social Services Improvement Agency in Wales on the potential for participatory budgeting to devolve portions of respite care budgets in Wales. Staff from 14 local authorities and Disability Wales attended and I understand that all were impressed at the way in which solutions identified by carers themselves could really work and were relatively inexpensive in comparison with larger council-introduced services, in other words, making existing funds go further.

Wrth i awdurdodau lleol Cymru gwtogi ar ofal seibiant, cynhaliodd uned cyllidebu cyfranogol Cymru weithdai ar gyfer Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar y potensial i gyllidebu cyfranogol ddatganoli rhannau o gyllidebau gofal seibiant yng Nghymru. Roedd staff o 14 awdurdod lleol ac Anabledd Cymru yn bresennol a deallaf eu bod i gyd wedi'u plesio â'r modd y gallai atebion a gynigiwyd gan ofalwyr weithio a'u bod yn gymharol rad o'u cymharu â gwasanaethau mwy a gyflwynwyd gan gynghorau. Hynny yw, roedd yr arian a oedd ar gael yn gallu mynd ymhellach.

Housing is key to health, wellbeing and regeneration. A decade of housing cuts in the boom years was unforgivable. The UK Localism Act 2011 seeks to build safer and stronger communities by decentralising power from Government, engaging residents and creating a resident-led, grass-roots approach to social homes management and

Mae tai yn allweddol i iechyd, lles ac adfywio. Mae degawd o doriadau ym maes tai yn ystod y blynyddoedd ffyniannus yn anfaddeuol. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 y DU yn ceisio sicrhau bod cymunedau diogelach a chryfach yn cael eu creu drwy ddatganoli pŵer o'r Llywodraeth, ymgysylltu â phreswylwyr a chreu dull ar lawr gwlad ac

reducing social problems. Social housing and care provision meet in such areas as extra care for older people. The UK Government is actively looking at how this can be stimulated through the injection of independent sector funding, putting the service user first. Lessons about the integration of services can also be learned from our independent charitable hospices.

o dan arweinyddiaeth y preswylwyr i reoli cartrefi cymdeithasol a lleihau problemau cymdeithasol. Mae tai cymdeithasol a darparu gofal yn dod ynghyd mewn meysydd fel gofal ychwanegol i bobl hŷn. Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar sut y gellir ysgogi hyn drwy chwistrelliad o arian o’r sector annibynnol, gan roi defnyddiwr y gwasanaeth yn gyntaf. Gellir dysgu gwersi sy’n ymwneud ag integreiddio gwasanaethau gan ein hosbisau elusennol annibynnol.

Disabled people tell us that they want to be in control. They do not want a compulsory scheme. They want the freedom to choose and direct payments that allow them to control their own budgets. We therefore welcomed the Welsh Government’s commitment to work with service users to develop a model of self-directed support, but we are concerned that the Welsh Government’s consultation on its social services Bill states that Ministers want powers to prescribe the clients and circumstances under which direct payments can be made. This fails to understand that it is disabled people, not Ministers, who should be making this decision.

Dywed pobl anabl wrthym eu bod eisiau bod â rheolaeth. Nid ydynt eisiau cynllun gorfodol. Maent eisiau’r rhyddid i ddewis a chyfarwyddo taliadau sy’n eu galluogi i reoli eu cyllidebau eu hunain. Rydym felly’n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu model o gefnogaeth hunan-gyfeiriedig, ond rydym yn pryderu bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn datgan bod Gweinidogion eisiau pwerau i benderfynu pa gleientiaid sy’n cael taliadau uniongyrchol ac o dan ba amgylchiadau y telir hwy. Nid yw hyn yn ystyried mai pobl anabl, yn hytrach na Gweinidogion, ddylai fod yn gwneud y penderfyniad hwn.

In recognising the link between research and innovation and outcomes in health and social care, we must also tackle head on the historic division between the public sector and independent providers in the voluntary and private sectors. Missed opportunities for innovation in the care sector are vast. Throughout Wales, the independent sector provides the great majority of care through independent hospitals, care homes with nursing, care homes and supported living. To alienate this resource and all that it can and should contribute towards innovation is a waste of an opportunity that would cost the taxpayer nothing. Independent sector providers are more than willing to make a contribution and should be pressed to do so, protecting universal, taxpayer-funded health and social care services, putting outcomes before processes and maximising the opportunity available for public sector investment.

Wrth gydnabod y cysylltiad rhwng gwaith ymchwil ac arloesedd a chanlyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, rhaid inni hefyd fynd i’r afael yn uniongyrchol â’r rhaniad hanesyddol rhwng y sector cyhoeddus a darparwyr annibynnol yn y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae nifer fawr o gyfleoedd i arloesi yn y sector gofal wedi cael eu colli. Ledled Cymru, y sector annibynnol sy’n darparu’r rhan fwyaf o’r gofal drwy ysbytai annibynnol, cartrefi gofal sy’n cynnig gwasanaeth nyrsio, cartrefi gofal, a byw â chymorth. Mae anwybyddu’r adnodd hwn a phopeth y gall ac y dylai ei gyfrannu at arloesedd yn gwastraffu cyfle a fyddai’n costio dim i’r trethdalwr. Mae darparwyr yn y sector annibynnol yn fwy na pharod i wneud cyfraniad a dylid pwyso arnynt i wneud hynny, gan ddiogelu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol a ariennir gan drethdalwyr, rhoi canlyniadau o flaen prosesau a gwneud y gorau o’r cyfle sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad gan y sector cyhoeddus.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwyf hefyd yn falch bod y ddadl hon yn cael ei gynnal heddiw. Mae'n hen bryd inni gael dadl ar fater mor bwysig. Rwyf yn derbyn bod y ddadl wedi ei chyfyngu i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond rwy'n siŵr y byddai nifer ohonom yn croesawu dadl fwy cyffredinol ar ymchwil, datblygu ac arloesedd maes o law.

**Ieuan Wyn Jones:** I am also pleased that this debate is being held today. It is high time that we had a debate on such an important matter. I accept that the debate has been limited to the field of health and social services, but I am sure that many of us would welcome a more general debate on research, development and innovation in due course.

Yn naturiol ddigon, mae'r Gweinidog a'r rhan fwyaf o'r Aelodau wedi canolbwyntio ar ymchwil ac arloesedd yn ymwneud â thriniaethau newydd, sy'n hynod o bwysig. Fodd bynnag, mae ochr arall i'r geiniog, sef ymchwil ac arloesedd o ran newid y ffordd mae pobl yn cydweithio yn y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, a fyddai'n ein galluogi i dynnu pwysau oddi ar rai sectorau o'r gwasanaeth iechyd, megis ysbytai, a gwneud llawer mwy o waith yn y gymuned, fel y byddai llawer o gleifion yn ei groesawu. Felly, yn wyneb y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, nid yn unig o ran ariannu'r gwasanaethau ond hefyd o ran disgwyliadau cleifion a'u teuluoedd, rwyf am bwysleisio'r angen i gael ymchwil a fydd o ddefnydd i wneuthurwyr polisi cyhoeddus. Er bod cymaint o feysydd y gallwn gyfeirio atynt o ran edrych ar ffyrdd gwahanol o gydweithio, mae diffyg amser yn golygu mai dim ond crafu'r wyneb y medrwn ei wneud mewn gwirionedd yn y ddadl hon.

Naturally enough, the Minister and the majority of Members have concentrated on research and innovation in relation to new treatment, which is very important. However, the other side of the coin is research and innovation to change the way in which people co-operate in the health service and social services, which would enable us to take the pressure off some sectors of the health service, such as hospitals, and to do much more work in the community, which many patients would welcome. Therefore, in the face of increasing pressure on the health service and social services, not only in terms of funding services, but in terms of the expectations of patients and their families, I would like to emphasise the need for research that will be useful to public policy makers. Although there are many fields that we could refer to in terms of looking at different ways of working together, the lack of time means that we can only scratch the surface in this debate.

Yn dilyn y cwestiwn a ofynnais i'r Prif Weinidog yn gynharach heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng sectorau gwahanol y gwasanaeth iechyd, a rhwng y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen ac mae modd arloesi mewn dulliau o gydweithio, ac mae angen gwaith ymchwil manwl yn y maes hwn.

Following on from the question that I asked of the First Minister earlier today, I would like to concentrate on the need to strengthen the relationship between different sectors in the health service, and between the health service and social services. There is a need and a way to innovate in methods of collaboration, and detailed research work needs to be done in this field.

Fel y clywsom gan sawl Aelod, rydym yn ymwybodol bod llawer o bwyslais bellach ar ofal yn y cartref i'r henoed fel sail i ofal yn y gymuned. Pan gyflwynwyd y syniad o ofal cymunedol fel cyfrifoldeb statudol ddiwedd yr 1980au, roedd y pwyslais ar leihau'r pwysau ar ysbytai. Cyn hynny, roedd yn bosibl i ofal i'r henoed ddigwydd mewn wardiau mewn ysbytai. Yn wir, gallai cleifion fod yno am wythnosau neu fisoedd lawer, ac, mewn rhai achosion, am flynyddoedd. Y

As we have heard from several Members, we know that there is now a great deal of emphasis on homecare for the elderly as a basis for care in the community. When the idea of care in the community was introduced as a statutory duty at the end of the 1980s, the emphasis was on reducing the pressure on hospitals. Before that, it was possible for care for the elderly to be provided in hospital wards. Indeed, patients could be there for many weeks or months, and, in some cases,

bwriad oedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb, i'r graddau a oedd yn bosibl, o'r ysbyty i'r gymuned, o fod yn gyfrifoldeb i'r gwasanaeth iechyd i fod yn gyfrifoldeb i wasanaethau cymdeithasol. Ddiwedd yr 1980au, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i gartrefi preswyl a chartrefi nyrsio ochr yn ochr â gofal yn y cartref. Erbyn hyn, mae'r pwyslais wedi symud yn fwy penodol tuag at ofal yn y cartref, sydd yn golygu bod nifer o gartrefi preswyl a nyrsio yn cau, yn union fel y caewyd nifer o ysbytai mewn cyfnod blaenorol, yn enwedig ym maes iechyd meddwl.

for years. The aim was to transfer the responsibility, as much as possible, from the hospital to the community, from being the responsibility of the health service to being that of social services. At the end of the 1980s, the responsibility was transferred to residential homes and nursing homes alongside homecare. By now, the emphasis has moved more specifically towards homecare, which means that several residential and nursing homes are closing, in the same way that many hospita6ls were closed previously, particularly in the field of mental health.

Mae nifer o ddatblygiadau i'w croesawu, yn arbennig y nifer cynyddol o henoed sy'n gallu aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Fodd bynnag, gyda gwell cydweithio rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd, a rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, gallwn wella hyd yn oed yn fwy.

There are a number of developments to be welcomed, particularly the increasing number of elderly people who can remain at home for longer. However, with better collaboration between various aspects of the health service, and between the health service and social services, we can improve things even more.

Mae 45% o gleifion yn mynd i'r ysbyty o ganlyniad i achos brys, ac mae bron hanner yr achosion hynny naill ai'n blant o dan bump oed neu'n bobl dros 75 oed. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod nifer yr achosion brys yn uwch mewn cymunedau difreintiedig. Mae'r ffigurau ar achosion sy'n arwain at fynd i'r ysbyty yn dangos yn glir bod pedwar neu bump o gyflyrau meddygol y medrwn eu rhagweld. Gyda mwy o gydweithio rhwng gofalwyr a swyddogion meddygol proffesiynol, medrwn leihau nifer yr achosion brys, er enghraifft, drwy wella cynlluniau hybu iechyd, mwy o frechiadau a chynnal asesiadau codwm ar henoed bregus, ac yn y blaen.

Some 45% of patients are admitted to hospital as a result of an emergency, and almost half of those cases are either children under the age of five or people aged over 75. The figures also show that the number of emergency cases is higher in deprived communities. The figures on cases that lead to hospital admission show clearly that there are four or five medical conditions that could be foreseen. With more collaboration between carers and medical professionals, we could reduce the number of emergency cases by, for example, improving health promotion schemes, performing more vaccinations and undertaking fall risk assessments of the vulnerable elderly, and so on.

O ran sut gallwn dynnu pwysau oddi ar ysbytai, mae eisoes nifer o gynlluniau lleol neu ranbarthol ar waith, megis rhaglen gofal i bobl fregus yng Ngwent sy'n cael ei chyllido gan y Llywodraeth, bwrdd iechyd Aneurin Bevan a'r awdurdodau lleol. Mae hefyd gynlluniau peilot yn Lloegr. Mae angen bod yn ofalus wrth edrych ar y rheini oherwydd y trefniadau llywodraethu, ond mae pethau y gallwn ddysgu oddi wrthynt. Gan fod cyfrifoldeb gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru bellach am wasanaethau meddygon teulu, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau eilaidd neu aciwt, mae modd i

In terms of how pressure can be taken off hospitals, there are already many local or regional schemes, such as the Gwent frailty project that is funded by the Government, the Aneurin Bevan health board and the local authorities. There are also pilot schemes in England. We need to be careful in looking at those because of the governance arrangements, but there are lessons that we can learn from them. Given that local health boards in Wales are now responsible for GP services, community services and secondary or acute services, we can bring all of those together.

ni dynnu'r cyfan at ei gilydd.

Mae problemau llywodraethu o edrych ar gydweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans a gwasanaethau cymdeithasol, gan fod un yn atebol i'r ymddiriedolaeth a'r llall i'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, byddai'r cyfle i gael cydweithio go iawn ac i edrych ar gynlluniau llywodraethu o help i ni. Felly, rwyf yn croesawu'r drafodaeth ac yn gobeithio y cawn gyfle i symud ymlaen yn y dyfodol agos.

There are problems in terms of governance when looking at collaboration with the ambulance service and social services, one of which is accountable to the trust and the other to local authorities. However, the opportunity to have true collaboration and to look at governance schemes would be of assistance to us. Therefore, I welcome the debate and hope that we will have an opportunity to move forward in the near future.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** The motion tabled today proposes that research and innovation in health and social care are fundamental to the health, wellbeing and wealth of people in Wales. We have discussed how research and innovation are keys to the continuing development of health and social care in Wales. They contribute to improvements in care now and in future. They help to recruit and retain the best staff and they contribute to the economy as well as to the health and wellbeing of the population. I am very grateful to colleagues for their interest in the motion, their recognition of the excellent work undertaken by many of our research centres and for the amendments tabled by William Graham and Peter Black.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae'r cynnig a gyflwynwyd heddiw yn cynnig bod gwaith ymchwil ac arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru. Rydym wedi trafod sut y mae gwaith ymchwil ac arloesedd yn allweddol i ddatblygiad parhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Maent yn cyfrannu at welliannau mewn gofal yn awr ac yn y dyfodol. Maent yn helpu i recriwtio a chadw'r staff gorau ac maent yn cyfrannu at yr economi yn ogystal ag at iechyd a lles y boblogaeth. Rwyf yn ddiolchgar i'm cydweithwyr am eu diddordeb yn y cynnig ac am eu cydnabyddiaeth o'r gwaith ardderchog a wneir gan nifer o'n canolfannau ymchwil, ac am y gwelliannau a gyflwynwyd gan William Graham a Peter Black

Turning to the amendments, we will be opposing amendment 1. Darren Millar makes his usual comment, but, despite cuts to the Welsh Government's budget by the UK Government, we are maintaining investment in health and social services in cash terms, with 43%, the largest single proportion, of our overall budget being invested in health and social services.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1. Gwnaeth Darren Millar ei sylwadau arferol, ond, er gwaethaf toriadau gan Lywodraeth y DU i gyllideb Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnal buddsoddiad mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn nhermau arian parod, gyda 43%, y gyfran unigol fwyaf, o'n cyllideb gyffredinol yn cael ei fuddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Darren Millar:** Will you take an intervention?

**Darren Millar:** A wnewch chi gymryd ymyriad?

**Lesley Griffiths:** No. The budget for research in health and social care has been increased significantly in recent years. Considerable Welsh successes in research and innovation are a cause for optimism, not regret. We will support amendment 2. NISCHR is already doing this by investing in

**Lesley Griffiths:** Na. Mae'r gyllideb ar gyfer gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r llwyddiannau sylweddol yng Nghymru ym maes ymchwil ac arloesedd yn rheswm dros fod yn optimistaidd, ac nid i ofidio. Byddwn yn

a number of centres of excellence across Wales. These include the biomedical research centre in Cardiff and the biomedical research unit in Bangor, the medical research council centre and the public health improvement research network. Further investment from across the Government is proposed through 'Science for Wales'. Julie Morgan reminded us all that we already have many of the best minds and researchers right here in Wales.

cefnogi gwelliant 2. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eisoes yn gwneud hyn drwy fuddsoddi mewn nifer o ganolfannau rhagoriaeth ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y ganolfan ymchwil biofeddygol yng Nghaerdydd a'r uned ymchwil biofeddygol ym Mangor, canolfan y cyngor ymchwil meddygol a rhwydwaith ymchwil gwella iechyd y cyhoedd. Mae bwriad i fuddsoddi ymhellach gan bob rhan o'r Llywodraeth drwy'r agenda 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Atgoffodd Julie Morgan ni i gyd fod gennym eisoes nifer o'r bobl â'r meddyliau gorau a'r ymchwilwyr gorau yma yng Nghymru.

We will support amendment 3. As I said in my opening remarks, the role of the higher education sector, working in partnership with the NHS, social care and industry, is central to our approach, and that is emphasised in 'Science for Wales'. We will support amendment 4. I just wish to make a comment on something that Julie Morgan and Kirsty Williams both referred to. I am not aware that a business case has been developed for image-guided radiation therapy or stereotactic ablative radiotherapy. Julie Morgan mentioned preliminary discussions. The only thing that Velindre has submitted a business case for recently is a new replacement linear accelerator. There is an ongoing accelerator replacement programme for all centres in Wales, not just Velindre, but also Singleton and Ysbyty Glan Clwyd.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 3. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, mae rôl y sector addysg uwch, gan weithio mewn partneriaeth â'r GIG, gofal cymdeithasol a diwydiant, yn ganolog i'n dull o weithredu, ac mae hynny'n cael ei bwysleisio yn 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Byddwn yn cefnogi gwelliant 4. Hoffwn wneud sylw ar rywbeth y cyfeiriodd Julie Morgan a Kirsty Williams ato. Nid wyf yn ymwybodol bod achos busnes wedi cael ei ddatblygu ar gyfer therapi ymbelydredd sy'n defnyddio delweddau na radiotherapi stereotactig abladol. Soniodd Julie Morgan am drafodaethau rhagarweiniol. Yr unig beth y mae Felindre wedi cyflwyno achos busnes yn ei gylch yn ddiweddar yw dyfais gyflymu linellol newydd. Mae rhaglen barhaus ar waith i gael dyfeisiau cyflymu newydd ym mhob canolfan yng Nghymru, nid yn unig yn Felindre, ond hefyd yn Singleton ac Ysbyty Glan Clwyd.

Kirsty Williams mentioned research being an important part of our medical recruitment campaign. I am sure that the First Minister would agree that, as we know from talking to clinicians last week in Morriston Hospital when we launched the campaign, the ability to come here and be innovative is one of the reasons many of them cited for coming to Wales in the first place. It is one of the reasons why we were promoting that during the campaign.

Soniodd Kirsty Williams fod gwaith ymchwil yn rhan bwysig o'n hymgyrch recriwtio feddygol. Rwyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno, fel y gwyddom o siarad â chlinigwyr yn Ysbyty Treforys yr wythnos diwethaf pan lansiwyd yr ymgyrch, fod y gallu i ddod yma a bod yn arloesol yn un o'r rhesymau y nododd nifer ohonynt pam y daethant i Gymru yn y lle cyntaf. Mae'n un o'r rhesymau pam ein bod yn hyrwyddo hynny yn ystod yr ymgyrch.

Elin Jones made a very important point about NHS informatics. This is something I have been going on about since I was appointed

Gwnaeth Elin Jones bwynt pwysig iawn am wybodeg y GIG. Mae hyn yn rhywbeth y bûm yn ei grybwyll ers imi gael fy

Minister for health. It is so important, and I was very pleased to open phase 2 of the NHS Wales informatics research laboratory in Swansea University last week. Jenny Rathbone mentioned BlackBerrys. One thing that is being considered in Swansea is doctors using iPads as they go about their rounds. Leighton Andrews is smiling at me, but you will now see doctors with iPads at the bottom of your bed. That is one way to take the NHS forward.

mhenodi’n Weinidog dros iechyd. Mae mor bwysig, ac roeddwn yn falch iawn o agor rhan 2 o labordy ymchwil hysbyseg GIG Cymru ym Mhrifysgol Abertawe yr wythnos diwethaf. Soniodd Jenny Rathbone am declynnau BlackBerry. Un peth sy’n cael ei ystyried yn Abertawe yw bod meddygon yn defnyddio dyfeisiau iPad wrth ymweld â chleifion ar y wardiau. Mae Leighton Andrews yn gwenu arnaf, ond byddwch yn gweld meddygon ger gwaelod eich gwely yn defnyddio dyfeisiau iPad yn awr. Dyna un ffordd o symud y GIG yn ei flaen.

Julie Morgan mentioned cancer research units in Cardiff coming together. Obviously, we welcome any collaboration, and I know that some units are already talking about this. You also mentioned cancer tissue retrieval, which is work undertaken by the Wales cancer bank. It collects tissues for various common cancers. NISCHR already supports the Wales cancer bank and plans to continue doing so. I recognise that cancer research is one of the key areas for investment. As part of our bio-informatics strategy we are looking at the consent issues around that and we will continue to do so.

Soniodd Julie Morgan am unedau ymchwil canser yng Nghaerdydd yn dod at ei gilydd. Yn amlwg, rydym yn croesawu unrhyw gydweithio, a gwn fod rhai unedau eisoes yn siarad am hyn. Soniasoch hefyd am adfer meinwe canser, sef gwaith sy’n cael ei wneud gan fanc canser Cymru. Mae’n casglu meinweoedd ar gyfer canserau cyffredin amrywiol. Mae’r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eisoes yn cefnogi banc canser Cymru ac yn bwriadu parhau i wneud hynny. Rwyf yn cydnabod bod ymchwil canser yn un o’r meysydd buddsoddi allweddol. Fel rhan o’n strategaeth bio-wybodeg, rydym yn edrych ar y materion caniatâd sy’n gysylltiedig â hynny a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Ieuan Wyn Jones mentioned strengthening the links between health and social care research and innovation. You are quite right that, as more people need care in the home, we will need more research into assisted living. Again, that is something I referred to in my opening remarks. Most Members, if not everyone, spoke about the importance of money being spent on research and innovation. The NHS, its medicines and the services in social care that we have now are the result of yesterday’s research and innovation and it is vital that we continue these activities so that we can provide a sustained and effective system to continually improve care for the people of Wales.

Cyfeiriodd Ieuan Wyn Jones at gryfhau’r cysylltiadau rhwng gwaith ymchwil ac arloesedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydych yn llygad eich lle y bydd angen mwy o waith ymchwil ar fyw â chymorth, wrth i fwy o bobl fod ag angen gofal yn y cartref. Unwaith eto, mae hynny’n rhywbeth y cyfeiriais ato yn fy sylwadau agoriadol. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o Aelodau, os nad pob un ohonynt, at bwysigrwydd gwario arian ar waith ymchwil ac arloesedd. Mae’r GIG, ei feddyginiaethau a’r gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol sydd gennym yn awr ar gael o ganlyniad i waith ymchwil ac arloesedd y gorffennol ac mae’n hanfodol ein bod yn parhau â’r gweithgareddau hyn fel y gallwn ddarparu system gyson ac effeithiol er mwyn gwella gofal i bobl Cymru yn barhaus.

5.45 p.m.

Evidence shows that patients can benefit simply by being in an active research

Mae’r dystiolaeth yn dangos y gall cleifion gael budd yn syml o fod mewn amgylchedd

environment, which can help to attract, recruit and retain the staff that we have. I am sure that we all agree that investment in research and innovation in health and social care is, should be, and will continue to be a priority for the Welsh Government. That priority is strengthened by Science for Wales and is driven by the health and social care needs of people in Wales.

ymchwil, sy'n gallu helpu i ddenu, recriwtio a chadw'r staff sydd gennym. Rwy'n siŵr eich bod i gyd yn cytuno bod buddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad—dylai fod yn flaenoriaeth ac fe fydd yn parhau'n flaenoriaeth. Caiff y flaenoriaeth honno ei chryfhau gan strategaeth 'Gwyddoniaeth i Gymru' a'i hysgogi gan anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

**The Deputy Presiding Officer:** Before we proceed with the votes, do three Members wish for the bell to be rung? I see that no-one does, so we will move straight to voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn inni symud at y cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes; felly, byddwn yn symud yn syth at y cyfnod pleidleisio.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4966: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 36.*
*Amendment 1 to NDM4966: For 18, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4966: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 35.*
*Amendment 2 to NDM4966: For 18, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4966: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM4966: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4966: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4966: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4966: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 5 to NDM4966: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4966: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 6 to NDM4966: For 27, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick

| | |
|---|---|
| Burns, Angela | Chapman, Christine |
| Davies, Andrew R.T. | Cuthbert, Jeff |
| Davies, Byron | Davies, Alun |
| Davies, Jocelyn | Davies, Keith |
| Davies, Paul | Drakeford, Mark |
| Davies, Suzy | Evans, Rebecca |
| Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord | Gething, Vaughan |
| Finch-Saunders, Janet | Gregory, Janice |
| George, Russell | Griffiths, John |
| Graham, William | Griffiths, Lesley |
| Gruffydd, Llyr Huws | Hart, Edwina |
| Isherwood, Mark | Hedges, Mike |
| Jones, Alun Ffred | Hutt, Jane |
| Jones, Elin | James, Julie |
| Jones, Ieuan Wyn | Jones, Ann |
| Millar, Darren | Jones, Carwyn |
| Parrott, Eluned | Lewis, Huw |
| Powell, William | Morgan, Julie |
| Ramsay, Nick | Price, Gwyn R. |
| Roberts, Aled | Rathbone, Jenny |
| Sandbach, Antoinette | Rees, David |
| Thomas, Rhodri Glyn | Sargeant, Carl |
| Thomas, Simon | Skates, Kenneth |
| Williams, Kirsty | Thomas, Gwenda |
| Wood, Leanne | Watson, Joyce |

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii)*
*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii)*

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4966 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:*

*a) ddatblygu'i weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer bwyd yng Nghymru;*

*b) adolygu ac adnewyddu'r strategaeth fwyd bresennol;*

*c) cefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd drwy ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd o Gymru, a chryfhau cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi;*

*2. Yn dathlu bod gan gynnyrch o Gymru enw da o'r radd flaenaf ac yn annog siopwyr i werthu rhagor o fwyd o Gymru;*

*3. Yn croesawu'r cyfraniad pwysig cynyddol a wneir gan fwyd o Gymru i'r sector*

Motion NDM4966 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. notes the Welsh Government's commitment to:*

*a) develop its ambitious vision for food in Wales;*

*b) review and refresh the existing food strategy; and*

*c) support the food production industry by developing, promoting and marketing Welsh food, and strengthening supply chain linkages;*

*2. Celebrates the world leading reputation of Welsh produce and encourages retailers to sell more food sourced from Wales;*

*3. Welcomes the increasingly important contribution made by Welsh food to the*

*twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig drwy feithrin 'naws am le';*

*sustainable tourism sector, especially through fostering 'a sense of place';*

*4. Yn nodi pwysigrwydd bwyd yn eu tymor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog defnyddwyr i brynu rhagor o gynnyrch yn eu tymor er mwyn hybu bwyd o Gymru a gwella cynaliadwyedd.*

*4. Notes the importance of seasonality and calls on the Welsh government to encourage consumers to buy more produce in season in order to promote Welsh food and improve sustainability.*

*Cynnig NDM4966 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM4966 as amended: For 41, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd cynnig NDM4966 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4966 as amended agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4967: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Amendment 1 to NDM4967: For 13, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4967: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4967: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith

Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4967: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM4967: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy

Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4967: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4967: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord

Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4967 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn cydnabod bod ymchwil ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru.*

*Yn galw am fuddsoddiad ychwanegol mewn canolfannau ymchwil yng Nghymru er mwyn denu'r deallusion gorau o bedwar ban byd a chynyddu'r potensial am gydweithio gwerth uchel gyda phartneriaid diwydiannol.*

*Yn cydnabod rôl y Sector Addysg Uwch o ran darparu ymchwil o'r radd flaenaf sydd â'r potensial i ddarparu atebion arloesol ar gyfer heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng*

Motion NDM4967 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Recognises that research and innovation in health and social care are fundamental to the health, well-being and wealth of people in Wales.*

*Calls for additional investment in research centres in Wales to attract the best minds from around the world and increase the potential for high value collaboration with industrial partners.*

*Recognises the role of the Higher Education Sector in providing world class research which has the potential to provide innovative solutions for health and social care*

*Nghymru.*

*Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiadau arloesol i ddigwydd yn y gwasanaeth iechyd yn Felindre, fel therapi ymbelydredd a arweinir gan ddelweddau a radiotherapi abladol stereotactig.*

*challenges in Wales.*

*Believes that the Welsh Government should support innovative developments in the health service, such as image-guided radiation therapy and stereotactic ablative radiotherapy, to take place at Velindre.*

*Cynnig NDM4967 fel y'i diwygiwyd: O blaid 54, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4967 as amended: For 54, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn

Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM4967 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4967 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 p.m.*
*The meeting ended at 5.50 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Dixon, John (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)

Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)